Esboniad ar Ddeuddeg Ioan

Cyf. II.

gan y

Parch. R. Lloyd Jones


FIDE ET VIRTUTE
CANCELLED
W. E. Gladstone
St. Deiniol's Library
Hawarden, Clwyd
Founded by
The Rt. Hon. W. E. Gladstone

B 49/113

ST. DEINIOLS
HAWARDEN
LIBRARY

Digitized by the Internet Archive
in 2026

https://archive.org/details/esboniadarefengy0000parc_n7i8

CANCELLED
ST. DEINIOL'S HAWARDEN LIBRARY

ESBONIAD

AR

EFENGYL IOAN

GAN Y

PARCH. R. LLOYD JONES

CYF. II.

BANGOR
CYHOEDDEDIG YN Y LLYFRFA GAN P. JONES-ROBERTS
1912

BANGOR :
EVAN THOMAS, ARGRAFFYDD.

RHAGAIR.

NID oes gennyf nemawr i ddim i'w ychwanegu at y Rhagair a ysgrifennais i'r Gyfrol gyntaf. Dymunaf eto gydnabod fy nyled, gyda theimlad diolchgar, i'r Esbonwyr fuont yn gymorth imi ddeall yr Efengyl gyfoethog hon yn well. Cefais Gyfieithiad Dr. W. Edwards, Caerdydd, o wasanaeth mawr imi wrth baratoi y Gyfrol hon. Aethum ymlaen ar hyd yr un llinellau, a'r un amcan mewn golwg wrth gyfansoddi y Gyfrol hon, a'r gyntaf.

Teimlaf yn ddiolchgar i'r Hwn a arbedodd fy mywyd ac a estynodd imi nerth ac iechyd i orphen y gwaith.

Dymunaf gydnabod y cymorth gwerthfawr a charedig a roddodd fy nghydlafurwr, y Parch. W. Morris Jones, B.A., Bagillt, i gywiro y prawfleni.

Hyderaf y bydd y Gyfrol hon mor wasanaethgar i aelodau yr Ysgol Sabbothol, ac eraill, a'r gyntaf.

R. LLOYD JONES.

24, *Halkyn Road, Caer,*
Mawrth, 1912.

TALFYRIADAU.

W.E.—Dr. W. Edwards, Caerdydd, Cyfieithiad Newydd o'r Testament Newydd, gyda Nodiadau.

W.—Dr. Weymouth, "*New Testament in Modern English.*"

B.—Cyfieithiad Dr. Briscoe.

M. a M.—"*Commentary on St. John*," by Dr. W. Milligan and Dr. W. F Moulton.

O.W.—"Testament yr Efrydydd," gan y Parch. Owen Williams.

E.B.—"Esboniad y Bobl: Ioan," gan Dr. O. Davies a Dr. H. C. Williams, Corwen.

C.S.D.—Cyf. Seisnig Diwygiedig.

T.Y.S.—"Testament yr Ysgol Sabbothol," gan amryw o Weinidogion y Methodistiaid Calfinaidd.

BRASLINELLIAD O GYNWYS
PENNODAU X.—XXI.

YR IESU YN CERYDDU Y PHARISEAID TRWY Y DDWY ALEGORI AM Y BUGAIL DA A'R GWIR GORLAN, x. 1—21.

Y GYSEGR-WYL : Yr Iuddewon yn ceisio llabyddio yr Iesu oblegid iddo hawlio bod yn un â'r Tad (22—39). Yr Iesu yn ymneillduo tu hwnt i'r Iorddonen, lle y mae llawer yn credu ynddo Ef (40—42).

ADGYFODIAD LAZARUS : Y seithfed a'r olaf o'r Gwyrthiau a gofnodir yn yr Efengyl hon (xi.). Rhagarweiniad i'r Wyrth (1—16). Amgylchiadau y Wyrth (17—32). Cyflawniad y Wyrth (33—44). Canlyniadau y Wyrth (45—57).

CROESAW I'R IESU YN BETHANIA, xii. 1—11. Ei fynediad gorfoleddol i Jerusalem (12—19). Ymchwiliad y Groegiaid—Anerchiad cyhoeddus olaf y Gwaredwr am fywyd a goleuni (20—36). Eglurhad ar annghrediniaeth yr Iuddewon (37—43). Crynhoad o ddysgeidiaeth yr Iesu (44—50).

GOLCHI TRAED Y DISGYBLION, A'I WERSI, xiii. 1—20. Y bradychiad yn cael ei ragfynegu. Gwrthgiliad Judas (21—30). Gogoneddu Mab y Dyn, a dyledswydd a phrofedigaethau ei ganlynwyr (31—38).

EI FYNEDIAD AT Y TAD: Eglurhad mewn atebiad i Thomas a Philip, xiv. 1—11. Elfenau eraill o gysur, yn cynwys atebiad i Judas (nid yr Iscariot) (12—24). Addysg dyfodol gan yr Yspryd Glan —Cymunrodd o dangnefedd—Tywysog y byd hwn (25—31).

Y WIR WINWYDDEN : Undeb Crist a'i Ddisgyblion, xv. 1—8. Cariad yn rhwymyn undeb rhwng y Disgyblion a'r Iesu, ac hefyd rhyngddynt â'u gilydd (9—17). Casineb y byd tuag at yr Iesu a'i Ddisgyblion (18—25).

BUDDUGOLIAETH I'W CHAEL TRWY YSPRYD Y GWIRIONEDD, xv. 26—xvi. 15. Tristwch i gael ei droi yn llawenydd (16—24). Anhawsderau yn cael eu hegluro—Y rhybudd a'r addewid ddiweddaf (25—33).

Y Weddi Archoffeiriadol, xvii. Yr Iesu yn gweddïo am ei ogoneddiad (1—5). Gweddi dros ei Ddisgyblion (6—19). Dros yr Eglwys (20—24). Crynhoad o'r Weddi (25—26).

Gogoneddu yr Iesu yn ei Farwolaeth, ac yn ei Adgyfodiad, xviii. —xx. xviii.—xix. Dal yr Iesu, ei brawf, a'i groeshoeliad. xviii., 1—11.—Ei fradychu a'i ddal. Y prawf Iuddewig neu Eglwysig (12—27). Y Prawf Rhufeinig neu wladol (28). xix., 6—Tu fewn i'r Pretorium (xix. 1—3). Tuallan i'r Pretorium, (4—7). Tu fewn i'r Pretorium (8—11). Tuallan i'r Pretorium (12—16).

Y Croeshoeliad a'r Amgylchiadau cysylltiol ag ef, xix. 17—42. Y Croeshoeliad (17—22). Dau gynulliad wrth y Groes (23—27). Y geiriau olaf oddiar y Groes, wedi eu cofnodi yn yr Efengyl hon yn unig (28—30). Cyflawni dwy brophwydoliaeth (31—37). Claddedigaeth yr Iesu (38—42).

Ei Adgyfodiad yn fyw o'r Bedd: Y ffaith o'i Adgyfodiad yn cario argyhoeddiad i feddwl Ioan pan yn nghwmni Pedr (xx 1—10). Yr Iesu yn ymddangos i Mair Magdalen (11—18). Yr Iesu yn amlygu ei hun i'w Ddisgyblion yn absenoldeb Thomas (19—25). Gorchfygu anghrediniaeth Thomas trwy amlygiad o eiddo yr Iesu drachefn iddo ef, a'i gyd-ddisgyblion (24—30). Amcan terfynol yr Efengyl (29, 30).

Yr Attodiad: Pennod XXI.

Yr Iesu yn amlygu ei hun i'w Ddisgyblion wrth fôr Galilea—Y ddalfa fawr o bysgod (1—14). Cyffes a swydd Pedr (15—17). Dyfodol Pedr ac Ioan (18—23). Tystiolaeth y Disgybl Anwyl a'r Eglwys (24—25).

EFENGYL IOAN.

PENNOD X.

YN wir, yn wir, meddaf i chwi, Yr hwn nid yw yn myned i mewn trwy y drws i gorlan y defaid, eithr sydd yn dringo ffordd arall, lleidr ac yspeiliwr yw. 2.

1—21. Yr Iesu yn ceryddu y Phariseaid, trwy y ddwy Alegori am y Bugail Da, a'r Gwir Braidd.

Adn. 1. **Yn wir, yn wir meddaf i chwi.** Cyttunir yn bur gyffredinol yn mhlith Esbonwyr mai parhad sydd yma o annerchiad Crist wrth y Phariseaid, a ddechreuwyd yn y 39 adn. o'r bennod flaenorol. Nid oes yr un annerchiad newydd byth yn cael ei ddechreu gan yr Iesu gyda'r geiriau, "Yn wir, yn wir, meddaf i chwi." Ond arwyddant bob amser barhad o annerchiad blaenorol. Ac felly parhau i annerch y Phariseaid yn fwyaf arbenig y crybwyllir amdanynt yn y bennod (ix. 40) y mae y Gwaredwr yma. **Yr hwn nid yw yn myned i mewn trwy y drws i gorlan y defaid, &c.** Defnyddir yma y ffurf o Alegori i gyfleu y cerydd i'r Phariseaid. Ac wrth Alegori y deallir cydmariaeth barhaol, neu gyfres o gydmariaethau: neu, yn fwy priodol, ni chedwir yr hyn a gydmerir ar wahan i'r hyn y cydmerir ef iddo, o ran eu hansoddau a'u priodoleddau, fel y gwneir mewn dammeg, ond y mae y naill yn ymgolli yn y llall. Yn lle dyweyd "cyffelyb wyf i ddrws," dywed yr Iesu mai efe yw y drws. Corlan y defaid yma yw yr Eglwys Iuddewig, ac yr oedd y Phariseaid yn honni mai hwy oedd Bugeiliaid y gorlan hono, gyda hawl i dderbyn i mewn neu i fwrw allan ohoni, fel y gwelent yn dda. Eithr gwada yr Iesu eu hawl i honni y fath swyddogaeth, am nad aethant i mewn iddi yn rheolaidd a chyfreithlon. Nid aethant i mewn iddi *trwy y drws*. Nid oeddynt wedi eu penodi gan yr unig un oedd yn meddu hawl i wneuthur y fath benodiad. Nid oes eisiau ymholi yn rhy fanwl yn mha ystyr y mae'r Iesu yn ddrws. Digon i'w deall fod Crist yn edrych arno ei hun fel cyfrwng holl ymwneyd Duw a dynion, o dan bob goruchwyliaeth. Trwyddo ef yr oedd Duw yn galw ac yn penodi dynion i wahanol swyddau yn ei Eglwys. A chan nad oedd y Phariseaid wedi eu galw i'r swydd yr honnent hawl iddi gan Dduw trwy ei Fab, lladron ac yspeilwyr oeddynt, heb fyned i mewn trwy y drws, ond wedi dringo ffordd arall, ac felly nid oeddynt yn wir fugeiliaid. Yr oedd eu hymddygiadau tuag at yr hwn a anesid yn ddall yn y bennod flaenorol yn cadarnhau hyny. Ni ymddygasant tuag ato fel gwir fugeiliaid trwy ei hyfforddi a gofalu amdano; ond yn hytrach dangosasant ddiffyg gofal amdano, a chreulondeb tuag ato, fel trawsymwthwyr a "gweision cyflog." Ac amcan yr hyn a ddywedir yma gan Grist yw cysuro y cardotyn a fwriesid allan o'r Synagog gan y Phariseaid, a'u dysgu hwythau mai Efe oedd gwir fugail praidd Duw: a chyferbyna ei hunanaberth er mwyn y praidd, gyda hunanolrwydd a rhaib y rhai a honnent awdurdod yn nheyrnas Dduw,

Ond yr hwn sydd yn myned i mewn trwy y drws, bugail y defaid ydyw. 3. I hwn y mae y drysor yn agoryd, ac y mae y defaid yn gwrandaw ar ei lais ef : ac y mae efe yn galw ei ddefaid ei hun erbyn eu henw, ac yn eu harwain hwy allan. 4. Ac wedi iddo yrru allan ei ddefaid ei hun, y mae efe yn myned o'u blaen hwy : a'r defaid sydd yn ei ganlyn ef, oblegid y maent yn adnabod ei lais ef 5. Ond y dïeithr nis canlynant, eithr fföant

---

Adn. 2. **Ond yr hwn sydd yn myned i mewn trwy y drws, bugail y defaid ydyw.** Neu, *y mae yn fugail y defaid* (C.S.D.) Nid yw yr Iesu yma wedi dechreu cyfeirio ato ei hun fel y gwir fugail. Drws ydyw eto, ac nid bugail. Yr is-fugeiliaid sydd ganddo mewn golwg yn awr. A'u perthynas â'r Iesu sydd yn penderfynu eu gwir nodwedd, pa un ai bugeiliaid ai ynte lladron ac yspeilwyr ydynt. Os wedi eu galw a'u hawdurdodi ganddo Ef, os wedi myned i mewn trwyddo Ef, y maent yn fugeiliaid y defaid. Trwy ddarllen Jer. xxiii. 1—6, Esec. xxxvi., a Zech. xi., gwelir fod yna sylfaen yn yr Hen Destament i'r alegori hon.

Adn. 3. **I hwn y mae y drysor yn agoryd.** *I'r hwn y mae y drws-geidwad yn agoryd* (W.E.). Yn ngwledydd y Dwyrain byddai y defaid oll yn cael eu casglu i mewn i gorlan dros y nos, rhag i fwystfilod gwyllion eu llarpio a'u lladd. A'r unig ffordd gyfreithlon i fyned i mewn i'r gorlan oedd trwy ddrws, ag y byddai y sawl oedd yn aros gyda'r defaid dros nos i'w gwylied yn gofalu amdano ; ac am hyny gelwid ef yn drysor, neu drysawr. Pan ddeuai y bugail yno yn y boreu i arwain y defaid allan o'r gorlan, ac i ofalu amdanynt yn ystod y dydd, agorid y drws iddo ef, a gollyngid ef i mewn gan y drws-geidwad. **Ac y mae y defaid yn gwrandaw ar ei lais ef, &c.** Gan y byddai yn y gorlan wahanol ddiadelloedd o ddefaid, byddai y defaid yn adnabod ac yn gwrando ar lais eu bugail eu hun, ac nid rhyw fugail dieithr iddynt. Ffynai rhyw anwyldeb neillduol rhwng y bugail a'i ddefaid yn y Dwyrain, ac yr oedd rhyw swyn yn ei lais ef iddynt. Yn wahanol i arferiad y Gorllewin, nid *gyrru* ei ddefaid o'i flaen y byddai efe, ond yn eu harwain, a hwythau yn ei ddilyn fel y gwelir y ci yn dilyn ei feistr. Ymddengys, hefyd, fod gan y bugail Dwyreiniol adnabyddiaeth fanwl o'i ddefaid ei hun. Rhoddai enw ar bob un ohonynt ; ac adnabyddai pob dafad ei henw ei hun, pan y gelwid arni, fel y gwneir gydag anifeiliaid dofion yn y wlad hon.

Adn. 4. **Ac wedi iddo yrru allan ei ddefaid ei hun, &c.** Gwell : *Ac wedi iddo droi allan yr oll o'i eiddo ei hun* (W.E.). " *When he has brought out his own sheep—all of them*" (W.). Cyfeithiad anhapus yw "*gyrru* allan ei ddefaid ei hun." Golyga hyny ei fod yn eu gorfodi i fyned allan, ac yn eu gwthio o'r tu ol, yr hyn sydd yn annghyson â'r adnod flaenorol, lle y dywedir mai *arwain* ei ddefaid allan y mae y bugail.

Adn. 5. **Ond y dieithr nis canlynant, &c.** Cadarnhelr yn y geiriau hyn yr hyn a ddywedir yn flaenorol am ymlyniad ffyddlon y defaid wrth eu

oddi wrtho: oblegid nad adwaenant lais dïeithriaid. 6. Y ddammeg hon a ddywedodd yr Iesu wrthynt: ond hwy ni wybuant pa bethau ydoedd y rhai yr oedd efe yn eu llefaru wrthynt. 7. Am hynny yr Iesu a ddywedodd wrthynt drachefn, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Myfi yw drws y defaid. 8. Cynnifer oll ag a ddaethant o'm blaen i, lladron ac yspeilwyr ŷnt: eithr ni wrandawodd y defaid arnynt. 9. Myfi yw y drws: os â neb i mewn

---

bugail eu hun, am eu bod yn adnabod ei lais ef. "Mae hanes i un bugail newid ei ddillad gyda dyn arall, i edrych a allasai hwnnw felly gael y defaid i'w ganlyn. Eithr methu a wnaeth. Aeth y praidd ar ol eu bugail, er heb ei ddillad arferol, am yr adwaenent ei lais ef."

Adn. 6. **Y ddammeg hon a ddywedodd yr Iesu wrthynt, &c.** Yr Alegori hon yw y cyfieithiad goreu. Nid oes yn yr Efengyl hon yr un ddammeg, yn ystyr briodol a manwl y gair, fel sydd yn yr Efengylau eraill. Eithr nid oedd y Phariseaid na'r disgyblion ychwaith, y mae'n debyg, yn deall yr hyn a fwriadai yr Iesu ei ddysgu iddynt trwy gyfrwng yr alegori hon.

Adn. 7. **Am hyny yr Iesu a ddywedodd wrthynt drachefn.** Am nad oeddent wedi deall ystyr ac amcan yr alegori, y mae'r Iesu yn dechreu ei hegluro iddynt. Ac yn yr eglurhad geilw yr Iesu sylw eto ei hun fel drws ac fel bugail. Nid oes eisiau manylu ar ranau eraill yr alegori, megis drysor, corlan. Nid ydynt ond defnyddiau angenrheidiol er ilanw yr alegori. **Myfi yw drws y defaid.** Sylwer ar y gwahaniaeth: drws i'r bugeiliaid i fyned trwyddo at eu praidd ydoedd yr Iesu yn bennaf yn yr adnodau blaenorol (1 a 2), ond yma drws y defaid ydyw. Mae y gair "Myfi" yn bwysleisiol yma. "Myfi" mewn gwrthgyferbyniad i bawb eraill. "Myfi," ac nid neb arall. Crist yw unig gyfrwng dyfodfa dynion i'r eglwys ysprydol ac anweledig, yr eglwys honno sydd yn gyfansoddedig o wir gredinwyr yn mhob oes a gwlad. Gellir myned yn aelod o eglwysi gweledig yn y byd hwn, heb fyned trwy Grist fel drws, ond nis gellir bod yn aelod o'r eglwys ysprydol ac anweledig ond trwyddo ef yn unig.

Adn. 8. **Cynnifer oll ag a ddaethant o'm blaen i, lladron ac yspeilwyr ydynt.** "*Pawb ag a ddaethant o'm blaen i*," *&c.* (W. E.). Nid cyfeiriad sydd yma at neb o arweinwyr yr Hen Oruchwylïaeth, megys Moses a'r Prophwydi, ond at rai yn honni bod yn yr un safle a'r Iesu fel drws y defaid, yr hyn ni wnaethant hwy. Cyfeiria yr Iesu yn ddiau at y Phariseaid, oeddynt yn tra arglwyddiaethu yn yr Eglwys Iuddewig, ac yn honni hawl ac awdurdod i dderbyn i mewn, neu gau allan, o'r Eglwys honno. Cafodd y cardotyn dall ei gau allan ganddynt am ei fod yn un o'r defaid oedd yn gwrthod gwrando arnynt ac ufuddhau iddynt (ix. 24—33). Desgrifir tra-arglwyddiaeth y Phariseaid yn Math. vii. 15. xxiii. 13, 14; Luc xi. 39, 49, 52.

Adn. 9. **Myfi yw y drws: os a neb i mewn trwof fi, efe a fydd cadwedig.** Ail-adroddiad o'r un syniad ag sydd yn adn. 7, ond fod y

trwof fi, efe a fydd cadwedig ; ac efe a â i mewn ac allan, ac a gaiff borfa. 10. Nid yw lleidr yn dyfod ond i ladratta, ac i ladd, ac i ddistrywio : myfi a ddeuthum fel y caent fywyd, ac y caent *ef* yn helaethach. 11. Myfi yw y bugail da. Y bugail da sydd yn rhoddi ei einioes dros

---

gair "defaid" wedi ei adael allan. Nid oes amheuaeth na roddai yr Iesu bwys arbenig arno ei hun fel yr *unig* ddrws. Amlwg yw mai nid drws i unrhyw eglwys weledig a olyga, canys nid oes yr un eglwys weledig ag y mae bod yn aelod ohoni yn sicrhau cadwedigaeth. Ond y mae Crist yn ddrws sydd yn gollwng i mewn i gymundeb, i gorlan, ag y mae bod i mewn ynddi yn sicrhau cadwedigaeth, "efe a fydd cadwedig." Nid oes ond yr Eglwys ysprydol ac anweledig, cyfansoddedig o wir gredinwyr, yn lle mor ddiogel a hyny. **Ac efe a a i mewn ac allan, ac a gaiff borfa.** Anhawdd penderfynu pwy sydd amlycaf yn y geiriau hyn, y bugail neu ynte y ddafad. Credwn fod y ddau yma, ond yn fwyaf arbenig y ddafad, neu y credadyn. Dynoda rhyw gymundeb agos a chyflawn rhwng Crist ag ef. Trwyddo Ef mwynha y credadyn ddiogelwch a gwaredigaeth, rhyddid i weithredu, a phorfa feunyddiol. (Cyd. Deut. xxviii. 6, Salm cxxi. 8, Jer. xxxvii. 4).

Adn. 10. **Nid yw lleidr yn dyfod ond i ladratta, ac i ladd, ac i ddistrywio.** Ar ol egluro ei hun fel drws, y mae'r Iesu yn eu paratoi i edrych arno ei hun mewn cymeriad gwahanol, sef fel Bugail da. Cyferbynia ei hun yma gyda'r gau-fugail, neu y lleidr, yr hwn a lywodraethir gan amcan hunanol, creulon, a dinystriol. Ceir desgrifiad o'r gau-fugeiliaid yn Jer. xxiii. 1, 2, Esec. xxxiv. 1—6, Zech. xi. 4, 5. Ac yr oedd ymddygiad y Phariseaid ag yr oedd yr Iesu yn ymddiddan â hwynt ar y pryd yn cyfateb iddynt. Penderfynasant yr esgymunent bawb a gyffesent mai yr Iesu oedd y Crist, gan eu bwrw allan, fel y gwnaethant â'r cardotyn dall. Beth oedd hyny ond lladd a distrywio un o ddefaid Duw? **Myfi a ddaethum fel y caent fywyd, ac y caent ef yn helaethach,** neu, "*ac y caent orlawnder*" (W.E.), "*and may have it in abundance*" (W.). Nid cydmariaeth sydd yma fel yr awgrymir yn y gair *helaethach* yn ol y cyfeithiad Cymraeg, ond helaethrwydd, mwy na digon, gwala a gweddill. Amcan dyfodiad yr Iesu i'r byd oedd nid lladd a dinystrio y defaid, ond rhoddi iddynt fywyd yn ei orlawnder. Dichon mai nid cyfeiriad sydd yma yn gymaint yn y gair "helaethrwydd" at y bywyd, ag at bob bendith a gras cysylltiedig â'r bywyd ysprydol.

Adn. 11. **Myfi yw y bugail da.** Geilw yr Iesu ei hun ar wahanol enwau—"drws," "bara y bywyd," "gwir winwydden," "adgyfodiad a'r bywyd." Ond o'r holl enwau dyma'r enw mwyaf tyner a swynol—**"Bugail da."** Bugail yn gofalu yn ffyddlon am y defaid, ac yn barod i'w hamddiffyn hyd yr eithaf, yw Efe, ac am hyny y mae yn fugail da. Tra y dywed yr Iesu, "Myfi yw y bugail da"; fe etyb y credadyn yn ol, gan ddywedyd, "Yr Arglwydd yw *fy* mugail, ni bydd eisiau arnaf." **Y bugail da sydd yn rhoddi ei einioes dros y defaid.** Dyma'r prawf cryfaf a mwyaf anwrthwynebol ei fod yn fugail da. Mae yn barod i amddiffyn ei ddefaid rhag niwaid a dinystr hyd yn oed ar draul colli ei

y defaid. 12. Eithr y gwas cyflog, a'r hwn nid yw fugail, yr hwn nid eiddo y defaid, sydd yn gweled y blaidd yn dyfod, ac yn gadael y defaid, ac yn ffoi; a'r blaidd sydd yn eu hysglyfio hwy, ac yn tarfu y defaid. 13. Y mae y gwas cyflog yn ffoi, oblegid mai gwas cyflog yw, ac nid oes ofal arno am y defaid. 14. Myfi yw y bugail

---

einioes ei hun. Ystyr y gair da (*Kalos*) yma yw *prydferth, hardd, atyniadol.* Ac felly yr oedd da yr Iesu yn torri allan yn ei weithredoedd a'i fywyd, nes eu prydferthu a'u harddu. "Dyma y bugail delfrydol: cyfuna ynddo ei hun bob rhagoriaeth heb gael ei nodweddu gan un diffyg" (E.B.). Yn sicr, cyfeiria y Gwaredwr yn y geiriau hyn at nodwedd iawnol ei farwolaeth. Nid yr ystyr yw, dodi ei einioes i lawr yn yr ystyr y treulia ei oes yn eu gwasanaeth, ac er eu mwyn—gosod allan adnoddau ei gorph a'i enaid er lles y defaid, yn ol golygiad yr Undodwyr. Nid digwyddiad annisgwyliadwy oedd marw Crist, ond dyma oedd ei fwriad cariadlawn o'r cychwyn. Gwyddai nad oedd yr un ffordd arall iddo allu achub ei ddefaid ond trwy iddo ef ddewis marw yn eu lle. Yn lle ffoi, a gadael i'r defaid gael eu dinystrio fel y gwnaethai y gwas cyflog, eu hamddiffyn ar draul colli ei fywyd ei hun y mae y Bugail da. Mae yn rhoddi ei einioes, neu yn gosod i lawr ei einioes dros, neu ar ran, y defaid. Ioan yn unig sydd yn defnyddio yr ymadrodd hwn am farw y Gwaredwr. (Gwel adn. 15, 17; xiii. 37, 38; xv. 13.)

Adn. 12, 13. **Eithr y gwas cyflog, &c.** Gelwir sylw yn y ddwy adnod hyn at ddiffyg ac esgeulustra y gwas cyflog. Yr oedd yn llwfr a diofal am y defaid am mai nid ei eiddo ef oeddynt, ond eiddo y gwr a'i cyflogasai ef. Yn wrthgyferbyniol i ddiffyg hwn, fe ddaw rhagoriaeth y Bugail da yn fwy i'r amlwg. Wrth y "blaidd yn dyfod" y golygir gelynion naturiol Eglwys Crist, y cyfeirir atynt yn Math. vii. 15, x. 16; Luc x. 3; Actau xx. 29.

Adn. 14. **Myfi yw y bugail da; ac a adwaen yr eiddof fi.** Dyma nodwedd newydd neu ychwanegol o eiddo y Bugail da yn cael ei grybwyll—ei fod yn adnabod ei ddefaid ei hun. Mae y gair a gyfieithir yma yn "adwaen" yn golygu adnabyddiaeth gynyddol yn ganlyniad profiad a sylwadaeth. I ddangos adnabyddiaeth fanwl y bugail dwyreiniol o'i ddefaid, cymerer yr eglureb a ganlyn: "Un diwrnod cyfarfyddai cenhadwr â bugail ar un o lethrau mwyaf anial mynydd Libanus. Gofynodd iddo amryw gwestiynau yn nghylch ei ddefaid; ac yn mhlith eraill, gofynodd a oedd yn eu cyfrif bob nos. Atebodd yntau nad oedd yn gwneyd hyny. Yna, gofynodd y cenhadwr iddo ef pa fodd y gwyddai eu bod oll yno ai peidio. 'Syr,' oedd ei ateb, 'pe rhoddech lian yn orchudd am fy llygaid i, a dwyn unrhyw ddafad o'm heiddo attaf, gallwn trwy yn unig roddi fy nwylaw ar ei gwyneb ddyweyd mewn munud pa un ai fy eiddo i ydoedd ai peidio."* **Ac a'm hadwaenir gan yr eiddof fi.** Gwelir fod yr adnabyddiaeth yn ddeublyg. Nid yn unig y mae Crist yn adnabod ei ddefaid, ond y maent hwythau hefyd yn ei adnabod yntau. Amlyga cariad ei hun trwy adnabyddiaeth o'r ddeutu.

* "*Bible Manners and Customs*," p. 35.

da ; ac a adwaen yr eiddof fi, ac a'm hadwaenir gan yr eiddof fi. 15. Fel yr edwyn y Tad fyfi, felly yr adwaen innau y Tad : ac yr ydwyf yn rhoddi fy einioes dros y defaid. 16. A defaid eraill sydd gennyf, y rhai nid ŷnt o'r gorlan hon : y rhai hynny hefyd sydd raid i mi eu cyrchu, a'm llais i a wrandawant ; a bydd un gorlan, ac *un* bugail. 17. Am hyn y mae y Tad yn fy ngharu i, am fy mod i yn dodi fy einioes, fel y cymmerwyf hi drachefn. 18. Nid oes neb yn ei dwyn oddi arnaf fi : ond myfi sydd

---

Adn. 15. **Fel yr edwyn y Tad fyfi, felly yr adwaen innau y Tad.** Dylasai y geiriau hyn fod yn y cysylltiad agosaf â'r adnod flaenorol. Gresyn oedd eu gwneyd yn ddwy adnod wahanol. Mae yr adnabyddiaeth ddeublyg sydd rhwng y credadyn a Christ yn cyfateb i adnabyddiaeth ddeublyg y Mab a'r Tad. Ac felly y mae yn adnabyddiaeth ddofn a chysegredig yn wir, ac yn sylfaenedig ar gariad y naill tuag at y llall. Gweler Salm 1 xi. ; 2 Tim. ii. 19.

Adn. 16. **A defaid eraill sydd gennyf, y rhai nid ynt o'r gorlan hon, &c.** Cyfeiriad, yn ddiau, at y Cenhedloedd nad oeddynt yn perthyn i'r eglwys Iuddewig. **Y rhai hynny hefyd sydd raid i mi eu cyrchu.** Gwell : "sydd raid imi eu *harwain*" (W.E.), felly hefyd C.S.D. Bwriad yr Iesu oedd arwain y Cenhedloedd crediniol i gymundeb llawn âg ef ei hun, yn gyson âg ewyllys ei Dad. Cyd. xi. 52, Act. xi. 35. **A'm llais i a wrandawant.** Gwyddai yr Iesu gyda phob sicrwydd na fyddai ei waith yn eu harwain ato ei hun yn aflwyddianus. Gwyddai y byddai digon o swyn yn ei lais i'w denu ato ei hun o'u holl grwydriadau pell. **A bydd un gorlan, ac un bugail.** Gwallus, yn ddiau, yw y cyfieithiad hwn. Gwell : "A hwy a ddeuant yn un **Praidd,** un Bugail" (W.E.). "A byddant un praidd ac un bugail" (B.). "*And they shall become one flock under one shepherd*" (W.). Mae y camgyfieithiad o'r gair (*Poimnê*) yn *gorlan*, yn lle *praidd*, wedi bod yn achlysur i'r Eglwys Babaidd honni mai hi yw yr unig gorlan, ac nad oes iachawdwriaeth i neb heb fod yn ei chymundeb hi. Eithr nid oes yma sail i hyny o gwbl. Ni fwriadodd yr Iesu i'w ganlynwyr ef fod yn un gorlan, yn un cymundeb gweledig, ond yn un *praidd*. Gall yr un praidd fod mewn gwahanol gorlanau. Mae deall y geiriau hyn yn iawn yn ddinystr hollol i yspryd cul a sectol. Dysgu y mae'r Gwaredwr yma wirionedd dwfn yspryd mai ei adnabod ef, a bod mewn undeb âg ef, ac o dan ei ofal a'i amddiffyn, sydd yn bwysig—un praidd, un Bugail.

Adn. 17. **Am hyn y mae y Tad yn fy ngharu i, &c.** Neu, *O achos hyn*, neu *O herwydd hyn*. O herwydd ei waith yn rhoddi y fath ufudd-dod llwyr, fel Cyfryngwr, i ewyllys ei Dad, nes y mae, fel Bugail da, yn barod i roddi ei einioes dros y defaid, a'i chymeryd hi drachefn. Dylid cofio fod yr Iesu yn ufuddhau llawn cymaint i ewyllys ei Dad wrth adgyfodi ac wrth farw. Nis gallwn feddwl y goddefasai y Tad i'w anwyl Fab farw, pe heb ei ddilyn gan adgyfodiad. Nid gorchfygiad gan angau oedd marw Crist i fod, ond buddugoliaeth ar angau. Er fod y

yn ei dodi hi i lawr o honnof fy hun. Y mae gennyf feddiant i'w dodi hi i lawr, ac y mae gennyf feddiant i'w chymmeryd hi drachefn. Y gorchymyn hwn a dderbyniais i gan fy Nhad. 19. ¶ Yna y bu drachefn ymrafael ym mysg yr Iuddewon, am yr ymadroddion hyn. 20. A llawer o honynt a ddywedasant, Y mae cythraul ganddo, ac y mae efe yn ynfydu: paham y gwrandewch chwi arno ef? 21. Eraill a ddywedasant, Nid yw y rhai

---

Tad yn caru ei anwyl Fab erioed, eto dyma reswm newydd neu ychwanegol dros iddo ei garu yn fwy angherddol nag erioed.

Adn. 18. **Nid oes neb yn ei dwyn oddiarnaf fi, &c.** Gwirfoddolrwydd marw Crist ddaw i'r amlwg yn y geiriau hyn. Pa ddyn yn unig feiddiasai lefaru fel hyn? A pha ddyn fuasai byth yn dychmygu am roddi y fath eiriau hynod yn ngenau un o'i gyd-ddynion, pe erioed heb eu clywed? Er fod rhai yn darllen y geiriau hyn yn y gorphenol, "Ni ddygodd neb hi oddiarnaf," eto, gwell eu darllen yn y presenol, canys y maent yn fwy cyson felly â safle Crist ar y pryd, a'r gwaith oedd o'i flaen ef. Ni chyflawnwyd gwaith erioed yn fwy gwirfoddol, na gwaith yr Iesu yn myned i'r Groes i farw dros bechaduriaid. Do, bu farw, nid o orfodaeth o un cyfeiriad, o'r nefoedd, o'r ddaear, nac o uffern. **Y mae gennyf feddiant i'w dodi hi i lawr, ac y mae gennyf feddiant i'w chymeryd hi drachefn. Y gorchymyn hwn a dderbyniais i gan fy Nhad.** Gwell darllen, *Y mae gennyf awdurdod i'w gosod i lawr, &c.* (W. E.). Ystyr y gair a gyfieithir "meddiant" yw *awdurdod, hawl, rhyddid.* Ac felly dyma brawf sicr o wirfoddolrwydd angau y Gwaredwr. Dyma un oedd gan awdurdod hollol ar ei einioes, ac eto yn dewis ei gosod i lawr. A gwna yr Iesu hyny yn gyson â gorchymyn ac ewyllys ei Dad. A chofier fod "y gorchymyn hwn" yn cynwys cymeryd ei einioes i fyny, yn ogystal a'i gosod i lawr. Un gorchymyn ydoedd yn cynwys marw ac adgyfodi. Gorchymyn o du y Tad, ac ufuddhau o du y Mab, a'r naill a'r llall yn dangos cysondeb perffaith rhwng ewyllys y Tad ac ewyllys y Mab yn nhrefn iachawdwriaeth.

Adn. 19, 20, 21. Effaith dysgeidiaeth Crist ar yr Iuddewon oedd yn gwrando arno oedd cynyrchu ymrafael, neu, yn fwy cywir, *ymraniad* yn eu plith. Rhai o dan ddylanwad rhagfarn cryf yn myned i'r eithafion o haeru ei fod yn ynfydu, ac wedi ei feddiannu gan gythraul. Cyn y gallasent lefaru mor eithafol amdano, rhaid fod y bregeth wedi gwneud argraph anghyffredin arnynt. Eraill, o dan ddylanwad synwyr cyffredin, yn dyfod i'r penderfyniad rhesymol mai nid geiriau un a chythraul ynddo lefarasai yr Iesu. Ac amlwg yw fod ei weithredoedd gwyrthiol wedi helpu ei eiriau i adael argraph ffafriol ar y rhai hyn, canys gofynant, "A all cythraul agoryd llygaid y deillion?" Dywed rheswm fod yn rhaid i'r effaith bob amser gyfateb i'r achos. Nid yw yspryd cythreulig byth yn gwneyd da, ond drwg; byth yn dangos tosturi, ond creulondeb; byth yn iachau deillion, ond yn gwneyd dynion yn ddeillion. Cym. ix. 6, 7,

hyn eiriau un a chythraul ynddo. A all cythraul agoryd llygaid y deillion? 22. ¶ Ac yr oedd y gyssegr-wyl yn Jerusalem, a'r gauaf oedd hi. 23. Ac yr oedd yr Iesu yn rhodio yn y deml, ym mhorth Solomon. 24. Am hynny y daeth yr Iuddewon yn ei gylch ef, ac a ddywedasant wrtho, Pa hyd yr wyt yn peri i ni ammeu? os tydi yw y Crist, dywed i ni yn eglur. 25. Yr Iesu a attebodd iddynt, Myfi a ddywedais i chwi, ac nid ydych yn credu.

22—39, Y Gysegr-Wyl: Yr Iuddewon yn ceisio llabyddio yr Iesu, oblegyd iddo hawlio bod yn un a'r Tad.

Adn. 22. **Ac yr oedd y gysegr-wyl yn Jerusalem, a'r gauaf oedd hi.** Credir fod yma fwlch (*gap*) yn yr hanes rhwng adn. 21 a 22. Yr oedd oddeutu dau fis o amser rhwng Gwyl y Pebyll, yr hon a gynhelid tua chanol Hydref, a Gwyl y Cysegriad, yr hon a gynhelid tua diwedd Rhagfyr. Dechreua yr wyl hon ar y 25ain o fis Rhagfyr, a pharhai am wyth niwrnod. Coffawdwriaeth ydoedd am lanhad y Deml gan Judas Maccabeus (c.c. 164) ar ol y llygriad ohoni gan Antiochus Epiphanes. Gwyl o lawenydd ydoedd, a thra y parhai gwaherddid galar ac ympryd, ac yr oedd lampau goleuedig wedi eu gosod bob nos 'o flaen y tai. Yn wahanol i Wyliau y Pasg, y Pentecost, a'r Pebyll, dathlid yr wyl hon dros yr holl wlad, ac nid yn Jerusalem yn unig, ac felly ni chyrchai torfeydd o ddieithriaid yno.

Adn. 23. **Ac yr oedd yr Iesu yn rhodio yn y deml, yn mhorth Solomon,** neu Gyntedd Solomon. Golyga y gair "cyntedd" rodfa golofnog a diddos (*arcade*). Tybir mai yr un o du y dwyrain ydoedd, ac na ddinystrwyd mohoni gan Nebuchodonosor.

Adn. 24. **Pa hyd yr wyt yn peri i ni ammeu? os tydi yw y Crist, dywed i ni yn eglur.** Yn fwy llythrenol: *Hyd pa bryd yr wyt ti yn cythryblu ein henaid; os tydi yw y Crist, dywed inni heb gêl* (W. E.). Yn gweled yr Iesu yn rhodio yn y cyntedd crybwylledig, ymgasglodd yr Iuddewon o'i amgylch, ac apeliasant ato yn ddiymdroi. Tebygol yw mai nid yr un cymhelliad a ysgogai yr oll ohonynt wrth wneyd yr apêl syth hwn ato Ef. Dichon fod rhai yn petruso yn onest gyda golwg arno, ac yn gogwyddo i gredu ynddo fel y Messiah, ond iddynt gael gair ganddo ef ei hun, fuasai yn help i dori y ddadl yn eu meddyliau. Eraill yn gofyn oddiar rhyw gywreinrwydd gwag. A'r rhai gwaethaf ohonynt eisiau iddo ef gydnabod ei Fessiayddiaeth, er mwyn cael sail i'w gyhuddo ef!

Adn. 25. **Mi a ddywedais i chwi, ac nid ydych yn credu.** Nid fod yr Iesu wedi dyweyd mor eglur wrthynt hwy ag y dywedodd wrth y wraig o Samaria, y cardotyn dall, ac wrth ei ddisgyblion. Ond yr oedd yn holl gyfeiriad ei ddysgeidiaeth at ei berthynas arbenig â'r Tad, ac â'r rhai a gredant ynddo, wedi dyweyd yn ddigon eglur fel i'w gadael yn hollol ddiesgus oherwydd eu hangrediniaeth. **Y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur yn enw fy Nhad, &c.** Cyfeiriad, yn ddiau, at y gwyrthiau a gyflawnodd,

Y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur yn enw fy Nhad, y mae y rhai hynny yn tystiolaethu am danaf fi. 26. Ond chwi nid ydych yn credu: canys nid ydych chwi o'm defaid i, fel y dywedais i chwi. 27. Y mae fy nefaid i yn gwrandaw fy llais i; a mi a'u hadwaen hwynt, a hwy a'm canlynant i: 28. A minnau ydwyf yn rhoddi iddynt fywyd tragwyddol; ac ni chyfrgollant

---

Cyflawnai hwynt fel cynrychiolydd Duw, ac fel un wedi ei awdurdodi ganddo ef. Ofer gwadu yn wyneb hyn nad oes i wyrthiau eu lle priodol a chyfreithlon, fel prawf o ddwyfol Fessiayddiaeth Iesu o Nazareth.

Adn. 26. **Ond chwi nid ydych yn credu: canys nid ydych chwi o'm defaid i, fel y dywedais i chwi.** Gadewir y geiriau, "fel y dywedais i chwi," allan o'r llawysgrifau pwysicaf. Felly hefyd C.D.S., W.E., B., W., &c. Yn ol y geiriau hyn, y rheswm fod y Phariseaid yr ymddiddanai yr Iesu â hwynt ar y pryd yn gwrthod credu ynddo ef oedd nad oeddynt yn meddu yr un nodwedd feddyliol a moesol a'i wir ddisgyblion, sef ei ddefaid ef. Rhaid cofio mi i ffugiwr yw dafad yma yn dynodi ansoddau meddyliol a moesol neilltuol—parodrwydd i wrando yn ddiragfarn ar eiriau Crist, ac i ufuddhau iddo trwy ei ganlyn ef, a chydymdeimlad â'i ddysgeidiaeth ysprydol. Nid oedd yr unrhyw rwystr ar ffordd yr Iuddewon hyn i gredu yn Nghrist ag oedd ar ffordd gafr i droi yn ddafad. Nid oes ond rhwystr *moesol* yn codi o gyndynrwydd eu hewyllys rydd yn y naill achos, tra y mae yn rwystr *anianyddol* ac anorfod yn yr achos arall. Yn sicr, nid oes dim yn y geiriau dan sylw i roddi yr esgus leiaf i'r Iuddewon dros eu hangrediniaeth.

Adn. 27, 28. Yn y ddwy adnod hyn daw prif nodweddion a rhagorfreintiau gwir gredinwyr i'r amlwg. Maent yn gwrando ar lais y Bugail da, ac yn ei ganlyn ef. Ac y mae yntau yn eu hadwaen hwynt, yn rhoddi iddynt fywyd tragwyddol, ac yn eu diogelu rhag peryglon allanol. **Ac ni chyfrgollant byth, ac ni ddwg neb hwynt allan o'm llaw i.** "*Ac ni chipia neb hwynt allan o'm llaw i*" (W. E.). "*Nor shall any foe wrest them from my hand*" (W.). Y bugail yn amddiffyn y defaid rhag peryglon a gelynion *oddiallan* iddynt eu hunain sydd yma. Diogelwch *credinwyr yn unig* yn wyneb peryglon a gelynion allanol, heb gyfeiriad o gwbl at y posibilrwydd iddynt hwy, trwy roddi lle i "galon ddrwg anghrediniaeth," fyned allan, neu beidio parhau yn nosbarth y defaid. Tra yn llechu fel credinwyr didwyll yn llaw yr Iesu, ni chipia yr un gelyn mohonynt trwy drais allan ohoni, ac o ganlyniad "ni chyfrgollant byth."* Cyd. xv. 5, 6; Rhuf. xi. 19—21; Heb. iii. 12.

Adn. 29. **Fy Nhad i, yr hwn a'u rhoddes i mi, sydd fwy na phawb.** Darllenir a chyfieithir y geiriau hyn gan rai fel ag i roddi ystyr bur wahanol iddynt. "*Yr hyn y mae fy Nhad wedi ei roddi i mi sydd fwy na phawb*"

---

* But the security promised is not absolute, it depends of necessity on man's free will which determines at every moment his relation to the Saviour."—*The Century Bible.*

byth, ac ni ddwg neb hwynt allan o'm llaw i. 29. Fy Nhad i, yr hwn a'*u* rhoddes i mi, sydd fwy na phawb: ac nis gall neb *eu* dwyn *hwynt* allan o law fy Nhad i. 30. Myfi a'r Tad un ydym. 31. Am hynny y cododd yr Iuddewon gerrig drachefn i'w labyddio ef. 32. Yr Iesu a attebodd iddynt, Llawer o weithredoedd da a ddangosais i chwi oddi wrth fy Nhad: am ba un o'r gweithredoedd hynny yr ydych yn fy llabyddio i? 33. Yr Iuddewon a attebasant iddo, gan ddywedyd, Nid am

---

(W. E.). "*What my Father has given me is more precious than all besides*" (W.) "*What my Father has entrusted to me is of more importance than all else*" *(Twentieth Century New Testament).* Mae llawer i'w ddyweyd o blaid y darlleniad hwn. Fel y sylwa Dr. W. Edwards: "Afreidiol i Grist ddywedyd fod *ei Dad* yn fwy na phawb." Ac y mae fod awdurdodau mor uchel a Westcott a Weymouth yn derbyn y darlleniad uchod, yn sicr o fod yn ystyriaeth tra phwysig. Yr ystyr felly yw, fod y credinwyr fel cyfangorph yn werthfawrocach na dim arall, ac felly fod y Tad, heblaw y Mab, yn sicr o wneyd ei oreu i ddiogelu y fath drysor drud.

Adn. 30. **Myfi a'r Tad un ydym.** Gwahaniaetha Esbonwyr yn eu barnau am ystyr y geiriau hyn. Undod ewyllys, ebai rhai; undod gallu, ebai eraill; undod meddiant, ebai eraill drachefn. Credwn fod y cysylltiadau yn hawlio ystyr ddyfnach i'r geiriau, na'r un o'r ystyron a nodwyd, ac na'r oll ohonynt gyda'u gilydd. Mae'r Iesu newydd ddyweyd fod ei ddefaid yn ei law ef ei hun (28), ac hefyd eu bod yn llaw ei Dad. Cyfyd y cwestiwn yn ddigon naturiol, pa fodd y gallant fod yn llaw dau mor wahanol ag ydyw Duw a dyn? Yr ateb yw, nid ydym yn wahanol, "Myfi a'r Tad un ydym." Nid un o ran ewyllys, gallu, a meddiant yn unig, ond un o ran *hanfod* a *natur.* Ac y mae yn amlwg mai yn yr ystyr hon y deallodd yr Iuddewon ef, canys yn y fan codasant gerryg i'w labyddio, oblegid ei gabledd yn ol eu syniad hwy, am ei fod ef ac yntau yn ddyn yn gwneuthur ei hun yn Dduw (adn. 33). Yn sicr, nid undod moesol fel y myn Undodwyr a Rhesymolwyr sydd yn y geiriau, ond undod arddansoddol rhwng y Tad a'r Mab. Awgrymiadol iawn yw fod y gair "*un*" *(en)* yn y ganolryw, yn arwyddo nid un Person, ond un sylwedd a natur. "Un ydym." "Trwy '*ydym,*'" gwrthetyb gyfeiliornad Sabellius," ebai Bengel, a "thrwy '*un*' gwrthetyb Arius."

Adn. 31, 32. Sylwa Dr. M. Dods fod yr Iuddewon yn barod i wrando ar yr Iesu yn honni mai efe oedd y Messiah heb gynhyrfu dim yn ei erbyn (24), ond gyda'u bod yn ei glywed yn honni undod hanfod â'r Tad, y mae storm o eiddigedd a digofaint yn cael ei ennyn yn eu mynwesau nes torri allan mewn penderfyniad i'w labyddio yn y fan, am ei fod yn eu golwg hwy yn euog o gabledd. Dengys hyn yn eglur nad edrychent ar y teitl Messiah yn gyfystyr hollol a Mab Duw. Ond yn nghanol y storm, mor dawel a hunanfeddianol yw yr Iesu. Etyb hwy yn fwynaidd ac urddasol. **Llawer o weithredoedd da a ddangosais i chwi oddiwrth fy Nhad, &c.** Awgryma mor anweddus ac afresymol oedd eu

weithred dda yr ydym yn dy labyddio, ond am gabledd, ac am dy fod di, a thithau yn ddyn, yn dy wneuthur dy hun yn Dduw. 34. Yr Iesu a attebodd iddynt, Onid yw yn ysgrifenedig yn eich cyfraith chwi, Mi a ddywedais, Duwiau ydych? 35. Os galwodd efe hwy yn dduwiau, at y rhai y daeth gair Duw, (a'r ysgrythyr nis gellir ei thorri;) 36. A ddywedwch chwi am yr hwn a sancteiddiodd y Tad, ac a'i hanfonodd i'r byd, Yr wyt ti yn

---

bwriad i labyddio cymwynaswr pennaf eu cenedl. Yr oedd ei weithredoedd da yn lluosog ac amrywiol iawn. Rhoddi ei olwg i'r dall, ei leferydd i'r mud, iachau amrywiol glefydau, glanhau y gwahangleifion, ac adgyfodi y meirw. **Am gabledd, ac am dy fod di, a thi yn ddyn, yn dy wneuthur dy hun yn Dduw.** Dyma brif gyhuddiad yr Iuddewon yn erbyn Iesu o Nazareth, ac ar sail y cyhuddiad hwn yr aethant yn mlaen i'w gollfarnu a'i roddi ef i farwolaeth. Pe buasai yr Iesu yn llai na Duw, buasai grym difrifol yn nghyhuddiad yr Iuddewon; ond gan nad oedd yn neb llai na "gwir Fab Duw," syrthiai eu cyhuddiad disail i'r llawr, a syrthient hwythau o dan gondemniad, oherwydd eu rhagfarn a'u dallineb ysprydol. Sylwer, nad yw yr Iesu yn gwadu yr hyn a ystyriai yr Iuddewon yn gabledd. Ni ddywed, Yr ydych wedi camddeall fy ngeiriau, ni fwriedais ddyweyd fy mod yn un â'r Tad o ran natur. Cyd. Act. xiv. 11—18, 34, 35.

Adn. 34. **Onid yw yn ysgrifenedig yn eich cyfraith chwi?** Wrth y "gyfraith" yma y golygir yr Hen Destament, megys yn xii. 34, xv. 25. Mewn iaith gyffredin, golygai y "gyfraith" yr oll o'r H.D., am ei fod y prif ran ohono, a'r oll yn sylfaenedig arni. Cyd. 1 Cor. xiv. 21. **Mi a ddywedais, Duwiau ydych?** Geiriau dyfynedig o Salm lxxxii. 6 yw y geiriau hyn. Llefarwyd hwynt yn erbyn barnwyr annghyfiawn a gormesgar. Gelwid hwy yn "dduwiau" am eu bod yn cynrychioli Duw, ac wedi eu hawdurdodi ganddo ef i gyflawni ei swydd. Yr oedd eu swydd yn ddwyfol, er nad oedd y personau ond dynol. Ac ar gyfrif eu swydd y dywedid wrthynt, ac am danynt, "Duwiau ydych."

Adn. 35. **Os galwodd efe hwy yn dduwiau, at y rhai y daeth gair Duw.** Diau mai wrth "air Duw" yma yr ydys i ddeall yr Ysgrythyr. Yn sicr, nid y Gair personol a feddylir yma, canys ni ddefnyddir ef gan yr Efengylwr yn yr ystyr hono, ar ol y Rhagdraeth I. 1—18. **A'r Ysgrythyr nis gellir ei thorri.** A'r Ysgrythyr nis gellir ei *dadwneyd* neu ei *rhyddhau*, neu ei *dinystrio* sef yr Ysgrythyr, yn y frawddeg a ddyfynwyd. Mae'r Iesu, yn y geiriau uchod, wedi gosod i lawr gynseiliau ei ymresymiad. Dadl o nodwedd Rabinaidd ydyw sydd yn cyfarfod â'r Iuddewon ar eu tir eu hunain. Sylwer nad yw yr Iesu mewn un modd yn gwadu ei ddwyfoldeb; yn hytrach, aiff yn mlaen i gyfiawnhau ei honiad, gan orchfygu yr Iuddewon ar eu tir eu hunain. Ymresyma, fel y gwelir, oddiwrth y *lleiaf* at y *mwyaf*.

Adn. 36. **A ddywedwch chwi am yr hwn a sancteiddiodd y Tad, ac a'i hanfonodd i'r byd.** Ystyr y gair sancteiddio yma yw

cablu: am i mi ddywedyd, Mab Duw ydwyf? 37. Onid wyf fi yn gwneuthur gweithredoedd fy Nhad, na chredwch i mi: 38. Ond os ydwyf yn eu gwneuthur, er nad ydych yn credu i mi, credwch y gweithredoedd; fel y gwybyddoch ac y credoch, *fod* y Tad ynof fi, a minnau ynddo yntau. 39. Am hynny y ceisiasant drachefn ei ddal ef: ac efe a ddïangodd allan o'u dwylaw hwynt. 40. Ac efe a aeth ymaith drachefn dros yr Iorddonen,

---

cysegru, neillduo i ddibenion crefyddol. **Yr wyt ti yn cablu, am i mi ddywedyd Mab Duw ydwyf.** Dyma, yn ddiau, yw y ffurf fwyaf manteisiol i gyfleu y ddadl fel ag i gyfarfod â'r Iuddewon ar eu tir eu hunain, ac yn sicr y mae yn anwrthwynebol. Os oedd swyddogion anmherffaith ac annghyfiawn yn cael eu galw yn dduwiau yn ol eu safon anffaeledig hwy eu hunain, sef yr Ysgrythyr, pa faint mwy y gallai yr hwn a gysegrodd ac a neillduodd y Tad fel Cyfryngwr, alw ei hunan yn Fab Duw, heb fod yn euog o gabledd?

Adn. 37, 38. **Onid ydwyf fi yn gwneuthur gweithredoedd fy Nhad, na chredwch imi.** Ar ol gorchfygu yr Iuddewon ar eu tir eu hunain, a chydag un o'u dadleuon eu hunain, mae'r Iesu yn awr yn cyfeirio at ei weithredoedd fel prawf ei fod yn un â'r Tad. Gwelir fod yr Iesu yn foddlon i gael ei brofi wrth yr un prawf ag yr oedd ef ei hun wedi ei gymhwyso at ddysgawdwyr a phrophwydi eraill: "Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt." Os nad oedd yn cyflawni gweithredoedd goruwchddynol a Dwyfol nad allasai neb llai na Duw ei hun eu cyflawni, nid oedd yn gofyn iddynt gredu ynddo ef. Yr oedd ei "arwyddion," ei wyrthiau, nid yn unig yn amlygiadau o allu Dwyfol, ond o dosturi a chariad Dwyfol, ac felly yn mhob ystyr yn deilwng o fod yn weithredoedd Duw. **Credwch y gweithredoedd, &c.** Yn wyneb y geiriau eglur hyn, nis gellir cyfiawnhau y rhai sydd yn dibrisio ac yn diystyru gwyrthiau fel prawf o Ddwyfoldeb Cristionogaeth. Nid oedd modd gwadu y gweithredoedd. A thrwy gychwyn gyda'r hyn sydd anwadadwy, gyda'r allanol, gallent ymgodi at y mewnol, at ddirgelwch y Person Dwyfol-ddynol. **Fod y Tad ynof fi, a minnau ynddo yntau.** Nis gellir meddwl am eiriau cryfach na'r rhai hyn i osod allan y gwlrionedd am undod y Tad a'r Mab. Trwy gredu fod y Tad a'r Mab yn un yn eu gwaith y deuant i gredu eu bod yn un mewn hanfod a natur.

Adn. 39. Drachefn, mewn cyfeiriad at vii. 30, 44. Ar ol gwrando arno yn dadleu mor gryf, rhoddodd ei elynion y bwriad o'i labyddio ef heibio, a'u hamcan yn awr oedd ei ddal ef, er ei ddwyn o flaen y Sanhedrim. Ond yn lle hyny mae'r Iesu yn dianc yn nghanol y dorf.

YR IESU YN YMNEILLDUO TUHWNT I'R IORDDONEN, LLE Y MAE LLAWER YN CREDU YNDDO EF.

Adn. 40. **Ac efe a aeth ymaith drachefn dros yr Iorddonen, &c.** Gwelir iddo fyned allan o gyraedd ei elynion trwy groesi yr Iorddonen

i'r man lle y buasai Ioan ar y cyntaf yn bedyddio ; ac a arhosodd yno. 41. A llawer a ddaethant atto ef, ac a ddywedasant, Ioan yn wir ni wnaeth un arwydd : ond yr holl bethau a'r a ddywedodd Ioan am hwn, oedd wir. 42. A llawer yno a gredasant ynddo.

---

a myned i'r fan y buasai Ioan yn bedyddio ar y cyntaf sef Bethania (gwel Pen i., 28). **Ac a arhosodd yno.** Yr oedd oddeutu pedwar mis—o ddiwedd Rhagfyr hyd ddechreu Ebrill—rhwng yr adeg yma ag amser ei farwolaeth ef. Ac er y gellir casglu i'r Iesu aros yno y rhan fwyaf o'r pedwar mis, eto, nid arhosodd yno yr holl amser. Canys yn ystod yr amser hwn bu ar ymweliad â chartref Mair a Martha i adgyfodi eu brawd Lazarus, ac â dinas Ephraim, fel y crybwyllir yn y bennod nesaf.

Adn. 41. **Ioan yn wir ni wnaeth un arwydd.** Dyma sylw sydd yn cario ar ei wyneb brawf o wirionedd yr hanes. Yr oedd Ioan Fedyddiwr yn brophwyd mawr ac enwog yn ngolwg y bobl, ac eto ni phriodolir unrhyw allu gwyrthiol iddo ef. Paham, ynte, y priodolir gallu gwyrthiol i'r Iesu? Nid am ei fod yn fawr ac enwog yn eu golwg, onide buasai gallu felly yn cael ei briodoli i Ioan hefyd. Yr unig gyfrif rhesymol yw fod Ioan heb eu cyflawni fel y dywedir yma, a'r Iesu wedi eu cyflawni mewn gwirionedd. Cytuna pob traddodiad a hanes i briodoli gwyrthiau i'r Iesu, ac nid i Ioan. Eithr dywedir fod pob peth a ddywedasai Ioan am yr Iesu wedi troi allan yn wir.

Adn. 42. **A llawer yno a gredasant ynddo.** "Yno," mewn gwrthgyferbyniad i Jerusalem. Llawer yno, ychydig yn Jerusalem. Cofiai llawer oedd yn bresenol yn Bethania am ddystiolaeth y Bedyddiwr i Grist, ac fel yr oedd hono wedi ei chyflawni ynddo ef. Dichon, hefyd, fod llawer ohonynt yn cofio tystiolaeth y Tad i'w anwyl Fab ar yr achlysur o'i Fedydd. Golyga "credasant ynddo ef," nid credu ei eiriau, nid credu amdano, ond credu *arno*, neu *ynddo*, fel yn i. 12.

PENNOD XI.

Adgyfodiad Lazarus, y seithfed a'r olaf, o'r gwyrthiau a gofnodir yn yr Efengyl hon.

Cryf iawn, yn ymylu ar anmhwylledd, yw gwrthwynebiad Anffyddwyr i'r wyrth hon—(1) Gwrthwynebir ei chredu am ei bod yn wyrth mor hynod ac anghyffredin, rhoddi bywyd i un marw wedi bod yn ei fedd am bedwar diwrnod; (2) Distawrwydd y tair Efengyl cydolygol yn ei chylch; (3) a'r ffaith, er gwaethaf yr hyn a ddywedir am dani, adn. 47—53, nad oes grybwylliad am dani yn achwyniad a chondemniad yr Iesu.

1. Yr oedd y wyrth hon, yn ddiau, yn un hynod iawn—yr hynotaf o holl wyrthiau yr Iesu. O edrych arni o safle ddynol yn unig yr ymddengys y wyrth yn un mor hynod ac anhygoel. Ond o edrych arni o safle Ddwyfol, y mae y gwahaniaeth rhwng gwyrth fach a gwyrth fawr yn diflanu yn hollol. I Fod Hollalluog, pa anhawsder o gwbl sydd yn nghyflawniad y wyrth hon, mwy na'r gwyrthiau eraill a briodolir i'r Iesu? Yr oedd y gwyrthiau eraill o fywhau y meirw a gofnodir gan yr efengylwyr eraill, megys merch Jairus, a mab y wraig weddw o Nain, yn gofyn am weithrediad yr un gallu goruwchnaturiol a Dwyfol ag oedd ar waith yn adgyfodi Lazarus o'i fedd.

2. Rhaid cydnabod fod distawrwydd Mathew, Marc a Luc yn nghylch y wyrth hon yn ymddangos yn hynod. Ond fe ddylid cofio yn un peth, nad oedd y wyrth hon yn dyfod o fewn *cylch* yr efengylau cydolygol. Cofnodi geiriau a gweithredoedd Crist o'r *tuallan* i *Jerusalem* a'r *gymydogaeth* oedd prif amcan yr efengylau cydolygol. Ac felly gorweddai hanes adgyfodiad Lazarus o'r tuallan i'w cynllun. Ac nid yw yn rhyfedd o gwbl fod hanesydd yn peidio crybwyll yr hyn nad yw yn dyfod o fewn terfynau ei gynllun. Ac yn mhellach, nid oes yr un o'r efengylwyr yn amcanu crybwyll *pob peth* a wnaeth yr Iesu. Rhanol ac anghyflawn *(fragmentary)* yw nodwedd yr oll o'r efengylau. Ac megys y mae yr efengylau cydolygol yn peidio son am adgyfodiad Lazarus, felly y mae Ioan yn peidio crybwyll am fywhad merch Jairus, a mab y weddw o Nain, a hyny am yr un rheswm, eu bod yn gorwedd tuallan i'w gynllun gwahanol yntau. Ac er mor hynod oedd adgyfodiad Lazarus, eto yn y gwaith o bregethu yr efengyl, cafodd ei chysgodi gan adgyfodiad hynotach a phwysicach yr Arglwydd Iesu Grist. Nid rhyfedd, ar ol cyfodiad yr haul, fod ambell i seren yn diflanu o'r golwg. Tebygol iawn, hefyd, fod sylwedd yr efengylau cydolygol wedi eu crynhoi yn nghyd, tra yr oedd Lazarus eto yn fyw, ac y buasai rhoddi gormod o amlygrwydd i'r wyrth o'i adgyfodiad yn peryglu ei ddiogelwch personol xii. 10, 11.

3. Nid oes nemawr o rym yn yr wrthddadl hon. I ba beth y buasai yr awdurdodau Iuddewig yn dyfod ag adgyfodiad Lazarus yn gyhuddiad yn erbyn yr Iesu pan ag yr oedd ganddynt, yn eu tyb eu hunain, gyhuddiad pwysicach yn ei erbyn ef, sef cabledd? Buasai yn anmhosibl iddynt brofi adgyfodiad Lazarus yn ei erbyn o dan yr amgylchiadau; canys yr oedd y disgyblion wedi ffoi, ac ni thorasai yr Iesu ei hun ar ei ddistawrwydd mawreddus, fel ag i grybwyll am hyny.

PENNOD XI.

AC yr oedd un yn glaf, Lazarus o Bethania, o dref Mair a'i chwaer Martha. 2. (A Mair ydoedd yr hon a enneiniodd yr Arglwydd âg ennaint, ac a sychodd

---

Eithr o bob dull o geisio gwadu y wyrth hon, yr agosaf oll i amhwylledd, yw gwaith Anffyddwyr yn haeru gyda'r digywilydd-dra a'r haerllugrwydd sydd mor nodweddiadol ohonynt, mai ffugdraeth *(legend)* neu alegori ydyw. Ffugdraeth yn wir! Mae'r hanes mor fyw, a'r amgylchiadau cysylltiol âg ef mor naturiol a manwl,—enwau personau neilltuol, ac enwau eu cartref, a'r amgylchiadau cyd-fynedol wedi eu cydweu mor naturiol i'r efengyl, fel ag y mae'n dwyn ar ei wyneb argraph o wirionedd a gonestrwydd. Ac am y dyb afresymol a disail mai alegori neu ddychymyg barddonol wedi ei ddyfeisio gan yr awdwr er eglurebu ei athrawiaeth am y *Logos* ydyw, anawdd meddwl fod neb yn ei bwyll a'i synwyr yn ddifrifol yn alluog i wneyd y fath haeriad!* Nid oes yr awgrym lleiaf o ddechreu i ddiwedd yr hanes mai alegori ydyw. Os yw yr hanes hwn yn alegori, alegori hefyd yw holl hanes yr efengylau yn diweddu gydag adgyfodiad Crist o'r bedd a'i esgyniad i ogoniant. Ac os felly, fe ganlyn o angenrheidrwydd, mai alegori sydd wedi bod yn foddion i achub y byd!! Yn sicr hefyd, mawr ac anherfynol yw hygoeledd Rhesymolwyr ac Anffyddwyr!† Ac yn wyneb y fath ddychmygion gwyllt ac ofer, pwy na ddywedai gyda Dr. Reid, "*Let my soul dwell with common sense.*"

1—16. Rhagarweiniad i'r Wyrth.

Adn. 1. **Ac yr oedd un yn glaf, Lazarus o Bethania.** Ioan yn unig sydd yn crybwyll am y Lazarus hwn. Nid oes y rhithyn lleiaf o sail i gredu mai yr un un oedd hwn a Lazarus y cardotyn wrth ddrws y gwr goludog (Luc xvi. 20). Nid cardotyn oedd hwn, ond un clyd ei amgylchiadau, oedd yn gallu croesawu a lletya yr Iesu ar ei ymweliadau â Bethania. Pentref bach gwledig yw Bethania, oddeutu dwy filldir o Jerusalem, yn gorwedd ar lethrau Mynydd yr Olewydd. **O dref Mair a'i chwaer Martha.** Gwell: *O bentref Mair a Martha ei chwaer.* Nodir hyn i wahaniaethu y Bethania hwn oddiwrth y Bethania orweddai tuhwnt i'r Iorddonen, lle yr oedd yr Iesu newydd fyned. Enwir Mair yng nghyntaf am ei bod yn fwy adnabyddus na'i chwaer Martha, fel y gwelir yn adn. 2.

Adn. 2. **A Mair oedd yr hon a enneiniodd yr Arglwydd ag ennaint, &c.** Amcan y geiriau hyn yw gwneuthur Mair yn fwy adna-

---

*"And what an incredible height of the art in allegorical construction of history must we ascribe to the composer!"—*Meyer.*

†Such fancies are unworthy of discussion, and are judged as severely by M. Renan as by ourselves: he calls them expedients of theologians at their last gasp, saving themselves by allegory, myth and symbol."—*Godet.*

ei draed ef â'i gwallt, yr hon yr oedd ei brawd Lazarus yn glaf.) 3. Am hynny y chwïorydd a ddanfonasant atto ef, gan ddywedyd, Arglwydd, wele, y mae yr hwn sydd hoff gennyt ti, yn glaf. 4. A'r Iesu pan glybu, a ddywedodd, Nid yw y clefyd hwn i farwolaeth, ond er gogoniant Duw, fel y gogonedder Mab Duw trwy hynny. 5. A hoff oedd gan yr Iesu Martha, a'i chwaer, a Lazarus. 6. Pan glybu efe gan hynny ei fod ef yn glaf, efe a arhosodd yn y lle yr oedd, ddau ddiwrnod. 7. Yna

---

byddus, a'i gwahaniaethu oddiwrth pob Mair arall a grybwyllir yn yr efengylau. Er y dywedir amdani iddi eneinio yr Arglwydd âg enaint, eto, mae yn sicr mai nid y hi yw y bechadures yn nhy Simon (Luc vii.) na Mair Magdalen (gwel Pen. xii.). **Yr hon yr oedd ei brawd Lazarus yn glaf.** Y crybwylliad hwn am afiechyd eu brawd Lazarus, sydd yn achlysur cychwyniad yr hanes.

Adn. 3. **Am hynny y chwiorydd a ddanfonasant atto ef, &c.** Mor syml a naturiol yw yr adroddiad hwn; a'r fath hyder oedd gan y chwiorydd yn eu cyfaill cywir Iesu o Nazareth. Ni wnant gymaint a gofyn iddo ddyfod drosodd i weled ei gyfaill claf, dim ond mynegi y ffaith a gadael y mater at ddoethineb a charedigrwydd yr Iesu. Gellir casglu yn ddigon naturiol y rhaid fod afiechyd Lazarus yn un pur ddifrifol cyn y buasent yn anfon yr holl ffordd at yr Iesu. Credwn fod rhyw anwyldeb neillduol yn bod rhyngddo Ef â Lazarus, cyn y buasai y chwiorydd yn son am dano fel "*yr hwn sydd hoff genyt ti.*"

Adn. 4. **Nid yw y clefyd hwn i farwolaeth.** Nid marwolaeth oedd ei nod terfynol. Nid oedd marw yn yr achos hwn ond achlysur i roddi bod i rywbeth pellach a phwysicach. **Ond er gogoniant Duw, fel y gogonedder Mab Duw trwy hynny.** Yn llythrenol, *ar ran* gogoniant Duw. Cyd. ix. 3. Gwelir fod gogoniant Duw a gogoniant y Mab yn anwahanol gysylltiol â'u gilydd. Credwn fod y Tad wedi ei ogoneddu, yn bennaf, trwy gyflawniad y wyrth o adgyfodi Lazarus. Priodola yr Iesu y wyrth yn gyfangwbl i'w Dad. Cafodd yr Iesu ei ogoneddu am fod cyflawniad y wyrth wedi dwyn oddiamgylch ei farwolaeth ef. Ac yn ol yr Efengylwr Ioan, y mae'r Iesu yn cael ei ogoneddu yn ei farwolaeth, xii. 23; xvii. 1, &c.

Adn. 5. **A hoff oedd gan yr Iesu Martha, &c.** Dyma sylw tarawiadol a phrydferth am deulu bach Bethania. Pwy na ddymunai gyfranogi o'u braint. Nid gair yn hollol o'r un ystyr a gyfieithir yn "*hoff*" yn yr adnod hon, ag yn adnod 3; *phileô* yw gair yn adnod 3, a golyga *gwres teimlad*, megys cariad mam, chwaer, neu gyfaill, ond *agapaô* yn dynodi cariad pur yn cyfodi o farn *ddiduedd a goleuedig*. Ac y mae'r olaf yn *uwch* ac yn *burach*, ac yn fwy *arhosol* na'r blaenaf, a defnyddir ef am gariad Duw a Christ. Tybir fod y geiriau, **Martha, a'i chwaer, a Lazarus,** wedi eu trefnu yma fel ag i gyfateb i'w gwahanol oedran, ganddechreu gyda'r hynaf, a diweddu gyda'r ieuengaf.

wedi hynny efe a ddywedodd wrth y disgyblion, Awn i Judea drachefn. 8. Y disgyblion a ddywedasant wrtho, Rabbi, yr oedd yr Iuddewon yn awr yn ceisio dy labyddio di; ac a wyt ti yn myned yno drachefn? 9. Yr Iesu a attebodd, Onid oes deuddeg awr o'r dydd? os rhodia neb y dydd, ni thramgwydda, am ei fod yn gweled goleuni y byd hwn: 10. Ond os rhodia neb y nos, efe a dramgwydda, am nad oes goleuni ynddo. 11. Hyn a lefarodd efe: ac wedi hynny efe a ddywedodd wrthynt, Y mae ein cyfaill Lazarus yn huno; ond yr wyf fi yn

---

Adn. 6, 7. Oherwydd rhyw reswm boddhaol yn ei olwg ei hun, ar ol iddo glywed fod ei gyfaill Lazarus yn glaf, ni wnaeth yr Iesu ddim brys i ymweled âg ef, ond fe arhosodd yn Bethania yn Perea, ddau ddydd yn hwy. Ac ar derfyn y "ddau ddiwrnod," efe a ddywedodd wrth y disgyblion, **Awn i Judea drachefn.** Enwa Judea y wlad yn hytrach na Bethania y lle, i arwyddo ei barodrwydd i wynebu peryglon oddiwrth ei elynion pan ar lwybr dyledswydd, ac i roddi prawf ar wroldeb y disgyblion.

Adn. 8. **Rabbi, yr oedd yr Iuddewon yn awr yn ceisio dy labyddio di, &c.** Gwelir oddiwrth yr atebiad hwn o eiddo y disgyblion fel yr oedd y syniad o fyned i Judea drachefn, i ganol y gelynion, yn cyffroi eu hofnau. Pryderent, yn ddiau, am ddiogelwch personol yr Iesu yn ogystal a hwy eu hunain, ac awgrymant nad oedd yn ddoeth a diogel iddynt ddychwelyd i Judea. Dianc oddiwrth gais i'w labyddio wnaeth yr Iesu pan yr enciliodd i Perea, x. 39, 40.

Adn. 9, 10. **Onid oes deuddeg awr o'r dydd? &c.** Amlwg yw, mai ffigwrol yw y geiriau hyn, yn llithro o'r naturiol i'r ysprydol. Rhydd yr Iesu ar ddeall i'w ddisgyblion, ei fod yn anfarwol, er gwaethaf cynddaredd ei elynion, tra yr oedd ei ddydd, ei dymor gwaith ar y ddaear heb ddyfod i'r terfyn. Ni ddaethai ei awr ef eto. Yr oedd *un* awr o'r deuddeg, o leiaf, eto ar ol, er fod y nos yn agos. A thra yr oedd y nos heb ei oddiweddyd, gallai fentro myned i Judea heb gyfarfod â thramgwydd. Ystyr y gair *tramgwyddo* yw *tarro yn erbyn*, megys un wrth rodio yn tarro yn erbyn carreg, neu faen, ac yna yn tripio, ac yn syrthio. Yr egwyddor gyffredinol a orwedd yn y geiriau hyn yw hon: Tra yn rhodio ar lwybr dyledswydd, nis lleddir mohonom, nes cyflawni y gwaith a ymddiriedwyd inni i'w gyflawni.

Adn. 11. **Y mae ein cyfaill Lazarus yn huno; ond yr wyf fi yn myned i'w ddihuno ef.** Mae cwsg, neu hûn, yn hen arwyddlun o farwolaeth; ond "y mae *ffugyr* y pagan wedi ei droi yn *ffaith* gan Gristionogaeth. Enw i *guddio* natur marwolaeth oedd *hûn* i'r pagan; *esboniad* ar ei natur yw *hûn* yn y T.N." (W. E.). Gwelir yn y geiriau hyn, nid yn unig ddarlun tarawiadol o gyflwr Lazarus gynt, ond o gyflwr presenol pob un sydd wedi cael y fraint o huno yng Nghrist; ac megys yr oedd yr Iesu ar y ffordd pan y llefarodd y geiriau hyn i ddihuno ei gyfaill Lazarus, felly y mae ar ei ffordd yn bresenol i ddihuno ei holl wir gyfeillion,

myned i'w ddihuno ef. 12. Yna ei ddisgyblion a ddywedasant wrtho, Arglwydd, os huno y mae, efe a fydd iach. 13. Ond yr Iesu a ddywedasai am ei farwolaeth ef : eithr hwy a dybiasant mai am hûn cwsg yr oedd efe yn dywedyd. 14. Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt yn eglur, Bu farw Lazarus. 15. Ac y mae yn llawen gennyf nad oeddwn i yno, er eich mwyn chwi, fel y credoch ; ond awn atto ef. 16. Yna y dywedodd Thomas, yr hwn a elwir Didymus, wrth ei gyd-ddisgyblion, Awn ninnau hefyd, fel y byddom feirw gyd âg ef. 17. Yna yr Iesu wedi dyfod, a'i cafodd ef wedi bod weithian bedwar

---

Adn. 12, 13. **Arglwydd, os huno y mae, efe a fydd iach, &c.** Gwell: *Os yw ef yn huno, efe a adferir.* Camddeallodd y disgyblion feddwl eu Hathraw. Deallasant ei eiriau yn llythrenol, pan y bwriadai yntau iddynt eu deall yn ffigwrol. O'u deall yn llythrenol, yr oedd sylw y disgyblion yn ddigon synhwyrol, canys y mae cwsg naturiol yn tueddu i adfer y claf.

Adn. 14, 15. **Bu farw Lazarus.** Dywedodd hyn yn eglur, heb alleg, na chymhariaeth, na ffugyr. Pa fodd y gwyddai yr Iesu farw o Lazarus? Y mae rhai ysgrifenwyr, os gwelant gyfeiriad yn yr efengylau yn arwyddo diffyg gwybodaeth yn yr Iesu, a gymerant fantais arno, ac a wnant lawn ddefnydd ohono i geisio profi athrawiaeth yr "Ymwaghad;" ond pan y cyfarfyddir â chyfeiriad at ei wybodaeth goruwch-ddynol, nid ydynt yn barod i gydnabod hyny yn ei ystyr naturiol a llawn. Credwn i'r Iesu wybod yr adeg yma am farwolaeth Lazarus yn rhinwedd ei Hollwybodaeth fel Duw-ddyn. Ni pherthyn inni gysoni gwybodaeth y Crist fel Duw, a'i wybodaeth derfynol fel dyn gyda'u gilydd. Ond hyn sydd yn ddigon sicr, fod y ddwy wybodaeth fel eu gilydd yn dyfod i'r golwg yn eglur yn yr efengylau. Ac na ddylid gwadu y naill na'r llall oherwydd ein hanallu i'w cysoni â'u gilydd. **Ac y mae yn llawen gennyf nad oeddwn i yno, er eich mwyn chwi.** Awgrymir yn eglur, yn y geiriau hyn, na fuasai Lazarus wedi marw, pe buasai yr Iesu gydag ef, ac o ganlyniad na fuasai eisiau ei adgyfodi, ac y buasai hyny drachefn yn profi yn golled i ffydd y disgyblion. Priodol a tharawiadol iawn yw sylw *Bengel*, pan y dywed: "Ni fu neb farw ym mhresenoldeb Tywysog y Bywyd, hyd yn oed y lladron ar y groes, nes iddo Ef farw yng nghyntaf." Er fod ei absenoldeb o Bethania wedi profi yn ddyrnod chwerw i'r chwiorydd, eto er mwyn y disgyblion, er cryfhau eu ffydd yn yr Iesu fel Person Dwyfol, achos o lawenydd ydoedd.

Adn. 16. Dyma'r crybwylliad cyntaf am Thomas yn yr efengyl hon. Enw Hebraeg yw Thomas, ac enw Groeg yw Didymus, yn arwyddo efeilliaid *(twins)*. **Awn ninnau hefyd, fel y byddom feirw gydag ef.** Daw nodwedd meddwl a chalon Thomas i'r golwg yn y geiriau hyn; cariad *cryf* ac ymlyngar, ond ffydd *wan*, ac yn tueddu i gymeryd yr olwg waethaf ar bethau.

diwrnod yn y bedd. 18. A Bethania oedd yn agos i Jerusalem, ynghylch pymtheg ystâd oddi wrthi: 19 A llawer o'r Iuddewon a ddaethant at Martha a Mair, i'w cysuro hwy am eu brawd. 20. Yna Martha, cyn gynted ag y clybu hi fod yr Iesu yn dyfod, a aeth i'w gyfarfod ef: ond Mair a eisteddodd yn y tŷ. 21. Yna y dywedodd Martha wrth yr Iesu, Arglwydd, pe buasit ti yma, ni buasai farw fy mrawd. 22. Eithr mi a wn hefyd yr awrhon, pa bethau bynnag a ddymunech di gan Dduw,

17—32. Amgylchiadau y Wyrth.

Adn. 17. Y cyfrif am fod Lazarus wedi bod bedwar diwrnod yn y bedd erbyn i'r Iesu gyraedd Bethania yw, iddo farw gyda fod yr Iesu wedi clywed ei fod yn glaf, ac i'r Iesu aros yn Perea ddau ddydd ar ol hyny. Cymerodd ddau ddiwrnod arall i wneyd y daith o Perea i Bethania, ger Jerusalem. Y mae hefyd yn dra thebygol, yn ol arfer y Dwyrain, oblegid gwres yr hinsawdd, i Lazarus gael ei gladdu y diwrnod y bu farw.

Adn. 18, 19. Oherwydd agosrwydd Bethania i Jerusalem (ychydig o dan ddwy filldir o ffordd i'r Dwyrain o Jerusalem, ar lethrau Mynydd yr Olewydd), deuai nifer o'u cyfeillion o Jerusalem i gydymdeimlo gyda'r chwiorydd a'u cysuro yn eu profedigaeth. Cesglir oddiwrth hyn fod teulu Bethania yn meddu ar safle barchus mewn cymdeithas.

Adn. 20, 21. Mor nodweddiadol o'r ddwy chwaer yw yr hyn a ddywedir amdanynt yn adn. 20. Cyd. Luc x. 38—42. Martha, fel arfer, yn fywiog a gweithgar yng nghanol ei galar, a Mair wedi ei llethu gan y brofedigaeth yn eistedd yn y tŷ. Mor fyw oedd llygaid a chlust Martha, fel ag y gwybu yn ebrwydd pan gyrhaeddodd yr Iesu i'r gymdogaeth. **Arglwydd, pe buasit ti yma, ni buasai farw fy mrawd.** Y fath ffydd gref oedd gan Martha yn ngallu, cariad, a thosturi yr Iesu! Nid grwgnach na beio y mae, am na fuasai yr Iesu yn bresenol, ond rhoddi mynegiad i'w theimlad siomedig a galarus. Ac y mae geiriau Martha yma yn cyfateb i eiriau yr Iesu ei hun yn adn 15.

Adn. 22. Lled anawdd yw penderfynu beth oedd syniad Martha am safle yr Iesu yng ngraddfa bodolaeth. Credwn mai edrych yr oedd arno fel Prophwyd anfonedig Duw, a'i fod yn cyflawni gwyrthiau yn enw Duw, a thrwyddo Ef. Y mae y gair a ddefnyddia am *ofyn* (aiteô) yn arwyddo yr isradd yn gofyn oddiwrth yr uwchradd, megys *dyn* oddiwrth *Dduw*. Nid yw Crist ei hun byth yn arfer y gair hwn, pan yn gofyn gan ei Dad, ond gair gwahanol *(erotaô)*, yn arwyddo un yn gofyn gan ei gydradd. Nid oedd Martha eto wedi dirnad mawredd ei Berson. Edrychai arno yn unig fel Prophwyd oedd yn uchel yn ffafr Duw, ac y gallai oherwydd hyny fentro gofyn i Dduw am i fywyd Lazarus gael ei adfer yn ol iddo. Clywsai son, yn ddiau, am fywhad merch Jairus a mab y wraig weddw o Nain, a phaham nad allai, o leiaf, led obeithio i'r Iesu allu gwneud rhywbeth cyffelyb i un oedd mor hoff ganddo a Lazarus.

y dyry Duw i ti. 23. Yr Iesu a ddywedodd wrthi, Adgyfoder dy frawd drachefn. 24. Dywedodd Martha wrtho, Myfi a wn yr adgyfodir ef yn yr adgyfodiad, y dydd diweddaf. 25. Yr Iesu a ddywedodd wrthi, Myfi yw yr adgyfodiad, a'r bywyd : yr hwn sydd yn credu ynof fi, er iddo farw, a fydd byw : 26 A phwy bynnag sydd yn fyw, ac yn credu ynof fi, ni bydd marw yn

---

Adn. 23. **Adgyfodir dy frawd drachefn.** Credir i'r geiriau hyn gael eu llefaru yn fwriadol gyda gradd o amhwysedd, er profi ffydd Martha. Yr oedd yma addewid werthfawr, ond yn rhy gyffredinol ac anmhenodol i weinyddu nemawr o gysur i'r chwaer drallodedig ar y pryd. Fel y sylwa Dr. D. Smith, "pe dywedasai yr Iesu wrthi hi : Bydd *fyw* dy frawd drachefn," buasai ei chalon yn y fan yn llamu gan lawenydd. Ond wrth iddo ddywedyd wrthi, "*adgyfodir* dy frawd drachefn, arweiniwyd ei mheddwl at yr adgyfodiad yn y dydd diweddaf, ond yr oedd yr adgyfodiad hwnw yn rhy bell i roddi cysur presenol i'w chalon drallodus.

Adn. 24. Credai Martha, fel yr Iuddewon yn gyffredinol, oddigerth y Saduceaid, yn yr athrawiaeth am yr adgyfodiad cyffredinol yn y dydd diweddaf. Ychydig o gysur allai Martha suguo allan o'r grediniaeth hono, yn ei galar a'i thrallod presenol. Yr oedd mor bell oddiwrthi, a hithau eisiau rhywbeth agosach a chynhesach.

Adn. 25 26. **Myfi yw yr adgyfodiad, a'r bywyd.** Gyda'r geiriau hynod hyn, y mae'r Iesu am gysuro a diddanu meddwl Martha yn wyneb ei thristwch mawr. Ac yn sicr, dyma'r geiriau mwyaf urddasol, mawreddog, ac aruchel, ddaeth o enau dyn erioed! A phe buasai yr Iesu yn ymwybodol nad oedd yn ddim ond dyn yn unig, nis gallwn feddwl y gallasai lefaru y fath eiriau rhyfedd. "Y dyn a'r Duwdod ynddo yn trigo," yn unig allasai roddi mynegiad pwyllog a difrifol i'r fath honniad. I mi, y mae yn hollol anghredadwy y gallasai neb briodoli y fath eiriau i'r Iesu, heb iddo fod wedi gwrando arnynt yn cael eu llefaru ganddo. Dylid pwysleisio y geiriau, "*Myfi yw.*" "*Myfi,*" nid oes angen am imi ofyn, fel dyn gan fy Nhad ; canys y mae nerthoedd yr adgyfodiad a'r bywyd yn ffynonellu yn fy Mherson i fy hun. Mae'r Tad wedi rhoddi i'r Mab fod ganddo fywyd ynddo ei hun. Cyd. v. 21, 26. "*Yw.*" Geilw sylw Martha oddiwrth adgyfodiad y dydd diweddaf i'r presenol, ac fod yr adgyfodiad mewn gwirionedd yn nes ati hi, nag y meddyliasai ei fod. Fel hyn, y mae'r Iesu yn ceisio crynhoi ei mheddwl arno ef ei hun, fel gwrthrych priodol i'w ffydd. Nid ymlyniad wrth wirionedd athrawiaethol, ond ymddiriedaeth mewn Person yw gwir ffydd. Dechreu gyda'r *effaith*, a myned yn mlaen at yr *achos* y mae'r Iesu, pan y dywed "Myfi yw yr adgyfodiad a'r bywyd," am ei fod yn fywyd y mae hefyd yn adgyfodiad. **Yr hwn sydd yn credu ynof fi, er iddo farw, a fydd byw.** Eglurhad pellach ar y geiriau, "Myfi yw yr adgyfodiad a'r bywyd" sydd yma, ac mai ffydd sydd yn uno y dyn marw gyda'r Gwaredwr byw, nes y mae bywyd y naill yn dyfod yn eiddo y llall. Ni chymer yr Iesu sylw o farwolaeth y corph, cysgod yn diflanu ydyw yn ei olwg ef. Gweled y mae Efe yr hyn sydd farwol wedi ei lyncu gan fywyd. "A fydd byw,"

dragywydd. A wyt ti yn credu hyn? 27. Dywedodd hithau wrtho, Ydwyf, Arglwydd : yr fi wyf yn credu mai ti yw y Crist, Mab Duw, yr hwn sydd yn dyfod i'r byd. 28. Ac wedi iddi ddywedyd y pethau hyn, hi a aeth ymaith ac a alwodd yn ddirgel ei chwaer Mair, gan ddywedyd, Fe ddaeth yr Athraw, ac y mae yn galw am danat. 29. Cyn gynted ag y clybu hi, hi a gododd yn ebrwydd, ac a ddaeth atto ef. 30. (A'r Iesu ni ddaethai etto i'r dref, ond yr oedd efe yn y man lle y cyfarfuasai Martha âg ef.) 31. Yna yr Iuddewon y rhai oedd gyd â hi yn y tŷ, ac yn ei chysuro hi, pan welsant Mair yn codi ar frys, ac yn myned allan, a'i canlynasant hi, gan ddywedyd, Y mae hi yn myned at y bedd i wylo yno. 32. Yna Mair, pan ddaeth lle yr oedd yr Iesu, a'i weled ef, a syrthiodd wrth ei draed ef, gan ddywedyd wrtho,

---

trwy angau, ac er gwaethaf angau. **A phwy bynnag sydd yn fyw, ac yn credu ynof fi, ni bydd marw yn dragywydd.** "*Ni bydd marw o gwbl yn dragywydd*" (W. E.), "*shall never, never die*" (W.), "*will never die at all*" (Twentieth Century Testament). Dywed yr Iesu yma yn yr iaith gryfaf a mwyaf pendant na fydd i'r hwn sydd yn credu ynddo ef farw o gwbl byth, na phrofa efe farwolaeth yn ei ystyr lawnaf, chwerwaf, a mwyaf arswydlawn. Er nad oes dim gwahaniaeth ymddanghosiadol rhwng marw yr anghredadyn a marw y credadyn, eto y mae yna yn dufewnol ac yn foesol fyd o wahaniaeth rhyngddynt. Mae yna elfenau o euogrwydd, o anobaith, o arswyd a dychryn, yn marw yr anghredadyn, nas gŵyr y credadyn ddim amdanynt, nes cyfnewid yn hollol nodwedd yr angylchiad ac a'i diddyma mewn gwirionedd iddo ef. **A wyt ti yn credu hyn?** Apel at ei ffydd, ac nid at ei deall.

Adn. 27. **Ydwyf, Arglwydd: yr wyf fi yn credu mai ti yw y Crist, Mab Duw, &c.** Gwell darlleniad, *yr wyf fi wedi credu*, &c. Nid oedd Martha yn proffesu deall yr hyn a ddywedodd Crist wrthi. Nid oedd ganddi ond credu y Person—y Messiah addawsid i'r byd, a derbyn yr athrawiaeth ar sail ei ffydd yn y fath Berson. Diau mai syniad digon amherffaith oedd ganddi am natur a mawredd yr Hwn oedd yn ymddiddan â hi.

Adn. 28—30. Nid oes dim yn y geiriau hyn yn galw am eglurhad. Ar ol i Martha gael y fraint o ymddiddan gyda'r Athraw, a chlywed ganddo eiriau o gysur a gobaith, yr oedd am i Mair ei chwaer gael yr un fraint a hithau. Ac felly gadawodd yr Iesu lle y cyfarfu âg ef, ychydig tuallan i'r pentref. Aeth i fynegi y newydd i'w chwaer yn ddistaw. Ac yn ebrwydd wedi clywed fod eu Cyfaill goreu wedi dyfod i'r gymdogaeth, cododd Mair, ac aeth i'w gyfarfod. Gwelir oddiwrth hyn fod Mair yn rhoddi cymaint o bwys ar bresenoldeb yr Athraw a Martha.

Adn. 31, 32. Yn gweled Mair yn codi ac yn myned allan o'r tŷ, tybiodd yr Iuddewon a ddaeth yno o Jerusalem i gydymdeimlo â'r chwiorydd yn eu trallod

Arglwydd, pe buasit ti yma, ni buasai fy mrawd farw. 33. Yr Iesu gan hynny, pan welodd hi yn wylo, a'r Iuddewon y rhai a ddaethai gyd â hi yn wylo, a riddfanodd yn yr yspryd, ac a gynhyrfwyd ; 34. Ac a ddywedodd, Pa le y dodasoch chwi ef? Hwy a ddywedasant wrtho, Arglwydd, tyred a gwel. 35. Yr Iesu a wylodd. 36. Am

---

mai myned at y bedd i wylo yr ydoedd, ac am hyny y maent yn ei chanlyn gyda'r amcan o geisio ei chysuro. Ond yn lle myned at y bedd i wylo, dyfod i gyfarfod yr Athraw yr oedd, a chan syrthio wrth ei draed, cyfarchodd ef yn yr un geiriau a Martha: "Arglwydd, pe buasit ti yma, ni buasai farw fy mrawd." Dyma oedd uchaf ar eu meddyliau, yr anffawd fod yr Athraw mor bell oddiwrthynt, pan y cymerwyd eu brawd yn glaf. Y fath ffydd gref oedd gan y chwiorydd yn nylanwad presenoldeb yr Iesu! Credent na feiddiasai angau gyffwrdd Lazarus eu brawd yn ei bresenoldeb Ef.

33—44. Cyflawniad y Wyrth.

Adn. 33 **A riddfanodd yn yr yspryd, ac a gynhyrfwyd.** *A gyffrodd yn arnthr yn yr yspryd, ac a gynhyrfodd ei hun* (W. E.). *Ac a gynhyrfodd ei hun* (B.). *Ac a gynhyrfwyd gan ddigllonedd ei yspryd, ac a ymdrallododd* (C.D.) Amlwg yw fod yspryd yr Iesu wedi ei gyffroi i'w waelodion, a hyny nid gan ofid a thrallod, fel Mair a'r Iuddewon oedd oddeutu, ond gan *ddigllonedd*, a gwnaeth yntau ei oreu i lywodraethu ei deimladau, ac i feddiannu ei hun. Rhyfedd meddwl fod un oedd mor dawel a hunanfeddiannol wedi ei gyffroi gymaint. Pa beth a barodd iddo Ef gynhyrfu i'r fath raddau? Tybia rhai mai rhagrith yr Iuddewon yn gwneud y fath alarnadau. Gwir fod wylofain a galaru ar ol y marw yn myned yn eithafol iawn yn mhlith y Dwyreinwyr. Cred eraill, drachefn, mai marwolaeth anianyddol (*physical*), fel y mae yn effaith pechod a'r diafol, gyffrodd ei ddigllonedd. Rhedai meddwl yr Iesu oddiwrth yr effaith at yr achos. Nid digwyddiad anianyddol syml yw marwolaeth yn y Beibl, ond effaith gwaith y diafol a ffrwyth pechod. Tueddir ni at y golygiad hwn fel yr un tebycaf o fod yn gywir. **Ac a gynhyrfwyd.** Gwell: *Ac a ymgynhyrfodd.* Wrth reoli ei deimlad mewnol, effeithiai hyny arno yn allanol, nes cynyrchu dirgryniad ac ysgytiad allanol yn ei gorff.

Adn. 34. **Pa le y dodasoch chwi ef?** Llefarai yr Iesu yma fel pe byddai ei wybodaeth yn derfynol, ac yr oedd felly mewn gwirionedd yn yr achos hwn. Ni alwai yr Iesu ar ei wybodaeth oruwchddynol oedd yn gorwedd yn ei is-ymwybyddiaeth, ond pan y byddai gwir angen am hyny. Nid oedd angen am hyny yn awr, am fod y chwiorydd yn ymyl i'w arwain at y fan y dodasid ef.

Adn. 35 **Yr Iesu a wylodd.** Yn llythrenol, *A gollodd ddagrau*, a wylodd yn ddistaw. Paham yr wylodd? Am ei fod yn ddyn gwirioneddol, ac yn cael effeithio arno gan y wylofain oedd o'i amgylch ar y pryd. Dagrau tosturi gwir gydymdeimlad oeddynt. Yr oedd y wylo hwn yn wahanol i wylofain Crist yn yr olwg ar ddinistr Jerusalem, Luc xix. 41. Wylo allan yn hyglyw a wnaeth y pryd hwnw,

hynny y dywedodd yr Iuddewon, Wele, fel yr oedd yn ei garu ef. 37. Eithr rhai ohonynt a ddywedasant, Oni allasai hwn, yr hwn a agorodd lygaid y dall, beri na buasai hwn farw chwaith? 38. Yna yr Iesu drachefn a riddfanodd ynddo ei hunan, ac a ddaeth at y bedd. Ac ogof oedd, a maen oedd wedi ei ddodi arno. 39. Yr Iesu a ddywedodd, Codwch ymaith y maen. Martha, chwaer yr hwn a fuasai farw, a ddywedodd wrtho, Arglwydd y mae efe weithian yn drewi: herwydd y mae *yn farw* er ys pedwar diwrnod. 40. Yr Iesu a ddywedodd wrthi, Oni ddywedais i ti, pes credit, y cait ti weled

---

ond yma colli dagrau yn ddistaw. Y dyn tyner ei galon, a'r cyfaill cywir, sydd yn cael ei ddatguddio yn y dagrau gloewon a dreiglent i lawr ei wyneb sanctaidd.

Adn. 36 a 37. Yr oedd sylw yr Iuddewon yn yr olwg ar ddagrau yr Iesu yn dd'gon naturiol a phriodol. "*Wele fel yr oedd yn ei garu*," neu yn hytrach yn ei *hoffi* fel cyfaill. Gofynodd rhai ohonynt, **Oni allasai hwn, yr hwn a agorodd lygaid y dall, beri na buasai hwn farw chwaith?** Methwn a chredu mai mewn gwawd y gofynnodd rhai o'r Iuddewon y cwestiwn hwn. Yn hytrach, dynion mewn penbleth oeddynt, yn methu cysoni pethau â'u gilydd. Gwyddent fod yr Iesu ychydig o ddyddiau yn ol wedi rhoddi ei olwg i'r dyn dall (ix.), ac oni allasai yr hwn a roddodd ei olwg i'r dall rwystro i'w gyfaill farw, gan ei fod yn ei garu mor fawr, fel y tystiai ei ddagrau. Y mae y cwestiwn a ofynasant yn ol y Roeg yn gofyn am ateb iad cadarnhaol. *Gallasai*, ac nid ni allasai, yw yr ateb i fod. Mewn dryswch yr oeddynt yn gofyn cwestiwn sydd wedi ymgodi filoedd o weithiau ym meddyliau dynion, yn yr olwg ar weinyddiadau dyrys rhagluniaeth Ddwyfol.

Adn. 38. **A riddfanodd ynddo ei hun.** Cyfeiriad at yr un teimlad o ddigllonedd yn cynhyrfu yr Iesu ag yn adn. 34, ac hefyd yn gynyrch yr un achos. **Ac ogof oedd, a maen oedd wedi ei ddodi arno,** neu yn fwy llythrenol, *a maen a ddodasid yn ei herbyn.* Dyma yr arferiad gyffredin, claddu y marw mewn ogof naturiol neu wneuthuredig, Gen. xxiii. 9, Mat. xxvii. 60.

Adn. 39. **Codwch ymaith y maen.** Nid oedd yr Iesu am ddefnyddio ei allu goruwchddynol i wneyd yr hyn a allasai gallu naturiol a chyffredin ei wneyd. Ac yn awr, y mae anghrediniaeth yn ymdrechu am fuddugoliaeth ar ffydd yng nghalon Martha. Yr oedd y gobaith am adgyfodiad ebrwydd ei brawd gan hyd yn oed yr Iesu yn fwy nag a allasai ei ffydd egwan ei gofleidio. Ac o dan ddylanwad graddau o anghrediniaeth y dywedodd, "Arglwydd, y mae efe weithian yn drewi," &c.

40. **Oni ddywedais i ti, pes credit, y cait ti weled gogoniant Duw?** Nid y meddwl yw fod yr Iesu wedi dyweyd y geiriau hyn o'r blaen yn ffurfiol wrth Martha, ond y maent yn gynwysedig yn adn. 25, 26, os darllennir hwy yn ngoleuni adn. 4.

gogoniant Duw? 41. Yna y codasant y maen lle yr oedd y marw wedi ei osod. A'r Iesu a gododd *ei* olwg i fynu, ac a ddywedodd, Y Tad, yr wyf yn dïolch i ti am i ti wrandaw arnaf. 42. Ac myfi a wyddwn dy fod di yn fy ngwrandaw bob amser: eithr er mwyn y bobl sydd yn sefyll o amgylch, y dywedais, fel y credont mai tydi a'm hanfonaist i. 43. Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a lefodd â llef uchel, Lazarus, tyred allan. 44. A'r hwn a fuasai farw a ddaeth allan, yn rhwym ei draed a'i ddwylaw mewn amdo: a'i wyneb oedd wedi ei rwymo â napcyn. Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Gollyngwch ef yn rhydd, a gadêwch iddo fyned *ymaith*. 45. Yna llawer o'r Iuddewon, y rhai a ddaethent at Mair, ac a welsent y pethau a wnaethai yr Iesu, a gredasant ynddo ef. 46. Eithr rhai o honynt a aethant ymaith at y Phariseaid, ac

---

Adn. 41, 42. Mewn ufudd-dod i orchymyn yr Iesu symudwyd ymaith y maen oddiar yr ogof lle y gorweddai y marw. Gyda gweddi at ei Dad, yn dangos ei fod am weithredu yn gyson â'i ewyllys, ac mewn math o ddibynniaeth arno (cyd. v. 19), y mae am wynebu ar y gwaith oedd o'i flaen ef. **Ac myfi a wyddwn dy fod di yn fy ngwrandaw bob amser, &c.** Gwyddai yr Iesu beth oedd cael gwrandawiad i'w weddïau gan ei Dad lawer gwaith cyn hyn. Erfynia yn awr am wrandawiad er mwyn y bobl oedd o'i amgylch ef, fel y byddai iddynt gael eu hennill i gredu ynddo fel y Messiah anfonedig.

Adn. 43. **Efe a lefodd a llef uchel.** Yn llythrenol, *â llais mawr*. A hyny oddiar deimlad angherddol a hyder buddugoliaethus, ac fel y clywai yr oll oedd yn bresennol. Dyma'r offeryn i roddi bywyd yn y corph marw. **Lazarus, tyred allan.** Yr oedd y fath awdurdod a grym yn ei leferydd nes y mae y marw yn ei fedd yn ufuddhau iddo yn ebrwydd.

Adn. 44. **Gollyngwch ef yn rhydd, a gadewch iddo fyned ymaith.** Nid oedd yr Iesu eto am wneyd dim i Lazarus ag y gallasai y bobl eu hunain ei wneyd iddo ef. Llygad-dyst yn unig fuasai wedi sylwi ar hyn. Mor hynod o syml a naturiol yr edrydd Ioan hanes y wyrth hon. Ni buasai ysgrifennwr yn tynnu ar ei ddychymyg byth yn adrodd dim mor syml a diaddurn. Mae cynildeb yr adroddiad yn cario ar ei wyneb brawf sicr o'i wirionedd. Mor wahanol ydyw i adroddiad y gwyrthiau ffugiol. Nid oes dim *sensational* ynddo, dim yn apêl at chwilfrydedd, dim i foddhau cywreinrwydd neb. Buasai ysgrifenwyr ffugiol yn sicr o ddyweyd rhywbeth am brofiad Lazarus yn ystod y pedwar diwrnod y bu yn y bedd. Ond nid oes dim felly yma.

> "Behold a man raised up by Christ!
> The rest remaineth unrevealed!
> He told it not; or something sealed
> The lips of that Evangelist."—*Tennyson*.

a ddywedasant iddynt y pethau a wnaethai yr Iesu. 47 ¶ Yna yr arch-offeiriaid a'r Phariseaid a gasglasant gynghor, ac a ddywedasant, Pa beth yr ydym ni yn ei wneuthur? canys y mae y dyn yma yn gwneuthur llawer o arwyddion. 48. Os gadawn ni ef fel hyn, pawb a gredant ynddo; ac fe a ddaw y Rhufeiniaid, ac a ddifethant ein lle ni a'n cenedl hefyd. 49. A *rhyw* un o honynt, Caiaphas, yr hwn oedd arch-offeiriad y flwyddyn honno, a ddywedodd wrthynt, Nid ydych chwi yn gwybod dim oll. 50. Nac yn ystyried, mai buddiol yw i ni, farw o un dyn dros y bobl, ac na ddifether yr holl genedl. 51. Hyn ni ddywedodd efe o hono ei hun: eithr, *ac* efe yn arch-offeiriad y flwyddyn honno, efe a brophwydodd y byddai yr Iesu farw dros y genedl; 52. Ac nid dros y genedl yn unig, eithr fel y casglai efe ynghyd yn un blant Duw hefyd y

---

Canlyniadau y Wyrth xi. 45—57.

Adn. 45, 46. Mor naturiol a syml yw yr hanes gan yr Efengylwr. Ym mhlith y llawer luddewon a ddaethant o Jerusalem i gydymdeimlo â Mair a Martha yr oedd yno rai o feddyliau gonest ac agored. Gwelodd y rhai hyn y wyrth hynod a gyflawnodd yr Iesu, a chredasant ynddo Ef. Eithr yr oedd yno eraill, er gweled y wyrth, ac heb allu ei gwadu, sydd yn cymeryd mantais ar hyny i geisio drygu yr Iesu, trwy fyned ymaith at ei elynion y Phariseaid, i ddyweyd wrthynt "y pethau a wnaethai yr Iesu."

Adn. 47, 48. **A gasglasant gynghor,** neu, *a gynullasant gynghor.* Wrth y cyngor hwn y golygir y Sanhedrim. Yr oedd wedi dyfod yn argyfwng mor ddifrifol yn eu plith fel ag y mae gwahanol bleidiau gelyniaethus i'w gilydd, fel yr archoffeiriaid, y rhai oeddynt Saduceaid, yn ymuno â'r Phariseaid i ymgynghori pa beth a wnaent i'r Iesu. **Pa beth yr ydym ni yn ei wneuthur?** Fel pe yn beio eu hunain am fod yn rhy ddiofal yn defnyddio rhyw foddion er gwrthweithio dylanwad a phoblogrwydd cynyddol yr Iesu. *Canys y mae y dyn hwn yn gwneuthur arwyddion lawer* (W. E.). Nid oedd modd gwadu y wyrth, onidê buasent yn sicr o wneyd hyny; ac eto, y mae rhai doethion (?), yn y dyddiau hyn, yn haeru na chyflawnwyd yr un wyrth, na chafodd Lazarus ddim adgyfodiad o gwbl. Dengys adn. 28 eu bod o ddifrif yn sylweddoli y canlyniadau o beidio gwneyd rhywbeth yn ddioed i wrthweithio dylanwad yr Iesu. Nid yn unig credai pawb 'ynddo fel y Messiah, ond arweiniai hyny drachefn, yn ol eu tyb hwy, i'r Rhufeiniaid ddyfod arnynt fel gwrthryfelwyr, a'u hamddifadu o'u teml a'u dinas, ac o'u gwlad, ac hefyd o'r mesur o hunanlywodraeth oedd yn eu meddiant.

Adn. 49—52. "*Cysgod y dyfodol.*" *Prophwydoliaeth Caiaphas.* Bu Caiaphas yn y swydd o archoffeiriad o'r flwyddyn 18 hyd 37 o.c. Er fod Annas wedi ei ddiswyddo, eto edrychid arno, mewn rhyw ystyr yn Archoffeiriad, ac efe oedd

rhai a wasgarasid. 53. Yna o'r dydd hwnnw allan y cydymgynghorasant fel y lladdent ef. 54. Am hynny ni rodiodd yr Iesu mwy yn amlwg ym mysg yr Iuddewon; ond efe a aeth oddi yno i'r wlad yn agos i'r anialwch, i ddinas a elwir Ephraim, ac a arhosodd yno gyd â'i ddisgyblion. 55. ¶ A phasc yr Iuddewon oedd yn agos: a llawer a aethant o'r wlad i fynu i Jerusalem o flaen y pasc, i'w glanhâu eu hunain. 56. Yna y ceisiasant yr Iesu; a dywedasant wrth eu gilydd, fel yr oeddynt yn sefyll yn y deml, Beth a dybygwch chwi, gan na ddaeth efe i'r

---

cadeirydd y Sanhedrim. **Y flwyddyn honno,** sef y flwyddyn hynod a bythgofiadwy y croeshoeliwyd yr Arglwydd Iesu Grist. Honna Caiaphas ei fod yn meddu ar ddeall a gwybodaeth nad oedd ym meddiant y gweddill o aelodau y cyngor. Deallai efe mai *buddiol*, nid *cyfiawn*, oedd i un dyn farw dros y bobl. Hunanol hollol oedd syniad Caiaphas. Credai mai *buddiol*, manteisiol, fyddai lladd yr Iesu; dinystrio y Blaenor, a thrwy hyny dawelu y lluaws, ac adfer trefn, ac felly osgoi yr aflwydd y cyfeirir ato yn adn. 48. *Esboniad yr Efengylwr ar eiriau Caiaphas.* **Hyn ni ddywedodd efe ohono ei hun.** Nid i'w ddoethineb ei hun y priodolir cyngor Caiaphas, offeryn anymwybodol ydoedd yn llaw rhywun uwch. Perthynai y ddawn broffwydol i'r archoffeiriaid o dan yr Hen Oruchwyliaeth, ac er fod y ddawn wedi diflanu gyda dirywiad y swydd, eto y mae Duw yn gwneyd defnydd o archoffeiriad y flwyddyn hono, fel y gwnaeth ddefnydd o Balaam i lefaru gwirionedd ysprydol dwfn. Goruwchlywiai Duw amcan hunanol Caiaphas, er cyraedd ei amcan cariadlawn a gogoneddus ei hun. Defnyddia Caiaphas i ragfynegi marwolaeth aberthol a thrososodol Crist mewn ystyr ddyfnach nag yr oedd yn ymwybodol ohono.

Adn. 53. **Yna o'r dydd hwnnw allan, &c.** Derbyniasant gyngor Caiaphas, a phenderfynasant weithredu yn unol âg ef, trwy geisio cymeryd ymaith einioes yr Iesu.

Adn. 54. Yn gwybod fod yr awdurdodau Iuddewig yn cynllwyn am ei fywyd ef, penderfynodd yr Iesu gilio allan o'u cyraedd, hyd nes y deuai ei awr ef. Ymneillduodd **i'r wlad yn agos i'r anialwch, i ddinas a elwir Ephraim.** Ymddengys yn debygol mai yr un ddinas yw Ephraim ag Ophrah (1 Sam. xiii. 17). Saif ar fryn, o'r hwn y ceir golwg ar ddyffryn yr Iorddonen, a'r Mor Marw, ac yr oedd bedair milldir yng nghyfeiriad y gogledd-ddwyrain o Bethel, ac oddeutu pedair milldir ar ddeg o Jerusalem.

Adn. 55. **I'w glanhau eu hunain,** neu *i buro eu hunain*. Arferai llawer a myned yn gynar i Jerusalem i lanhau neu buro eu hunain mewn ystyr seremoniol, ac felly i fod yn addas i gadw Gwyl y Pasg (Actau xxi. 24; Ioan xviii. 28). Dyma y Pasg olaf i'r Iesu.

Adn. 56, 57. Gwelir fod dwy blaid wahanol, ac oddiar amcanion gwahanol, yn holi a ddaethai yr Iesu i'r wyl. **Beth a dybygwch chwi, gan na ddaeth**

wyl? 57. A'r arch-offeiriaid a'r Phariseaid a roisant orchymyn, os gwyddai neb pa le yr oedd efe, ar fynegi o hono, fel y gallent ei ddal ef.

---

efe i'r wyl? Gwell: *Beth dybygwch chwi? Ai ni ddaw efe o gwbl i'r wyl?*" (W.E.). Nid ydys i gasglu mai oddiar elyniaeth yr ymholai y bobl amdano, ond yn hytrach oddiar rhyw gywreinrwydd am ei weled a'i glywed. Ond am yr Archoffeiriaid a'r Phariseaid, nid oedd modd camddeall eu hamcan hwy, canys rhoddasant, nid gorchymyn, ond *gorchmynion* (hwn yw y darlleniad goreu), fel os deuai neb i wybod pa le y mae efe, y rhoddai hysbysrwydd, fel y gallent ei ddal ef. Defnyddient bob moddion er dod o hyd iddo, a'i ddal, fel y mae *detectives* y dyddiau hyn yn ceisio dyfod o hyd, a dal, rhyw ddrwgweithredwr hynod.

Yn ngoleuni hanes y bennod hon, gwelir fel yr oedd y wyrth ryfeddol o adgyfodi Lazarus o'r bedd wedi prysuro yr argyfwng yn hanes yr Iesu, nes y mae y Sanhedrim yn penderfynu nad oedd dim amser i'w golli, ond fod yn rhaid dwyn oddiamgylch ei farwolaeth yn ddioed. Gwelir hefyd mor naturiol y cymer y wyrth hon ei lle yn yr hanes, ac fel y mae wedi ei chydweu âg ef. Prawf sicr o ddilysrwydd yr hanes am gyflawniad y wyrth.

PENNOD XII.

YNA yr Iesu, chwe diwrnod cyn y pasc, a ddaeth i Bethania, lle yr oedd Lazarus, yr hwn a fuasai farw, yr hwn a godasai efe o feirw. 2. *Ac* yno y gwnaethant iddo swpper; a Martha oedd yn gwasanaethu: a Lazarus oedd un o'r rhai a eisteddent gyd âg ef. 3. Yna y cymmerth Mair bwys o ennaint nard gwlyb gwerthfawr, ac a enneiniodd draed yr Iesu, ac a sychodd ei draed ef

---

1—11. Croesaw i'r Iesu yn Bethania.

Yn y bennod hon dygir ni i olwg dyddiau olaf yr Iesu. Disgynai y Pasg ar Nisan 14eg. Cyrhaeddodd yr Iesu Bethania ar yr 8fed, prydnawn ddydd Gwener. Ac felly treuliodd y Sabboth olaf cyn iddo ddioddef yn Bethania. Wythnos hynod a chysegredig iawn oedd y chwe diwrnod cyn y Pasc bythgofiadwy hwnw. Gelwir y dyddiau sydd yn cyfateb iddo gan yr Eglwys yn "*Holy Week*," ac yn "*Passion Week*."

Adn. 1. **Yna yr Iesu, chwe diwrnod cyn y Pasc, &c.** Ar ei ffordd o Perea i Jerusalem, i ddioddef a marw, galwodd yr Iesu yn Bethania i edrych am ei gyfeillion hoff, Mair a Martha, a Lazarus eu brawd.

Adn. 2. **Ac yno y gwnaethant iddo swpper.** Credir i'r swper gymeryd lle y prydnawn y cyrhaeddodd yr Iesu Bethania, sef prydnawn Sabboth. "Sul y Blodau" sydd yn cyfateb iddo yn ein dyddiau ni. **A Martha oedd yn gwasanaethu: a Lazarus oedd un o'r rhai a eisteddent wrth y bwrdd.** Cyfyd y cwestiwn yma, pwy oedd wedi rhoddi y wledd neu y swper hwn? Oddiwrth y modd y crybwylla yr efengylwr yma am Martha a Lazarus, gellir casglu mai nid yn eu tŷ eu hunain y rhoddwyd y swper, ond mewn rhyw dŷ arall, ac fod Martha yno yn gweini, a Lazarus yno ym mhlith y gwahoddedigion. Tueddir fi i gydweled â nifer luosog o esbonwyr diweddar, mai y pentrefwyr, trwy danysgrifiadau, oedd yn rhoddi y wledd hon i'r Iesu, fel arwydd o'u parch iddo, ac fel un oedd mor ddiweddar wedi adgyfodi eu cymydog Lazarus o'i fedd. Tybir i'r swper gael ei baratoi yn nhŷ Simon, am ei fod yn helaethach na'r tai eraill oedd yn y pentref.

Adn. 3. **Yna y cymmerth Mair bwys o ennaint.** Mae pob un o'r efengylwyr yn crybwyll am yr Iesu yn cael ei eneinio (Marc xiv. 6—13; Mathew xxvi. 6—13; Luc vii. 36—50). Ai at yr un eneiniad y cyfeiria y pedwar efengylwr, ai ynte at ddau gwahanol? Yn sicr, at ddau gwahanol. Nid yr un un yw y bechadures yn nhŷ Simon, a Mair o Bethania. Beth bynnag yw y tebygrwydd sydd rhwng y ddau hanes, y mae y gwahaniaeth rhyngddynt yn fwy hynod ac anwadadwy. Cymerodd yr eneinio y sonia Luc amdano le yn *Galilea*, ac yn gynnar yn nhymor gweinidogaeth yr Iesu; tra y cymerodd yn eneinio dan sylw le yn *Judea*, ar ddiwedd tymor ei weinidogaeth. Gwir y dywed Mathew a Marc mai yn

â'i gwallt: a'r ty a lanwyd gan arogl yr ennaint. 4. Am hynny y dywedodd un o'i ddisgyblion ef, Judas Iscariot, *mab* Simon, yr hwn oedd ar fedr ei fradychu ef. 5. Paham na werthwyd yr ennaint hwn er tri chàn ceiniog, a'i roddi i'r tlodion? 6. *Eithr* hyn a ddywedodd efe, nid o herwydd bod arno ofal dros y tlodion; ond am ei fod yn lleidr, a bod ganddo y pwrs, a'i fod yn dwyn yr hyn a fwrid ynddo. 7. A'r Iesu a ddywedodd, Gâd iddi! erbyn dydd fy nghladdedigaeth y cadwodd hi hwn.

---

nhŷ Simon y gwahanglwyfus, a Luc mai yn nhŷ Simon y Pharisead, y cymerodd yr amgylchiad le; ond nid oes dim sicrwydd oddiwrth yr enw Simon, mai at yr un amgylchiad y cyfeirir, canys yr oedd yr enw Simon yn un pur gyffredin ym mhlith yr Iuddewon. Llawer o ddyfalu sydd pa berthynas oedd rhwng Simon â theulu Bethania. A oedd ef yn dad i Mair, Martha a Lazarus, ai ynte gwr i Martha ydoedd? Rhaid boddloni bellach, heb un gradd o sicrwydd ar y mater. Mae'n deilwng o sylw, tra nad yw Mathew a Marc yn enwi teulu Bethania o gwbl, nad yw Ioan yn son dim am Simon. Nid anhebygol fod Lazarus a'i chwiorydd yn fyw, pan y casglwyd yng nghyd ddefnyddiau cyntaf Efengylau Marc a Mathew, ac y peidiwyd a son amdanynt rhag cynhyrfu llid a gelyniaeth yr Iuddewon tuag atynt, ac erbyn i Ioan ysgrifennu ei efengyl fod Lazarus a'i chwiorydd wedi marw, ac oherwydd hyny y gallasai gyfeirio attynt wrth eu henwau. Nid oedd dim hynodrwydd yn Simon yn galw ar i Ioan goffhau ei enw. Amlwg yw mai Mair sydd yn cael y lle canolog a mwyaf amlwg yn y darlun. Hi ddangosodd ei chariad tuag at yr Iesu, a'i pharch neullduol iddo ef. trwy brynu **pwys o ennaint nard gwlyb gwerthfawr.** Enw o'r iaith Sanscrit yw *nard*, yn dynodi pen neu ddail planhigyn Indaidd, sudd yr hwn sydd yn hynod o beraroglus. Camgyfeithiad yw y gair *gwlyb*. *Pur*. yn yr ystyr o ddigymysg (*genuine*) ddylai y gair fod. Yr oedd yn hynod werthfawr, ond nid yn rhy werthfawr yng ngolwg Mair i anrhydeddu yr Iesu trwy ei dywallt ar ei ben, yn ol yr efengylwyr eraill, ond ar ei draed yn ol Ioan. **A'r ty a lanwyd gan arogl yr ennaint.** Sylw naturiol gan un oedd yn bresennol, ac yn dyst o'r weithred.

Adn. 4, 5. Yr oedd barn Judas am y weithred yn wahanol iawn i farn yr Iesu amdani, *gwastraff* welai Judas, ond *cariad* welai yr Iesu. Nid gofal am y tlodion gymhellai Judas i wneyd y sylw anfoesgar ac angharedig. **Dri chan ceiniog,** neu *denarion*, cyfwerth ag oddeutu deg gini o'n harian ni.

Adn. 6. Dyma'r gwir eglurhad am wrthwynebiad Judas i'r draul fawr o eiddo Mair wrth eneinio y Gwaredwr. Gresynnu yr oedd na fuasai yr arian yn y pwrs, ac felly yn gyfleus iddo ladratta yr oll, neu rhyw gymaint ohonynt.

Add. 7. **Gad iddi,** neu *goddef iddi. Do not blame her* (W.). **Erbyn dydd fy nghladdedigaeth y cadwodd hi hwn.** Yn ol rhai o'r llawysgrifau goreu darllennir: "*fel y cadwo hi ef erbyn dydd y paratoad i'm claddedigaeth* (W.E.). *Allow her to keep it for this time of preparation for burial* (W.). Tybia rhai

8. Canys y mae gennych y tlodion gyd â chwi bob amser; eithr myfi nid oes gennych bob amser. 9. Gwybu gan hynny dyrfa fawr o'r Iuddewon ei fod ef yno: a hwy a ddaethant, nid er mwyn yr Iesu yn unig, ond fel y gwelent Lazarus hefyd, yr hwn a godasai efe o feirw. 10. ¶ Eithr yr arch-offeiriaid a ymgynghorasant fel y lladdent Lazarus hefyd: 11. Oblegid llawer o'r Iuddewon a aethant ymaith o'i herwydd ef, ac gredasant yn yr Iesu. 12. ¶ Trannoeth, tyrfa fawr yr hon a ddaethai i'r wyl, pan glywsant fod yr Iesu yn dyfod i Jerusalem. 13. A gymmerasant gangau o'r palmwydd, ac a aethant allan i gyfarfod âg ef, ac a lefasant, Hosanna: Bendigedig *yw*

---

esbonwyr mai meddwl yr Iesu oedd: Gad iddi gadw y gweddill o'r enaint sydd yn y blwch heb ei dywallt allan, a'i ddefnyddio i berarogli fy nghorff ar ddydd fy nghladdedigaeth. Tybia eraill mai rhyw awgrym cyfriniol ac arwyddluniol sydd yn y geiriau, fel pe dywedasai yr Iesu; peidiwch a gweled bai arni, bydd fy nghorph wedi ei gladdu cyn pen yr wythnos, ac y mae Mair, yn anymwybodol iddi ei hun, trwy y weithred hon, wedi cymeryd rhan arbenig o baratoi fy nghorph erbyn ei gladdedigaeth. Hollol gyson yw hyn â geiriau Marc xiv. 8, "Hi a achubodd y blaen i eneinio fy nghorff erbyn y gladdedigaeth."

Adn. 8. Fel pe dywedasai yr Iesu: cewch ddigon o gyfleusterau eto i ddangos eich caredigrwydd a'ch haelioni tuag at y tlodion, "canys y maent hwy gyda chwi bob amser." Ond os ydych am ddangos parch i mi, dyma eich amser i wneud hyny, "eithr myfi nid oes gennych bob amser."

Adn. 9—11. Daeth y lluaws, y bobl gyffredin, i ddeall fod yr Iesu wedi cyraedd Bethania, ac yn ol Ioan, daeth y bobl yn rhifedi lluosog i Bethania, nid er mwyn gweled yr Iesu, ond yn bennaf er mwyn gweled Lazarus. Yr un yw chwilfrydedd dynion ym mhob oes, awydd am weled rhyfeddodau. Eithr os mai math o gywreinrwydd oedd yn ysgogi y bobl gyffredin, yr oedd teimladau pur wahanol yn cynhyrfu yr arweinwyr Iuddewig yn Jerusalem. Yr oedd Lazarus erbyn hyn wedi dyfod yn wrthrych gelyniaeth yr awdurdodau Iuddewig, ac yr oeddynt yn cynllunio i'w ddinistrio am iddo fod yn ddim ond achlysur i ddyrchafu clod yr Iesu, ac i hyny drachefn arwain rhai o'r Iuddewon i gredu ynddo ef. Tra y byddai Lazarus yn byw yr oedd yn dyst amlwg ac anwrthwynebol i'r hyn yr honnai yr Iesu ei fod. Yr oedd cofgolofn mor hynod i allu Dwyfol yr Iesu yn annioddefol yng ngolwg yr arch-offeiriaid, ac am hyny ceisient ei thynnu i lawr.

12—19. Ei fynediad gorfoleddus i Jerusalem.

Adn. 12, 13. **Trannoeth**—dydd ar ol y swper yn Bethania, cyrhaeddodd y si y dyrfa fod yr Iesu yn bwriadu dyfod i Jerusalem y diwrnod hwnw. Ac am hyny penderfynasant fyned allan i'w groesawu. Rhydd pob un o'r efengylwyr yr hanes hwn, gydag ychydig o amrywiaeth (Math. xxi. 1—11; Marc xi. 1—11; Luc xix.

Brenhin Israel, yr hwn sydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd. 14. A'r Iesu wedi cael asynyn, a eisteddodd arno; megis y mae yn ysgrifenedig. 15. Nac ofna, ferch Sïon: wele, y mae dy Frenhin yn dyfod, yn eistedd ar ebol asyn. 16. Y pethau hyn ni wybu ei ddisgyblion ef ar y cyntaf: eithr pan ogoneddwyd yr Iesu, yna y cofiasant fod y pethau hyn yn ysgrifenedig am dano, ac iddynt wneuthur hyn iddo. 17. Tystiolaethodd gan hynny y dyrfa, yr hon oedd gyd âg ef pan alwodd efe Lazarus o'r bedd, a'i godi ef o feirw. 18. Am hyn y daeth y dyrfa hefyd i gyfarfod âg ef, am glywed o honynt iddo wneuthur yr arwydd hon. 19. Y Phari-

---

29—44). **Bendigedig yw Brenhin Israel, yr hwn sydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd.** Diau fod y geiriau hyn yn ngenau y dyrfa yn arwyddo eu bod yn edrych arno, ac yn ei gydnabod fel y Messiah addawedig. Mae y geiriau yn ddyfynedig o'r Salm cxviii. 25, 26.

Adn. 14, 15. Y mae Ioan yn ddistaw am y modd y caed yr asyn, tra y mae yr efengylwyr eraill yn egluro hyny (Marc xi. 2—7; Luc xix. 30—34). **Nac ofna, ferch Sion, &c.** Trwy farchogaeth fel hyn i mewn i'r ddinas, derbynia yr Iesu y parch a'r anrhydedd a delir iddo fel y Messiah. Ac felly cyflawnir prophwydoliaeth Zecharia ix. 9. Rhoddir mwy o barch i'r asyn yn y Dwyrain nag yn y Gorllewin. Edrychir arno fel arwyddlun o heddwch yn wrthgyferbyniol i'r march sydd yn arwyddlun o ryfel. Ac felly priodol iawn oedd i Dywysog tangnefedd gyhoeddi ei ddyfodiad trwy farchogaeth ar ebol asyn.

Adn. 16. Dengys y geiriau hyn beth oedd agwedd meddwl y disgyblion ar yr amgylchiad dyddorol a hynod hwn. Methent ddeall y seremoni, na fod yr un brophwydoliaeth arbenig yn cael ei chyflawni ar y pryd. Cofiai Ioan yn bur dda beth oedd agwedd eu meddyliau ar y pryd, a pha bryd y torodd goleuni newydd ar eu meddyliau, ac y daethant i ddeall pethau yn gywir. **Pan ogoneddwyd yr Iesu.** Dyma un o ymadroddion arbenig Ioan, yn dynodi yr hyn a gymerodd le yn adgyfodiad yr Iesu a'i esgyniad i'r nefoedd, yn cyfateb i'r geiriau "am fy mod yn myned at fy Nhad," Pen. xvi. 10. Yr oedd gogoneddiad yr Iesu yn taflu goleuni newydd a chryf ar hanes ei fywyd, ac felly, yn galluogi y disgyblion i synio yn gywir am wahanol amgylchiadau, na ddeallent mohonynt cyn hyny.

Adn. 17, 18. Cyfeirir yn yr adnodau hyn at ddwy dyrfa wahanol, un yn dyfod gyda'r Iesu o Bethania, a'r llall yn dyfod i'w gyfarfod o Jerusalem, a bod y gyntaf yn tystiolaethu i'r olaf. Yr oedd y dyrfa o Jerusalem wedi clywed yr hanes rhyfedd am adgyfodiad Lazarus, a dyma oedd wedi ei chynhyrfu i fyned allan i gyfarfod yr Iesu, ac i'w groesawu mor frwdfrydig. Ond erbyn cyfarfod yr Iesu, a'r dyrfa oedd gydag ef, a chlywed hono yn sicrhau fod yr hanes am adgyfodiad Lazarus yn ddigon gwir, y mae eu brwdfrydedd yn codi yn uchel iawn,

seaid gan hynny a ddywedasant yn eu plith eu hunain, A welwch chwi nad ydych yn tycio dim? wele, fe aeth y byd ar ei ol ef. ¶ 20. Ac yr oedd rhai Groegiaid ym mhlith y rhai a ddaethent i fynu i addoli ar yr wyl: 21. Y rhai hyn gan hynny a ddaethant at Phylip, yr hwn oedd o Bethsaida yn Galilea, ac a ddymunasant arno, gan ddywedyd, Syr, ni a ewyllysiem weled yr Iesu. 22. Phylip a ddaeth, ac a ddywedodd i Andreas; a thrachefn Andreas a Phylip a ddywedasant i'r Iesu. 23. ¶ A'r Iesu

---

Adn. 19 Os oedd y tyrfaoedd oedd gyda'r Iesu yn llawn brwdfrydedd a gorfoledd, yr oedd yr awdurdodau yn Jerusalem, yn cynnwys y Phariseaid, yn llawn digofaint ac anobaith. **A welwch chwi nad ydych yn tycio dim?** Ystyr tycio ydyw *llwyddo, ffynnu, ennill tir.* Fel pe y dywedent, "gwelwch mor aflwyddianus ac ofer yw eich holl ymdrechion yn erbyn yr Iesu hwn." Yn lle ei rwystro i enill tir, y mae yn cario pob peth o'i flaen. "Wele, fe aeth y byd ymaith ar ei ol!"

20—36. Ymchwiliad y Groegiaid. Anerchiad Cyhoeddus Olaf yr Iesu am Fywyd a Goleuni.

Adn. 20. **Ac yr oedd rhai Groegiaid, &c.** Gwell: "Yn mhlith y rhai a *arferent* fyned i fyny i addoli ar yr wyl" (W. E.). Groegiaid gwirioneddol oeddynt, ac nid Iuddewon yn siarad Groeg. Tebygol iawn eu bod yn Broselytiaid y Porth. Cyfeirir at yr un dosbarth yn pen. vii. 35 a x. 16. Yr oeddynt, yn sicr, yn flaenffrwyth difrifol y "byd" y dywedai y Phariseaid oedd wedi myned ar ol yr Iesu.

Adn. 21, 22. **At Phylip.** Diau iddynt fyned at Phylip am yr adwaenent ef, am ei fod, fe ddichon, yn dyfod o'r un gymdogaeth, os nad o'r un dref, a hwynt. Yr oedd nifer lled luosog o Roegwyr yn Bethsaida a'r gymdogaeth, cartref Phylip. Gelwid y wlad hono yn Galilea y Cenhedloedd. **Syr;** llythrenol, *Arglwydd.* Parchent Phylip oherwydd ei gysylltiad â'r gwr mawr ac enwog y dymunent gael eu cyflwyno i'w sylw. **Ni a ewyllysiem weled yr Iesu.** Galwent ef yn Iesu yn hytrach na Christ—enw personol, yn hytrach nag enw swyddol. Tebygol na wyddent nemawr i ddim amdano fel y Messiah Iuddewig. Wrth weled yr Iesu y golygir, nid cael rhyw drem arno wrth fyned heibio, ond eu dwyn i'w bresenoldeb a'u cyflwyno i'w sylw—cael *interview* âg ef. Oherwydd rhyw reswm neu gilydd, petrusai Phylip ymgymeryd â'r gwaith ei hunan o'u cyflwyno i'r Iesu, ac am hyny ymgynghora âg Andreas ei gyd-drefwr. Cysylltir y ddau yn fynych â'u gilydd yn yr Efengylau (pen. i. 44, vi, 7, 8, Marc iii. 18). Y mae y ddau gyda'u gilydd yn magu digon o wroldeb i gyflwyno y Groegiaid i sylw eu Hathraw, er fod hyny yn ymddangos yn anghyson â'i ddatganiad nad oedd wedi ei anfon "ond at ddefaid colledig tŷ Israel" (Math. xv. 24).

Ad. 23. **Daeth yr awr y gogonedder Mab y dyn.** Gwelai yr

a attebodd iddynt, gan ddywedyd, Daeth yr awr y gogonedder Mab y dyn. 24. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Oni syrth y gronyn gwenith i'r ddaear, a marw, hwnnw a erys yn unig; eithr os bydd efe marw, efe a ddwg ffrwyth lawer. 25. Yr hwn sydd yn caru ei einioes, a'i cyll hi; a'r hwn sydd yn casâu ei einioes yn y byd hwn, a'i ceidw hi i fywyd tragwyddol. 26. Os gwasanaetha neb fi, dilyned fi; a lle yr wyf fi, yno y bydd fy ngweinidog hefyd: ac os gwasanaetha neb fi, y Tad a'i han-

---

Iesu, yng ngwaith y Groegiaid hyn yn ewyllysio ei weled, arwydd fod awr ei ogoneddiad gerllaw. Gwelai flaenffrwyth y cynheuaf mawr o eneidiau a roddid iddo Ef fel ffrwyth ei waith cyfryngol. Edrychai ar y Groes, oedd eisoes yn taflu ei chysgod arno, fel moddion ei ddyrchafiad a'i ogoneddiad. Ar y Groes yr oedd i gael gorsedd, oddiar yr hon yr oedd i ennill llywodraeth dros y byd. Cael ei ogoneddu yn y gwaith graslawn o gadw pechaduriaid oedd y gogoniant uchaf allasai yr Iesu ei ddymuno.

Adn. 24. **Oni syrth y gronyn gwenith i'r ddaear, a marw, &c.** Cyfaddasa yr Iesu ei ddysgeidiaeth at gyflwr meddwl ei wrandawyr. A chan mai wrth Roegwyr y llefara yn bennaf, nid yw yn myned at ddefodau yr hen oruchwyliaeth i geisio ffugr i egluro y gwirionedd a ddysga, ond at drefn natur. Deallai y Groegwr yr eglureb hon cystal a neb. Dysgu yr angenrheidrwydd am ei farwolaeth er achub y byd y mae'r Iesu yma. Hunanaberth yn terfynu mewn marwolaeth yn unig allasai fod yn foddion iachawdwrlaeth i ddynion pechadurus. Megis yr oedd marwolaeth y gronyn gwenith yn anhebgorol angenrheidiol er dadblygu y bywyd oedd ynddo, a pheri iddo ffrwytho, felly hefyd yr oedd marwolaeth hunanaberthol yr Iesu yn angenrheidiol er cynyrchu y cynheuaf ffrwythlon o ddynion achubedig yn mhlith Iuddewon a Chenhedloedd.

Adn. 25. **Yr hwn sydd yn caru ei einioes, a'i cyll hi, &c.** Cymhwysa yr Iesu yn y geiriau hyn yr un ddeddf o fywyd trwy farwolaeth, o hunan-sylweddoliad trwy hunan-aberth, at fywyd ac ymddygiadau dynion yn gyffredinol. Credaf y bydd sylwi ar y cyfieithiadau a ganlyn yn gymorth i'r darllenwyr ddeall meddwl yr Iesu yn well: "*Yr hwn sydd yn caru ei fywyd sydd yn ei golli, a'r hwn sydd yn casháu ei fywyd yn y byd hwn a'i diogela i fywyd tragwyddol*" (W.E.). "*He who holds his life dear, is destroying it; and he who makes his life of no account in this world shall keep it to the life of the ages*" (W.). Dysgir fod pob ffurf o hunanaeth (*selfishness*) yn ddinistr. Sylwer mai yr einioes sydd yn cael ei garu ydyw yr enaid (*psuchê*), yn wrthgyferbyniol i'r yspryd (*pneuma*). Wrth ddal gafael mewn bywyd yn ei ffurf israddol, collir ef yn ei ffurf uwchraddol. Bywyd israddol yw yr "einioes" yma, yn cynwys bywyd y corph yn ei fwyniant, a bywyd yr enaid yn ei bleserau. Ond pan y mae dyn yn aberthu y bywyd hwn, diogela iddo ei hun fywyd uwch, llawnach, cyfoethocach, a hwy ei barhad, "a'i ceidw hi i fywyd tragwyddol."

Adn. 26. **Os gwasanaetha neb fi, dilyned fi: a lle yr wyf fi, yno y bydd fy ngweinidog hefyd.** Cymhwysiad o'r un egwyddor

rhydedda ef. 27. Yr awrhon y cynhyrfwyd fy enaid : a pha beth a ddywedaf ? *O* Dad, gwared fi allan o'r awr hon : eithr o herwydd hyn y deuthum i'r awr hon. 28. *O* Dad, gogonedda dy enw. Yna y daeth llef o'r nef, Mi

---

sydd yn y geiriau hyn ag yn yr adnodau blaenorol, ond ei bod yn cymeryd y ffurf o wasanaethu a dilyn yr Iesu. Ar hyd lwybr hunanaberthiad y teithiodd yr Iesu yn ffyddlon hyd y diwedd, ac ar hyd yr un llwybr y gellir ei wasanaethu a'i ddilyn ef. Gwell *gwas* na gweinidog yma. Cyfieithiad yw y gair "gweinidog" o'r un gair ag y tardd *diacon* ohono, a golyga un yn gwasanaethu yn wirfoddol a ffyddlon, yn wrthgyferbyniol i gaethwas. Gall y geiriau "lle yr wyf fi" olygu cymundeb presennol yr Iesu â'i Dad, neu yn rhagddirnadol *(proleptical)*, gall gyfeirio at ei ddychweliad at y Tad (xiv. 3); neu ynte gall gynnwys y ddau ystyr, ac felly hefyd yr adran sydd yn dilyn. **Os gwasanaetha neb fi, y Tad a'i hanrhydedda ef,** a'i hanrhydedda yn y presennol a'r dyfodol gyda'i Fab gogoneddedig (adn. 23, xvii. 22).

Adn. 27. **Yr awrhon y cynhyrfwyd fy enaid.** Yr un gair yw enaid yma ac yn adn. 25, a golyga fel yno eisteddle y teimladau naturiol. Profa fod yr Iesu yn ddyn gwirioneddol a pherffaith. Amhosibl deall yr ymgynhyrfiad hwn o eiddo yr Iesu, os nad oedd ei farw yn wahanol iawn i farw merthyr. Rhaid fod rhyw elfennau arswydlawn yn ei farw ef, nad oedd ym marw yr un merthyr. Nid oes dim a rydd gyfrif am hyn, ond ei fod yn marw dros ac yn lle pechaduriaid, fel iawn i Dduw. **A pha beth a ddywedaf? O Dad, gwared fi allan o'r awr hon.** Nis gallaf gydolygu â'r esbonwyr sydd yn rhoddi ffurf ofyniadol i'r frawddeg olaf hon. Yr oedd yr Iesu mewn cyfyng gyngor. Meddianwyd ef gan y fath arswyd yn y rhagolwg ar ei ddioddefaint, fel ag yr oedd yn naturiol yn cilio yn ol oddiwrtho. Dymunai ar y foment eu hosgoi. Teimlad cyffelyb i'r hwn a'i goddiweddodd ef yn yr ardd. Cyd. Math. xxvi. 39; Luc xxii. 42; Heb. v. 7. Golyga y geiriau yn ol y cyfieithiad Cymreig ddymuniad am gael ei waredu nid *oddiwrth* yr awr hon, ond *allan ohoni*. "Yr oedd yn benderfynol i fyned ym mlaen; yr oedd yn barod yng nghanol afon ddofn ei gystudd chwerw; nid oedd am *droi yn ol*, ond cyraedd yr *ochr arall* mor fuan ag oedd modd" (W.E.). **Eithr oherwydd hyn y deuthum i'r awr hon,** sef er mwyn gogoneddu enw ei Dad trwy ei ufudd-dod "hyd angeu, ïe, angeu y groes."

Adn. 28. **O Dad, gogonedda dy enw.** Pa beth bynnag oedd yn angenrheidiol er gogoneddu enw ei Dad, yr oedd yr Iesu yn hollol foddlon i'w wneud a'i ddioddef. Dyma oedd nod terfynol yr oll a wnaeth ac a ddioddefodd. Cyd. Phil. ii. 6—11. **Yna y daeth llef o'r nef, Mi a'i gogoneddais, &c.** Clywyd llais gwirioneddol o'r nef, cyffelyb i'r rhai a glywyd ar adeg bedydd yr Iesu, a'i weddnewidiad (Math. iii. 17; xvii. 5). Gogoneddodd y Tad ei enw ym mywyd gorphenol yr Iesu yn ei wyrthiau, ei fedydd, a'i weddnewidiad, &c., ac yr oedd i gael ei ogoneddu drachefn yn ufudd-dod a dioddefiadau ei anwyl Fab, a'u canlyniadau sicr a gogoneddus.

a'*i* gogoneddais ac a'*i* gogoneddaf drachefn. 29. Y dyrfa gan hynny, yr hon oedd yn sefyll ac yn clywed, a ddywedodd mai taran oedd: eraill a ddywedasant, Angel a lefarodd wrtho. 30. Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd, Nid o'm hachos i y bu y llef hon, ond o'ch achos chwi. 31. Yn awr y mae barn y byd hwn: yn awr y bwrir allan dywysog y byd hwn. 32. A minnau os dyrchefir fi oddi ar y ddaear, a dynnaf bawb attaf fy hun. 33. (*A* hyn a ddywedodd efe, gan arwyddo o ba angau y byddai farw.) 34. Y dyrfa a attebodd iddo, Ni a glywsom o'r ddeddf, fod Crist yn aros yn dragwyddol:

Adn. 29, 30. Amlwg yw mai nid yr un argraph a gafodd y llais o'r nef ar yr oll a'i clywodd. Meddyliai rhai mai rhywbeth naturiol ydoedd fel swn taran, eraill yn meddwl mai rhywbeth goruwchnaturiol ydoedd, ac yn ei briodoli i leferydd angel. Eithr dywed yr Iesu mai nid er ei fwyn ef y bu y llef. Deallai yr Iesu ewyllys ei Dad yn rhy dda. Er mwyn y disgyblion y bu y llef, er eu paratoi i fyned trwy y prawf caled fyddai ar eu ffydd hwynt. Clywsant weddi y Mab ac atebiad y Tad iddi. Cyd. xi. 41, 42.

Adn. 31. **Yn awr y mae barn y byd hwn.** "Yn awr y mae barnedigaeth y byd hwn" (W.E.), neu "y farn ar y byd hwn" (C.S.D.). Gwyddai yr Iesu y byddai i'w farw droi yn farn ar y byd. Yn wir, yr oedd yn dymor barn arno eisoes. Yr oedd y gwahanu yn barod yn cymeryd lle i olwg yr Iesu. Y mae y groes yn gondemniad ar bawb sydd yn ei gwrthod trwy anghrediniaeth. **Yn awr y bwrir allan dywysog y byd hwn.** Y diafol, yn ddiau, yw tywysog y byd hwn (gwel xiv. 30; xvi. 11). Prif wrthwynebydd yr Iesu a'i waith oedd y diafol. Yn wir, yr oedd yn wrthyngeisydd i'r Iesu am lywodraeth y byd hwn. Os oedd yr Iesu i ennill llywodraeth a meddiant o'r byd hwn, rhaid diorseddu a bwrw allan yr hen dywysog a'r trawsfeddiannydd, sef y diafol. Dyma'r trobwynt *(crisis)* wedi dyfod, a'r Groes fydd yn penderfynu pwy fydd y buddugwr, Crist neu'r diafol.

Adn. 32. **A minnau, os dyrchefir fi oddiar y ddaear.** Y mae pwyslais i fod ar y geiriau, "a minnau," yn wrthgyferbyniol i'r tywysog sydd i gael ei ddiorseddu. Y diafol yn cael ei ddarostwng, a'r Iesu ei ddyrchafu. Y dyrchafiad mewn golwg oedd i'r groes, a throdd yr Iesu, trwy ddylanwad ei gariad hunanaberthol, y groes yn orsedd oddiar yr hon y mae yn llywodraethu dynion trwy ei gariad. **A dynnaf bawb attaf fy hun,** neu "*a atdynaf bawb attaf fy hun.*" Tynnu moesol yw hwn, ac nid gorthrechol. O safle yr Iesu y mae yn gyfaddas, ac wedi ei fwriadu i atdynnu pawb. Ond o safle pechaduriaid cyndyn a gwrthnysig, gwelwn ei fod yn aflwyddiannus gyda llawer (pen. v. 40).

Adn. 33. Dyma eglurhad yr efengylwr ei hun ar ddyrchafiad yr Iesu oddiar y ddaear yn adn. 32.

Adn. 34. **Ni a glywsom o'r ddeddf, fod Crist yn aros yn dragywydd.** Eu sail dros ddyweyd hyn oedd rhoddi dehongliad llythrenol a

a pha wedd yr wyt ti yn dywedyd, fod yn rhaid dyrchafu Mab y dyn? pwy ydyw hwnnw Mab y dyn? 35. Yna yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Etto ychydig ennyd y mae goleuni gyd â chwi. Rhodiwch tra fyddo gennych y goleuni, fel na ddalio y tywyllwch chwi: a'r hwn sydd yn rhodio mewn tywyllwch, ni ŵyr i ba le y mae yn myned. 36. Tra fyddo gennych oleuni, credwch yn y goleuni, fel y byddoch blant y goleuni. Hyn a ddywedodd yr Iesu, ac efe a ymadawodd, ac a ymguddiodd

---

thraddodiadol o'r Ysgrythyrau canlynol:—Salm cx. 4; Esec. xxxvii. 25; Dan. vii. 14. Deallent y geiriau hyn fel yn golygu teyrnasiad daearol y Messiah. Ac am hyny, methent a deall paham y soniai am fyned ymaith trwy gael ei ddyrchafu, pa un bynnag ai i'r nefoedd, ai i'r groes i farw a olygent. **Pwy ydyw hwnnw Mab y dyn?** Gwell: *Pwy yw y Mab y dyn hwn?* (W.E.). Er nad oedd yr Iesu wedi galw ei hun yn Fab y dyn yn y cysylltiad hwn, yr oedd wedi galw ei hun felly yn adn. 23, ac yn Pen. iii. 14. Fel pe y dywedent wrtho, "pwy ydyw?" Nid yr un un ydyw ag y sonia Daniel amdano (vii. 13), &c., canys y mae y llywodraeth hwnw "yn llywodraeth dragwyddol, yr hon nid â ymaith." Pwy ydyw, ynte? Mae yn amlwg eu bod mewn dryswch o dan ddylanwad eu syniadau daearol am natur teyrnasiad y Messiah.

Adn. 35. **Etto ychydig ennyd y mae y goleuni gyda chwi.** Nid eu hateb yn uniongyrchol y mae'r Iesu yma, ond eu cynghori i wneud y goreu o'r ychydig amser y byddai gyda hwynt. Cyfeiria yma eto ato ei hun fel "goleuni" (cyd. viii. 12). **Rhodiwch, &c.** Dilynwch lwybr gwirionedd a dyledswydd. **Fel na ddalio y tywyllwch chwi.** Gwell: *fel na oddiweddo y tywyllwch chwi*, fel aderyn ysglyfaethus yn disgyn yn sydyn ar ei ysglyfaeth. Defnyddir yr un gair Groeg am ddyfodiad y dydd diweddaf (Thes. v. 4). Wrth y tywyllwch yma y golygir canlyniadau naturiol ac angenrheidiol anufudd-dod i wirionedd a dyledswydd, megis llais cydwybod yn gwanychu, a'r dyn yn ymgaledu mewn drygioni.

Adn. 36. **Tra fyddo gennych oleuni, credwch yn y goleuni.** Cywirach: *Fel y mae gennych y goleuni, credwch yn y goleuni* (W.E.). Pwysleisio yr un cyngor ag a roddodd iddynt yn yr adnod flaenorol, ond ei fod yn defnyddio credu yma yn lle rhodio yno. Dengys hyn fod cysylltiad agos rhwng credu ac ufuddhau i'r goleuni sydd yn ein meddiant. **Fel y byddoch blant y goleuni.** Gwell: *fel y deloch yn feibion goleuni* (C.D.S.). Defnyddir yr ymadrodd plentyn neu fab i rywbeth mewn barddoniaeth Hebreig, i arwyddo cysylltiad agos iawn rhwng y cynnyrch â'r cynhyrchydd, megys "Mab tangnefedd," Luc x. 6; "plant y byd hwn," xvi. 8; "Meibion y daran," Marc iii. 17. **Ac a ymguddiodd rhagddynt,** neu yn hytrach *ac a guddiwyd oddiwrthynt.* Ymadawodd i dreulio yr ychydig ddyddiau oedd yn weddill iddo mewn neilltuaeth, yn Bethania, mae'n debyg. Collasant hwythau olwg arno yn y dorf. Dyma derfyn ei weinidog-

rhagddynt. 37. ¶ Ac er gwneuthur o hono ef gymaint o arwyddion yn eu gŵydd hwynt, ni chredasant ynddo: 38. Fel y cyflawnid ymadrodd Esaias y prophwyd, yr hwn a ddywedodd efe, Arglwydd, pwy a gredodd i'n hymadrodd ni? ac i bwy y datguddiwyd braich yr Arglwydd? 39. Am hynny ni allent gredu, oblegid dywedyd o Esaias drachefn. 40. Efe a ddallodd eu llygaid, ac a galedodd eu calon; fel na welent â'*u* llygaid a deall â'*u* calon, ac ymchwelyd o honynt, ac i mi eu

---

aeth gyhoeddus. Y mae geiriau Dr. W. Edwards yn werth eu dyfynnu yma: "Dyma eiriau olaf yr Iesu i'r cyhoedd. Disgleiriodd y goleuni iddynt yn hir, ond yn awr y mae cysgodion yn codi *o'r ddaear*, y rhai a atalnant ei lewyrch. Y mae wedi cael ei wrthod, ac y mae dydd y prawf yn awr yn dyfod i ben. Nid '*efe a ymguddiodd*,' ond '*efe a guddiwyd*.' Nid ei waith ef ydoedd, ond canlyniad anghrediniaeth y genedl."

37—43. Anghrediniaeth yr Iuddewon yn cael cyfrif amdano.

Adn. 37, 38. Ceisia yr efengylwr yma gyfrif am fod yr holl wyrthiau hynod a gyflawnodd yr Iesu wedi methu argyhoeddi yr Iuddewon. Ar yr olwg gyntaf, gallesid tybio ei fod yn amcanu dysgu, fod yn *rhaid* i'r Iuddewon barhau yn anghrediniol, er mwyn cyflawni geiriau Esaias y prophwyd (Esaias liii. 1). O ddeall y geiriau yn yr ystyr yma, buasai yn amhosibl cysoni hyny gyda'u cyfrifoldeb am eu hanghrediniaeth. Dull Iuddewig o ymadroddi ydyw. Edrychai y meddwl Iuddewig ar bob peth o safbwynt y bwriad Dwyfol, a gwelent y brophwydoliaeth yn cael ei chyflawni yn eu hanghrediniaeth. Cyfeirio yn flaenaf y mae y prophwyd at anghrediniaeth ei gydoeswyr, ond cyflawnwyd hwynt hefyd mewn modd arbenig yn ymddygiadau yr Iuddewon tuag at Grist. Dylid cofio yr hyn a ddywed St. Chrysostom, "Nid oherwydd i Esaias ragfynegi hyny y peidiasant a chredu, ond oherwydd na wnaent gredu y rhagfynegodd Esaias." Nid oes modd i unrhyw fath o wybodaeth fod yn achos o ffaith, yn hytrach y ffaith bob amser sydd yn achos o'r wybodaeth. **Braich yr Arglwydd.** Amlygiad o allu achubol Duw.

Adn. 39, 40. **Am hynny ni allent gredu, &c.** Cyfeiriad sydd yma, nid at anallu hollol (buasai hyny yn anghyson â'u cyfrifoldeb am eu hanghrediniaeth), ond at anewyllysgarwch i gredu, nes trwy ei feithrin, y maent yn ymsefydlu ac yn ymgadarnhau mewn anghrediniaeth. Effaith naturiol ac angenrheidiol meithrin anghrediniaeth yw dallu llygad y meddwl a phylu teimladau moesol y dyn. Mae'r hyn a briodolir i Dduw yma yn ganlyniad, ac nid yn achos, gwaith y dyn ei hun. Pharaoh galedodd ei galon yn gyntaf, ac yna y mae Duw yn ei chaledu.*

---

* "There is no fatalism in the argument, as it all hinges on the use made of the freedom of the human will."—*Century Bible*, John xii. 40.

hiachâu hwynt. 41. Y pethau hyn a ddywedodd Esaias, pan welodd ei ogoniant ef, ac y llefarodd am dano ef. 42. ¶ Er hynny llawer o'r pennaethiaid hefyd a gredasant ynddo; ond oblegid y Phariseaid ni chyffesasant *ef*, rhag eu bwrw allan o'r synagog: 43. Canys yr oeddynt yn caru gogoniant dynion yn fwy na gogoniant Duw. 44. ¶ A'r Iesu a lefodd ac a ddywedodd, Yr hwn sydd yn credu ynof fi, nid yw yn credu ynof fi, ond yn yr hwn a'm hanfonodd i. 45. A'r hwn sydd yn fy ngweled i,

---

Adn. 41. **Y pethau hyn a ddywedodd Esaias, pan welodd ei ogoniant ef, &c.** Gwell: *Oblegid iddo weled ei ogoniant ef.* Gogoniant Crist. Datguddiwyd gogoniant Crist i'r prophwyd mewn gweledigaeth, ac am hyny llefara am dano. Gwelodd ogoniant Mab Duw cyn ei ymgnawdoliad, pan yr oedd yn ffurf Duw (Phil. ii. 6).

Adn. 42, 43. Gofala yr efengylwr am fynegi, er fod y mwyafrif wedi parhau yn anghrediniol, fod yna rai hyd yn nod ym mhlith y penaethiaid Iuddewig wedi credu, ac wedi methu gwrthsefyll dylanwad y gwyrthiau hynod a gyflawnodd yr Iesu. Eithr nid oeddynt yn ddigon gwrol i wneuthur arddeliad cyhoeddus o'r Iesu rhag ofn tramgwyddo y Phariseaid, a chael eu hesgymuno. **Canys yr oeddynt yn caru gogoniant dynion, &c.** Rhoddent fwy o bwys ar sefyll yn dda a chymeradwy yng ngolwg dynion, nag yng nghyfrif Duw. Difrifol yw meddwl fod neb yn barod i golli ffafr Duw, er mwyn ennill gwên y byd.

44—50. Adgrynhoad o ddysgeidiaeth yr Iesu.

Credir, nid yn unig gan esbonwyr anghrediniol, fel y dywed Dr. Cynddylan Jones, ond gan esbonwyr crediniol hefyd, megys Westcott, Dods, Milligan a Moulton, a'r mwyafrif o esbonwyr diweddar, mai nid gosod allan yr Iesu yn llefaru ar y pryd y mae'r efengylwr oddiyma i derfyn y bennod; ond crynhoi yng nghyd ddywediadau yr Iesu ar wahanol achlysuron blaenorol, y rhai a ddengys natur a chanlyniadau ffydd ac anghrediniaeth. Terfynodd yr Iesu ei weinidogaeth gyhoeddus gyda'r geiriau yn adn. 36, ac anghyson ydyw ei osod yn ail ddechreu yn yr adran hon. Nid ydyw nemawr o bwys pa un ai Ioan sydd yn gwneud yr adsymiad hwn, ai ynte cofnodi y mae rhyw adgrynhoad a wnaeth yr Iesu ei hun. Yr oll sydd yn bwysig ydyw credu na phriodola yr efengylwr yma ddim i'r Iesu, ond a lefarodd efe ar rhyw achlysur neu gilydd.

Adn. 44. **A'r Iesu a lefodd ac a ddywedodd.** Crynodeb o'i eiriau cyhoeddus pwysig a difrifol. Cyd. vii. 28, 37. **Nid yw yn credu ynof fi, ond yn yr hwn a'm hanfonodd i.** Llefaru yn gymharol y mae'r Iesu yma. Nid yw yn gwrthddyweyd ei hunan. Ond pwysleisia y gwirionedd, fod credu ynddo ef yn cynnwys credu hefyd yn yr hwn a'i hanfonodd ef.

Adn. 45. Yr un gwirionedd ag yn yr adnod flaenorol, ond fod y ffigwr o weled, neu *syllu*, *dal sylw*, *craffu*, yn cael ei ddefnyddio yn lle credu. Y mae ffydd yn gan-

sydd yn gweled yr hwn a'm danfonodd i. 46. Mi a ddeuthum yn oleuni i'r byd, fel *y bo i* bob un a'r sydd yn credu ynof fi, nad arhoso yn y tywyllwch. 47. Ac os clyw neb fy ngeiriau, ac ni chred, myfi nid wyf yn ei farnu ef: canys ni ddeuthum i farnu y byd, eithr i achub y byd. 48. Yr hwn sydd yn fy nirmygu i, ac heb dderbyn fy ngeiriau, y mae iddo un yn ei farnu: y gair a leferais i, hwnnw a'i barn ef yn y dydd diweddaf. 49. Canys myfi ni leferais o honof fy hun: ond y Tad yr hwn a'm hanfonodd i, efe a roddes orchymyn i mi, beth a ddywedwn, a pha beth a lefarwn. 50. Ac mi a wn fod ei orchymyn ef yn fywyd tragwyddol: am hynny y pethau yr wyf fi yn eu llefaru, fel y dywedodd y Tad wrthyf, felly yr wyf yn llefaru.

---

fyddiod. Treiddia trwy len y gweledig, a sylla ar yr Anweledig. Y mae'r fath undeb agos rhwng y Tad a'r Mab fel ag y mae ffydd ynddo ef yn terfynu yn Nuw (1 Pedr i. 21).

Adn. 46. **Mi a ddeuthum yn oleuni i'r byd, &c.** Gwel ddatganiadau cyffelyb yn adn. 25, 36; viii. 12; ix. 5, a i. 7—9. **Nad arhoso yn y tywyllwch.** Daeth yr Iesu i'r byd i alw dynion allan o dywyllwch pechod i fod yn blant y goleuni (adn. 36).

Adn. 47. **Ac ni chred.** Y darllenniad cywiraf yma yw, "Ac nis *ceidw* hwynt" (C.D.S.). **Myfi nid wyf yn ei farnu, &c.** Nid yw yn ei farnu yn bresennol, achub yw ei waith yn awr, ac nid barnu.

Adn. 48. Y mae gwrthod geiriau Crist yn cynnwys eu dirmygu fel yn anheilwng o dderbyniad, ac yn adlewyrchu yn anffafriol ar y Person a'u llefarodd. **Y mae iddo un yn ei farnu; y gair a leferais i.** Y mae breintiau yr efengyl yn troi yn farn, yn gondemniad ar y sawl sydd yn eu camddefnyddio. Braint, yn ddiau, yw gwrando gair Crist, ond cluda gyda hi gyfrifoldeb sydd yn troi yn gollfarn ar y rhai a anufuddhant iddo.

Adn. 49. Rheswm sydd yma paham y mae y fath bwys ac awdurdod yn perthyn i eiriau Crist, am na lefarodd ohono ei hun. Y mae ei eiriau bob amser mewn cysondeb perffaith â'r hyn a ddatguddiwyd iddo gan y Tad, ac felly y mae awdurdod y Tad o'r tu ol iddynt.

Adn. 50. **Ac mi a wn fod ei orchymyn ef yn fywyd tragywyddol.** Y mae ufudd-dod i orchymyn y Tad yn arwain ac yn diweddu mewn bywyd tragwyddol. Fel Duw-ddyn yr oedd gan yr Iesu ymwybyddiaeth sicr ac anffaeledig o hyny. A chan fod yr Iesu wedi dyfod i'r byd i roddi bywyd tragwyddol i ddynion, yr oedd yn gofalu am fod yn ffyddlon i'r hyn a lefarodd y Tad wrtho, fel ag i roddi i ddynion bob mantais i gael gafael ar fywyd tragwyddol.

Fel hyn y mae'r efengylwr wedi adgynhyrchu y prif syniadau o eiddo'r Iesu, y rhai a ddysgwyd ganddo ef yn y penodau blaenorol.

PENNOD XIII.

A CHYN gwyl y pasc, yr Iesu yn gwybod ddyfod ei awr ef i ymadael â'r byd hwn at y Tad, efe yn caru yr eiddo y rhai oedd yn y byd, a'u carodd hwynt hyd y diwedd. 2. Ac wedi darfod swpper, wedi i ddiafol eisoes roi y'nghalon Judas Iscariot *mab* Simon, ei fradychu ef: 3. Yr Iesu yn gwybod roddi o'r Tad bob peth oll yn ei

---

Yma y dechreua yr ail ran o'r efengyl hon, yn cynnwys pen. xiii.—xxi., yn yr hon yr amlygir gogoniant Crist mewn cysylltiad â'i farwolaeth a'i adgyfodiad. Yn pen. xiii. a xvii. cawn hanes gweinyddiadau olaf ei gariad tuag at ei ddisgyblion, a'i weddi archoffeiriadol ar eu rhan. Yn pen. xviii. a xix. ei hanes yn cael ei ddal, ei brawf, a'i groeshoeliad. Yn pennod xx. ei adgyfodiad; tra yn pennod xxi. y ceir Olymadrodd yn cyfateb i Ragymadrodd I. 1—18.

XIII.—XVII. Gweinidogaeth yr Iesu tuag at ei ddisgyblion ar fin ei ddioddefiadau.

1—20. Yn golchi traed ei ddisgyblion, a'r wers oddiwrth hyny.

Adn. 1. **A chyn gwyl y pasc.** Y mae cwestiwn digon anawdd ei benderfynu yn codi yma. Ai yr un swper yw hwn, a'r un a gysyllta yr efengylwyr cydolygol gyda'r cymun, ai swper diweddaf Crist gyda'i ddisgyblion (Gwel nodiad yn niwedd y gyfrol). Credaf fod y swper hwn wedi cymeryd lle yn hwyr y 13eg o Nisan, sef y dydd o flaen yr hwn yr arferid lladd oen y pasg. **Ddyfod ei awr ef,** sef ei awr i ddioddef a marw. Nid damwain o ran amser oedd yr awr hon, ond yr oedd wedi ei phenodi yn ddigyfnewid gan y Tad yn nhrefn ei Raglunaeth. Nid oedd ei farw ond symud allan o'r byd hwn at y Tad. **Yr eiddo y rhai oedd yn y byd.** Er fod cyfeiriad blaenaf y geiriau hyn, fe ddichon, at ei ddisgyblion a'i ganlynwyr ym Mhalestina, eto y mae'n debygol eu bod yn cynnwys hefyd gredinwyr yn gyffredinol (i. 12, xvii. 14). **A'u carodd hwynt hyd y diwedd.** Gwell, fe ddichon, hyd *yr eithaf*. Felly W.E., C.D.S. Nid parhad, ond angerddolrwydd cariad yr Iesu sydd yn dyfod i'r golwg, caru nes bod yn foddlon i ddioddef a marw er eu mwyn. Cyrhaedda ei gariad ei eithafnod.

Adn. 2, 3. Rhagarweiniad yw y geiriau hyn at y bedwaredd adnod. **Wedi darfod swpper.** Y darllenniad goreu yma, "*Ac ar adeg swper*," neu, yn ystod y swper, "*While supper was proceeding*" (W.). "*A swper wedi dyfod*" (B). **Wedi ddiafol eisoes roi y'nghalon Judas Iscariot, &c.** Er cynddrwg oedd Judas, nid oedd yn ddigon drwg i fradychu ei Arglwydd heb i un gwaeth nag ef, sef diafol, awgrymu a chymell hyny arno ef. Amcan yr efengylwr yn crybwyll hyn yw dangos y gwyddai yr Iesu am y brâd oedd yng nghalon Judas,

ddwylaw ef, a'i fod wedi dyfod oddi wrth Duw, ac yn myned at Dduw: 4. Efe a gyfododd oddi ar swpper, ac a roes heibio ei gochl-wisg, ac a gymmerodd dywel, ac a ymwregysodd. 5. Wedi hynny efe a dywalltodd ddwfr i'r cawg, ac a ddechreuodd olchi traed y disgyblion, a'*u* sychu â'r tywel, â'r hwn yr oedd efe wedi ei wregysu. 6. Yna y daeth efe at Simon Petr: ac efe a ddywedodd wrtho, Arglwydd, a wyt ti yn golchi fy nhraed i? 7. Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Y peth yr wyf fi yn ei wneuthur, ni wyddost ti yr awrhon: eithr ti a gei wybod ar ol hyn. 8. Petr a ddywedodd wrtho, Ni chei di olchi fy nhraed i byth. Yr Iesu a attebodd iddo, Oni

---

ac eto ei fod yn golchi ei draed ef yn ogystal a'r disgyblion eraill. **Yn gwybod roddi o'r Tad bob peth oll yn ei ddwylaw ef, &c.** Dengys y geiriau hyn, er fod yr Iesu yn sylweddoli yn llawn ei berthynas oruchel â'r Tad, eto ei fod yn ddigon gostyngedig i gyflawni gwaith caethwas, trwy olchi traed ei ddisgyblion.

Adn. 4, 5. **Efe a gyfododd oddiar swpper, &c.** Gwell: *Sydd yn codi oddiwrth y swper, ac a rydd heibio ei arwisgoedd ("Rose from the table, threw off his upper garments and took a towel, and tied it round his waist").* Tra thebygol mai yr ymryson ym mhlith ei ddisgyblion, *Pwy fyddai fwyaf* y crybwylla Luc amdano (Luc xxii. 27) fu yn achlysur i'r Iesu ddysgu iddynt y wers hon o wasanaeth gostyngedig. Yr oedd y dwfr a'r cawg yn arferol a bod yn yr ystafell wledd, fel nad oedd angen eu cyrchu.

Adn. 6. **Arglwydd, a wyt ti yn golchi fy nhraed i?** Rhodder y pwyslais ar *ti* a *fy nhraed i*. Credai Pedr nad oedd yn weddus i un mor fawr a pharchus yn ei olwg a'r Iesu olchi ei draed ef. Mor debyg yw hyn i Pedr yn rhoddi mynegiad byrbwyll i'w deimlad brwdfrydig.

Adn. 7. **Y peth yr wyf fi yn ei wneuthur, ni wyddost ti yr awrhon, &c.** Nid yr un gair sydd yn cael ei gyfieithu yn "*ni wyddost ti,*" ac yn "*ti a gei wybod.*" Ystyr y gair blaenaf ydyw gwybod *yn uniongyrchol*, neu *amgyffred*, ac ystyr y gair olaf yw gwybod trwy *ddysgu, sylwadaeth, dyfod i wybod*. Rhydd yr Iesu yma gerydd ysgafn i Pedr am ei hyfdra yn honni gwybod yn well na'i Athraw, pa beth oedd weddus iddo ef ei wneud. Nid oedd yn deall eto ystyr arwyddluniol y weithred. Ond daeth i wybod, mewn rhan, ym mhen ychydig o funudau (adn. 13—17), ac yn llawnach ar ddydd y Pentecost.

Adn. 8. **Ni chei di olchi fy nhraed i byth.** Yn ei fyrbwylldra, mynnai Pedr mai efe oedd yn iawn, ac nid yr Iesu. **Oni olchaf di, nid oes i ti gyfran gyda myfi.** Rhybuddia yr Athraw Pedr fod yn rhaid iddo blygu i'w ewyllys a'i drefniant ef, neu ynte gael ei wahanu oddiwrtho ef. Cynhwysai hyn nid peidio cyfranogi o'r wledd, ond colli cyfeillgarwch Crist, a'r oll a gynhwysai hyny.

olchaf di, nid oes i ti gyfran gyd â myfi. 9. Simon Petr a ddywedodd wrtho, Arglwydd, nid fy nhraed yn unig, eithr *fy* nwylaw a'*m* pen hefyd. 10. Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Yr hwn a olchwyd, nid rhaid iddo ond golchi *ei* draed, eithr y mae yn lân oll: ac yr ydych chwi yn lân, eithr nid pawb oll. 11. Canys efe a wyddai pwy a'i bradychai ef: am hynny y dywedodd, Nid ydych chwi yn lân bawb oll. 12. Felly wedi iddo olchi eu traed hwy, a chymmeryd ei gochl-wisg, efe a eisteddodd drachefn, ac a ddywedodd wrthynt, A wyddoch chwi pa beth a wneuthum i chwi? 13. Yr ydych chwi yn fy

---

Adn. 9. Gwelir fod rhybudd yr Iesu wedi cael y fath ddylanwad ar Pedr oedd mor hawdd ei gynhyrfu, nes ei gario i'r eithafnod gwrthgyferbyniol. **Nid fy nhraed yn unig, eithr fy nwylaw a'm pen hefyd.**

Adn. 10. **Yr hwn a olchwyd.** Nid yr un gair sydd yma am olchi ag yn y nawfed adnod. Gwell: "*Yr hwn sydd wedi ymdrochi*," cyfeiriad at olchi yr *holl gorph*, yr hyn a arferid ei wneud cyn myned at fwrdd y wledd. **Nid rhaid iddo ond golchi ei draed, eithr y mae yn lan oll.** Ystyr y gair *golchi* yma ydyw golchi *rhan ohono*, megis yr wyneb, y dwylaw, neu y traed. Fel pe dywedai yr Iesu, gan fod yr holl gorph wedi ei olchi trwy ymdrochi, nid oes angen ond am olchi y traed er glanhau y llwch ymaith.* Rhaid felly oedd i Pedr blygu ac ymostwng i gymeryd dim mwy na dim llai, nag a farnai yr Athraw yn angenrheidiol. Dichon eu bod yn golygu yn ysprydol nad yw yr enaid sydd wedi ei lanhau oddiwrth bechod yng ngholchfa yr ail-enedigaeth mewn angen am gymaint cyfnewidiad pan y goddiweddir ef gan rhyw bechod, ond fod golchi ei draed yn ddigon. **Ac yr ydych chwi yn lan, eithr nid pawb oll,** mewn cyfeiriad at Judas. Gwel yr eglurhad yn adn. 11.

Adn. 11. **Canys efe a wyddai pwy a'i bradychai ef.** Gwyddai yr Iesu wrth olchi traed Judas fod ei galon ddu yn llawn brâd. Arwydd allanol oedd y golchi traed heb fod y tufewnol o angenrheidrwydd yn cyfateb i'r allanol. Ac felly hefyd gyda'r Bedydd Cristionogol. Nid yw bedydd ac ail-enedigaeth yn anwahanol gysylltiol â'u gilydd.

Adn. 12. **A wyddoch chwi pa beth a wneuthum i chwi?** Ar ol cyflawni y gwaith, ymhola yr Iesu yn awr a oeddynt wedi deall ei ystyr. Nid yr un ystyr sydd i'r gair "gwyddoch" yma ag yn adn. 17. Golyga yma, a "ydych wedi dyfod i ddeall," neu i "amgyffred ystyr" yr hyn a wnaethum?

Adn. 13. **Yr Athraw, a'r Arglwydd,** neu, "*O Athraw, ac O Arglwydd*" (W.E.). (Gwel Math. xi. 26; Marc v. 41; Ioan xix. 3). Cydnebydd yr Iesu, er ei holl ostyngeiddrwydd, fod ganddo hawl i'r teitlau roddai ei ddisgyblion

---

*Anyone who has lately bathed, does not need to wash more than his feet, but is clean all over (W.).

ngalw i, Yr Athraw, a'r Arglwydd: a da y dywedwch ; canys *felly* yr ydwyf. 14. Am hynny os myfi, yn Arglwydd ac yn Athraw, a olchais eich traed chwi ; chwithau a ddylech olchi traed eich gilydd : 15. Canys rhoddais esampl i chwi, fel y gwnelech chwithau megis y gwneuthum i chwi. 16. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Nid yw y gwas yn fwy na'i arglwydd ; na'r hwn a ddanfonwyd yn fwy na'r hwn a'i danfonodd. 17. Os gwyddoch y pethau hyn, gwŷn eich byd os gwnewch hwynt. 18. ¶ Nid wyf fi yn dywedyd am danoch oll ;

---

iddo. Meddai y teitlau hyn ystyr neillduol ac arbenig pan y cymhwysid hwynt ato ef.

Adn. 14. **Am hynny os myfi, yn Arglwydd ac yn Athraw, a olchais eich traed chwi.** Rhydd yr Iesu yn awr yr enw cryfaf Arglwydd o flaen Athraw, er mwyn rhoddi mwy o bwyslais arno ef. Y mae y "*myfi*" hefyd yn wrthgyferbyniol i "*chwi*." Ymresyma oddiwrth y mwyaf at y lleiaf. Os oedd yr Arglwydd a'r Athraw wedi dangos y fath esiampl o ostyngeiddrwydd, pa faint mwy y dylai y deiliaid a'r disgyblion wneuthur hyny. **Chwithau a ddylech olchi traed eich gilydd.** Nid oedd dim rhwymedigaeth arno ef i wneud hyny, ond yr oedd *dyled* arnynt hwy i olchi traed eu gilydd. Amcan yr Iesu yw dysgu *gostyngeiddrwydd*. Ni olygai fod yn rhaid i'r gostyngeiddrwydd amlygu ei hun yn y ffurf neillduol hon. Ac felly ni raid deall y gorchymyn hwn yn yn ei ystyr lythrenol.

Adn. 15. **Canys rhoddais esiampl i chwi.** Ystyr y gair esiampl yma ydyw *yr hyn a ddanghosir dan*, fel cynllun y pensaer, neu gynddelw yr arlunydd neu y cerfiedydd. Sylwa Westcott fod pob esiampl o eiddo Crist yn gysylltiol â rhyw ffurf o hunanaberth. Nid ar ffurf y weithred y dylid pwysleisio, ond ar ei hyspryd. Dichon nad oes neb yn awr yn dilyn esiampl y Gwaredwr yn ffurfiol a llythrenol, ond y Pab o Rufain, ond hyderaf fod miloedd o Gristionogion yn dilyn ei esiampl trwy feithrin yspryd hunanymwadol a gostyngedig. A dyma sydd yn wir bwysig.

Adn. 16. Y mae ystyr y geiriau hyn mor syml a hunaneglur, fel nad oes eisieu ond gadael iddynt lewyrchu yn eu goleuni eu hunain.

Adn. 17. **Os gwyddoch y pethau hyn.** Nid os o amheuaeth sydd yma, ond os o ymresymiad fel pe dywedai, *gan* y gwyddoch y pethau hyn, sef y pethau sydd yn adn. 13—17. **Gwyn eich byd os gwnewch hwynt.** Y gwneud ar ol y cwbl sydd yn bwysig, ac nid y gwybod yn unig. Ffrwyth naturiol ac angenrheidiol yspryd hunanaberthol a gostyngedig yw gwir ddedwyddwch. Tystia profiad miloedd ym mhob oes fod hyn yn ddigon gwir, "Efe a fydd dedwydd yn ei weithred" (Iago i. 25).

Adn. 18. **Nid wyf fi yn dywedyd am danoch oll; mi a wn pwy a etholais.** Nid oedd yr Iesu yn dyweyd amdanynt oll y byddent yn

mi a wn pwy a etholais ; ond fel y cyflawnid yr ysgrythyr, Yr hwn sydd yn bwytta bara gyd â mi, a gododd ei sawdl yn fy erbyn. 19. Yn awr yr wyf yn dywedyd wrthych cyn ei ddyfod, fel pan ddêl, y credwch mai myfi yw *efe*. 20. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Yr hwn sydd yn derbyn y neb a ddanfonwyf fi, sydd yn fy nerbyn i ; a'r hwn sydd yn fy nerbyn i, sydd yn derbyn yr hwn a'm danfonodd i. 21. Wedi i'r Iesu ddywedyd y pethau hyn, efe a gynhyrfwyd yn yr yspryd, ac a dystiolaethodd, ac a ddywedodd, Yn wir, yn wir, y dywedaf wrthych, y bradycha un o honnoch fi. 22. Yna y disgyblion a edrychasant ar eu gilydd, gan ammeu am bwy yr oedd efe yn

---

wynfydedig trwy ddilyn ei esiampl ef, canys yr oedd yna un eithriad yn ymgodi yn ei feddwl ef. Etholwyd Judas i fod yn un o'r apostolion, fel y gwelir oddiwrth pen. vi. 70, ond yn gyson â'r rhagfynegiad yr oedd un ohonynt wedi troi yn anffyddlon ac yn fradwr. Eithr nid oedd yr Iesu wedi cael ei siomi, a drysu ei gynllun, canys *gwyddai*, yn sicr, mai hyny a ddigwyddai. Adnabyddai yr Iesu gymeriad pob un o'i apostolion etholedig, ac felly adnabyddai gymeriad gwael ac ansefydlog Judas hefyd.

Adn. 19. Dywed yr Iesu yn eglur beth oedd i gymeryd lle, fel na byddai i anffyddlondeb a bradwriaeth Judas siglo dim ar ffydd y disgyblion eraill ynddo ef.

Adn. 20. Teimlir anhawsder i ddeall cysylltiad yr adnod hon gyda y rhai sydd yn ei blaenori, neu ynte yn ei dilyn. Y golygiad cyffredin yw, i'r geiriau hyn gael eu llefaru gan yr Iesu er calonogi ei ddisgyblion yn wyneb anffyddlondeb Judas, yr hyn oedd yn brofedigaeth iddynt hwy yn ogystal ag i'r Iesu ei hunan. Gallai y disgyblion deimlo yn dawel a hyderus, er fod un ohonynt wedi dangos ei hun yn anffyddlon, fod y swydd yr etholasid hwy iddi yn un anrhydeddus a phwysig iawn. Yr oedd eu derbyn hwy fel apostolion yn cynnwys derbyn Crist, ac yr oedd derbyn Crist yn cynnwys derbyn neb llai na Duw ei hun. Gwel Math. x. 40, a Luc xxii. 29, 30.

21—30. Bradwriaeth Judas yn cael ei gyhoeddi, ac yntau yn cael ei esgymuno.

Adn. 21. **Efe a gynhyrfwyd yn yr yspryd.** Nid oedd modd i'r Iesu, fel dyn gwirioneddol, beidio cyffroi ym mhresenoldeb y bradwr. Gwelai y brâd yn ei galon ddu ; meddai amgyffrediad llawn a chlir o ysgelerder ei bechod, ac o'r aniolchgarwch a'r hunanaeth oedd mor hollol groes i'w natur gariadlawn ef ei hun. Y mae gennym hanes amdano yn cynhyrfu ddwy waith yn flaenorol i hyn (yn pen. xi. 33, 35 ; xii. 27). **Ac a dystiolaethodd.** Datganiad bwriadol a phwyllog o'r hyn a awgrymasai yn flaenorol.

Adn. 22. **Gan ammeu.** Ystyr y gair ameu yma yw bod mewn dryswch a phenbleth, methu penderfynu pwy ohonynt oedd yn anwesu y fath fwriad anfad.

dywedyd. 23. Ac yr oedd un o'i ddisgyblion yn pwyso ar fynwes yr Iesu, yr hwn yr oedd yr Iesu yn ei garu. 24. Am hynny yr amneidiodd Simon Petr ar hwnnw, i ofyn pwy oedd efe, am yr hwn yr oedd efe yn dywedyd. 25. Ac yntau yn pwyso ar ddwyfron yr Iesu, a ddywedodd wrtho, Arglwydd, pwy yw efe? 26. Yr Iesu a attebodd, Hwnnw yw efe, i'r hwn y rhoddaf fi dammaid wedi i mi ei wlychu. Ac wedi iddo wlychu y tammaid, efe a'i rhoddodd i Judas Iscariot, *mab* Simon. 27. Ac ar ol y tammaid, yna yr aeth Satan i mewn iddo. Am hynny y dywedodd yr Iesu wrtho, Hyn yr wyt yn ei wneuthur,

---

Adn. 23. **Yn pwyso ar fynwes yr Iesu.** Dichon fod y cyfeithiad a ganlyn yn fwy eglur: *Yr oedd yn lledorwedd wrth y bwrdd ym mynwes yr Iesu.* Yn ol arferiad yr Iuddewon o fwyta, lledorweddent ar eu hochr aswy wrth y bwrdd, gan fwyta gyda'u llaw ddeheu, a byddai y pen megis yn gorwedd ym mynwes yr un agosaf ato. Gorweddai Ioan yn agosaf at yr Iesu. **Yr hwn yr oedd yr Iesu yn ei garu.** Wrth yr enw hwn y cyfeiria Ioan ato ei hun fwy nag unwaith yn yr efengyl hon. Ymddengys fod cyfeillgarwch mynwesol yn bod rhwng yr Iesu ag Ioan. Eithr nid ei gariad ei hun at yr Iesu, ond cariad yr Iesu ato ef sydd yn cael ei grybwyll. (Gwel pen. xix. 26; xxi. 7, 20.)

Adn. 24. **Am hynny yr amneidiodd Simon Petr ar hwnnw.** Yn debygol trwy ysgwyd ei ben. Cyd. Actau xxiv. 10. Nid oedd Pedr yn ddigon agos at yr Iesu i ofyn ei hunan. Ond yn hollol fel efe ei hun, yr oedd yn cynhyrfu ynghynt na neb eisieu gwybod.

Adn. 25. Nid yr un ferf a ddefnyddir yma am "bwyso" ag a ddefnyddiwyd yn adn. 23. Yn llythrenol, "syrthio yn ol," gan droi ei wyneb at yr Iesu, gan bwyso ar ei ddwyfron. Ni wyddai Ioan pwy ydoedd, ; gan hyny, gofynai i'r Iesu.

Adn. 26. Noda yr Iesu ef allan, nid trwy ei enwi, ond trwy arwydd atebodd yr un diben. Yn y Dwyrain yr oedd yn arferiad, os nad yw felly eto, i'r gwestwr (*host*) roddi y tamaid cyntaf i'r neb a ddymunai ei anrhydeddu wrth y bwrdd. Y tamaid hwn wedi ei wlychu a roddwyd i Judas, gyda'r amcan o apelio at ei anrhydedd, ac at ei gydwybod. Ond yn lle cael ei doddi, ymgaledu wnaeth Judas, o dan ddylanwad caredigrwydd yr Athraw.

Adn 27. **Ac ar ol y tammaid, yna yr aeth Satan i mewn iddo.** Cyfeirir yma at yr un demtasiwn ag yn adn. 2, ond y mae yma wedi cyraedd gradd terfynol. Rhoi yn ei galon ef a wnaeth y diafol yno, ond yma aeth i mewn ei hunan i'w galon ef. Awgrym oedd y cyntaf i feddwl Judas, ond yma y mae wedi ymffurfio yn benderfyniad, ac y mae Judas trwy hyny wedi rhoddi ei hun i fyny i'r diafol, ac y mae yntau yn cymeryd meddiant llwyr ohono. **Hyn yr wyt yn ei wneuthur, gwna ar frys.** Yr oedd yr Iesu yn barod ar gyfer y prawf tanllyd oedd o'i flaen. A chan fod Judas o dan ddylanwad y diafol, wedi llwyr fwriadu bradychu ei Athraw, ni waeth pa mor fuan y rhoddai ei fwriad dieflig mewn

gwna ar frys. 28. Ac ni wyddai neb o'r rhai oedd yn eistedd i ba beth y dywedasai efe hyn wrtho. 29. Canys rhai oedd yn tybied, am fod Judas a'r gôd ganddo, fod yr Iesu yn dyweyd wrtho, Pryn y *pethau* sydd arnom eu heisieu erbyn yr wyl; neu, ar roi ohono beth i'r tlodion. 30. Yntau gan hynny, wedi derbyn y tammaid, a aeth allan yn ebrwydd. Ac yr oedd hi yn nos. 31. ¶ Yna gwedi iddo fyned allan, yr Iesu a ddywedodd, Yn awr y gogoneddwyd Mab y dyn, a Duw a ogoneddwyd

---

gweithrediad. Yr oedd yr Iesu, bellach, eisieu cael ei le, er mwyn cael ychydig hamdden i baratoi ei ddisgyblion ar gyfer y brofedigaeth oedd yn eu haros hwynt.

Adn. 28, 29. Ni ddeallodd yr un o'r disgyblion ystyr na chyfeiriad geiriau yr Athraw. Gwelant Judas yn codi i fyned allan o'r ystafell, ond tybiasant mai myned allan yr oedd i gyflawni ei waith fel trysorydd.

Adn. 30. **A aeth allan yn ebrwydd.** Methai aros dim ym mhresenoldeb yr hwn yr oedd ar fedr ei fradychu, a'r hwn a ddeallai ddirgel fwriad ei galon ddrygionus. Aeth allan am byth o blith yr Iesu a'i ddisgyblion. **Ac yr oedd hi yn nos.** Yr oedd yn nos yn llythrenol felly, mewn ystyr naturiol, ond yr oedd yn nos ar Judas mewn ystyr ysprydol. Defnyddir y geiriau "goleuni" a "thywyllwch" mewn ystyr foesol ac ysprydol yn yr efengyl hon. Pa mor dywyll bynnag ydoedd mewn ystyr naturiol, pan aeth Judas allan yr oedd yn fwy o dywyllwch yn ei enaid. "Gadawodd Judas y Goleuni, ac aeth allan i nos dragwyddol."

Yr ydym yn awr yn dyfod i'r rhan fwyaf cysegredig o'r efengyl hon, ac yn wir o'r Testament Newydd i gyd. Cawn y fraint o wrando ar anerchiadau cyfrinachol yr Iesu i'w ddisgyblion yn yr oruwchystafell, ar ol i Judas eu gadael, pen. xiii. 31, i ddiwedd xvi. Ac yn pen. xvii. yr ydym yn cael ein harwain megis i'r Cysegr Sancteiddiolaf i wrando ar eiriolaeth yr Archoffeiriad Mawr dros gredinwyr ym mhob oes a gwlad.

31—38. Gogoniant Mab y dyn, a Dyledswyddau a Phrofedigaethau ei Ganlynwyr.

Adn. 31. **Yn awr y gogoneddwyd Mab y dyn.** Gwelai yr Iesu yn ymadawiad Judas y cam cyntaf yn ei ogoneddiad, am fod hyny yn arwain i'w ddioddefiadau a'i groeshoeliad. Ymddanghosai y Groes yn waradwydd a darostyngiad i olwg dynion, ond i olwg yr Iesu dyrchafiad a gogoneddiad ydoedd. O'r Groes a'i ddioddefiadau y tarddodd i'r Iesu ogoniant tragwyddol fel achubwr pechaduriaid colledig. Cafodd iddo ei hun enw yr hwn sydd goruwch pob enw. **A Duw a ogoneddwyd ynddo ef.** Yr oedd yna y fath undeb agos a chydgordiad perffaith rhwng y Tad a'r Mab, pan yr oedd yr Iesu yn offrymu ei hun yn aberth dros bechod y byd, fel ag yr oedd yr hyn oedd yn dwyn gogoniant i'r Mab, yn dwyn gogoniant i'r Tad hefyd. Gogoneddai y Mab y Tad yn ei ddioddefiadau a'i farw, trwy amlygu ei gariad a chyflawni ei ewyllys. Nid *derbyn* yn unig

ynddo ef. 32. Os gogoneddwyd Duw ynddo ef, Duw hefyd a'i gogonedda ef ynddo ei hun, ac efe a'i gogonedda ef yn ebrwydd. 33. *O* blant bychain, etto yr wyf ennyd fechan gyd â chwi. Chwi am ceisiwch : ac, megis y dywedais wrth yr Iuddewon, Lle yr wyf fi yn myned, ni ellwch chwi ddyfod ; yr ydwyf yn dywedyd wrthych chwithau hefyd yr awrhon. 34. Gorchymyn newydd yr wyf yn ei roddi i chwi, Ar garu o honoch eich gilydd ; fel y cerais i chwi, ar garu o honoch chwithau bawb eich gilydd. 35. Wrth hyn y gwybydd pawb mai disgyblion i mi ydych, os bydd gennych gariad i'ch gilydd. 36. ¶ A Simon Petr a ddywedodd wrtho, Arglwydd, i ba le yr wyt ti yn myned? Yr Iesu a attebodd iddo, Lle yr ydwyf fi yn myned, ni elli di yr awrhon fy nghanlyn :

---

yr oedd Tad yn iawn y Groes, ond *rhoddi* hefyd ; nid cael ei *foddloni* yn unig, ond *aberthu* hefyd.

Adn. 32. Dysgir yn y geiriau hyn fod y Personau Dwyfol yn cydogoneddu eu gilydd. Cyfeiriad yn fwyaf arbennig at yr anrhydeddu a'r gwobrwyo fydd ar y Mab gan y Tad yn y dyfodol agos (Phil. ii. 9—11).

Adn. 33. Amlyga yr Iesu yma deimlad tyner a charuaidd tuag at ei ddisgyblion. Yma yn unig y geilw hwynt yn *blant bychain*. Nid yr un geiriau a ddefnyddir yn pen. xxi. 5. Cyfeiriad amlwg sydd yma at ei ymadawiad oddiwrthynt at y Tad. Er ceisio, ni allent ei ddilyn i'r byd anweledig. Yr hyn a ddywedodd wrth yr Iuddewon, vii. 33, viii. 21—24, y mae yn ei ddyweyd wrthynt hwythau yn awr, sef yr adeg fwyaf priodol.

Adn. 34. **Gorchymyn newydd.** Mewn un ystyr nid oedd yn newydd. Yr oedd yr Iuddewon wedi derbyn gorchymyn, "Car dy gymydog fel ti dy hun" (Lef. xix. 18). Ond os nad oedd yn newydd o ran ffurf, yr oedd yn newydd o ran ei yspryd a'i angherddolrwydd. Gorphwysai yn awr ar sylfaen newydd, a meddai hefyd ar gymhelliad newydd. **Fel y cerais i chwi.** Dyma'r safon a'r esiampl oedd yn rhoddi gwedd newydd ar yr hen orchymyn.

Adn. 35. Dyma oedd i fod yn nôd gwahaniaethol disgyblion Crist (cyd. Actau iv. 32, 1 Ioan iii. 10—14). Adnabyddid y Cristionogion boreol gan y paganiaid, a dywedent amdanynt, yn ol Tertulian (o.c. 190), "Wele fel y mae y Cristionogion hyn yn caru eu gilydd." Gresyn na fuasent wedi parhau i gadw y nodwedd brydferth hon yn yr oesau dilynol.

Adn. 36. **Arglwydd, i ba le yr wyt ti yn myned?** Y mae Pedr yma, gyda'i barodrwydd arferol, yn gofyn i ba le yr oedd ei Arglwydd yn myned. Ni allai ddeall paham y dywedasai, yn adn. 33, nad allasent ei ddilyn. Ateb yr Iesu iddo ydyw, fod yn amhosibl iddo ef ei ddilyn y pryd hwnw, ond y gallai ei ddilyn ar ol hyny. Yr oedd gan Pedr lawer o waith i'w gyflawni ar y ddaear cyn y gallai ddilyn yr Iesu i dŷ ei dad.

eithr ar ol hyn y'm canlyni. 37. Petr a ddywedodd wrtho, Arglwydd, paham na allaf fi dy ganlyn yr awrhon? mi a roddaf fy einioes drosot. 38. Yr Iesu a attebodd iddo, A roddi di dy einioes drosof fi? Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Ni chân y ceiliog nes i ti fy ngwadu dair gwaith.

Adn. 37 Methai Pedr a deall paham nad allai ganlyn ei Arglwydd yn awr. Ac o dan ddylanwad ei deimlad brwdfrydig dywed ei fod yn barod i'w ganlyn trwy angeu, os byddai raid. Nid oedd Pedr druan wedi adnabod ei hun pan y llefarai y geiriau byrbwyll hyn.

Adn. 38. Adnabyddai yr Iesu Pedr yn well nag yr adnabyddai Pedr ei hun. **Ni chan y ceiliog nes i ti fy ngwadu dair gwaith.** Dyma i Pedr rybudd difrifol a phrydlawn. Er mai *ceiliog* yw y cyfieithiad cyffredin o'r gair Groeg *alektwr*, cyfieithia un cyfieithydd diweddar y gair yn *bugle*, y corn arferid ei ganu gan y tyddin Rufeinig i arwyddo fod y Wyliadwriaeth (*Guard*) i gael ei newid. "*I tell you most assuredly that the bugle will not sound until you have thrice denied me.*"* Rhaid cydnabod fod yna rywbeth yn olygus a thebygol yn y golygiad hwn, ac nid yw yn gwneyd dim gwahaniaeth i ystyr y rhybudd roddodd yr Arglwydd i Pedr.

---

* "The Roman bugle called in Latin *gallus*, i.e., *the cock*, or *the crower*. It was a Roman army bugle for the signalling the relief of the Guard."—*Fenton*.

PENNOD XIV.

NA thralloder eich calon : yr ydych yn credu yn Nuw, credwch ynof finnau hefyd. 2. Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfannau : a phe amgen, mi a ddywedaswn

---

Ei fynediad at y Tad. Atebiad i Anhawsderau Thomas a Phylip.

Adn. 1. **Na thralloder eich calon.** Yr oedd ei ddisgyblion yn sicr mewn angen am gysur cryf yn yr olwg ar ymadawiad eu Hathraw oddiwrthynt. Ac yma dechreua yr Iesu eu cysuro. Tybia rhai fod a fynno anffyddlondeb Pedr gyda chwyddo eu trallod. Pa fodd bynnag, y feddyginiaeth ar gyfer y trallod oedd ffydd. **Yr ydych yn credu yn Nuw, credwch ynof finnau hefyd.** Credaf nad oes eisiau gwell cyfieithiad yma, canys rhydd cystal synwyr a'r un cyfieithiad a gynygir. Mae ffurf y ferf *credu* yn gyfryw ag y gellir ei chymeryd yn y modd *mynegol* neu *orchmynol*. Gorchmynai yr Iesu iddynt gredu ynddo ef, fel yr oeddynt yn credu eisoes yn Nuw. Ond iddynt ymarfer yr un ffydd yn yr Iesu ag oedd ganddynt eisoes yn Nuw, deuent i ganfod yn eglur ei fod ef yn ddatguddiad gwirioneddol o Dduw. Os am adnabod Crist yn iawn, ac am weled ei ogoniant Dwyfol, rhaid credu ynddo. Ac o gredu yn wirioneddol ynddo ef, ceir ei fod yn ffynhonell sylweddol o obaith a chysur o dan bob amgylchiad.

Adn. 2. **Yn nhy fy Nhad y mae llawer o drigfannau.** Dyma un ffordd sydd gan yr Iesu o gysuro ei ddisgyblion, eu sicrhau ei fod yn myned i gartref a digon o le ynddo iddynt hwythau allu ei ddilyn yno. Galwodd yr Iesu y Deml yn dŷ ei Dad (pen. ii. 16), eithr nid oedd y deml yn Jerusalem yn ddim ond cysgod. Cyfeiria yn awr at y gwrthgysgod. Credaf fod y gwrthgysgod, sef "tŷ fy Nhad" yr adnod hon mor eang a'r bydysawd *(universe)*. Ac felly fod ei ymadawiad oddiwrthynt yn fwy mewn ymddanghosiad na dim arall. Yn nhŷ ei Dad yr oedd efe, er myned yn anweledig iddynt, ond ei fod wedi newid ei drigfa, ac yn nhy ei Dad yr oeddynt hwythau tra ar y ddaear. Awgrymir hefyd, gan fod tŷ ei Dad mor helaeth, y gallant gael eu haduno, a'u dwyn i gymundeb agosach â'u gilydd yn y dyfodol. **A phe amgen, mi a ddywedaswn i chwi.** Gesyd rhai cyfieithwyr y geiriau hyn rhwng cromfachau. Yr ystyr yw, pe buasai yr ymadawiad agoshaol i fod yn un terfynol, ac heb obaith byth am aduniad, y buasai yn ddigon gonest i'w hysbysu o hyny. **Yr wyf fi yn myned i barottoi lle i chwi.** Yn ol y llawysgrifau goreu darllennir yma, "*Canys* yr wyf fi yn myned i baratoi lle i chwi." Dyma brawf fod trigfannau lawer yn nhŷ ei Dad, a gobaith am iddynt ailymuno â'u gilydd. Trwy ei adgyfodiad a'i esgyniad, fe agorodd deyrnas nefoedd i'r holl gredinwyr. Cyfeirir yma, yn ddiau, at yr arferiad o anfon cennad i baratoi lle ar gyfer y teithiwr urddasol oedd i ddilyn. Ac felly y mae'r Iesu, yn ol Awdwr y Llythyr at yr Hebreaid, yn "rhagflaenor" inni (Heb vi. 20). Pan yr esgyn-

i chwi. Yr wyf fi yn myned i barottoi lle i chwi. 3. Ac os myfi â âf, ac a barrottoaf le i chwi, mi a ddeuaf drachefn, ac a'ch cymmeraf chwi attaf fy hun; fel lle yr fi, y byddoch chwithau hefyd. 4. Ac i ba le yr wyf fi yn myned, chwi a wyddoch, a'r ffordd a wyddoch. 5. Dywedodd Thomas wrtho, Arglwydd, ni wyddom ni i ba le yr wyt ti yn myned; a pha fodd y gallwn wybod y ffordd? 6. Yr Iesu a ddywedodd wrtho ef, Myfi yw y ffordd, a'r gwirionedd, a'r bywyd: nid yw neb yn dyfod

---

odd i'r nefoedd, aeth yno, nid yn ei enw ei hun yn unig, ond yn enw a thros yr holl gredinwyr, ac felly paratodd le yno iddynt ei ddilyn.

Adn. 3. **Mi a ddeuaf drachefn, ac a'ch cymmeraf chwi attaf fy hun.** Canlyniad sicr gwaith Crist yn myned i baratoi lle iddynt oedd ei ddychweliad drachefn i'w cymeryd ato ei hun. Pa bryd, tybed? Rhoddir gwahanol atebion i'r gofyniad hwn, megis, yn ei adgyfodiad, rhoddiad yr Ysbryd Glân, dydd marwolaeth, presenoldeb Crist yn ei eglwys, a'i ail-ddyfodiad yn y dydd diweddaf. Yr atebiad mwyaf cyson yw dydd marwolaeth, neu y dydd diweddaf, ac o'r ddau, yr wyf yn tueddu at ail-ddyfodiad Crist yn y dydd diweddaf. Gwel Math. xxv. 31, 34.

Adn. 4. **Ac i ba le yr wyf fi yn myned, &c.** Gwell: *A lle yr wyf fi yn myned chwi a wyddoch y ffordd* (W.E.). *And where I am going—you all know the way* (W.). Cyffelyb yw pob cyfeithiad diweddar. Tybir gan rai fod yr Iesu yn dyweyd hyn wrthynt gyda'r amcan o brofi eu gwybodaeth. Barna eraill mai cymeryd yn ganiataol y mae oddiwrth yr addysg a gyfrannodd efe iddynt y dylasent fod yn gwybod y ffordd.

Adn. 5. **Arglwydd, ni wyddom ni i ba le yr wyt ti yn myned, &c.** Y rhesymolwr ym mhlith y disgyblion oedd Thomas. Canfyddai anhawsderau, a gofynnai am eglurhad (xi. 16; xx. 24). Gan na feddai syniad clir am y *lle* yr oedd yr Iesu yn myned iddo, nid rhyfedd o gwbl ei fod heb wybod y *ffordd*, canys y lle sydd yn penderfynnu ar y ffordd iddo. Diau y dylasai Thomas a'i gyd-ddisgyblion fod wedi dysgu yn well na hyn, ac ystyried y manteision a gawsant.

Adn. 6. **Myfi yw y ffordd, a'r gwirionedd, a'r bywyd.** Y mae y "Myfi" yma yn bwysleisiol. "*Myfi*," ac nid neb arall. Cyfarwydda yr Iesu Thomas i ddechreu gyda'r hyn oedd agosaf ato, a hawddaf iddo ef ei ddeall. Nid oes neb wedi colli y ffordd i'r nefoedd trwy ymddiried yn yr Iesu, ac ufuddhau iddo ef. Y mae Ef yn ffordd am ei fod yn wirionedd, ac yn fywyd. Gwirionedd yn arwain yn ddiogel ar hyd y ffordd, a'r bywyd yn symbyliad ac yn nerth i'w theithio. **Nid yw neb yn dyfod at y Tad, ond trwof fi.** Yn y geiriau "at y Tad" cawn eglurhad yr Iesu ei hun ar y *lle* yr oedd yn myned iddo. Yn lle llefaru yn ffigwrol, llefara yn awr yn syml a llythrenol. Trwy Grist fel yr unig Gyfryngwr, dyma'r ffordd "at y Tad"; gweledigaeth gliriach ohono, a chymundeb agosach âg ef, dyma'r terfyn, neu'r "lle."

at y Tad, ond trwof fi. 7. Ped adnabuasech fi, fy nhad hefyd a adnabuasech : ac o hyn allan yr adwaenoch ef, a chwi a'i gwelsoch ef. 8. Dywedodd Phylip wrtho, Arglwydd, dangos i ni y Tad, a digon yw i ni. 9. Yr Iesu a ddywedodd wrtho, a ydwyf gyhyd o amser gyd â chwi, ac nid adnabuost fi, Phylip? Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad : a pha fodd yr wyt ti yn dywedyd, Dangos i ni y Tad? 10. Onid wyt ti yn credu fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynnof finnau? Y geiriau yr wyf fi yn eu llefaru wrthych, nid o honof fy hun yr wyf yn eu llefaru ; ond y Tad yr hwn sydd yn aros ynof, efe sydd yn

---

Adn. 7. **Ped adnabuasech fi, fy Nhad hefyd a adnabuasech.** Gwelir y fath undod rhyfedd a chyfrin sydd rhwng y Mab a'r Tad, fel ag y mae'r Iesu yng ngeiriau Paul yn "ddelw y Duw anweledig" (Col. i. 15). Nid gwadu y gwahaniaeth personol y mae'r Iesu yma ; ond pwysleisio undod yr hanfod Dwyfol, a'r berthynas arbennig *(unique)* oedd rhyngddo ef â'r Tad, fel ei unig-anedig Fab (i. 18). Adnabod, neu yn fwy manwl, *dyfod i adnabod* yr Iesu, yw adnabod Duw, a gweled yr Iesu yw gweled cymaint o Dduw ag y byddwn byth yn alluog ohono (Ex. xxxiii. 20).

Adn. 8. **Dangos i ni y Tad, a digon yw i ni.** Eisieu gweledigaeth o'r Tad fuasai yn apelio at ei lygaid naturiol, heb wybod yn iawn beth y gofynnai amdano oedd ar Phylip. Dichon ei fod yn gwybod y byddai Duw yn ymddangos ar ffurf weledig i'r Patriarchiaid, yn y "*Theophanies*" y crybwyllir amdanynt yn yr Hen Destament (Ex. xxiv. 9, &c., xxxiii. 18, &c.). Ac ond iddo gael amlygiad felly o'r Tad, credai y buasai hyny yn ei lwyr foddloni. Anianol iawn oedd syniad a dymuniad Phylip.

Adn. 9. **A ydwyf gyhyd o amser gyda chwi, ac nid adnabuost fi, Phylip?** Teimlai yr Iesu yn siomedig ac yn ofidus, fod Phylip ar ol bod cymaint o amser yn ei gymdeithas, ac o dan ddylanwad ei addysg, ac wedi dysgu cyn lleied. Rhyfeddai na fuasai wedi canfod "ddelw y Duw anweledig" yn dyfod i'r amlwg yn ei fywyd, ac yn ei addysg. **Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad.** Yr un gwirionedd yn cael ei ail-adrodd ag sydd yn adn. 7. Crist yw yr unig ddatguddiad o'r Tad i ddynion, ac y mae yn ddatguddiad cywir a llawn ohono.

Adn. 10. **Onid wyt ti yn credu fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynof finnau?** Dyma brawf gwestiwn uniawngredded ein credo am Berson y Gwaredwr. Yr oedd y Tad ynddo ef, ac yntau yn y Tad, mewn ystyr nas gellid dyweyd hyny am neb arall. **Y geiriau yr wyf fi yn eu llefaru wrthych, nid o honof fy hun yr wyf yn eu llefaru.** Dyma un prawf o'r undeb dirgeledig oedd rhyngddo â'r Tad. Nid fel dyn yn llefaru ohono ei hun, ond fel un oedd yn cyfranogi o feddyliau a natur y Duwdod ei hun. **Ond y Tad yr hwn sydd yn aros ynof, efe sydd yn gwneuthur**

gwneuthur y gweithredoedd. 11. Credwch fi, fy *mod* i yn y Tad, a'r Tad ynof finnau : ac onid ê, credwch fi er mwyn y gweithredoedd eu hunain. 12. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Yr hwn sydd yn credu ynof fi, y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur, yntau hefyd a'u gwna, a mwy na'r rhai hyn a wna efe : oblegid yr wyf fi yn myned at fy Nhad. 13. A pha beth bynnag a ofynnoch yn fy enw i, hynny a wnaf ; fel y gogonedder

---

y gweithredoedd. Yn ol y llawysgrifau goreu, dylid darllen yma yn lle "y gweithredoedd," *ei weithredoedd*. Dyma brawf ychwanegol o undod natur â'r Tad. Y mae'r undeb mor agos ac hanfodol fel ag yr oedd gweithredoedd Crist yn gymaint o eiddo y Tad, ag yr oeddynt yn eiddo iddo ef ei hun.

Adn. 11. **Ac onide, credwch fi er mwyn y gweithredoedd eu hunain.** Y gweithredoedd nerthol a gyflawnodd pan ar y ddaear. Yr oedd y gweithredoedd yn gyfryw nad allasai yr Iesu mo'i cyflawni, oni buasai fod Duw mewn gwirionedd ynddo ef. Nid *gydag ef*, fel y tybiai Nicodemus (iii. 2), ond *ynddo* ef. Fel hyn, nid oedd yr Iesu am fychannu na chelu y gwyrthiau, ond cyfeiria atynt fel prawf cryf ac anwrthwynebol o'i Dduwdod gwirioneddol.

12—24. Elfennau eraill o gysur yn cynnwys atebiad i Judas, nid yr Iscariot.

Adn. 12. **Y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur, yntau hefyd a'u gwna.** Sicrha yr Iesu yma y byddai i'w ddisgyblion crediniol gyflawni gwyrthiau ar ol ei ymadawiad corphorol oddiwrthynt. Ac felly y gwnaethant am gyfnod. Darllenner eu hanes yn Llyfr yr Actau. **A mwy na'r rhai hyn a wna efe.** Yn lle bod yr amlygiad goruwchnaturiol yn lleihau, cynhydda ar ol ei ymadawiad. Nid at wyrthiau anianyddol mwy y cyfeirir yma, ond effeithiau ysprydol ac achubol, a ddechreuasant ar ddydd y Pentecost yn Jerusalem. Yr oedd gwaith yr apostolion yn ennill buddugoliaeth ar anghrediniaeth yr Iuddewon, ac ofergoeledd y paganiaid, yn fwy na dim gwyrthiau anianyddol gyflawnwyd erioed. A diau hefyd fod yma gyfeiriad at goncwest yr efengyl ym mhob oes a gwlad. Nid yw y gweithredoedd mwy wedi gorphen eto. **Oblegid yr wyf fi yn myned at fy Nhad.** Pa beth bynnag oedd nerth a dylanwad yr Iesu pan ar y ddaear yn nyddiau ei gnawd, y mae wedi cynhyddu yn anrhaethol ar ol ei esgyniad i'r nefoedd. Dyma y rheswm am gyflawniad y gweithredoedd mwy. Rhoddwyd iddo Ef bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear (Math. xxviii. 18), &c,

Adn. 13. **A pha beth bynnag a ofynoch yn fy enw i, hynny a wnaf.** Cyfarwyddyd pa fodd y dichon dynion eiddil ac egwan gyflawni y gweithredoedd mwy. Gofyn yn enw Crist, a dibynnu yn hollol arno ef. Cynhwysa enw Crist ei Berson, ei deilyngdod, ei awdurdod, a'i yspryd. Y gweddïwr yn anghofio ei hun ac yn ymgolli yng Nghrist a'i Anfeidrol haeddiant, ac yn gosod ei

y Tad yn y Mab. 14. Os gofynwch ddim yn fy enw i, mi a'i gwnaf. 15. ¶ O cherwch fi, cedwch fy ngorchymynion. 16. A mi a weddïaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi Ddiddanydd arall, fel yr arhoso gyd â chwi yn dragywyddol; 17. Ysbryd y gwirionedd yr hwn ni ddichon y byd ei dderbyn, am nad yw yn ei weled, nac yn ei adnabod ef: ond chwi a'i hadwaenoch ef; o herwydd

---

hun yn y fath safle yn ei berthynas â Christ, fel nas gall y Tad mo'i wrthod ef, heb wrthod ei anwyl Fab ei hun. **Fel y gogonedder y Tad yn y Mab.** Edrychir yma ar y Tad fel yr un sydd yn gwrando y weddi er mwyn y Mab. Ac wrth wrando ac ateb y weddi y mae'r Tad yn cael ei ogoneddu trwy y Mab. Ni fynai'r Iesu wneud dim oedd yn tueddu i gymylu dim ar ogoniant y Tad. Teimlai yn hytrach yn eiddigus am iddo ef yn flaenaf, ac yn bennaf, gael ei ogoneddu.

Adn. 14. Nid yw yr adnod hon ond cadarnhad o'r gwirionedd sydd yn yr adnod flaenorol. Tuedda i gryfhau ac i gadarnhau ffydd y disgyblion a chredinwyr ym mhob oes yng ngallu a dylanwad gweddi. Nid dylanwad deiliadol, dylanwad ar feddwl y gweddïwr ei hun, yw gweddi, ond perthyn iddi ddylanwad gwrthrychol, "*Mi a'i gwnaf.*"

Adn. 15. **O cherwch fi, cedwch fy ngorchymynion.** Gwell: *Os cerwch fi, chwi a gedwch fy ngorchymynion.* Cymeradwya y mwyafrif o feirniaid diweddar y darlleniad hwn. Dysgir yma y cysylltiad sicr ac annatodol rhwng caru Crist yn wirioneddol, ac ufudd-dod i'w orchmynion. Ac felly, y mae peidio cadw gorchmynion yr Arglwydd Iesu Grist yn brawf sicr ac amlwg, nad oes cariad tuag ato yn llywodraethu y galon. Nid oes dim yn fwy naturiol, na pharodrwydd i wneuthur ewyllys yr hwn a gerir yn gywir gennym.

Adn. 16. **A mi a weddiaf ar y Tad,** neu mi a *ofynaf* i'r Tad. Dyma'r fraint sydd yn gysylltiol â'r ddyledswydd y crybwyllir amdani yn yr adnod flaenorol, sef caru Crist ac ufuddhau iddo ef. **Ac efe a rydd i chwi Ddiddanydd arall.** Ystyr y gair Diddanydd neu Ddadleuydd (Gr., *Paraklêtos*) ydyw *Un a elwir i ymyl* un arall er ei gynorthwyo, a dadleu ar ei ran, fel y Dadleuydd mewn llys gwladol. Cyfeithir yr un gair Groeg yn Eiriolwr yn 1 Ioan ii. 1. Gan y gelwir Crist yn Ddadleuydd, gwelir y priodoldeb o alw yr Ysbryd Glân at yr hwn y cyfeirir yma, yn Ddadleuydd, neu Ddiddanydd *arall.* Gwelir fod y syniad am Drindod o Bersonau yn yr Hanfod Ddwyfol, yn dyfod i'r golwg yma. Crist, y Tad, a'r Diddanydd arall, sef, yr Ysbryd Glân. **Fel yr arhoso gyda chwi yn dragywyddol.** Byr iawn fu arhosiad gweledig Crist gyda'i ddisgyblion, ond yn wrthgyferbyniol i hyny, y mae'r Diddanydd arall i aros gyda hwynt yn dragwyddol.

Adn. 17. **Yspryd y gwirionedd.** Gwaith arbennig yr Ysbryd Glân ydyw datguddio gwirionedd i feddyliau a chalonnau dynion. Efe yw gwarcheidwad a dehonglydd y gwirionedd, yn neilltuol y gwirionedd am Grist, a'r iachawdwriaeth sydd ynddo ef. **Yr hwn ni ddichon y byd ei dderbyn, am nad yw yn ei weled, nac yn ei adnabod ef.** Unig gyfrwng y byd i

y mae yn aros gyd â chwi, ac ynoch y bydd efe. 18. Nis gadawaf chwi yn amddifaid : mi a ddeuaf attoch chwi. 19. Etto ennyd bach, a'r byd ni'm gwel mwy ; eithr chwi a'm gwelwch : canys byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd. 20. Y dydd hwnnw y gwybyddwch fy *mod* i yn fy Nhad, a chwithau ynof fi, a minnau ynoch chwithau. 21. Yr hwn sydd a'm gor-

---

adnabod pethau, ydyw *gweled* pethau gwrthrychol sydd yn dyfod o fewn cylch ei synwyrau corphorol. A chan nad yw yr Yspryd i'w weled yn yr ystyr hon, ni ddichon y byd ei adnabod na'i dderbyn. Fíydd yw yr unig gyfrwng i adnabod a derbyn yr Yspryd Glân (1 Cor. ii. 12—14). **Ond chwi a'i hadwaenoch ef; oherwydd y mae yn aros gyda chwi, ac ynoch y bydd efe.** Cyfeiria "chwi a'i hadwaenoch" at adnabyddiaeth ddechreuol a chynhyddol o'r Yspryd. Ond gan y bydd yr Yspryd yn aros gyda'r credinwyr ac yn trigo ynddynt, amlwg yw y bydd eu hadnabyddiaeth ohono ef, ac o'i weithrediad achubol yn myned yn llawnach a chyfoethocach. Sylwer fod yr Yspryd, nid yn unig *gyda hwynt* mewn cymdeithas â hwynt, ac yn eu *hymyl*, *gerllaw*, wrth eu hochr i'w hamddiffyn, ond y mae hefyd *ynddynt* i'w hysprydoli a'u nherthu, ac i fod ynddynt yn ffynhonell barhaus o fywyd ysprydol.

Adn. 18. **Nis gadawaf chwi yn amddifaid,** fel plant heb dad. Teimlai yr Iesu fod sefyllfa y disgyblion yn un ddigysur a diamddiffyn ar wahan iddo ef. **Mi a ddeuaf attoch chwi.** Gwell : *Yr wyf yn dyfod attoch.* Daeth atynt yn ei adgyfodiad, ond mewn modd arbennig felly yn nyfodiad yr Yspryd Glân ar ddydd y Pentecost. Ymresyma Paul fod Crist a'r Yspryd Glân yr unrhyw un i bob amcan ymarferol (Rhuf. viii, 9—11).

Adn. 19. **Etto ennyd bach, a'r byd ni'm gwel mwy.** O'r adeg y llefarai hyd ei farwolaeth. Ac ar ol iddo adgyfodi, nis gwelai y byd anghredinIol mohono ef, am y byddai wedi ymneillduo oddiwrtho. **Eithr chwi a'm gwelwch,** y disgyblion mewn gwrthgyferbyniad i'r byd. **Canys byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd.** Rheswm yw y geiriau hyn am y cymundeb fyddai rhwng Crist â'r disgyblion. Byddai ef yn fyw, a byddent hwythau yn fyw hefyd. Ac am fod yr Iesu yn fyw, y bydd y disgyblion a phawb a gredant ynddo yn fyw. Ei weled ef trwy fywyd o gymundeb ysprydol âg ef trwy ffydd.

Adn. 20. **Y dydd hwnnw y gwybyddwch fy mod i yn fy Nhad,** sef ar ol ei adgyfodiad a dyfodiad yr Yspryd Glân. Caent wybod trwy adnabyddiaelh brofiadol o'r bywyd newydd oedd yn feddiant iddynt. **A chwithau ynof fi, a minnau ynoch chwithau.** Sylweddolent i raddau yr undeb cyfriniol sydd nid yn unig rhwng Crist â'r Tad, ond rhwng Crist â'r rhai sydd yn credu ynddo ef.

Adn. 21. **Yr hwn sydd a'm gorchymynion i ganddo, ac yn eu cadw hwynt, &c.** Ceir yr un syniad yma ag yn adn. 15, ond wedi ei

chymynion i ganddo, ac yn eu cadw hwynt, efe yw yr hwn sydd yn fy ngharu i; a'r hwn sydd yn fy ngharu i, a gerir gan fy nhad i: a minnau a'i caraf ef, ac a'm hegluraf fy hun iddo. 22. Dywedodd Judas wrtho (nid yr Iscariot,) Arglwydd, pa beth yw yr achos yr wyt ar fedr dy eglurhâu dy hun i ni, ac nid i'r byd? 23. Yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Os câr neb fi, efe a geidw fy ngair; a'm Tad a'i câr yntau, a nyni a ddeuwn atto, ac a wnawn ein trigfa gyd âg ef. 24. Yr hwn nid yw yn fy ngharu i, nid yw yn cadw fy ngeiriau: a'r gair yr ydych yn ei glywed, nid eiddof fi ydyw, ond

---

gyfleu yn llawnach. Nid oes modd caru Crist heb gadw ei orchymynion ef. **A'r hwn sydd yn fy ngharu i, a gerir gan fy Nhad i.** Dyma un o freintiau y rhai sydd yn caru Crist, bod yn wrthrychau cariad cymeradwyol y Tad. Caiff brofion newydd yn barhaus o gariad Duw yng Nghrist. **A minnau a'i caraf ef, ac a'm hegluraf fy hun iddo.** Mae hwn yn gariad arbennig o eiddo Crist. Nid ei gariad tuag at bechaduriaid yn gyffredinol, ond tuag at gredinwyr yn neilldiol. Cariad o gymeradwyaeth a boddhad, ac nid o ewyllys da yn unig. Yn lle "*ac a'm hegluraf fy hun iddo*," cyfieithir y geiriau gan Dr. W. Edwards yn "*Ac a wnaf fy hun yn amlwg iddo.*" "*And will clearly reveal myself to him*" (W.). Yr ystyr yw, gwneuthur ei hun yn amlwg iddo, mewn datguddiad ysprydol ym mhrofiad y credadyn. Gan dderbyn trwy yr Yspryd Glân brofiad cyfoethocach o eiddo Crist, daw i feddu dirnadaeth gywirach a chliriach ohono.

Adn. 22. **Dy eglurhau dy hun i ni, ac nid i'r byd.** Gwell: "*Gwneuthur dy hun yn amlwg i ni, ac nid o gwbl i'r byd*" (W.E.). Tra thebyg mai o dan ddylanwad y disgwyliad am Fessiah daearol y gofynnodd Judas y cwestiwn hwn. Rhyfeddai, fel Brodyr Crist (vii. 4), na fuasai yn amlygu ei hun i'r byd. Daearol ei syniad oedd Judas wrth ofyn y fath gwestiwn.

Adn. 23 a 24. Yn adn. 23 rhydd Crist mewn sylwedd yr un ateb ag a roddasai eisoes yn adn. 21, gyda'r gwahaniaeth fod y Tad ac yntau yn dyfod i wneud eu trigfa gyda'r hwn sydd yn ei garu, ac yn cadw ei air ef. Nid ymweliad *byr*, ond trigo yn *barhaus*, ac nid *ynddo ef*, ond *gydag ef*, trwy gymdeithas hyfryd a dedwydd. **A'r gair yr ydych yn ei glywed, nid eiddof fi ydyw.** Nid yng Nghrist ar wahan i'r Tad yr oedd wedi gwreiddio, ond yn y Tad; a thrwy y Mab yr oedd wedi ei hysbysu i ddynion. Ac felly yr oedd yn air y Tad yn ogystal ag yn air y Mab. Amcan yr Iesu yn dyweyd hyn oedd pwysleisio y pwysigrwydd o gadw ei air ef, am ei fod yn eiddo y Tad a'i hanfonodd ef.

25—31. Addewid am ddysgeidiaeth yr Yspryd, Tangnefedd fel Cymunrodd, Tywysog y byd.

Adn. 25, 26. Er yr oll a ddysgodd yr Iesu i'w ddisgyblion tra gyda hwynt yn weledig ar y ddaear, eto ystyriai nad oedd hyny yn ddigon iddynt, ac addawa ddynt ddysgeidiaeth y Diddanydd, yr Yspryd Glân, yn y dyfodol.

eiddo y Tad a'm hanfonodd i. 25. Y pethau hyn a ddywedais wrthych, a mi yn aros gyd â chwi. 26. Eithr y Diddanydd, yr Ysbryd Glan, yr hwn a enfyn y Tad yn fy enw i, efe a ddysg i chwi yr holl bethau, ac a ddwg ar gôf i chwi yr holl bethau a ddywedais i chwi. 27. Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd; fy nhangnefedd yr ydwyf yn ei roddi i chwi: nid fel y mae y byd yn rhoddi, yr wyf fi yn rhoddi i chwi. Na thralloder eich calon, ac nac ofned. 28. Clywsoch fel y dywedais wrthych, Yr wyf yn myned ymaith, ac mi a ddeuaf attoch. Pe carech fi, chwi a lawenhâech am i mi ddywedyd, Yr wyf

---

Adn. 25. **A mi yn aros gyda chwi.** Nid yn ysprydol, ond llythrenol a gweledig.

Adn. 26. **Diddanydd.** Gwell: *Dadleuydd neu Eiriolwr.* **Efe a ddysg i chwi yr holl bethau.** Nid dysgu gwirioneddau newyddion, ond eu galluogi i ddeall a dirnad dysgeidiaeth yr Athraw. "*Hadau* oedd geiriau Crist. Dan ddylanwad yr Yspryd yr oeddynt i egino a thyfu, fel y cawn yn y diwedd wyddoniaeth gyflawn trefn iachawdwriaeth" (W.E.). **Ac a ddwg ar gof i chwi yr holl bethau a ddywedais i chwi.** Dyma addewid hynod o bwysig. Pe heb ei rhoddi, buasai yn anawdd iawn cyfrif am gyfansoddiad yr efengylau. Eithr yng ngoleu yr addewid hon, nid anawdd yw deall pa fodd y cofnodwyd geiriau Crist yn yr efengylau. Nid dynion yn ymddiried i'w cof naturiol yn unig sydd wedi eu cofnodi, ond dynion gynorthwywyd mewn modd arbennig gan yr Yspryd Glân i gofio a chofnodi geiriau Crist. Nid yn unig y maent wedi adgynhyrchu geiriau Crist yn gywir, ond taflwyd goleuni newydd yn fynych ar ystyr ei eiriau (ii. 22, xii. 26) yn ogystal ag ar ei Berson a'i waith.

Adn. 27. **Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd.** Tangnefedd oedd cyfarchiad ymadawol, ffarwel yr Iuddew. Gadawodd ef fel cymunrodd iddynt. **Fy nhangnefedd yr ydwyf yn ei roddi i chwi.** Pwysleisier "*fy*" nhangnefedd. Nid ffurf wag mohono, ond sylwedd ysprydol. Tangnefedd o'r un natur ag yr oedd yr Iesu ei hun yn ei fwynhau yn ei berthynas â'i Dad. **Nid fel y mae y byd yn rhoddi, &c.** Rhoddi ffurfiol a gwag yn fynych yw eiddo y byd, ac yn cael ei ddilyn yn aml gan siomedigaeth, ond am roddi Crist, y mae yna sylwedd, sefydlogrwydd, a pharhad yn perthyn iddo. **Na thralloder eich calon, &c.** Nid oes yr un balm yn fwy cyfaddas ac effeithiol ar gyfer trallod calon, na "thangnefedd heddychol" fel eiddo Crist i'w wir ddisgyblion. Dychwela yr Iesu yma at gyweirnod ei anerchiad, prif amcan yr hon oedd cysuro ei ddisgyblion yn yr olwg ar y golled o'i bresenoldeb gweledig.

Adn. 28. Dysgir yr un gwirionedd yma ac yn adn. 2, 3. Yn hytrach na fod ei ymadawiad yn achosi trallod calon iddynt, dylasai fod yn destyn llawenydd iddynt, os yn ei garu mewn gwirionedd. Yr oedd ymadawiad Crist yn ddyrchafiad iddo. Yr oedd yn fyned at y Tad, i gymundeb agosach â'r Tad, i'r un safle o anrhydedd ac awdur-

yn myned at y Tad : canys y mae fy Nhad yn fwy na myfi. 29 Ac yr awrhon y dywedais i chwi cyn ei ddyfod, fel pan dêl, y credoch. 30. Nid ymddiddanaf â chwi nemmawr bellach : canys tywysog y byd hwn sydd yn dyfod, ac nid oes iddo ddim ynof fi. 31. Ond fel y gwypo y byd fy mod i yn caru y Tad, ac megis y gorchymynodd y Tad i mi, felly yr wyf yn gwneuthur. Codwch, awn oddi yma.

---

dod a'r Tad (Math. xxviii. 28). **Canys y mae fy Nhad yn fwy na myfi.** Nid oes ystyr na synwyr yn y geiriau hyn, os nad oedd Crist yn fwy na dyn yn unig. Llefara fel Duw-ddyn. Ac am hyny, y mae yn briodol iddo ddyweyd fod y Tad yn *fwy* nag ef. Er yn un a'r Tad o ran *sylwedd*, eto yr oedd yn israddol iddo, fel y mae *mab* yn israddol i dad.

Adn. 29. **Ac yr awrhon y dywedais i chwi cyn ei ddyfod, &c.** Cyfeiriad at ei ymadawiad trwy farw a'i ganlyniadau. Pan ddelid ef gan ei elynion marwol, ac y traddodent ef i farwolaeth, nid oedd hyny i aflonyddu dim ar feddwl y disgyblion fel pe digwyddasai rhywbeth annisgwyliadwy. Yr oedd yr Iesu yn paratoi meddyliau ei ddisgyblion ar gyfer hyny. A phan y cymerai hyny le, cadarnheid eu ffydd yn yr Iesu, am iddo ef ei hun ragfynegi hyny.

Adn. 30. **Nid ymddiddanaf a chwi nemmawr bellach.** Y mae fy amser i ymddiddan â chwi bron yn y terfyn. **Canys tywysog y byd hwn sydd yn dyfod.** Gwell : *Canys tywysog y byd sydd yn dyfod.* Gadewir y gair "*hwn*" allan o'r llawysgrifau goreu. Edrycha yr Iesu, a gwel y diafol tu ol i holl gynllwynion ei elynion marwol. Gwel ef yn gweithio trwy Judas, yr arch-offeiriaid, a'r awdurdodau yn Jerusalem. "Yr yspryd sydd yn gweithio yr awrhon ym mhlant anufudd-dod," efe oedd yn cynhyrfu ac yn rheoli yr holl symudiad i gondemnio, croeshoelio a lladd "Tywysog y Bywyd." **Ac nid oes iddo ddim ynof fi,** neu, *Ac ynof fi nid yw yn cael dim.* Er iddo dros dro orchfygu yr Iesu, trwy ei roddi i farwolaeth, eto nid oedd iddo ddim awdurdod arno. Cymerodd yr Iesu ei orchfygu mewn ufudd-dod i ewyllys ei Dad, ac nid am fod y diafol wedi cael dim ynddo ef oedd yn rhoddi iddo hawl nac awdurdod arno o gwbl. Methodd a dyfod o hyd i un lle gwan yn natur Crist, iddo gael gafael arno, ac yn absenoldeb pechod, ni allai Satan gael dim llywodraeth drosto.

Add. 31. **Ond fel y gwypo y byd fy mod i yn caru y Tad, &c.** Dyma'r gwir eglurhad ar y triniaethau poenus a chwerw yr aeth yr Iesu trwyddynt, nes llefaru gorphennwyd ar y groes, cariad at y Tad yn torri allan mewn ufudd-dod llawn i'w orchymyn ef (x. 18). **Codwch, awn oddiyma.** Codi o'r ystafell, er myned tua gardd Gethsemane, mae'n debyg. Tybir fod yr anerchiadau sydd yn dilyn, xv., xvi., a'r weddi o eiriolaeth, xvii., wedi eu llefaru ar ol gadael yr oruwch-ystafell pan yn myned trwy borth y ddinas tua Gethsemane. Ond y mae'n bosibl iddynt gael eu llefaru ar ol i'r Iesu godi oddiwrth y bwrdd, a chyn iddo ef adael yr oruwch-ystafell.

PENNOD XV.

MYFI yw y wir winwydden, a'm Tad yw y llafurwr. 2. Pob cangen ynof fi heb ddwyn ffrwyth, y mae efe yn ei thynnu ymaith : a phob un a ddygo ffrwyth, y mae ef yn ei glanhâu, fel y dygo fwy o ffrwyth. 3. Yr

---

1—8. Alegori y Winwydden a'r Canghenau.

Yn yr olwg ar ei ymadawiad oddiwrthynt, a'i wahaniad *allanol* oddiwrthynt, naturiol iawn oedd i'r Iesu ddymuno argraffu ar feddyliau ei ddisgyblion fod yn bosibl ac yn angenrheidiol i undeb *tufewnol* barhau rhyngddynt. A dyma ei amcan yn llefaru yr alegori hon. Anawdd fuasai iddo gael gwell eglureb o'r undeb agos, bywiol, ond cyfriniol, sydd rhwng Crist a'i wir ddisgyblion. Amhosibl penderfynnu beth achlysurodd i'r Iesu ddefnyddio yr eglureb hon, pa un ai yfed o ffrwyth y winwydden yn y swper olaf, ai ynte gweled y gwinwydd yn tyfu ar lethrau y bryniau wrth fyned heibio, neu ynte edrych ar winwydden aur oedd yn gerfiedig ar un o byrth y deml. Ond ar wahan i'r ystyriaethau a nodwyd, yr oedd y winwydden yn eglureb naturiol, yn arwyddlun hoff iawn gan yr Iuddewon, ac wedi ei defnyddio yn yr Hen Destament i osod allan y berthynas neillduol oedd rhwng cenedl Israel â'r Arglwydd. "Gwinllan sydd i'm hanwylyd mewn bryn tra ffrwythlawn" (Esay v. 1, &c.; Jer. ii. 21; Hosea x. 1).

Adn. 1. **Myfi yw y wir winwydden.** Geilw yr Iesu ei hun yma yn wir winwydden, neu yn winwydden wirioneddol, nid yn wrthgyferbyniol i'r gau a'r ffugiol, ond yn gyflawn a pherffaith, ac yn sylweddoli y delfryd ohoni. Cysgod oedd pob gwinwydden arall, ond Crist oedd y sylwedd tragwyddol. **A'm Tad yw y llafurwr.** Nid yn unig y Tad yw ei pherchen, ond Efe hefyd, trwy ei Yspryd, sydd yn ei harolygu a'i thrin.

Adn. 2. **Pob cangen ynof fi heb ddwyn ffrwyth, y mae efe yn ei thynnu ymaith.** Dyma eiriau sydd yn dysgu yn eglur a phendant barhad *amodol* y credadyn yng Nghrist. Rhaid ei fod yn gredadyn gwirioneddol, onide ni fuasai *yng* Nghrist. "Pob canghen *ynof fi*." Nid ynddo ef o ran proffes a breintiau eglwysig a feddylir, ac onide, rhaid mai yr un ystyr sydd i aros yng Nghrist yn y bedwaredd, bumed a'r seithfed adnod. Beth fuasai yn arwain y Gwaredwr i son am aros ynddo ef mewn ystyr allanol ac arwynebol yn yr ail a'r chweched adnod, ac am aros ynddo mewn ystyr ysprydol a gwirioneddol yn yr adnodau eraill? Onid eu dirdynnu o'u hystyr naturiol a wneir, er mwyn ceisio amddiffyn cyfundraeth ddiwinyddol neillduol? **A phob un a ddygo ffrwyth, y mae efe yn ei glanhau, &c.** *A phob un sydd yn dwyn ffrwyth, y mae efe yn ei thrwsio, fel y dygo fwy o ffrwyth* (W.E.). *Every branch that bears fruit he prunes, &c.* (W.). Gwir mai glanhau yw y cyfleithiad llythrenol o'r Groeg *(Kathairei)* eithr yn ffigwrol yn unig y gellir son am lanhau canghen. Ac oherwydd hyny y mae trwsio neu docio y gangen yn ddisgrifiad cywirach o'r hyn

awrhon yr ydych chwi yn lân trwy y gair a lefarais i wrthych. 4. Arhoswch ynof fi, a mi ynoch chwi. Megis na all y gangen ddwyn ffrwyth o honi ei hun, onid erys yn y winwydden ; felly ni ellwch chwithau, onid arhoswch ynof fi. 5. Myfi yw y winwydden, chwithau *yw* y canghennau. Yr hwn sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, hwnnw sydd yn dwyn ffrwyth lawer:

---

a wneir iddi na glanhau. Cyfeiriad sydd yma at y moddion a ddefnyddia Duw er dwyn credinwyr sydd yn ffrwytho, i fod yn fwy ffrwythlon. Moddion cyffredin Duw i lanhau neu docio y gangen yw dylanwad ei air (adn. 3), ond defnyddia hefyd wahanol oruchwyliaethau ei ras a'i ragluniaeth er cyraedd yr un amcan. Mae amrbell oruchwyliaeth chwerw ac ysgythrog wedi gwneud aml i gredadyn yn fwy ffrwythlon. "Fel y mae y garddwr yn torri tyfiadau gwyllt'ion ac afreolaidd o'r pren, er mwyn i'r holl nodd redeg i gryfhau a chyfoethogi y ffrwyth, felly y mae'r Arglwydd, trwy y gwahanol gyfryngau a ddefnyddia, yn glanhau y credadyn oddiwrth y pethau fydd yn ei rwystro i ddwyn 'ffrwythau cyfiawnder er gogoniant a moliant i Dduw'" (E.B.).

Adn. 3. **Yr awrhon yr ydych chwi yn lan, &c.** Yr oedd dylanwad gair Crist wedi cael ei briodol ddylanwad ar feddyliau y disgyblion, fel ag i'w glanhau, neu symud ymaith trwy eu tocio, yr hyn oedd yn rhwystr iddynt ddwyn mwy o ffrwyth Cristionogol.

Adn. 4. **Arhoswch ynof fi.** Penderfynna y geiriau hyn nad oes ond un ystyr i fod i'r ymadrodd *yng Nghrist* yn yr alegori hon. Cynghora Crist hwy yma i aros ynddo ef, eithr os bod ynddo yn yr ystyr o broffes neu fwynhau breintiau eglwysig yn unig sydd yn adn. 2, dyna sydd yma hefyd. Nid oes yr awgrym lleiaf fod Crist yn rhoddi dwy ystyr wahanol i fod ynddo ef. Eithr yn sicr, nid dyna feddwl y Gwaredwr yma, ond bod ynddo ac aros ynddo trwy ffydd. **A mi ynoch chwi.** Gwelir fod yr undeb sydd rhwng Crist a'r credinwyr yn ddyblyg. Gwir Gristionogion ynddo ef trwy ffydd, ac yntau ynddynt hwythau trwy breswyliad ei Ysbryd. **Felly ni ellwch chwithau, onid arhoswch ynof fi.** Yn gyfatebol i anallu y gangen i ddwyn ffrwyth heb fod yn y winwydden, y mae Cristionogion yn hollol analluog i ddwyn ffrwyth o sancteiddrwydd heb fod mewn undeb â Christ. Gwelir nad oes un math o reidrwydd arnynt i aros yng Nghrist. Gallant aros neu beidio, "*onid arhoswch ynof fi.*" Mae rhyddid a moesolrwydd yn nodweddu credinwyr yng Nghrist, ac yn hyn y maent yn wahanol i ganghennau goddefol a materol.

Adn. 5. **Myfi yw y wir winwydden, chwithau yw y canghennau.** Eglurhad ac ail-adroddiad sydd yn yr adnod hon o'r hyn a ddysgwyd gan Grist yn yr adnodau blaenorol. Rhydd bwyslais arbennig ar anallu hollol ei ddisgyblion i wneud dim hebddo ef. **Oblegid hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim.** Cywirach a mwy llythrenol : Canys *ar wahan i mi*, ni ellwch chwi wneuthur dim.

oblegid hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim. 6. Onid erys un ynof fi, efe a daflwyd allan megis cangen, ac a wywodd ; ac y maent yn eu casglu hwynt, ac yn eu bwrw yn tân, a hwy a losgir. 7. Os arhoswch ynof fi, ac aros o'm geiriau ynoch, beth bynnag a ewyllysioch, gofynwch, ac efe a fydd i chwi. 8. Yn hyn y gogoneddwyd fy

---

Adn. 6. **Onid erys un ynof fi, efe a daflwyd allan.** Os nad yw y geiriau hyn yn dysgu y posibilrwydd i gredadyn beidio aros yng Nghrist, ond rhoddi ffordd trwy ddiofalwch i "galon ddrwg anghrediniaeth, gan ymadaw oddiwrth Dduw byw," nid oes ystyr i iaith (Heb. iii. 12 ; Rhuf. xi. 19—21). Pwy all gredu fod yr Athraw yma yn cyhoeddi bygythiad mor ddifrifol yn erbyn yr hyn nad allai ddigwydd o gwbl ? Dyma effaith anghrediniaeth bob amser, gwahanu yr enaid oddiwrth Grist, a pheri iddo ymadaw oddiwrth Dduw byw. **Megis cangen, ac a wywodd.** Tybia rhai fod y taflu allan yn dilyn y gwywo, ac nid y gwywo yn ganlyniad y taflu allan. Credaf mai gwell dilyn trefn naturiol y geiriau. Ar ol peidio aros mewn undeb â Christ trwy ffydd, y mae yna wahanu yn cymeryd lle, "efe a daflwyd allan," neu efe a daflwyd tuallan i'r winllan. Taflwyd y gangen allan y foment y peidiodd a bod mewn undeb â'r winwydden. A chyffelyb yw tynged ofnadwy yr anghredadyn gwrthgiliedig, a'i ddiwedd yw cael ei lwyr ddinistrio. Nid yw o unrhyw werth na defnydd yn llywodraeth Duw. Nid oes dim i'w wneud âg ef bellach ond ei fwrw i'r tân a'i losgi. Iaith ffigwrol gref i osod allan ddiwedd truenus ac anobeithiol anghredinwyr mewn sefyllfa ddyfodol.

Adn. 7. **Os arhoswch ynof fi, ac aros o'm geiriau ynoch.** Awgrymir yn eglur yn y geiriau hyn y posibilrwydd iddynt beidio aros ynddo ef. Nid oes modd aros trwy ffydd yng Nghrist heb i'w eiriau aros yn eu dylanwad ar y meddwl a'r galon. Geiriau Crist sydd yn meithrin ac yn cryfhau ein ffydd ynddo ef, ac y maent i aros ynom i'n cyfarwyddo ac i'n llywodraethu. **Beth bynnag a ewyllysioch, gofynwch, ac efe a fydd i chwi.** Y darlleniad goreu yma yw, *Ceisiwch*, neu *chwi a geisiwch, pa bethau bynnag a ewyllysioch, ac efe a fydd i chwi.* Dysgir yma fod aros yng Nghrist, ac o dan ddylanwad ei eiriau, yn cynnwys sicrwydd am wrandawiad ein gweddïau. Canys yr ydym felly yn gweddïo gyda ffydd yng Nghrist, yn Yspryd Crist, a gyda chalonnau ufudd iddo ef. Er fod "beth bynnag a ewyllysioch" yn eang iawn, eto, os yng Nghrist, ac o dan ddylanwad ei Yspryd, ni ofynnwn am ddim sydd yn groes i ewyllys Duw, ond bydd ein hewyllys fach ni yn ymgolli yn ei ewyllys fawr Ef. "Etto, nid fy ewyllys i, ond dy ewyllys di, a wneler."

Adn. 8. **Yn hyn y gogoneddwyd fy Nhad, ar ddwyn o honoch ffrwyth lawer,** neu *fel y dygech ffrwyth lawer.* Nid y meddwl yw y byddai i'r Tad gael ei ogoneddu pan ddygent ffrwyth lawer, ond y mae wedi ei ogoneddu eisoes. A'r ffaith fod y Tad wedi ei ogoneddu sydd yn gwneuthur yn bosibl iddynt ddwyn ffrwyth lawer. Dwyn ffrwyth, yn ganlyniad gweddi ffyddiog, yw y prawf goreu o lwyddiant trefn Duw o achub dynion ; ac wrth achub, y mae

Nhad, ar ddwyn o honoch ffrwyth lawer; a disgyblion fyddwch i mi. 9. Fel y carodd y Tad fi, felly y cerais innau chwithau: arhoswch yn fy nghariad i. 10. Os cedwch fy ngorchymynion, chwi a arhoswch yn fy nghariad; fel y cedwais i orchymynion fy Nhad, ac yr wyf yn aros yn ei gariad ef. 11. Hyn a ddywedais wrthych, fel yr arhosai fy llawenydd ynoch, ac y byddai eich llawenydd yn gyflawn. 12. Dyma fy ngorchymyn

---

Duw yn cael ei ogoneddu. **A disgyblion fyddwch i mi.** Gwell: *Ac y deuwch yn ddisgyblion i mi*, yn ddisgyblion cyflawn a pherffaith. Dwyn ffrwyth lawer ydyw y prawf goreu ein bod yn ddisgyblion gwirioneddol i Grist.

9—17. Cariad yn rhwymyn undeb rhyngddynt a'r Iesu, a rhyngddynt a'u gilydd.

Adn. 9. **Fel y carodd y Tad fi, felly y cerais innau chwithau.** Er fod yna gyfatebiaeth, fel y dysgir yma, rhwng cariad Tad tuag at yr Iesu, a chariad yr Iesu tuag at ei ddisgyblion, eto y mae yna wahaniaeth. Nis gellir meddwl fod yr Iesu yn caru ei ddisgyblion am yr un rheswm ac y carai y Tad ei anwyl Fab oedd erioed yn rhyngu ei fodd. Credaf mai cyfeiriad sydd yma, yn bennaf, at angerddolrwydd a sefydlogrwydd cariad yr Iesu tuag at ei ddisgyblion. Ac y mae hyn, yn sicr, o fod yn destyn rhyfeddod a diolch byth. **Arhoswch yn fy nghariad i.** Gwell: "*Aroswch yn fy nghariad fy hun*" (W.E.). Y cariad ddanghosais i tuag atoch chwi nes rhoddi fy einioes drosoch chwi, yn bennaf, a'r cariad sydd yn cael ei gynhyrchu ganddo yn eich calonnau chwi eich hunain yn ailraddol. Aroswch ynddo trwy fyfyrio arno, a'i sylweddoli fwy fwy, ac ildio i'w ddylanwad.

Adn. 10. **Os cedwch fy ngorchymynion, chwi a arhoswch yn fy nghariad.** Ildio i ddylanwad cariad Crist ydyw cadw ei orchmynion. I sianel ei orchmynion y mae grym ei gariad yn ein cludo yn naturiol ac angenrheidiol. Trwy fod yn ufudd i orchymyn ei Dad, yr oedd yr Iesu yn aros yn ei gariad ef, a thrwy fod yn ufudd i'w orchmynion y gall ei ddisgyblion aros yn ei gariad yntau.

Adn. 11. **Fel yr arhosai fy llawenydd ynoch, ac y byddai eich llawenydd yn gyflawn.** Y llawenydd oedd yr Iesu yn ei fwynhau trwy gadw gorchmynion ei Dad, a mwynhau ei gymdeithas. Yr oedd wedi llefaru y pethau hyn wrthynt, er mwyn iddynt hwythau, trwy gadw ei orchmynion, fwynhau yr un llawenydd, a'i fwynhau hefyd i'r graddau helaethaf. "Llawenydd yn gyflawn," wedi ei berffeithio trwy gariad ac ufudd-dod sefydlog. Y mae'r ymadrodd hwn yn hoff iawn gan Ioan, a gwna ddefnydd mynych ohono. (Cyd. iii. 29; xvi. 24; xvii. 13; 1 Ioan i. 4; 2 Ioan 12.).

Adn. 12. **Ar i chwi garu eich gilydd.** Yr oedd yr Iesu wedi crybwyll y gorchymyn hwn eisoes (xiii. 34), ac wedi ei alw yn orchymyn newydd. Gan

i ; Ar i chwi garu eich gilydd, fel y cerais i chwi. 13. Cariad mwy na hwn nid oes gan neb ; sef, bod i un roi ei einioes dros ei gyfeillion. 14. Chwychwi yw fy nghyfeillion, os gwnewch pa bethau bynnag yr wyf yn eu gorchymyn i chwi. 15. Nid ydwyf mwyach yn eich galw yn weision ; oblegid y gwas ni ŵyr beth y mae ei arglwydd yn ei wneuthur : ond mi a'ch gelwais chwi yn gyfeillion ; oblegid pob peth a'r a glywais gan fy Nhad, a hysbysais i chwi. 16. Nid chwi a'm dewisasoch i, ond myfi a'ch dewisais chwi, ac a'ch ordeiniais chwi, fel yr elech ac y dygech ffrwyth, ac yr arhosai eich ffrwyth ;

---

mor bwysig ydoedd yn ei olwg, rhydd yma ail-adroddiad ohono. Gorchymyn cynhwysfawr ydoedd yn cynwys crynhoad cyflawn o holl ddyledswyddau dynion tuag at eu gilydd. **Fel y cerais i chwi.** Dyma'r esiampl a'r ysprydoliaeth i gadw y gorchymyn. Ceir eglurhad pellach ar hyn yn y geiriau dilynol.

Adn. 13. **Cariad mwy na hwn,** sef ei gariad tuag at ei ddisgyblion yn yr adnod flaenorol. **Nid oes gan neb.** Ni welwyd erioed, ac ni welir byth amlygiad uwch o gariad pur ac anhunangar. **Sef, bod i un roi ei einioes dros ei gyfeillion.** Yn lle cyfeirio at yr arbenigrwydd a berthynai i'w gariad ef yn marw, nid dros y da, ond dros bechaduriaid (Rhuf. v. 7—10), crybwylla am ei gariad yn yr agwedd hono arno y gallai dynion ei efelychu, ac felly sonia yn unig am roddi einioes dros gyfeillion.

Adn. 14. **Chwychwi yw fy nghyfeillion, &c.** Ar ol cyfeirio at y disgyblion fel ei gyfeillion, noda yr amod ar yr hwn y gallant ddiogelu parhad y cyfryw gyfeillgarwch, sef, trwy gadw ei orchymynion.

Adn. 15. **Nid ydwyf mwyach yn eich galw yn weision.** Ystyr y gair Groeg yma am "weision" yw *caethweision* Nid ymddygai Crist yn awr tuag atynt fel caethweision, ond fel cyfeillion, trwy ddatguddio iddynt ei gyfrinach, a'u dwyn i'r cymundeb agosaf ag ef ei hun. Nid oedd yn cadw dim o gyfrinach ei Dad oddiwrthynt. Ac yr oedd am anfon ei Yspryd eto i roddi *eglurhad* ar hyn (xvi. 12).

Adn. 16. **Nid chwi a'm dewisasoch i, ond myfi a'ch dewisais chwi.** Eu dewis i'r swydd apostolaidd sydd mewn golwg gan yr Iesu yma. Honna ar fwy nag un achlysur mai Efe ei hun oedd yn eu dewis. Nid yw hyn yn cau allan yn hollol ddewisiad o du y disgyblion. Ond yr Iesu gychwynodd, efe oedd y cyntaf, efe oedd yn blaenori, a dewisiad y disgyblion yn ail-raddol, ac yn ddilynol. (Cyd. vi. 70 ; xiii. 18 ; Luc vi. 12, 13 ; Actau i. 2.). **Ac a'ch ordeiniais chwi, fel yr elech ac y dygech ffrwyth, ac yr arhosai eich ffrwyth.** Gwell cyfieithiad yw *penodais* neu *gosodais* nac ordeiniais yma. Dyma oedd ei amcan yn eu dewis. Nid er eu mwyn eu hunain, ond fel y byddent yn wasanaethgar i eraill. Y ffrwyth yma oedd cynnyrch eu llafur fel apostolion. Nid gwaith diflanedig fyddai, ond sefydlog ac arhosol. A phrofa llwyddiant a

megis pa beth bynnag a ofynoch gan y Tad yn fy enw i, y rhoddo efe i chwi. 17. Hyn yr wyf yn ei orchymyn i chwi, garu o honoch eich gilydd. 18. Os yw y byd yn eich casâu chwi, chwi a wyddoch gasâu ohono fyfi o'ch blaen chwi. 19. Pe byddech o'r byd, y byd a garai yr eiddo; ond oblegid nad ydych o'r byd, eithr i mi eich dewis allan o'r byd, am hynny y mae y byd yn eich casâu chwi. 20. Cofiwch yr ymadrodd a ddywedais i wrthych; Nid yw y gwas yn fwy na'i arglwydd. Os erlidiasant fi, hwy a'ch erlidiant chwithau: os cadwasant fy ngair i, yr eiddoch chwithau hefyd a gadwant. 21. Eithr hyn oll a wnant i chwi er mwyn fy enw i, am nad adwaenant yr

---

pharhad yr Eglwys Gristionogol am ddwy fil o flynyddoedd i eiriau yr Iesu gael eu gwireddu. **Megis pa beth bynnag a ofynoch gan y Tad yn fy enw i, &c.** Pwysleisia yr Iesu yma y cysylltiad sydd rhwng gweddi a'r llwyddiant fyddai ar lafur yr apostolion.

Adn. 17. Ail adroddiad o adn. 12. Gweler y nodiadau ar yr adnod hono.

18—25. Casineb y byd o Grist a'i ddisgyblion.

Adn. 18. **Os yw y byd yn eich casau chwi, &c.** Apelia'r Iesu yma at brofiad ei ddisgyblion. Diau eu bod wedi cael arwyddion diamheuol eisoes nad oeddynt fel canlynwyr Iesu o Nazareth yng nghymeradwyaeth y byd. Yr oedd blaen y storm fawr o erledigaeth a'u goddiweddodd yn dechreu dyfod i'r golwg. Ond ar yr Iesu y disgynnai y storm yn ei holl gynddeiriogrwydd i ddechreu. Yr Iesu nid yn unig oedd gwrthrych cyntaf, ond gwrthrych *pennaf* casineb y byd. Yr oeddynt felly yn y cwmni goreu yn dioddef oddiwrth gasineb y byd.

Adn. 19. **Pe byddech o'r byd, y byd a garai yr eiddo, &c.** Noda yr Iesu yma y rheswm paham y byddai'r byd yn eu cashau. Am nad oeddynt yn coleddu syniadau y byd, ac yn byw o dan ddylanwad ei egwyddorion a'i yspryd, nis gallant fod yn wrthrychau ei gariad, yn hytrach caent waethaf y byd.

Adn. 20. **Nid yw y gwas yn fwy na'i arglwydd, &c.** Caethwas yw y gair Groeg yma am was. Nid oes gan y caethwas sail i ddisgwyl am well triniaeth gan y byd nag a gafodd ei arglwydd. Yn hytrach, yr un ymddygiad fydd eiddo y byd tuag at y caethweision a thuag at eu Harglwydd.

Adn. 21. **Eithr hyn oll a wnant i chwi er mwyn fy enw i.** Casineb yn y byd, yn bennaf, tuag at Grist sydd wrth wraidd ei gasineb tuag at y disgyblion. Crist oherwydd perffeithrwydd moesol ei gymeriad yw prif wrthrych atgasedd y byd. Ac i'r graddau y gwel ddelw Crist yng nghymeriad ei ddisgyblion y bydd yn eu cashau hwythau hefyd. **Am nad adwaenant yr hwn a'm hanfonodd i.** Adnabyddiaeth ysprydol o Dduw fuasai yn eu galluogi i adnabod Crist fel un oedd wedi ei anfon! oddiwrth Dduw, ac yn ddelw gywir ohono ef. Ond o ddiffyg adnabyddiaeth o Dduw, cashaent Grist a'i ddisgyblion.

hwn a'm hanfonodd i. 22. Oni bai fy nyfod a llefaru wrthynt, ni buasai arnynt bechod: ond yr awrhon nid oes ganddynt esgus am eu pechod. 23. Yr hwn sydd yn fy nghasâu i, sydd yn casâu fy Nhad hefyd. 24. Oni bai wneuthur o honof yn eu plith y gweithredoedd ni wnaeth neb arall, ni buasai arnynt bechod: ond yr awrhon hwy a welsant, ac a'm casasant i a'm Tad hefyd. 25. Eithr, fel y cyflawnid y gair sydd ysgrifenedig yn eu cyfraith hwynt, Hwy a'm casasant yn ddïachos. 26. Eithr pan

---

Adn. 22. **Oni bai fy nyfod a llefaru wrthynt, ni buasai arnynt bechod, &c.** Goleuni sydd yn dwyn cyfrifoldeb ar ddynion. A'r goleuni oedd yn y geiriau lefarodd Crist wrth yr Iuddewon ddygodd gyfrifoldeb ac euogrwydd i orffwys arnynt, oblegid eu hanghrediniaeth ynddo ef, a'u casineb ohono. Yn wyneb y fath oleuni, diesgus hollol oeddynt am wrthod ohonynt genad anfonedig Duw.

Adn. 23. **Yr hwn sydd yn fy ngasau i, sydd yn casau fy Nhad hefyd.** Gan fod Crist yn "ddelw y Duw anweledig," yn ddatguddiad cywir a pherffaith o'i Dad, yr oedd ei gashau ef o angenrheidrwydd yn cynnwys eu bod yn cashau ei Dad hefyd.

Adn. 24. **Oni bai wneuthur ohonof yn eu plith y gweithredoedd ni wnaeth neb arall, ni buasai arnynt bechod, &c.** Yn adn. 22 ei *eiriau* a'u gwnaent yn gyfrifol am eu pechod, ond yma ei *weithredoedd* sydd yn eu gwneuthur yn gyfrifol amdano. *Gwelsant* ei weithredoedd hynod ac arbennig yn ogystal a *chlywed* ei eiriau rhyfeddol a grasol. Wrth ei weithredoedd y golygir ei wyrthiau, ac ystyriai yr Iesu eu bod yn brawf digonol ei fod yn anfonedig y Tad. Ond er gweled y gweithredoedd na wnaeth neb arall, megis adgyfodiad Lazarus, &c., eto ni chredasant ynddo, ac y mae'r Iesu yn olrhain hyny yn ol at y casineb dwfn ac angherddol oedd yn eu calonnau tuag ato ef a'i Dad.

Adn. 25. **Eithr fel y cyflawnid y gair, &c.** Y mae yn Ioan fel yn Mathew yn dueddol i weled rhyw broffwydoliaeth yn cael ei chyflawni mewn gwahanol ddigwyddiadau yng nglyn â hanes y Gwaredwr. Eithr nid ydys i ddeall fod yn *rhaid* i'r Iuddewon anghrediniol gashau Crist er mwyn i'r brophwydoliaeth gael ei chyflawni, canys buasai hyny yn dinistrio eu cyfrifoldeb. Fel y dywedwyd yn y nodiad ar xii. 38, Nid y broffwydoliaeth sydd yn achos o'r weithred, ond y weithred sydd yn achos o'r broffwydoliaeth. Cymerer y gair "cyfraith" yma yn yr ystyr eangaf am yr Hen Destament. Tebygol mai yn Salm lxix. 4 y mae y rhagfynegiad y cyfeirir yma ato. Cyd. gyda Salm xxxv. 19, a cix. 31. **Hwy a'm casasant yn ddiachos.** Ystyr lythrenol y gair *diachos* yw, *fel rhodd, yn wirfoddol, am ddim.* A'i ystyr yma, yn ddiau, yw, yn ddianghenrhaid, ac heb achos cyfiawn. Gadewir yr Iuddewon felly heb rith o esgus dros gashau "y Cyfiawn Iesu, y Person mwyaf hardd."

ddêl y Diddanydd, yr hwn a anfonaf i chwi oddi wrth y Tad, (*sef* Ysbryd y gwirionedd, yr hwn sydd yn deilliaw oddi wrth y Tad,) efe a dystiolaetha am danaf fi. **27.** A chwithau hefyd a dystiolaethwch, am eich bod o'r dechreuad gyd â mi.

26—XVI. 15. Buddugoliaeth i'w hennill trwy Yspryd y Gwirionedd.

Try yr Iesu yn yr adnodau sydd yn dilyn at wirionedd gwrthgyferbyniol i'r hwn y soniasai amdano. Os oedd tuedd yng ngelyniaeth a chasineb y byd i ddigalonni ei ddisgyblion, y mae'r addewid am bresenoldeb a nerth yr Yspryd Glân yn tueddu i'w calonogi a'u gwroli. Y mae presenoldeb y Diddanydd yn sicr o brofi yn drech na gelyniaeth a gwrthwynebiad y byd.

Adn. 26. **Eithr pan ddel y Diddanydd, yr hwn a anfonaf i chwi oddiwrth y Tad.** Dysg yr Iesu yma fod yr Yspryd heb ei roddi eto. Yn vii. 39, gwelsom paham yr oedd y Diddanydd heb ei anfon. Edrycha yr Iesu ym mlaen at amser y byddai yr Yspryd wedi ei anfon, ac wedi dechreu ar y gwaith o dystiolaethu amdano ef. **Sef Yspryd y gwirionedd, yr hwn sydd yn deilliaw oddiwrth y Tad.** Yr Iesu sydd yn ei anfon, ac oddiwrth y Tad y mae yn deilliaw. Mor ymwybodol y rhaid fod yr Iesu o'i Dduwdod gwirioneddol cyn y buasai yn honni gallu ac awdurdod i anfon yr Yspryd Glân. Gwahaniaetha y gair "*deilliaw*" berthynas yr Yspryd â'r Tad, a pherthynas y Mab â'r Tad. Wedi ei *eni* ohono y mae'r Mab, ond *deilliaw* ohono y mae'r Yspryd. O'r Tad y mae y naill a'r llall yn dyfod, ond mewn gwahanol foddau, ac oherwydd hyny diogelir undod y natur Ddwyfol. **Efe a dystiolaetha am danaf fi.** Dyma waith neillduol ac arbennig yr Yspryd Glân. Gellir cynnwys ei holl waith yn hyn—tystiolaethu am Grist. Yng ngoleuni Crist y cyflawna yr Yspryd grasol ei holl waith o argyhoeddi, ail-eni, diddanu, sancteiddio, a chynnal y saint nes eu dwyn yn ddiogel i ogoniant.

Adn. 27. **A chwithau hefyd a dystiolaethwch, &c.** Yr oedd angen am i'r disgyblion dystiolaethu i'r ffeithiau oedd o fewn cylch eu gwybodaeth bersonol. Meddent gymhwysder arbennig ar gyfer y gwaith, am eu bod gyda'r Iesu o ddechreuad ei weinidogaeth (Luc i. 2; Actau i. 22). Gwelir felly nad yw tystiolaeth yr Yspryd Glân i Grist yn gwneud tystiolaeth dynion yn ddianghenrhaid, canys y mae eu tystiolaeth hwy yn israddol i eiddo yr Yspryd, ac yn fynych yn gyfrwng trwy yr hwn y tystiolaetha Efe ei hun.

Y PETHAU hyn a ddywedais i chwi, fel na rwystrer chwi. 2. Hwy a'ch bwriant chwi allan o'r synagogau : ac y mae yr awr yn dyfod, y tybia pwy bynnag a'ch lladdo, ei fod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw. 3. A'r pethau hyn a wnant i chwi, oblegid nad adnabuant y Tad, na myfi. 4. Eithr y pethau hyn a ddywedais i chwi, fel pan ddêl yr awr, y cofioch hwynt, ddarfod i mi ddywedyd i chwi : a'r pethau hyn ni ddywedais i chwi o'r dechreuad, am fy mod gyd â chwi. 5. Ac yn awr yr wyf yn myned at yr hwn a'm hanfonodd ; ac nid yw neb

PENNOD XVI.

Adn. 1. **Y pethau hyn.** Y geiriau o rybudd a chalondid a lefarasai yr Iesu wrthynt, am gasineb y byd ar y naill law, a phresenoldeb yr Yspryd Glân ar y llaw arall. **Fel na rwystrer chwi.** "*In order to clear stumbling blocks out of your way*" (W.). Trwy gael eu paratoi ymlaen llaw ar gyfer yr erledigaeth a ddeuai i'w rhan, nid oeddynt mor debyg o gael eu dychryn a'u maglu pan y deuai i'w cyfarfod.

Adn. 2. Aiff yr Iesu ymlaen yn yr adnod hon i ddarlunio effeithiau neu ganlyniadau casineb y byd ohonynt (cyd. ix. 22 ; xii. 42). **Y tybia pwy bynnag a'ch lladdo, ei fod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw.** Yn gywirach : yn *offrymu* gwasanaeth i Dduw. Nid tybio ei fod yn cyflwyno rhyw fath o wasanaeth i Dduw, ond gwasanaeth grefyddol fel eiddo yr Offeiriaid yn y Deml. Y *dybiaeth* gyfeiliornus hon sydd yn wreiddyn i bob erledigaeth grefyddol. Y mae hanes yr Eglwys yn cynnwys llawer engraifft o gyflawniad y brophwydoliaeth hon. Gwel Actau xxvi. 9, &c.

Adn. 3. **Oblegid nad adnabuant y Tad, na myfi.** Diffyg adnabyddiaeth o Dduw a'i Fab ydyw yr achos o bob erledigaeth grefyddol fu yn y byd erioed. Pe yn eu hadnabod, ni chawsai y dybiaeth gyfeiliornus y crybwyllwyd am dani le ym meddyliau dynion. Ni all tosturi a chariad erlid neb, ac ni all personau mor gariadlawn a'r Tad a Christ, gymeradwyo erledigaeth o dan unrhyw amgylchiad.

Adn. 4. **Fel pan ddel yr awr, y cofioch hwynt, ddarfod i mi ddywedyd i chwi.** Gwell : *Fel pan ddêl eu hawr hwy, y cofiwch hwynt, mai myfi fy hun a ddywedodd i chwi*" (W.E.). Yn y geiriau hyn daw amcan yr Iesu i'r golwg wrth rybuddio ei ddisgyblion am yr erledigaethau creulon oedd yn eu haros hwynt. Cofient, er eu cysur, yng nghanol eu profedigaethau y geiriau, a'r rhai y rhybuddiasai yr Iesu hwynt. Ni oddiweddid hwynt yn sydyn a dirybudd gan y trallodion, ond yr oeddynt yn dyfod yn unol a rhagfynegiad Crist ei hun, ac felly yr oeddynt wedi eu paratoi, a'u harfogi ar gyfer dioddef.

Adn. 5. **Ac nid yw neb ohonoch yn gofyn i mi, I ba le yr wyt ti yn myned?** Gall ymddangos yn rhyfedd fod yr Iesu yn llefaru fel

o honoch yn gofyn i mi, I ba le yr wyt ti yn myned? 6. Eithr am i mi ddywedyd y pethau hyn i chwi, tristwch a lanwodd eich calon. 7. Ond yr wyf fi yn dywedyd gwirionedd i chwi; Buddiol yw i chwi fy myned i ymaith: canys onid âf fi, ni ddaw y Diddanydd attoch; eithr os mi a âf, mi a'i hanfonaf ef attoch. 8. A phan ddêl, efe

---

hyn, a Simon Pedr wedi gofyn yr un cwestiwn yn xiii. 36. Gwir fod Pedr wedi gofyn y cwestiwn, ond nis gofynnodd ef mewn ystyr iawn, ac mewn yspryd iawn. Gweled ei *ymadawiad* yr oedd Pedr, ac nid gweled ei *ddyrchafiad*. Sylweddoli eu colled fawr fel disgyblion, ac nid llawenhau oherwydd gogoneddiad yr Iesu.

Adn. 6. **Tristwch a lanwodd eich calon.** Ie, tristwch a lanwodd eu calon, ac heb un gradd o lawenydd. Pe buasent yn dechreu ymholi ymha le yr oedd y daith ddioddefus a thrist yr oedd yr Iesu ar ei chychwyn yn sicr o ddiweddu, buasai yna elfen o obaith a llawenydd wedi dyfod i mewn i'w tristwch. Ni ddeallent fod yn "rhaid i Grist ddioddef y pethau hyn, a myned i mewn i'w ogoniant."

Adn. 7. **Ond yr wyf fi yn dywedyd gwirionedd i chwi,** *neu y gwirionedd i chwi* (C.S.D.). Nid rhyw wirionedd, ond y gwirionedd mwyaf cyfaddas i'w cysuro a'u diddanu o dan yr amgylchiadau. **Buddiol yw i chwi fy myned i ymaith.** Llesol a manteisiol i chwi fydd fy ymadawiad oddiwrthych Nid ar eich colled y byddwch, ond ar eich ennill mewn gwirionedd **Canys onid af fi, ni ddaw y Diddanydd attoch.** Gwell: "*Canys onid ymadawaf, y Dadleuydd ni ddaw attoch o gwbl*" (W.E.). Rhaid oedd i'r Iesu ddioddef y pethau hyn, a myned i mewn i'w ogoniant cyn y deuai yr Yspryd Glân i gymeryd ei le, ac i'w gynrychioli yn ei Eglwys hyd ddiwedd amser. Presenoldeb lleol a chyfyngedig oedd presenoldeb corphorol yr Iesu gyda'i ddisgyblion, ond byddai yr Yspryd Glân yn bresennol gyda phobl yr Arglwydd ymhob lle. A dyma'r presenoldeb oedd arnynt wir angen amdano yn wyneb y gwaith oedd o'u blaen, sef efengyleiddio y byd. **Eithr os mi a af, mi a'i hanfonaf ef attoch.** Gwelir fod yr Iesu yma yn honni hawl ac awdurdod i anfon yr Yspryd. Dyma sail crediniaeth yr Eglwys Orllewinol yn wrthgyferbyniol i'r Eglwys Ddwyreiniol, fod yr Yspryd yn deilliaw *o'r Mab* yn ogystal ag o'r Tad. Geilw Paul hefyd y Dadleuydd yn "Yspryd Crist," ac yn "Yspryd ei Fab" (Rhuf. viii. 9; Galat. iv. 6).

Adn. 8. **A phan ddel.** Gellid tybio oddiwrth y geiriau hyn nad oedd yr Yspryd yn y byd yn flaenorol i ddydd y Pentecost yn gweithredu yn achubol ar galonnau dynion, ond mai yr adeg honno y dechreuodd ar ei waith. Eithr y mae yn sicr fod yr Yspryd yn ymwneud â meddyliau dynion er ceisio eu hachub, o dan bob goruchwyliaeth. Edrycher y cyfeiriadau canlynol: Gen. vi. 3; Salm li. 11; Act. vii. 51. Cyfeirio y mae Crist yma at ddyfodiad yr Yspryd Glân i gyflawni gwaith newydd ac arbennig, gwaith yn dal perthynas neilltuol âg ef ei hun. Ac yn yr ystyr hon, yr oedd ei ddyfodiad ar ddydd y Pentecost, yn ddyfodiad newydd ac arbennig iawn. Gwelir oddiwrth y geiriau sydd yn dilyn fel y mae y gwaith a briodolir i'r Yspryd, yn dal perthynas, ac yn troi o amgylch yr Iesu. **Efe a ar-**

a argyhoedda y byd o bechod, ac o gyfiawnder, ac o farn: 9. O bechod, am nad ydynt yn credu ynof fi: 10. O gyfiawnder, am fy mod yn myned at fy nhad, ac ni'm gwelwch i mwyach; 11. O farn, oblegid tywysog y byd hwn a farnwyd. 12. Y mae gennyf etto lawer o bethau i'w dywedyd i chwi, ond ni ellwch eu dwyn yr awrhon. 13. Ond pan ddêl efe, *sef* Ysbryd y gwirionedd,

---

gyhoedda y byd o bechod. Nid oes eisieu gwell gair yma na'r gair "argyhoeddi" yn cyfateb i'r gair Saesneg *convict*. Prawf mor eglur, cryf, ac effeithiol, nes gorchfygu pob gwrthwynebiad. Nid argyhoeddi y byd o bechod yn gyffredinol a feddylir yma, ond o bechod neillduol ac arbennig. Heblaw argyhoeddi y byd o bechod, y mae'r Ysbryd i argyhoeddi y byd o gyfiawnder, ac o farn.

Adn. 9. **O bechod, am nad ydynt yn credu ynof fi.** Gwelir mai y pechod neillduol o anghrediniaeth ynddo ef ei hun sydd mewn golwg gan Grist yma. Dyma brif bechod yr Oruchwyliaeth Gristionogol, a gwreiddyn pob pechod arall. Tra yr erys anghrediniaeth yng Nghrist yn egwyddor lywodraethol bywyd dyn, bydd yn lloches ac yn feithrinfa i bob pechod arall. "Gwrthodiad o Grist a selia dynghed y byd."

Adn. 10. **O gyfiawnder.** Argyhoedda yr Ysbryd y byd mai yn yr Iesu a gondemniwyd gan yr Iuddewon anghrediniol fel twyllwr a dyn drwg y mae delfryd uchaf o gyfiawnder wedi ei sylweddoli. Os oedd yr Iuddewon yn ei gamfarnu, ac oherwydd hyny yn ei gondemnio ac yn ei ladd, y mae'r Ysbryd am amddiffyn ei gymeriad. Prif amddiffyniad yr Ysbryd i gyfiawnder ei gymeriad oedd ei ogoneddiad yn ei adgyfodiad a'i esgyniad. **Am fy mod yn myned at fy Nhad, ac ni'm gwelwch i mwyach.** Yr oedd adgyfodiad ac esgyniad yr Iesu yn dystiolaeth eglur o eiddo y Tad, ei fod yn ei fywyd sanctaidd, ac yn ei farwolaeth hunanaberthol, wedi rhoddi ufudd-dod perffaith i'w ewyllys ef. Pe twyllwr a phechadur ydoedd, yn ol syniad yr Iuddewon, ni buasai modd cyfrif am ei ogoneddiad yn ei adgyfodiad a'i esgyniad.

Adn. 11. **O farn, &c.** Y farn a ddisgynnodd ar y diafol pan y llwyddodd i ddwyn yr Iesu i'r groes. Yn lle ennill buddugoliaeth ar yr Iesu ar y groes, a chael ei unig wrthymgeisydd am lywodraeth y byd hwn am byth allan o'r ffordd, fe droes yr Iesu y groes yn orsedd iddo ei hun, ac fe gondemniwyd ac fe ddiorseddwyd y diafol. Aeth y diafol i lawr, ac aeth Crist i fyny, collfarnwyd y naill, a chyfiawnhawyd y llall. Cyd. xii. 31: xiv. 30.

Adn. 12. **Y mae gennyf etto lawer o bethau, &c.** Yn raddol y cyfrannai Crist i'w ddisgyblion y gwirioneddau ysprydol a ddatguddiai iddynt, yn ol fel yr oeddynt yn alluog i'w derbyn a'u hamgyffred. Buasai eu datguddio iddynt yn rhy fuan yn faich arnynt, fuasai yn eu llethu. Ystyr y gair Groeg *bastazo*, yw *dwyn* yr hyn sydd feichus. Nid oeddynt yn gymhwys "*yr awr hon*" i'w dwyn, ond o ddydd y Pentecost ymlaen, byddent yn alluog i ddwyn y gwirioneddau trymaf a mwyaf ysprydol.

efe a'ch tywys chwi i bob gwirionedd: canys ni lefara o hono ei hun; ond pa bethau bynnag a glywo, a lefara efe: a'r pethau sydd i ddyfod, a fynega efe i chwi. 14. Efe a'm gogonedda i: canys efe a gymmer o'r eiddof, ac a'i mynega i chwi. 15. Yr holl bethau sydd eiddo y Tad ydynt eiddof fi; o herwydd hyn y dywedais, mai o'r eiddof fi y cymmer, ac y mynega i chwi. 16. Ychydig ennyd, ac ni'm gwelwch; a thrachefn ychydig ennyd, a

---

Adn. 13. **Yspryd y gwirionedd.** Priodol iawn y gelwir yr Yspryd Glân yma yn Yspryd y gwirionedd, nid yn unig ar gyfrif ei gymeriad pur ei hun, ond hefyd ar gyfrif y gwaith neillduol yr ymddiriedwyd iddo ei gyflawni, sef tywys i bob gwirionedd, neu yn fwy cywir "*i'r gwirionedd oll.*" Darlunir yr Yspryd yma fel arweinydd yn dangos y ffordd i wlad ddieithr ac anadnabyddus. Y wlad hono yw y gwirionedd, nid gwirionedd yn gyffredinol, ond y gwirionedd *achubol*, ag yr oedd Crist yn unig yn gyfrwng perffaith i'w ddatguddio i ddynion. Dyma y cyfrif am fod yna ddadblygiad llawnach ar drefn iachawdwriaeth yn yr epistolau nag sydd yn yr efengylau. Yr Yspryd oedd wedi arwain yr apostolion "i'r gwirionedd oll." **Ni lefara ohono ei hun, &c.** Dywed yr Iesu yr un peth amdano ei hun (v. 19; xiv. 10). Nid ei waith ef yw datguddio yr un gwirionedd newydd, ond taflu goleuni i'r meddwl a'i arwain i olwg yr hyn a ddatguddiwyd eisoes yng Nghrist. **A'r pethau sydd i ddyfod, a fynega efe i chwi.** Ceir cyflawniad o'r geiriau hyn i fesur yng ngweledigaethau Llyfr y Datguddiad (Dat. i. 1; xxii. 6, 20), ac hefyd mewn mynegi ffeithiau hanesyddol yn y dyfodol.

Adn. 14. **Efe a'm gogonedda i.** Dyma ddisgrifiad byr, ond cynwysfawr a tharawiadol o holl waith yr Yspryd Glân. Y mae y rhagenwau *efe* ac *i* yn bwysleisiol. Fel ag yr oedd y Mab yn gogoneddu y Tad, felly y byddai i'r Ysbryd ogoneddu y Mab. Byddai i'r Yspryd ogoneddu y Mab yng nghalonnau ei apostolion. **Canys efe a gymmer o'r eiddof, ac a'i mynega i chwi.** Crist yn ei Berson a'i waith yw y gwirionedd arbennig, y mae'r Yspryd yn ei fynegi yn effeithiol yng nghalonnau credinwyr ym mhob oes a gwlad.

Adn. 15. **Yr holl bethau sydd eiddo y Tad, ydynt eiddo fi.** Gwell: "*Popeth bynag sydd eiddo y Tad, ydynt eiddo fi*" (W.E.). Dysg y geiriau hyn fod y Mab yn ddatguddydd perffaith o'r Tad. Pob peth sydd yng nglyn âg iachawdwriaeth y byd, y maent yn eiddo cyffredin i'r Mab ac i'r Tad. **Oherwydd hyn y dywedais, &c.** Am fod pob peth y Tad yn eiddo y Mab, yr oedd eiddo y Mab felly yn ddigon yn llaw yr Yspryd Glân, ac o dan ei arweiniad i gyfarfod âg angen credinwyr ym mhob oes.

16—24. Tristwch yn troi yn llawenydd.

Adn. 16. **Ychydig ennyd, ac ni'm gwelwch,** "*ac mwyach ni'm gwelwch*" (C.S.D.). Byddai yr Iesu yn ebrwydd bellach wedi myned yn anweledig i'w ddisgyblion, am y byddai wedi esgyn at y Tad. **A thrachefn ychydig**

chwi a'm gwelwch; am fy mod yn myned at y Tad. 17. Am hynny y dywedodd *rhai* o'i ddisgyblion wrth eu gilydd, Beth yw hyn y mae efe yn ei ddywedyd wrthym, Ychydig ennyd, ac ni'm gwelwch; a thrachefn ychydig ennyd, a chwi a'm gwelwch: ac, Am fy mod yn myned at y Tad? 18. Am hynny hwy a ddywedasant, Beth yw hyn y mae efe yn ei ddywedyd, Ychydig ennyd? ni wyddom ni beth y mae efe yn ei ddywedyd. 19. Yna y gwybu yr Iesu eu bod hwy yn ewyllysio gofyn iddo; ac a ddywedodd wrthynt, Ai ymofyn yr ydych â'ch gilydd am hyn, oblegid i mi ddywedyd, Ychydig ennyd, ac ni'm gwelwch; a thrachefn ychydig ennyd, a chwi a'm gwelwch? 20. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Chwi a wylwch ac a alerwch, a'r byd a lawenycha: eithr chwi a fyddwch dristion; ond eich tristwch a droir yn llawenydd. 21. Gwraig wrth esgor sydd mewn tristwch, am ddyfod ei hawr: eithr wedi geni y plentyn, nid yw hi yn cofio ei gofid mwyach, gan lawenydd geni dyn i'r byd. 22. A chwithau am hynny ydych yr awrhon mewn tristwch: eithr mi a ymwelaf â

---

ennyd, a chwi a'm gwelwch. Ni cheir yr ymadrodd "am fy mod yn myned at y Tad" yn y C.S.D. Tybir mai wedi ei awgrymu y mae gan y 10fed adnod.

Adn. 17 ac 18. Eglur yw oddiwrth y geiriau hyn, nad oedd y disgyblion wedi deall geiriau Crist yn yr adnod flaenorol. Daearol a materol oedd eu syniadau er eu holl fanteision, o dan addysg yr Athraw mawr.

Adn. 19. Tosturia yr Iesu wrthynt yn eu dryswch a'u hanwybodaeth, a dengys ei fod yn barod i'w cyfarfod a'u harwain allan o'u dryswch.

Adn. 20, 21. Cyfeiria yr Iesu i ddechreu at ddylanwad ei groeshoeliad a'i farw ar y disgyblion ar y naill law, ac at ei ddylanwad ar y byd anghrediniol ar y llaw arall. Taflwyd ei ddisgyblion i ganol tristwch a galar. Dyddiau tywyll du oedd y dyddiau y lladdwyd eu Hathraw, ac y bu yn gorwedd yn farw yn y bedd. Ond achos o lawenydd mawr i'r Iuddewon anghrediniol oedd y dyddiau hyny. Pa fodd bynnag, sicrha ei ddisgyblion nad oeddynt i aros yn eu tristwch a'u galar yn hir, ond fod cyfnewidiad mawr gerllaw. **Ond eich tristwch a droir yn llawenydd,** mewn canlyniad i'w adgyfodiad buddugoliaethus, a'i esgyniad gogoneddus.

Yn adn. 21, defnyddia eglureb er dangos mor fawr a buan y cyfnewidiad a ddeuai drostynt, o dristwch i lawenydd. Cyffelyb ydoedd i dristwch gwraig cyn iddi esgor, a'i llawenydd ar ol geni y plentyn.

Adn. 22. **Eithr mi a ymwelaf a chwi drachefn.** Cywirach: "*Ond drachefn mi a'ch gwelaf chwi*" (W.E.). "*Ond eilchwyl y gwelaf chwi*" (B.).

chwi drachefn, a'ch calon a lawenycha, a'ch llawenydd ni ddwg neb oddi arnoch. 23. A'r dydd hwnnw ni ofynwch ddim i mi. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Pa bethau bynnag a ofynoch i'r Tad yn fy enw, efe a'u rhydd i chwi. 24. Hyd yn hyn ni ofynasoch ddim yn fy enw i: gofynwch, a chwi a gewch; fel y byddo eich llawenydd yn gyflawn. 25. Y pethau hyn a lefarais wrthych mewn damhegion: eithr y mae yr awr yn dyfod, pan na lefarwyf wrthych mewn damhegion mwyach, eithr y mynegaf i

---

Gwir nad oes gwahaniaeth hanfodol rhwng ystyr y darlleniadau gwahanol hyn, canys y mae ymweled yn cynnwys gweled, ond gweled yw y darlleniad cyffredin. Byddai i'r cymundeb rhwng Crist a'i ddisgyblion oedd wedi darfod dros ennyd, gael ei adnewyddu drachefn, a byddai yn ffynhonell sefydlog a pharhaus o lawenydd iddynt, na allai erledigaethau a phrofedigaethau mo'u hamddifadu ohono.

Adn. 23. **A'r dydd hwnw ni ofynwch ddim i mi.** Cyfeiria y dydd hwnw at y cyfnod ar ol dydd y Pentecost, pan y byddent yn mwynhau goleuni ac arweiniad Yspryd Crist. Nid yr un ystyr sydd i'r ferf gofyn (Groeg *erôtaô*) yma ag sydd i'r ferf gofyn (Groeg *aiteô*) sydd yn yr un adnod. Ystyr y gofyn blaenaf yw holi* er mwyn cael eglurhad, ar eiriau a meddyliau (Actau i. 6), ond ystyr y gofyn olaf yw ceisio, dymuno, gweddïo. Ar ol eu goleuo a'u dysgu gan yr Yspryd Glân ni byddent mewn angen gofyn cwestiynau. **Yn wir, yn wir, meddaf i chwi.** Sicrha yr Iesu yma gyda phwyslais arbennig, fe, gwystla anrhydedd ei gymeriad y bydd i weddïau ei ddisgyblion a'i wir ganlynwyr ym mhob oes gael eu gwrando. **Pa bethau bynnag a ofynoch i'r Tad yn fy enw, efe a'u rhydd i chwi.** Gadewir y geiriau "*yn fy enw*" allan yma yn y llawysgrifau goreu a phwysicaf. Dysgir yma fod y Tad yn ateb gweddïau credinwyr ar y raddfa helaethaf.

Adn. 24. **Hyd yn hyn ni ofynasoch ddim yn fy enw i.** Er fod rhai llawysgrifau pwysig yn gadael y geiriau "yn fy enw i" allan yn yr adnod flaenorol, mwy naturiol yng ngoleu yr adnod hon yw credu eu bod i mewn. Golygai gweddïo yn enw Crist yma, weddïo mewn undeb a chymundeb â'i Berson ef, fel wedi ei ogoneddu trwy yr Yspryd Glân. yr hyn oedd yn amhosibl iddynt nes y cafodd yr Iesu ei ogoneddu. **Fel y byddo eich llawenydd yn gyflawn.** Llawenydd o sylweddoli eu hundeb â Christ, a'r llawenydd fod ganddynt adnoddau anhysbyddadwy, i dynnu yn barhaus ohonynt, yn ei enw ef.

Adn. 25. **Mewn damhegion.** Gwell: *mewn alegoriau* (W.), neu *mewn diarhebion* (C.S.D.). Nid oedd dim tebyg i ddameg yn yr hyn a lefarodd Crist yma, ond y mae yma ddywediadau byrion, neu diarhebion. Tebygol iawn fod yn y geiriau gyfeiriad at yr oll lefarodd yr Iesu o ddechreu y ddegfed bennod ymlaen.

---

* "You will put no questions to me then."—*Dr. Weymouth.*

chwi yn eglur am y Tad. 26. Y dydd hwnnw y gofynwch yn fy enw : ac nid wyf yn dywedyd i chwi, y gweddïaf fi ar y Tad trosoch : 27. Canys y Tad ei hun sydd yn eich caru chwi, am i chwi fy ngharu i, a chredu fy nyfod i allan oddiwrth Dduw. Mi a ddaethum allan oddi wrth y Tad, ac a ddaethum i'r byd : trachefn yr wyf yn gadael y byd, ac yn myned at y Tad. 29. Ei ddisgyblion a ddywedasant wrtho, Wele, yr wyt ti yn awr yn dywedyd yn eglur, ac nid wyt yn dywedyd un ddammeg. 30. Yn awr y gwyddom y gwyddost bob peth, ac nid rhaid i ti ymofyn o neb â thi : wrth hyn yr ydym yn credu ddyfod o honot allan oddi wrth Dduw. 31. Yr Iesu a'u hattebodd

---

Ni allasai yr Iesu roddi yn awr ddatguddiad mor eglur iddynt am y Tad ag a roddai iddynt trwy ei Yspryd ar ol dydd y Pentecost.

Adn. 26. **Y dydd hwnnw y gofynwch yn fy enw i.** Byddwch wedi dysgu defnyddio fy enw i i'r pwrpas goreu. Byddwch yn deall ei natur, ac yn gwybod am ei awdurdod a'i ddylanwad. **Y gweddiaf fi ar y Tad trosoch.** Rhydd yr Iesu yma amlygrwydd i wirionedd pwysig, sef, nad oedd angen am iddo ef ofyn i'r Tad, fel pe byddai yn anfoddlon ac yn anmharod i wrando gweddïau dynion, yn enwedig credinwyr. Fel pe dywedasai yr Iesu, Ni bydd angen am imi weddïo trosoch, canys y mae y Tad eisoes yn barod i wrando eich gweddïau pan yn eu cyflwyno yn fy enw i.

Adn. 27. **Canys y Tad ei hun sydd yn eich caru chwi.** Cariad y Tad ei hun tuag at ei ddisgyblion sydd yn rheswm dros ei fod mor barod i wrando eu gweddïau. Y rheswm fod y Tad yn eu caru yw, eu bod hwy yn caru ei Fab, ac yn credu yn ei Ddwyfol darddiad a'i anfoniad.

Adn. 28. **Mi a ddaethum allan oddiwrth y Tad.** Yn ol y darlleniadau goreu y mae *ek* (Gr.) yn golygu *allan o*, gan olygu ei ddwyfol a'i dragwyddol genhedliad. **Ac yn myned at y Tad.** Arwydda hyn y byddai wedi gorffen ei waith ar y ddaear wrth fodd y Tad, ac yn awr dychwelai ato i fwynhau ei gymdeithas, ac i gyfranogi o'r gogoniant oedd iddo ef gyda'r Tad cyn bod y byd (xvii. 5).

Adn. 29. **Wele, yr wyt ti yn awr yn dywedyd yn eglur, &c.** Yn hytrach na chwyno fod ei eiriau yn peri dryswch iddynt, fel yn adn. 17, cydnabyddant ei fod eisoes yn dechreu cyflawni ei addewid yn adn. 25. Sylwa Westcott fod y cyfryngiad "Wele" i'w gael yn amlach yn Efengyl Ioan nag yn yr oll o lyfrau eraill y Testament Newydd gyda'u gilydd.

Adn. 30. Argyhoeddwyd y disgyblion gan eiriau eglur a phendant yr Iesu y rhaid ei fod ef yn hollwybodol, deallai feddyliau eu calonnau cyn iddynt ofyn yr un cwestiwn iddo ef. Daethant, gan hyny, yn naturiol i'r casgliad ei fod ei mewn gwirionedd yn anfonedig y Tad. Nid fod y gwirionedd hwn yn newydd iddynt (iii. 2), ond daeth adref atynt gyda grym adnewyddol.

Adn. 31. **A ydych chwi yn awr yn credu?** Tra thebygol mai nid

hwynt, A ydych chwi yn awr yn credu? 32. Wele, y mae yr awr yn dyfod, ac yr awrhon hi a ddaeth, y gwasgerir chwi bob un at yr eiddo, ac y gadewch fi yn unig: ac nid wyf yn unig, oblegid y mae y Tad gyd â myfi. 33. Y pethau hyn a ddywedais wrthych fel y y caffech dangnefedd ynof. Yn y byd gorthrymder a gewch: eithr cymmerwch gysur, myfi a orchfygais y byd.

---

gofyniad, ond mynegiad sydd yma. Pel pe dywedai yr Iesu wrthynt, "Yr ydych yn credu yn awr," ond gyda hyn bydd yna brawf caled ar eich ffydd, a pheidiwch a rhyfeddu os bydd yn siglo, nes bron a chael ei dinistrio.

Adn. 32. **Y gwasgerir chwi bob un at yr eiddo, ac y gadewch fi yn unig.** Dyma effaith y storm fawr oedd ar oddiweddyd y disgyblion. Pan ddaliwyd yr Iesu, fe wasgarwyd y disgyblion. Bu agos i'r corwynt hwn, ysgubodd drostynt gyda'r fath rym, ddiwreiddio eu ffydd yn yr Iesu (cyd. Math. xxvi. 31. 56: Zech. xiii. 7). **Ac nid wyf yn unig, &c.** Er wedi ei adael gan ei ddisgyblion, teimlai ei fod yn cael ei nerthu a'i sirioli yn ei drallod mawr gan bresenoldeb ei Dad (viii. 29). Unwaith yn unig, a hyny megis am eiliad, y torrodd y cymundeb rhyngddo ef â'i Dad (Math. xxvii. 46; Luc xxiii. 46).

Adn. 33. **Fel y caffech dangnefedd ynof.** Dyma amcan yr holl eiriau lefarodd yr Iesu wrthynt o ddechreu pennod xiv. ymlaen—paratoi eu meddyliau ar gyfer y profedigaethau oedd yn eu haros, a thrwy hyny gael eu calonnau i orffwys mewn tangnefedd ynddo ef. Ffydd y disgyblion yn yr Iesu a roddai dangnefedd iddynt, megis ag yr oedd ei ffydd yntau yn ei Dad yn rhoddi iddo dangnefedd yn ei holl brofedigaethau. **Yn y byd gorthrymder a gewch.** Gwell: *Yn y byd yr ydych yn cael gorthrymder. Oddiallan* y mae y gorthrymder; *oddimewn*, tangnefedd. Gall fod yn storm erwin oddiallan, ac yn dangnefedd heddychol oddimewn. Ar wynebu y gorthrymder yr oedd y disgyblion, ond yr oedd yr Iesu yn rhinweddol wedi myned drwyddo eisoes yn fuddugoliaethus. **Eithr cymerwch gysur,** neu *ymgalonogwch, ymwrolwch.* **Myfi a orchfygais y byd.** Mae y "Myfi" yn bwysleisiol—"Myfi," ac nid neb arall. Cysur iddynt oedd meddwl fod yr Iesu, fel dyn gwirioneddol, wedi dangos iddynt trwy ei esiampl fod yn bosibl iddynt hwythau, hefyd, orchfygu y byd. Dylasent ymwroli o dan ddylanwad yr ystyriaeth fod cysylltiad annatodol rhwng goruchafiaeth yr Iesu a goruchafiaeth credinwyr ynhob oes. Myned i mewn i fuddugoliaeth yr Iesu, a chyfranogi trwy ffydd ohoni, yw braint ei holl ganlynwyr gwirioneddol (1 Ioan iv. 4; v. 4).

PENNOD XVII.

Y PETHAU hyn a lefarodd yr Iesu, ac *efe* a gododd ei lygaid i'r nef, ac a ddywedodd, y Tad, daeth yr awr : gogonedda dy Fab, fel y gogoneddo dy Fab dithau :

Y Weddi Arch-offeiriadol.

Adnabyddir y bennod yn gyffredin wrth yr enw hwn. Nid oes adran mor gysegredig o fewn holl gylch y Testament Newydd, a'r bennod hon. Y mae yn syml ac eto yn arddunol. Rhoddir inni y fraint o fyned gyda'r Iesu i mewn i'r Cysegr Sanctaiddiolaf, ac yno fel yr Arch-offeiriad mawr, offryma ei weddi neillduol ac arbennig. Wrth wrando ar ei acenion cariadlawn a thaer, gwyleidd-dra a diolchgarwch sydd yn weddus inni. Nid rhyfedd i Gess sylwi : "Goruwchnaturiol yw yr oll yma, oblegid fod yr hwn sydd yn llefaru yr unig Fab o'r nefoedd ; ond yr un pryd y mae yn naturiol, canys llefara fel mab wrth dad." Edrychir ar y weddi hon fel y datguddiad llawnaf o Grist fel dyn, fel Cyfryngwr, a Duw, ac hefyd o'i ciriolaeth barhaus yn y nef, a'r bendithion deilliedig i'r eglwys. Rhenir hi yn dair rhan (1) *gweddi yr Iesu drosto ei hun* (adn. 1—5), (2) *dros ei ddisgyblion* (6—19), (3) *a thros yr eglwys ddyfodol yn gyffredinol* (20—26).

1—5. Gweddi yr Iesu am ei ogoneddiad.

Yr oedd yr Iesu yn awr wedi cyrhaedd terfyn ei yrfa ddaearol, ac yn rhinweddol wedi gorphen ei waith, ac felly edrycha ymlaen at y gogoniant oedd yn ei aros ef yn y nefoedd.

Adn. 1. **Y pethau hyn,** sef y geiriau sydd yn gynwysedig yn Pen. xiv., xv. a xvi.* **Y Tad, daeth yr awr,** neu *y mae'r awr wedi dyfod.* Gwyddai yr Iesu pa bryd i weddio am iddo gael ei ogoneddu. Ni weddiodd yn rhy fuan, ond pan ddaeth yr awr. Un o neillduolion Efengyl Ioan yw yr arbenigrwydd a roddir ar amserau penodol o dan yr enw "awr" (cym. ii. 2 ; vii. 30 ; viii. 20 ; xiii. 32). Yma golyga "yr awr" nid yn unig ei farw, neu ei farw fel mynedfa i ogoniant, ond ei ufudd-dod cyflawn i ewyllys y Tad. Diau y cynhwysa farw a dyrchafiad yr Iesu, ond cyfeiria yn bennaf at agwedd dufewnol meddwl yr Iesu yn hytrach nag at ei ganlyniadau allanol. Pan blygodd ewyllys yr Iesu fel Cyfryngwr i ewyllys ei Dad yn wyneb y dioddef a'r marw aberthol oedd o'i flaen, yr oedd awr ei ogoneddiad wedi gwawrio. **Gogonedda dy Fab.** Ni ddylid deall y geiriau hyn fel pe byddai yr Iesu yn deisyf rywbeth yn bersonol iddo ei hun. Nid gweddio am ei ogoniant personol y mae, ond am i'r Tad dynnu y llen oedd yn cuddio o olwg rhai dynion y gogoniant oedd yn perthyn i'r Undod oedd rhwng y Tad a'r Mab. Trwy roddi iddo fuddugoliaeth ar angeu a'r bedd, deuai dynion i weled ei ogoniant Dwyfol. **Fel y gogoneddo dy Fab dithau.** Dyma nôd ei fywyd, ac

* "Dilynwyd y bregeth oreu draddodwyd erioed, gan y weddi oreu weddiwyd erioed."—*Traill.*

2. Megis y rhoddaist iddo awdurdod ar bob cnawd, fel am y cwbl a roddaist iddo, y rhoddai efe iddynt fywyd tragywyddol. 3. A hyn yw y bywyd tragywyddol; iddynt dy adnabod di yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist. 4. Mi a'th ogoneddais di ar y

---

amcan ei ogoneddiad. Trwy alluogi y Mab i orphen ei waith fel Cyfryngwr yn ei farw rhyfedd, ac yn ei adgyfodiad gogoneddus, fe roddid datguddiad llawnach a gogoneddusach o'r Tad trwy yr Yspryd.

Adn. 2. **Megis y rhoddaist iddo awdurdod ar bob cnawd.** Dyma sail yr Iesu i'w ddeisyfiad am gael ei ogoneddu. Ni ofynnai ond am yr hyn oedd yn hollol gyson â'r bwriad Dwyfol. Rhoddodd y Tad iddo ef arglwyddiaeth ar holl ddynolryw, "*bob cnawd*" (cym. Ephes. i. 10). Nid oedd gogoneddu y Mab ond moddion i ddwyn dynion i'w adnabod ef, a Duw trwyddo ef: ac felly ennill dynion i ymostwng i'w awdurdod, ac i gydnabod ei arglwyddiaeth. **Fel am y cwbl a roddaist iddo.** Gwell: *Fel yr hyn oll yr ydwyt wedi ei roddi iddo* (W.E.). Yn y canolryw *(neuter gender)* y mae "*y cwbl* a roddaist," ac am hyny y mae "*yr hyn oll*" yn well cyfieithiad. Edrychir yma ar holl ganlynwyr Crist fel un cyfangorph unol, wedi eu rhoddi i Grist gan y Tad. Y mae'r Tad a'r Mab mewn cyd-ddeall a chydgordiad pwy sydd i gael eu cadw; yr oll o gredinwyr pob oes a gwlad a roddwyd gan y Tad i'r Mab. **Y rhoddai efe iddynt fywyd tragywyddol.** Dyma amcan terfynol rhoddi y Tad i'r Mab. Priodolir yma y gwaith o achub dynion mewn modd arbennig ac uniongyrchol i'r Mab. Nid nad yw y Tad yn achub, ond trwy y Mab y gwna hyny. Edrychir ar ddynion yma yn oddefol yn eu cadwedigaeth, a'r Iesu yn gwneud y cwbl drostynt. Rhaid cofio, modd bynnag, mai yr ochr Ddwyfol i gadwedigaeth dynion yn unig sydd yn cael amlygrwydd yma.

Adn. 3. **A hyn yw y bywyd tragywyddol.** Er mai nid Ioan yn unig o ysgrifenwyr y Testament Newydd sydd yn defnyddio y geiriau "bywyd tragwyddol" i ddynodi yr oll o iachawdwriaeth pechadur, eto y mae yn sicr o fod yn un o'i hoff ymadroddion ef. A'r fath gynnwys dwfn ac ysprydol, a'r fath gyfoeth dihysbydd sydd ynddo! **Iddynt dy adnabod di yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist.** Er mai yr elfen ddeallol, "*adnabod*" sydd yn cael amlygrwydd yma, eto nid yw yn cau allan yr agweddau eraill, sef teimlad a gweithrediad, o eiddo undod y meddwl. Mae'r *oll o'r meddwl* yn y weithred o adnabod, adnabyddiaeth bersonol a phrofiadol o Dduw yn ei anwyl Fab yw hanfod a natur bywyd tragwyddol. Cysyllta yr Iesu yma adnabyddiaeth ohono ef ei hun gydag adnabyddiaeth o'r Tad, a thrwy hyny gesyd ei hun yn yr un safle a'r Tad. A wnelsai efe hyny, pe yn ddim ond dyn yn unig? Gosoder rhyw ddyn arall, proffwyd neu apostol yn y cysylltiad hwn yn lle Iesu Grist, ac oni theimlir ar unwaith ei fod yn hollol anaturiol a chableddus?

Adn. 4. **Mi a'th ogoneddais di ar y ddaear; mi a gwblheais y gwaith a roddaist i mi i'w wneuthur.** Yr Iesu yn unig

ddaear; mi a gwblheais y gwaith a roddaist i mi i'w wneuthur. 5. Ac yr awrhon, O Dad, gogonedda di fyfi gyd â thi dy hun, â'r gogoniant oedd i mi gyd â thi cyn bod y byd. 6. Mi a eglurais dy enw i'r dynion a roddaist i mi allan o'r byd: eiddot ti oeddynt, a thi a'u rhoddaist hwynt i mi; a hwy a gadwasant dy air di. 7. Yr awrhon y gwybuant mai oddiwrthyt ti y mae yr holl bethau a roddaist i mi: 8. Canys y geiriau a roddaist i mi, a

---

allasai ddyweyd y geiriau hyn yn gywir a gweddus. Er nad yn weithredol, eto, wedi dioddef angau y Groes; eto yn rhinweddol yr oedd wedi gwneyd hyny pan ufuddhaodd i ewyllys ei Dad, fel Cyfryngwr pechaduriaid. Yr un gair a gyfieithir yma yn "gwblheais" ag a gyfieithir yn "gorphenwyd" (yn xix. 30). Trwy gyflawni y gwaith a ymddiriedwyd iddo, fel Cyfryngwr, yr oedd yn gogoneddu ei Dad, trwy ddatguddio ei galon a'i gymeriad.

Adn. 5. **Gogonedda di fi gyd a thi dy hun.** Gan fod y Mab wedi gogoneddu y Tad ar y ddaear, y mae hyny yn rheswm digonol dros iddo ef ddeisyf am gael ei ogoneddu gyda'r Tad yn y nefoedd. Cawn esiampl yma o weddïo am yr hyn y mae Duw yn barod i roddi ini. Nid oedd gogoneddiad y Mab yn dibynnu ar ei waith yn gofyn am hyny, canys gwobr ydoedd am ei waith cyfryngol; er hyny, gweddus oedd iddo ef ofyn amdano. **A'r gogoniant oedd i mi gyd a thi cyn bod y byd.** Eglurir yn y geiriau hyn natur y gogoniant y gweddïai Crist amdano, gogoniant hanfodol Duw ei hun, ag y buasai yn gabledd i ddyn yn unig feddwl amdano, na'i chwennych. Ond yr oedd y gogoniant hwn wedi bod yn eiddo Mab Duw o'r blaen, cyn ei ymddarostyngiad a'i ymwachad rhyfeddol. Gweddïa, felly, am adferiad yn ol i'r un sefyllfa ogoneddus ag yr oedd ynddi yn flaenorol i'w ymgnawdoliad. Dysg y geiriau yn eglur a phendant ragfodolaeth y Mab, canys yr oedd gyda'r Tad *cyn bod y byd.*

6—19. Gweddi dros y Disgyblion.

Ar ol gweddi trosto ei hun, try i weddïo dros y disgyblion, y rhai agosaf ato, a'r rhai oedd i gario allan ei waith ar y ddaear ar ol ei esgyniad i ogoniant. Gŵyr mor amddifad fyddant mewn byd oer, anghrediniol, a chreulon, ar ol ei ymadawiad, ac am hyny cyfiwyna hwynt i ofal ei Dad fel yr unig un a ddichon eu cadw rhag y drwg sydd yn y byd.

Adn. 6. **Mi a eglurais dy enw.** Wrth "enw" yma y golygir, yn ddiau, natur a chymeriad Duw, yn arbennig felly fel y canolbwyntir hwy yn yr enw **Tad.** Gellir cymeryd "eglurais" yn gyfystyr â "gogoneddais" adn. 4. Trwy egluro yn ei eiriau a'i weithredoedd, yn ei fywyd a'i farw, enw y Tad yr oedd yn ei ogoneddu. **Eiddot ti oeddynt, &c.** Cydnebydd hawl wreiddiol y Tad ynddynt, a chyfiwyniad ohonynt gan y Tad i'r Mab. **A hwy a gadwasant dy air di.** Cadw yn wyliadurus a gofalus air y Tad, yn unol â dysgeidiaeth y Mab ohono.

roddais iddynt hwy; a hwy a'u derbyniasant, ac a wybuant yn wir mai oddiwrthyt ti y deuthum i allan, ac a gredasant mai tydi a'm hanfonaist i. 9. Drostynt hwy yr wyf fi yn gweddïo: nid dros y byd yr wyf yn gweddïo, ond dros y rhai a roddaist i mi; canys eiddot ti ydynt. 10. A'r eiddof fi oll sydd eiddot ti, a'r eiddot ti sydd eiddof fi: a mi a ogoneddwyd ynddynt. 11. Ac nid wyf mwyach yn y byd, ond y rhai hyn sydd yn y byd, a myfi sydd yn dyfod attat ti. Y Tad sancteiddiol, cadw hwynt trwy dy enw, y rhai a roddaist i mi; fel y byddont un, megis ninnau. 12. Tra fûm gyd â hwynt yn y byd, mi

---

Adn. 7, 8. Dysgir yn y geiriau hyn fod y disgyblion trwy dderbyn dysgeidiaeth Crist, ac ufuddhau i'w eiriau ef, wedi cyraedd sicrwydd fod ei ddysgeidiaeth o Dduw, ac fod Crist ei hun mewn gwirionedd yn anfonedig y Tad—yr un ddysgeidiaeth, o ran sylwedd, ag a ddysgir yn vii. 17.

Adn. 9. **Drostynt hwy yr wyf fi yn gweddio, &c.** Y disgyblion yn unig yn awr oedd y gwrthrychau y gweddïai Crist drostynt. Yr oeddynt ar hyn o bryd mewn mwy o angen am ei weddi na neb arall. Gwyddai yr Iesu am y profedigaethau a'r tywydd garw oedd o'u blaen. Ni ddylid casglu oddiwrth hyn fod cylch gweddi yr Iesu yn un cul a chyfyng, fel ag i gau y byd allan yn llwyr ac yn hollol. Gweddiodd Crist wrth farw dros ei elynion marwol—"O Dad, maddeu iddynt" (Luc xxiii. 34). (Cym. Math. v. 44).

Adn. 10. **A'r eiddo fi oll sydd eiddot ti.** Gall pawb ohonom gyda'r Iesu ddyweyd y geiriau hyn. Nid oes gennym ddim nad ydynt yn eiddo Duw. **A'r eiddo ti sydd yn eiddo fi.** Dyma eiriau nad allasai neb eu dweyd ond Crist yn unig; ac nis gallasai yntau eu dweyd, heb gabledd, oni buasai ei fod yn wir Fab Duw. Dyma honi meddiant o holl gyfoeth yr Anfeidrol ei hun. **A mi a ogoneddwyd ynddynt.** Gogoneddwyd yr Iesu yng ngwaith y disgyblion yn ei dderbyn fel datguddydd y Tad. Yr oeddynt, hefyd, yn gyfryngau, ac yn golofnau i ogoniant yr Iesu fel Gwaredwr pechaduriaid.

Adn. 11. **Ac nid wyf mwyach yn y byd, &c.** Ceir yma y rheswm dros weddi arbennig Crist ar ran ei ddisgyblion. Yn yr olwg ar ei ymadawiad oddiwrthynt, y cyflwynai hwynt i ofal a chadwraeth ei Dad. **Y Tad Sancteiddiol.** Naturiol iawn oedd i'r Iesu bwysleisio sancteiddrwydd ei Dad yn y cysylltiad hwn. Am fod y Tad yn sanctaidd ei hun, yr oedd yn caru i ddynion fod yn sanctaidd hefyd. A gwnai ei oreu i'w cadw rhag y drwg sydd yn y byd. **Trwy dy enw,** sef, trwy y datguddiad o'r Tad yn ei anwyl Fab. Yr oedd y datguddiad hwn wedi ei roddi yn y Mab: derbyniwyd ef gan y disgyblion—yr oeddynt yn byw ynddo!—a deisyfiad yr Iesu yw ar iddynt gael eu cadw ynddo yng nghanol holl demtasiynau y byd. **Fel y byddont un, megis ninnau.** Nid yn un o ran hanfod â'r Personau Dwyfol, ond yn un mewn sancteiddrwydd a chariad—mewn undeb ysprydol perffaith yn Nghrist, yn cyfateb i'r undeb hanfodol sydd rhwng y Tad a'r Mab.

a'u cedwais yn dy enw : y rhai a roddaist i mi, a gedwais, ac ni chollwyd o honynt ond mab y golledigaeth ; fel y cyflawnid yr ysgrythyr. 13. Ac yr awrhon yr wyf yn dyfod attat : a'r pethau hyn yr wyf yn eu llefaru yn y byd, fel y caffont fy llawenydd i yn gyflawn ynddynt eu huuain. 14. Myfi a roddais iddynt hwy dy air di : a'r byd a'u casaodd hwynt, oblegid nad ydynt o'r byd, megis nad ydwyf finnau o'r byd. 15. Nid wyf yn

---

Adn. 12. **Tra fum gyd a hwynt yn y byd, &c.** Nid yr un gair sydd am "gadw" yn yr adnod hon ag yn yr adnod flaenorol. *Phulassô* yw y gair yma yn arwyddo *cadw gwyliadwriaeth dros, gwarchod*—cadw, neu wylied, yn ofalus yr hyn sydd tu fewn, megys defaid ; tra mai ystyr *têreô* (adn. 11 a 12) yw gwylied yr hyn sydd *tu allan*, megys gwylio y bedd (Math. xxvii. 26). Cyfeirir yn y gair "cadw" at y moddion sydd yn angenrheidiol tuag at gadw. Ac y mae'r ferf "cadw" yn yr amser amherffaith yn arwyddo gwylio a chadw yn *barhaus.* **Ac ni chollwyd ohonynt ond mab y golledigaeth,** neu, *a neb ohonynt ni chollwyd, ond mab y golledigaeth.* Cadwodd yr Iesu yr unarddeg, ond methodd a chadw Judas. *Methu* y mae Cariad, ac nid peidio arfaethu ac ewyllysio. Trwy foddion moesol, ac wrth ymwneyd â bodau moesol rhydd a chyfrifol, nid yw yn unrhyw ddianrhydedd ar Gariad Dwyfol ei fod yn methu.* Hebreaeth yw "mab y golledigaeth," yn arwyddo un yn dal y cysylltiad agosaf â cholledigaeth. Cymharer "plant y goleuni," "meibion y daran," &c. (Gwel, hefyd, 2 Thes. ii. 3, Esay lvii. 4). **Fel y cyflawnid yr ysgrythyr.** Nid yr ysgrythyr oedd wedi effeithio ar Judas, ond Judas oedd wedi effeithio ar yr ysgrythyr. Am y *mynnai* Judas fod yn golledig, y rhagfynegodd yr ysgrythyr y byddai felly.

Adn. 13. **A'r pethau hyn yr wyf yn eu llefaru yn y byd**—ym mhresenoldeb y disgyblion, ac er budd iddynt. **Fel y caffont fy llawenydd yn gyflawn ynddynt eu hunain.** Yr oedd yr Iesu am iddynt gyfranogi o'r un llawenydd pur a bendigedig ag yntau. Dyma ei amcan yn dal cymundeb hyglyw â'i Dad, fel y byddai hyny yn ffynhonell o lawenydd gwirioneddol i'w ddisgyblion ar ol ei ymadawiad oddiwrthynt.

Adn. 14. **Myfi a roddais iddynt hwy dy air di.** Honai yr Iesu fod ei holl ddysgeidiaeth yn ddatguddiad o feddwl ei Dad, ac felly yr oedd ei air Ef mewn gwirionedd yn air ei Dad (hefyd pen. vii. 16, viii. 28, xii. 49). **A'r byd a'u casaodd hwynt, &c.** Nid y byd naturiol, ond y byd cymdeithasol, oedd yn cashau y disgyblion, am nad oeddynt yn mabwysiadu ei egwyddorion, ac yn cyd-ffurfio â'i arferion. Yr oedd ysbryd hunanymwadol a hunanaberthol yr Iesu yn hollol groes i yspryd hunangeisiol y byd, ac yr oedd ei ddisgyblion wedi eu meddiannu yn helaeth gan yr un yspryd.

---

*"He (Jesus) claims to have done his duty by them all, not even excepting Judas ; in whose case He admits failure, but at the same time clears Himself of blame."—*Dr. A. B. Bruce.*

gweddïo ar i ti eu cymmeryd hwynt allan o'r byd, eithr ar i ti eu cadw hwynt rhag y drwg. 16. O'r byd nid ydynt, megis nad wyf finnau o'r byd. 17. Sancteiddia hwynt yn dy wirionedd: dy air sydd wirionedd. 18. Fel yr anfonaist fi i'r byd, felly yr anfonais innau hwythau i'r byd. 19. Ac er eu mwyn hwy yr

---

Adn. 15. **Nid wyf yn gweddio ar i ti eu cymmeryd hwynt allan o'r byd.** Gwell: "Nid wyf yn *gofyn*," &c. (C.S.D., W.E.). Ni allasai yr Iesu ofyn i'w Dad eu cadw trwy eu cymeryd allan o'r byd, canys yr oedd angen amdanynt yn y byd. Hwy oedd "halen y ddaear," a "goleuni y byd;" hwy oedd i gyhoeddi i'r byd genadwri yr efengyl, ac i sefydlu Cristionogaeth ar y ddaear. Dywedodd yr Iesu amdanynt: "Ac a fyddwch dystion i mi yn Jerusalem, ac yn holl Judea, a Samaria, a hyd eithaf y ddaear." **Eithr ar i ti eu cadw hwynt rhag y drwg,** *allan o law yr Un Drwg* (W.E.). Cytuna y mwyafrif o esbonwyr diweddar mai cyfeiriad sydd yma at y diafol. Gofynnai yr Iesu felly am i'w ddisgyblion gael eu cadw rhag cael eu gorchfygu gan ddylanwad a llywodraeth "Tywysog y byd hwn."

Adn. 16. Ail-adroddiad gyda phwyslais sydd yma o'r un syniad ag yn adn. 14, ond y mae yn arweiniad priodol i'r weddi sydd yn dilyn.

Adn. 17. **Sancteiddia hwynt yn dy wirionedd.** Credaf mai gwell cyfeithu y gair *hagiason* (sancteiddia) yma yn *cysegru*. Ac felly y gwna llawer o'r esbonwyr diweddar. Ei ystyr yw *neilldio* ac *ymroddi* i waith cysegredig. Dyma ei ystyr hefyd yn x. 36 ac adn. 19. Dymuna yr Iesu am i'w ddisgyblion, o dan ddylanwad y gwirionedd, gael eu neilldio a'u gwneuthur yn llwyr ymgysegredig i'r gwaith mawr y galwyd hwynt i'w gyflawni. **Dy air sydd wirionedd.** Y mae *dy* yn bwysleisiol yma, gair Duw yn wrthgyferbyniol i bob gair arall. Nid yn unig y mae yn wir, ond cynhwysa hanfod y gwirionedd. Y mae y gwirionedd yn cynnwys yr holl ddatguddiad Cristionogol.

Adn. 18. **Fel yr anfonaist fi i'r byd, &c.** Cyfatebiaeth rhwng gwaith y Tad yn anfon y Mab i'r byd, a'r Mab yn anfon ei ddisgyblion. Anfonwyd y Mab i'r byd gyda chenadwri arbennig, ac i gyflawni gwaith neilldiol, felly hefyd yr enfyn yr Iesu ei ddisgyblion i'r byd fel cenhadon hedd, i efengyleiddio'r byd. Ac y mae'r awdurdod oedd yn perthyn i anfoniad y Tad yn treiddio trwy y Mab at anfoniad y disgyblion.

Adn. 19. **Ac er eu mwyn hwy yr wyf yn fy sancteiddio fy hun.** Gwell yma *cysegru* na sancteiddio. Fel un pur o galon, nid oedd modd i'r Iesu sancteiddio ei hun yn yr ystyr o gael ei buro a'i lanhau oddiwrth bechod. Ond yn yr ystyr o gysegru ei hun yn llwyr ac yn hollol i gyflawni ewyllys ei Dad yng ngwaith mawr y brynedigaeth, gwnaeth hyny mewn modd arbennig iawn.* Cyfeiria

---

*"Rather the meaning is: I consecrate myself to death for them, as the sacrifice is consecrated."—*Dorner.*

wyf yn fy sancteiddio fy hun, fel y byddont hwythau wedi eu sancteiddio yn y gwirionedd. 20. Ac nid wyf yn gweddïo dros y rhai hyn yn unig, eithr dros y rhai hefyd a gredant ynof fi trwy eu hymadrodd hwynt: 21. Fel y byddont oll yn un: megis yr *wyt* ti, y Tad, ynof fi, a minnau ynot ti; fel y byddont hwythau un ynom ni: fel y credo y byd mai tydi am

---

y cysegru yma nid yn unig at ei farw hunanaberthol, ond at ei holl ymroddiad yng ngwasanaeth Duw. **Fel y byddont hwythau wedi eu sancteiddio yn y gwirionedd,** neu *wedi eu cysegru mewn gwirionedd* (W.E.). Heb yr esiampl a'r dylanwad oedd yn tarddu o ymgysegriad yr Iesu, ni fuasai y disgyblion, na neb arall, yn meddwl am ymroddi i wasanaethu Duw. Ac felly yr oedd yr Iesu trwy gysegru ei hun, yn gwneud hyny gyda'r amcan o ddwyn ei ddisgyblion, a chredinwyr ym mhob oes, i gysegru eu hunain i wasanaethu y Duw byw.

20—24. Gweddi dros yr Eglwys.

Adn. 20. **Ac nid wyf yn gweddio dros y rhai hyn yn unig.** Gwelir fod yr Iesu yma yn eangu cylch ei weddi. Yn lle gweddïo yn unig dros ei ddisgyblion, yn awr, fe helaetha y terfynau. **Eithr dros y rhai hefyd a gredant ynof fi trwy eu hymadrodd hwynt.** Er nad ydyw y geiriau, fe ddichon, yn llythrenol yn crybwyll ond am y tô cyntaf o gredinwyr a dderbyniasant genadwri uniongyrchiol Apostolion Crist, eto, fe gredir gan esbonwyr yn gyffredinol, fod gweddi yr Iesu yma yn cynnwys yr holl gredinwyr hyd ddiwedd amser. Ac felly y mae gan bob credadyn gwirioneddol sydd yn ymddiried yng Nghrist am iachawdwriaeth, hawl i sugno cysur cryf iddo ei hun ei fod yn wrthrych arbennig gweddi Crist drosto.

Adn. 21. **Fel y byddont oll yn un.** Dyma'r hyn y gweddïai Crist amdano yn fwyaf neilltuol. Un ymha ystyr? Un cyfangorph mewn ffydd, gobaith, a chariad. Nid unffurfiaeth, nac unfrydedd: y mae yr undeb yn llawer dyfnach a mwy ysprydol na hyny, canys gorffwysa ar undeb yspryd a bywyd. Yr undeb sydd rhwng y Tad a'r Mab yw delfryd yr undeb hwn. **Megis yr wyt ti, y Tad, ynof fi, a minnau ynot ti.** Megis y mae bywyd y Tad yn treiddio trwy y Mab, felly y mae bywyd y Mab yn treiddio trwy y rhai sydd mewn undeb ffydd âg ef. **Fel y byddont hwythau un ynom ni.** Gadewir y gair *un* allan o'r llawysgrifau pwysicaf a darllennir, fel y byddont hwythau *ynom ni*, yn cyfranogi o'r un bywyd ysprydol a Dwyfol. **Fel y credo y byd mai tydi a'm hanfonaist i.** Dyma'r dylanwad gaiff undeb Cristionogol ar y byd, ei ennill i gredu yn nwyfol anfoniad Crist. Buasai hanes y byd yma heddyw yn wahanol iawn i'r hyn ydyw, pe buasai mwy o yspryd undeb Cristionogol wedi ei amlygu. Nid fod pawb yn perthyn i'r un enwad o grefyddwyr, ond fod yna lai o erlid, condemnio a chyhoeddi anathemau wedi bod. Ac felly yr ydoedd yn yr eglwys foreol, Gorfodid eu gelynion i ddwyn tystiolaeth i'r undeb a'r cariad a

hanfonaist i. 22. A'r gogoniant a roddaist i mi, a roddais iddynt hwy; fel y byddont un, megis yr ydym ni yn un: 23. Myfi ynddynt hwy, a thithau ynof fi; fel y byddont wedi eu perffeithio yn un, ac fel y gwypo y byd mai tydi a'm hanfonaist i, a charu o honot hwynt, megis y ceraist fi. 24. Y Tad, y rhai a roddaist

---

ffynnai yn eu plith, gan ddywedyd, "Wele, fel y mae y Cristionogion yn caru eu gilydd."

Adn. 22. **A'r gogoniant a roddaist i mi, a roddais iddynt hwy.** Nid yw y gogoniant hwn yn golygu gogoniant gwreiddiol a Dwyfol y Mab, y gogoniant y cyfeiria ato yn adn. 5. Ni allai bodau dynol a meidrol dderbyn y gogoniant hwnw; buasai y llestr yn annrhaethol rhy fach i'w gynnwys. Yn sicr, nid gogoniant hanfodol y Mab, ond ei ogoniant cyfryngol a olygir. Y gogoniant sydd ynglyn â chyfranogi o fywyd ysprydol yng Nghrist, a bod yn ymgysegredig i'r un amcan a Christ. Megis y gogoneddwyd Crist gan y Tad trwy ymddiried cenhadaeth arbennig iddo ef, felly y gogoneddodd Crist ei apostolion a'u holynwyr gwirioneddol ym mhob oes, trwy ymddiried iddynt y genadwri fawr a phwysig sydd i achub y byd. **Fel y byddont un, megis yr ydym ni yn un.** Dyma amcan y gogoneddu, sierhau undeb ymhlith credinwyr sydd yn cyfateb i'r undeb sydd rhwng y Tad a'r Mab. Gan hyny, amlwg yw, mai nid undeb ffurfiol ac allanol a feddylir, ond undeb o ansawdd llawer uwch, undeb yspryd a chalon.

Adn. 23. **Myfi ynddynt hwy, a thithau ynof fi.** Dyma eglurhad yr Iesu ar natur yr undeb ysprydol a chyfriniol y gweddïai amdano. Yr Iesu yn y credinwyr trwy breswyliad "Yspryd y bywyd," a'r Tad yn y Mab yn rhinwedd y berthynas hanfodol, neillduol ac arbennig, sydd rhyngddynt â'u gilydd. **Fel y byddont wedi eu perffeithio yn un.** Gwell, *i* un. Y mae'r undeb eisoes wedi ei ddechreu, ond heb ei berffeithio. Dyma r delfryd dynol a sylweddolir pan y bydd dynion yn preswylio ynghyd mewn perffaith gariad a chydgordiad, yn adlewyrchu Undod y Duwdod trwy fod Yspryd Crist yn preswylio yn eu calonnau. **Ac fel y gwypo y byd mai ti a'm hanfonaist i.** Yn adn. 21 dywedir "fel y *credo* y byd," ond yma "fel y *gwypo* y byd." Pan y daw undeb yspryd a chalon rhwng Cristionogion i'r amlwg, bydd yn rhaid i'r byd gredu yn nwyfol darddiad Cristionogaeth. **A charu o honot hwynt, megis y ceraist fi.** Y mae fod dynion yn caru eu gilydd yn brawf ymarferol i'r byd y rhaid fod Duw wedi eu caru hwynt yn gyntaf. Cariad sydd yn cynhyrchu cariad. Mesur y cariad rhyfeddol hwn, yw cariad y Tad tuag at ei anwyl Fab:

"O gariad, O gariad, anfeidrol ei faint."

Adn. 24. **Y Tad, y rhai a roddaist i mi.** Ei ganlynwyr fel un cyfangorff yw y rhai a roddwyd gan y Tad i'r Mab. Yn ol y darlleniad goreu, nid *y rhai* a roddaist, ond *yr hyn* a roddaist sydd i fod, ac felly pwysleisir undod y credinwyr. **Yr wyf yn ewyllysio.** Gweddïo yr oedd Crist yn flaenorol i hyn, ond yn

i mi, yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi, fod o honynt hwythau hefyd gyd â myfi ; fel y gwelont fy ngogoniant a roddaist i mi : oblegid ti a'm ceraist cyn seiliad y byd. 25. Y Tad cyfiawn, nid adnabu y byd dydi : eithr mi a'th adnabûm, a'r rhai hyn a wybu mai tydi a'm hanfonaist i. 26. Ac mi a hysbysais iddynt dy enw, ac a'*i* hysbysaf :

---

awr *ewyllysio* y mae, am y gwyddai fod ei ewyllys ef yn hollol gyson âg ewyllys ei Dad. Ewyllysio fel testamentwr yn gwneud ei ewyllys ddiweddaf. **Lle yr wyf fi, fod o honynt hwythau hefyd gyda myfi.** Fod y nefoedd yn *lle* yn y bydysawd sydd ddigwestiwn yn ol dysgeidiaeth yr Ysgrythyrau (cym. xiv. 3 ; xii. 26). Ond ymha gyfeiriad y mae, ofer ceisio dyfalu. Ond ymha le bynnag y mae, y mae agosrwydd at yr Iesu, a chymdeithas âg ef, yn ei wneud yn anwyl iawn yng ngolwg pawb a'u carant Ef. **Fel y gwelont fy ngogoniant a roddaist i mi.** Nid ei ogoniant hanfodol a olygir, canys ni roddwyd hwnw iddo ef, am ei fod yn eiddo gwreiddiol iddo erioed. Diau mai ei ogoniant cyfryngol a olygir. Y gogoniant sydd yn ffrwyth cariad y Tad tuag at ei anwyl Fab. Dyma ogoniant gwerth edrych arno, ac ni flinir byth a syllu arno gyda boddhad a digrifwch, canys y mae yn fawr ragorol ogoniant (cym. 2 Cor. iii. 18 ; 2 Tim. ii. 12 ; 1 Ioan iii. 2). **Oblegid ti a'm ceraist cyn seiliad y byd.** Ceir yma gipdrem ar berthynas tragwyddol y Duwdod. "Dyma'r ymadrodd," ebai Godet, "yn mhlith holl eiriau Crist sydd yn ein harwain bellaf i ddyfnderoedd y Duwdod." Dyma ei reswm sylfaenol dros ewyllysio i'w saint fod gydag ef, yn edrych ar ei ogoniant, cariad tragwyddol a digyfnewid y Tad tuag ato ef.

25, 26. Y Diweddglo.

Edrychir ar y ddwy adnod hyn fel adsymiad o weddi y Gwaredwr, yn y rhai yr adolyga ac y crynhoa ynghyd gynnwys ei eiriolaeth ar eu rhan.

Adn. 25. **Y Tad cyfiawn.** Yn lle ei alw yn "Dad sanctaidd" fel yn adn. 11, geilw ef yn "Dad cyfiawn," am ei fod yn myned i gyfeirio at y gwahaniaeth a wna y Tad rhwng y rhai a ymddiriedasant yn ei Fab, a'r byd anghrediniol. Edrycha ar y gwahaniaeth fydd rhwng cadwedigaeth y saint oedd wedi adnabod y Tad, a cholledigaeth y byd oedd heb ei adnabod fel mater o gyfiawnder. Ymddyga Duw yn hollol deg a chyfiawn tuag at y naill a'r llall. **Nid adnabu y byd dydi.** Nid o ddiffyg moddion a chyfleustra, ond o ddiffyg tuedd a ffydd. Nid trwy ddoethineb bydol y mae adnabod Duw, ond trwy ffydd yn ei anwyl Fab (1 Cor. i. 21). **Eithr mi a'th adnabum, a'r rhai hyn a wybu mai tydi a'm hanfonaist i.** Adnabyddiaeth yr Iesu o'i Dad yn torri allan yn ei eiriau grasol, yn ei weithredoedd caredig, ac yn ei fywyd pur a sanctaidd, nes cynhyrchu argyhoeddiad ym meddyliau ei ddisgyblion, nad oedd yn neb llai nag anfonedig y Tad.

Adn. 26. **Ac mi a hysbysais iddynt dy enw, ac a'i hysbysaf.** Nid yn unig yr oedd yr Iesu wedi bod yn ffyddlon yn datguddio cymeriad ei Dad i'w ddisgyblion, fel ag yr oeddynt yn alluog i'w dderbyn (xvi. 12) ; ond y

fel y byddo ynddynt hwy y cariad â'r hwn y ceraist fi, a minnau ynddynt hwy.

---

mae ganddo ddatguddiad helaethach i'w roddi iddynt trwy ei farw, ei adgyfodiad, ei esgyniad, a thywalltiad yr Ysbryd Glân. Y mae y datguddiad sydd gan yr Iesu o'i Dad yn anhysbyddadwy. Tebygol iawn fod y geiriau, "ac a'i hysbysaf," yn cymeryd i mewn nid yn unig amser, ond tragwyddoldeb hefyd. **Fel y byddo ynddynt hwy y cariad a'r hwn y ceraist fi, a minnau ynddynt hwy.** Dyma amcan terfynol y datguddiad, perffeithio cariad y credinwyr. Ac y mae yn y datguddiad bob cyfaddasder i gyrhaedd y cyfryw amcan. Dyma'r safon uchaf a pherffeithiaf o gariad, "y cariad â'r hwn y ceraist fi," ynddynt hwy, a "minnau ynddynt hwy." Crist yn y saint, a thrwy y saint.

PENNOD XVIII.

GWEDI i'r Iesu ddywedyd y geiriau hyn, efe a aeth allan, efe a'i ddisgyblion, dros afon Cedron, lle yr oedd gardd, i'r hon yr aeth efe a'i ddisgyblion. **2.** A

GOGONEDDIAD CRIST YN EI FARWOLAETH A'I ADGYFODIAD.

Wele ni yn awr yn dyfod i olwg oriau olaf ein Gwaredwr, ac y mae Westcott yn manylu fel y canlyn ar yr oriau cysegredig. Rhoddwn drefn y digwyddiadau i lawr, fel y gall y darllennydd ddilyn camrau olaf yr Iesu yn fwy dealladwy. Ar ol gadael yr Oruwch-ystafell croesodd yr Iesu y dyffryn cul, neu yr hafn, ag yr oedd Afon Cedron yn rhedeg drwyddo, gan gyfeirio tua Gardd Gethsemane. Mor agos ag y gellir penderfynu, yr oedd trefn ac amser y gwahanol ddigwyddiadau fel y canlyn :—

Un o'r gloch y bore, Yr ing yn yr ardd.

„ „ „ Y bradychiad.

„ „ „ Dwyn yr Iesu i dŷ yr arch-offeiriad.

Dau o'r gloch y bore, Cael ei holi gan Annas.

Tri o'r gloch y bore, Ei holi o flaen Caiaphas a'r Sanhedrim.

Pump o'r gloch y bore, Y ddedfryd ffurfiol gan y Sanhedrim yn ei lle arferol o gyfarfod.

Pump o'r gloch y bore, Ei holiad cyntaf gerbron Pilat yn y plasdy.

Haner awr wedi pump, Ei holi gerbron Herod.

„ „ „ Ei fflangellu, a'i wawdio gan y milwyr yn y plasdy.

Haner awr wedi chwech, Y ddedfryd gan Pilat (Ioan xix. 14, "Ac yn nghylch y chweched awr").

Saith o'r gloch, Yn cael ei wawdio gan y milwyr drachefn fel "Brenin" condemniedig.

Naw o'r gloch, Y croeshoeliad, ac yn gwrthod y finegr a'r bustl (Marc xv. 25, "A'r drydedd awr oedd hi").

Deuddeg o'r gloch, Y cyhuddiad olaf (Marc xv. 29—32 ; Luc xxiii. 35, 37).

Deuddeg hyd *dri* o'r gloch prydnawn, Y tywyllwch (Mat. xxvii. 45 ; Marc xv. 33 ; Luc xxiii. 44).

Tri o'r gloch, Y diwedd.

1—11. YN CAEL EI FRADYCHU A'I DDAL.

Adn. 1. **Gwedi i'r Iesu ddywedyd y geiriau hyn, efe a aeth allan.** Y mae gwahaniaeth barn ymhlith yr esbonwyr goreu, pa un ai yn yr Oruwch-ystafell, cyn myned allan ohoni, y llefarodd yr Iesu pen. xv., xvi. a xvii., ai ynte ar y ffordd i Gethsemane. Yn ol y dybiaeth flaenaf golyga y geiriau "efe a aeth allan," myned allan o'r ystafell ; ond yn ol y dybiaeth olaf, golygant fyned allan o'r ddinas. Y mae yn anawdd iawn meddwl am yr Iesu yn llefaru y fath

Judas hefyd, yr hwn a'i bradychodd ef, a adwaenai y lle: oblegid mynych y cyrchasai yr Iesu a'i ddisgyblion yno. 3. Judas gan hynny, wedi iddo gael byddin a swyddogion gan yr archoffeiriaid a'r Phariseaid, a ddaeth yno â lanternau, a lampau, ac arfau. 4. Yr Iesu gan hynny, yn gwybod pob peth a oedd ar ddyfod arno, a aeth allan, ac a ddywedodd wrthynt, Pwy yr ydych yn ei geisio?

---

anerchiad ag sydd yn pen. xv. a xvi., ac yn offrymu y weddi hynod yn pen. xvii., dan rodio ar y ffordd tua Gethsemane. Tybia Dr. D. Smith i'r Iesu fyned o'r Oruwch-ystafell tua'r Deml, ac mai yn un o'i hystafelloedd y llefarodd gynnwys pen. xv.—xvii. Y mae hyn yn llawer tebycach, na'i fod wedi eu llefaru ar y ffordd. Rhaid cydnabod fod y geiriau, "Codwn, awn oddiyma" (xiv. 31) yn ein harwain yn naturiol i feddwl i'r Iesu a'i ddisgyblion ymadael o'r Oruwch-ystafell yn y fan, ac felly mai yn rhywle arall y llefarodd pen. xv.—xvii. Pa fodd bynnag, nid oes dim yn yr hanes i'n galluogi i ddyfod i benderfyniad terfynnol. **Dros afon Cedron.** Rhedai yr afon hon mewn ceunant rhwng ochr ddwyreiniol y ddinas a Mynydd yr Olewydd. Rhyw ffrwd fechan ydoedd yn hytrach nag afon, ac yn sychu i fyny yn ystod yr haf. Ystyr y gair Cedron yw *Cedrwydd*, am y tyfai cedrwydd ar lechwedd Mynydd yr Olew-wydd. **Lle yr oedd gardd.** Ni enwa Luc nac Ioan yr ardd wrth ei henw Gethsemane. Nid yw Ioan ychwaith yn son dim am ei ing yn yr ardd. Nid am na wyddai amdano, ond nad oedd yn dyfod i wasanaethu amcan ysgrifeniad ei efengyl, ac fod yr hanes wedi ei roddi mor lawn gan yr efengylwyr eraill.

Adn. 2. **A adwaenai y lle.** Nid dyma'r tro cyntaf i'r Iesu a'i ddisgyblion fyned i'r ardd hon, ac felly gwyddai Judas am y lle yn dda, am iddo fod yno gyda'r Iesu o'r blaen.

Adn. 3. **Wedi iddo gael byddin.** Er fod y gair a gyfieithir byddin yma yn arwyddo *catrawd*, sef tua 600 o filwyr, prin y gellir credu fod cynifer a hyny yn bresennol. Y tebygrwydd yw, mai rhan fechan o'r gatrawd oedd yn bresennol, yr hon a ffurfiai y gwarchodlu Rhufeinig yn Nhwr Antonia. **A swyddogion,** yn llythrennol *isrwyfwr*, yna *is-swyddog*. Swyddogion wedi eu penodi gan y Sanhedrim oedd y rhai hyn. Gwelir mor awyddus oedd yr awdurdodau Iuddewig am ddal yr Iesu. **Lampau.** Gwell: *ffaglau*, yn cael eu porthi âg olew. "Wele ffordd ryfedd i chwilio am yr Haul, Goleuni y byd" (W.E.).

Adn. 4. **Yn gwybod pob peth a oedd ar ddyfod arno.** Gwelir mai nid cael ei oddiweddyd yn sydyn ac annisgwyliadwy gan ei elynion ddarfu yr Iesu. Rhoddi ei hun i fyny yn wirfoddol wnaeth efe (cym. x. 18; xvii. 1). **A aeth allan,** oddiwrth y disgyblion oedd gydag ef, neu o gysgod y coed, neu allan o derfynnau yr ardd. Yr hwn oedd wedi gochel pob hynodrwydd, ac arddangosiad hyd yn hyn, yn awr yn myned allan i groesawu marwolaeth. **Pwy yr ydych yn ei geisio?** Nid er ei fwyn ei hun y gofynnodd yr Iesu y cwestiwn hwn, ond er mwyn ei ddisgyblion, fel y caffent hwy gyfleustra i ddianc, ac er mwyn

5. Hwy a attebasant iddo, Iesu o Nazareth. **Yr Iesu a** ddywedodd wrthynt, Myfi yw. A Judas, yr hwn a'i bradychodd ef, oedd hefyd yn sefyll gyd â hwynt. 6. Cyn gynted gan hynny ag y dywedodd efe wrthynt, Myfi yw, hwy a aethant yn ŵysg eu cefnau, ac a syrthiasant i lawr. 7. Am hynny efe a ofynodd iddynt drachefn, Pwy yr ydych yn ei geisio? A hwy a ddywedasant, Iesu o Nazareth. 8. Yr Iesu a attebodd, Mi a ddywedais i chwi mai myfi yw: am hynny os myfi yr ydych yn ei geisio, gadêwch i'r rhai hyn fyned ymaith: 9. Fel y cyflawnid y gair a ddywedasai efe, O'r rhai a roddaist i

---

y rhai oedd yn dyfod i'w ddal ef, i ddeffro eu hymwybyddiaeth o'r hyn oeddynt yn ei gyflawni.

Adn. 5 a 6. Yn lle **Iesu o Nazareth,** gwell darllen *Iesu y Nazarëad,* geiriau yn dynodi dirmyg (xix. 19; Mat. xxvi. 71; Marc xiv. 67). Yn lle **yr hwn a'i bradychodd,** cyfieithiad cywirach yw "*Yr hwn oedd yn ei fradychu*" (W.E.). "*Who was betraying Him*" (W.). Yr oedd y gwaith wedi ei ddechreu gan Judas, ac yn parhau i fyned ymlaen. Tybir mai yn awr y rhoddodd y bradwr y cusan i'r Iesu y crybwylla Mathew amdano (Mat. xxvi. 49). **Myfi yw, hwy a aethant yn wysg eu cefnau, ac a syrthiasant i lawr.** Y fath ddylanwad rhyfedd a hynod gafodd geiriau yr Iesu ar y rhai a ddaethant i'w ddal ef! Yn lle bod yr Iesu yn crynu ac yn ofni ger eu bron hwy, yr oedd yna'r fath urddas mawreddog a thawel yn ei ymddanghosiad a'i edrychiad, a'r fath nerth ac awdurdod yn ei eiriau nes eu dwyn i sylweddoli eu bod wyneb yn wyneb â rhyw burdeb a gogoniant oedd yn eiddo'r Iesu yn unig. Un pelydr yn unig o'i ogoniant Dwyfol-ddynol oedd yn ddigon i'w gorchfygu yn y fan. Gan fod gennym hanes am arwyr moesol, megis John Wesley, ac eraill, trwy eu hunanfeddiant a'u gwroldeb wedi gallu tarro dychryn ac arswyd i galonnau eu herlidwyr llwfr, ai anghredadwy gennym yw, fod ymddangosiad a geiriau "Sanct Duw" wedi cario y fath effaith ar Judas, y bradwr euog, a'r rhai oedd gydag ef?

Adn. 7 a 8. Gofynna yn yr adnodau hyn yr un cwestiwn er rhoddi cyfleustra iddynt ateb yn groew mai Efe ei hun a geisient, ac nid ei ddisgyblion. Gwelir mor wirfoddol y rhoddai ei Hun i fyny er mwyn cysgodi ac arbed ei ddisgyblion. Mor gywir yr adlewyrchir teimlad yr Iesu yng ngeiriau yr emynydd :—

> "Gwrandewch y geiriau ddywedodd,
> Pwy allsai ond Efe?
> Gadewch i'r rhai'n fynd ymaith,
> Cymerwch fi yn eu lle."

Adn. 9. **O'r rhai a roddaist i mi, ni chollais i yr un.** Cyfeiriad sydd yma at ddatganiad yr Iesu yn xvii. 12. Ar wahan i ychydig wahaniaeth yn yr eiriadaeth, gwelir fod yr Efengylwr yma yn rhoddi cymhwysiad gwahanol i eiriau yr Iesu. Diogeliad ysprydol, yn ddiau, oedd mewn golwg gan yr Iesu yn xvii. 12, ond

mi, ni chollais i yr un. 10. Simon Petr gan hynny a chanddo gleddyf, a'i tynnodd ef, ac a darawodd was yr arch-offeiriad, ac a dorrodd ymaith ei glust ddeheu ef: ac enw y gwas oedd Malchus. 11. Am hynny yr Iesu a ddywedodd wrth Petr, Dod dy gleddyf yn y wain: y cwppan a roddes y Tad i mi, onid yfaf ef? 12. Yna y fyddin, a'r milwriad, a swyddogion yr Iuddewon, a ddaliasant yr Iesu, ac a'u rhwymasant ef, 13. Ac a'i dygasant ef at Annas yn gyntaf; canys chwegrwn Caiaphas, yr hwn oedd arch-offeiriad y flwyddyn honno, ydoedd efe. 14. A Chaiaphas oedd yr hwn a gynghorasai

---

diogeliad corphorol sydd gan yr Efengylwr yma. Cafodd y disgyblion gyfle i ddianc heb eu dal, am fod yr Iesu yn rhoddi ei hunan i fyny yn eu lle.

Adn. 10. Gwelir yma sel a byrbwylldra Simon Petr yn dyfod i'r golwg. A phwy ond llygad-dyst, yn gwybod enw gwas yr archoffeiriad, ac yn ysgrifennu ym mhell ar ol hyny, fuasai yn cofnodi yr amgylchiad? Cyfeiria hyn yn ddiamheuol at Ioan.

Adn. 11. **Y cwppan a roddes y Tad i mi, onid yfaf ef?** Condemnia yr Iesu ymddygiad byrbwyll a brysiog Petr, am ei fod yn annghyson âg amcan ei ddyfodiad i'r byd. Ceir yr un gwahaniaeth rhwng syniad yr Iesu a syniad daearol Petr yn Math. xvi. 22, 23. Edrychai yr Iesu ar y dioddef a'r marw oedd o'i flaen ef, nid yn dyfod oddiwrth ddynion yn unig, ond fel cwpan chwerw a roddwyd iddo i'w hyfed gan y Tad. Ufudd-dod cariadlawn i ewyllys ei Dad barodd i'r Iesu fyned trwy y tywydd garw oedd o'i flaen, "gan fod yn ufudd hyd angau, ïe, angau y Groes."

12—27. Y Prawf Iddewig, neu Eglwysig—

"Iesu yn sefyll, a Petr yn syrthio."

Adn. 12. **A'r milwriad.** Llywydd, neu gadben, ar fil, a phenswyddog y gatrawd Rufeinig. Yr oedd fod swyddog mor uchel yn bresenol yn dangos y pwys a roddid ar ddal yr Iesu. **Ac a'i rhwymasant ef.** Cymerasant ef i fyny fel drwgweithredwr.

Adn. 13. **Ac a'i dygasant ef at Annas yn gyntaf.** Arholiad rhagbaratoawl oedd hwn o flaen Annas, i'r prawf ffurfiol a rheolaidd o flaen y Sanhedrim. Rhoddid gryn bwys ar farn Annas oherwydd ei berthynas â'r archoffeiriad, ei oed, ei brofiad, a'i ddylanwad yn y cylch offeiriadol. Tybir ei fod yn awr yn 70 mlwydd oed. Llanwodd ei hunan y swydd o archoffeiriad o o.c. 7—14. **Canys chwegrwn Caiaphas, &c.** Ioan yn unig sydd yn crybwyll am y berthynas hon rhwng Annas a Chaiaphas, fel ei fab-yng-nghyfraith. Ac onid oes yn hyn brawf o adnabyddiaeth neilltuol yr awdwr o'r hyn yr ysgrifennai amdano? A phwy allasai feddu y fath wybodaeth fanwl a chywir ond Ioan, fab Zebedeus?

Adn. 14. Cyfeiriad at yr hyn a grybwyllwyd eisoes yn x., 49—52. Crybwyllir hyn, y mae'n debyg, oherwydd fod y brophwydoliaeth ar gael ei chyflawni.

i'r Iuddewon, mai buddiol oedd farw un dyn dros y bobl. 15 ¶ Ac yr oedd yn canlyn yr Iesu, Simon Petr, a disgybl arall: a'r disgybl hwnnw oedd adnabyddus gan yr arch-offeiriad, ac efe a aeth i mewn gyd â'r Iesu i lys yr arch-offeiriad. 16. A Phetr a safodd wrth y drws allan. Yna y disgybl arall yr hwn oedd adnabyddus gan yr arch-offeiriad, a aeth allan, ac a ddywedodd wrth y ddrysores, ac a ddug Petr i mewn. 17. Yna y dywedodd y llangces oedd ddrysores wrth Petr, Onid wyt tithau o ddisgyblion y dyn hwn? Dywedodd yntau, Nac wyf. 18. A'r gweision a'r swyddogion, gwedi gwneuthur tân glo, o herwydd ei bod hi yn oer, oeddynt yn sefyll, ac yn ymdwymno: ac yr oedd Petr gyd â hwynt yn sefyll, ac yn ymdwymno. 19. ¶ A'r arch-offeiriad a ofynodd

---

Adn. 15. **Simon Petr, a disgybl arall.** Ymddengys fod y disgyblion eraill, yn eu dychryn a'u braw, wedi ffoi; ond am Petr, a'r disgybl arall, buont yn ddigon gwrol a ffyddlon i ddilyn yr Iesu i lys yr archoffeiriad. Ac yn ddiau y disgybl arall yw Ioan yr Efengylwr. Arfer Ioan oedd cuddio ei hun o dan yr enw "disgybl arall," &c. **A'r disgybl hwnnw oedd adnabyddus gan yr archoffeiriad,** neu **i'r archoffeiriad.** Cesglir oddiwrth hyn fod Ioan yn wr o safle gymdeithasol lled bwysig yn Jerusalem, ac oherwydd ei fod yn adnabyddus i'r archoffeiriad, aeth i mewn gyda'r Iesu i'r llys. Credir fod Annas a Chaiaphas yn byw yng nghyd yn y Llys Swyddogol. Math o neuadd dufewnol ydoedd, weithiau yn agored, ac heb nenfwd, yr hon a amgylchynid gan ystafelloedd, y rhai a ffurfient balasdy yr archoffeiriad.

Adn. 16. Nid oedd Petr, oherwydd ei ddieithriwch, yn teimlo yn rhydd i fyned i mewn i'r llys fel Ioan. A phan y gwelodd Ioan ef yn aros wrth y drws, y mae yn myned at y ddrysores, ac yn cael ganddi ollwng Petr drwodd. Cyd Actau xii. 13.

Adn. 17. **Onid wyt tithau o ddisgyblion y dyn hwn?** Gwell: *A wyt tithau hefyd yn un o ddisgyblion y dyn hwn?* Yn ol ffurf y gofyniad yn y Groeg, disgwylir i'r atebiad fod yn nacaol, fel pe dywedasai: yn sicr, nid wyt tithau hefyd yn un o'i ddisgyblion? Yr oedd ffurf y gofyniad yn hwyluso Petr i ateb yn nacaol. **Dywedodd yntau, Nac wyf.** Dyma'r cam cyntaf wedi ei roddi yn y goriwaered, ac aeth ym mlaen wedi hyny o ddrwg i waeth.

Adn. 18. Disgrifiad byw o'r sefyllfa. Yr oedd Jerusalem 2,500 o droedfeddi uwchlaw lefel y mor, ac felly yr oedd y nosweithiau yn fynych yn oer oddeutu amser y Pasg. Er y gelwir y tân, yn y cyfieithiad Cymraeg, yn "*dân glo*," nid hyny ydoedd, ond tân o siarcol, neu dân golosg. Diogelwch Petr fuasai dilyn Ioan i'r llys mewnol, ac nid aros o'r tuallan gyda'r gweision.

Adn. 19. **A'r arch-offeiriad.** Pwy a olygir yma—Annas neu Caiaphas? Anawdd penderfynnu yn sicr, canys y mae llawer i'w ddweyd o blaid y ddau olygiad. Tueddir fi, ar y cyfan, i dderbyn y golygiad mai Annas a elwir yn arch-

i'r Iesu am ei ddisgyblion, ac am ei athrawiaeth. 20. Yr Iesu a attebodd iddo, Myfi a lefarais yn eglur wrth y byd: yr oeddwn bob amser yn athrawiaethu yn y synagog, ac yn y deml, lle mae yr Iuddewon yn ymgynnull bob amser; ac yn ddirgel ni ddywedais i ddim. 21. Paham yr wyt ti yn gofyn i mi? gofyn i'r rhai a'm clywsant, beth a ddywedais wrthynt: wele, y rhai hynny a wyddant pa bethau a ddywedais i. 22. Wedi iddo ddywedyd y pethau hyn, un o'r swyddogion a'r oedd yn sefyll ger llaw, a roddes gernod i'r Iesu, gan ddywedyd, Ai felly yr wyt ti yn atteb yr arch-offeiriad? 23. Yr Iesu

---

offeiriad yma. Dywedir yn adnod 24 i Annas, ar derfyn yr arholiad hwn, anfon yr Iesu yn rhwym at Caiaphas. Yr oedd hefyd yn arferiad ym mhlith yr Iddewon i alw, nid yn unig yr hwn a lanwai y swydd ar y pryd, ond ei ragflaenoriaid wrth yr enw arch-offeiriad (Luc iii. 2, Actau iv. 6). Yn adn. 19 a 22 Annas a elwir yn arch-offeiriad, ond yn adn. 13 a 25 Caiaphas a elwir yn arch-offeiriad. **Am ei ddisgyblion.** Eu rhif a'u syniadau. **Ac am ei athrawiaeth,** neu ei ddysgeidiaeth yn grefyddol a gwladol. Ni holwyd yr Iesu am y pethau hyn yn y prawf o flaen Caiaphas. Nid ei amcan yn ei holi oedd derbyn goleuni, ond disgwyl am rywbeth ellid ei ddefnyddio yn ei erbyn.

Adn. 20. Y mae'r cyfeithiad canlynol o'r adnod hon gymaint yn well fel ag y bydd yn fantais ei roddi yn gyflawn: *Iesu a atebodd iddo, yr ydwyf fi wedi llefaru yn ddigél wrth y byd: myfi yn wastadol a ddysgais yn agored mewn synagogau ac yn y Deml, lle y mae'r holl Iuddewon yn dyfod yn nghyd, ac yn ddirgel ni leferais ddim* —(W. E.) Gwelir fod yr Iesu yma yn gwadu yn bendant nad oedd dim llechwraidd a chudd yn perthyn i'w ddysgeidiaeth ef, ond yr hyn a ddysgai, gwnai hyny yn hollol agored, "yn wyneb haul a llygad goleuni." Nid oedd dim teyrnfradwriaeth yn ei ddysgeidiaeth ef. Ac felly rhyfeddai fod Annas yn ei holi yng nghylch yr hyn oedd yn ddigon hysbys eisoes.

Adn. 21. Awgryma yr Iesu yma fod Annas yn ymddwyn yn annheg tuag ato yn ei holi ef yn lle holi y tystion, os oedd ganddo rywbeth yn ei erbyn. Mae ceisio gan y cyhuddedig euogi ei hun yn hollol groes i reolau pob prawf teg. Gwyddai yr Iesu fod yno rai yn bresennol oedd wedi ei wrando, ar wahanol achlysuron, ac ond iddynt dystio y gwir, fuasent yn ategu yr hyn a ddywedodd.

Adn. 22. **A roddes gernod i'r Iesu,** neu a'i *tarawodd* ef. Mae tarddiad y gair a gyfieithir yn *gernod* yn arwyddo mai â gwialen y tarawodd y swyddog yr Iesu. **Ai felly yr wyt ti yn ateb yr arch-offeiriad?** Tybiai y swyddog fod yr Iesu wedi ateb yr archoffeiriad yn anweddaidd, ac yn ei sel dros anrhydedd yr arch-offeiriad tarawodd yr Iesu. Eithr nid oedd yr hyn a ddywedodd yr Iesu yn ddim ond amddiffyniad teg a chyfreithlon iddo ei hun.

Adn. 23. **Os drwg y dywedais, tystiolaetha o'r drwg.** Nid at ei atebiad i'r arch-offeiriad y cyfeiria yr Iesu yma, ond at ei ddysgeidiaeth. Os oedd

a attebodd iddo, Os drwg y dywedais, tystiolaetha o'r drwg; ac os da, paham yr wyt yn fy nharo i? 24. Ac Annas a'i hanfonasai ef yn rhwym at Caiaphas yr arch-offeiriad. 25. A Simon Petr oedd yn sefyll, ac yn ymdwymno. Hwythau a ddywedasant wrtho, Onid wyt tithau hefyd o'i ddisgyblion ef? Yntau a wadodd, ac a ddywedodd, Nac wyf. 26. Dywedodd un o weision yr arch-offeiriad (câr i'r hwn y torrasai Petr ei glust,) Oni welais i di gyd âg ef yn yr ardd? 27. Yna Petr a wadodd drachefn; ac yn y man y canodd y ceiliog. 28. ¶ Yna

---

wedi dysgu dim oedd yn ddrwg yn grefyddol, neu wladol, heria y rhai oedd yn bresennol i brofi hyny. Dyna oedd ei ateb i'r arch-offeiriad, a dyna ei ateb hefyd i'r swyddog gorswyddogol hwn. Nid oedd yr Iesu yn gwneyd dim ond hawlio prawf teg.

Adn. 24. **Ac Annas a'i hanfonasai ef yn rhwym at Caiaphas, &c.** Gwell: *Annas gan hyny a'i danfonodd ef yn rhwym at Caiaphas, &c.* Naill ai am ei fod wedi methu maglu yr Iesu, na chael dim sylweddol yn ei erbyn, neu ynte am ei fod yn ystyried fod eisiau prawf mwy ffurfiol a rheolaidd, y mae Annas yn ei anfon at Caiaphas. Dengys hyn nad oedd Caiaphas yn bresennol yn ystod ei arholiad gan Annas. **Yn rhwym.** Rhwymwyd ef o'r newydd gan ei fod ef yn rhydd yn ystod ei arholiad.

Adn. 25. **Hwythau a ddywedasant wrtho.** Y mae hanes cwymp Petr yn cael ei ddilyn ymlaen o'r fan y gadawyd ef yn adn. 18. Y dynion oedd o'i amgylch yn ymdwymo o flaen y tân a ddywedasant wrtho: **Onid wyt tithau hefyd o'i ddisgyblion ef?** Sylw digon naturiol, gan y gwyddent wrth ei leferydd mai Galilead oedd Petr. **Yntau a wadodd, ac a ddywedodd, Nac wyf.** Dyma'r *ail* waith iddo wadu ei Arglwydd.

Adn. 26. Un o weision yr arch-offeiriad, wedi sylwi ac adnabod Petr yn yr ardd. Ioan yn unig sydd yn nodi ei fod yn gâr neu berthynas i Malchus. **Oni welais i di gydag ef yn yr ardd?** Teimlai Petr fod y cwestiwn hwn yn ei wasgu i'r gornel, a'i fod mewn perygl mawr o gael ei adnabod fel yr hwn a dorrodd ymaith glust Malchus. Mor fanwl yw gwybodaeth yr efengylwr yma, rhaid mai Ioan ydoedd mewn gwirionedd.

Adn. 27. **Yna Petr a wadodd drachefn.** Trwy wadu nad oedd yn yr ardd, yr oedd yn gwadu hefyd ei fod yn un o ddisgyblion yr Iesu. Dyma'r *drydedd* waith iddo wadu ei Arglwydd. **Ac yn y man y canodd y ceiliog.** Pa un bynnag a ddeallir y gair *ceiliog* yma yn ei ystyr gyffredin, neu yn yr ystyr o gorn Rhufeinig a genid wrth newid y wyliadwriaeth, ni wna hyny ddim gwahaniaeth i ystyr yr hanes trist am gwymp Petr, a phrophwydoliaeth yr Iesu am hyny (cyd. Mat. xxvi. 69—75; Marc xiv. 66—72; Luc xxii. 54—62).

y dygasant yr Iesu oddi wrth Caiaphas i'r dadleudy, a'r bore ydoedd hi ; ac nid aethant hwy i mewn i'r dadleudy, rhag eu halogi ; eithr fel y gallent fwytta y pasc. 29. Yna Pilat a aeth allan attynt, ac a ddywedodd, Pa achwyn yr ydych chwi yn ei ddwyn yn erbyn y dyn hwn ? 30. Hwy a attebasant ac a ddywedasant wrtho, Oni bai fod hwn yn ddrwgweithredwr, ni thraddodasem ni ef attat ti. 31. Am hynny y dywedodd Pilat wrthynt, Cymmerwch chwi ef, a bernwch ef yn ol eich cyfraith chwi. Yna yr

---

28—XIX. 16. Y. Prawf Rhufeinig neu Wladol.

Adn. 28. **Oddiwrth Caiaphas i'r dadleudy.** Nid yw Ioan yn rhoddi hanes y prawf gerbron y Sanhedrim, am fod hyny wedi ei gofnodi yn helaeth gan yr efengylwyr eraill, Mat. xxvi. 57—xxvii. 2 ; Marc xiv. 53—xv. 1 ; Luc xxii. 66--71. Eithr rhydd adroddiad manwl o'r prawf gerbron Pilat. Yn lle *dadleudy*, gwell darllen *Pretorium*. Ystyr wreiddiol y gair yw pabell y Cadfridog, neu ŷ *Pretor* Rhufeinig. Daeth wedi hyny i arwyddo y Palas Ymherodrol, lle y trigai y Llywodraethwr Rhufeinig, ac yr oedd yn naill ai Twr Antonia, neu ynte blasdy Herod, ar fryn gorllewinol y ddinas. **A'r bore ydoedd hi.** Yn fanwl, y bedwaredd wyliadwriaeth, hyny yw, o dri hyd chwech o'r gloch y bore. Nid oedd yn gyfreithlon i Lys Rhufeinig gyfarfod cyn codiad yr haul. **Nid aethant hwy i mewn i'r dadleudy, rhag eu halogi.** Buasai i'r Iuddewon fyned i dŷ lle yr oedd lefain yn eu hanghymwyso i fwyta y Pasg (Ex. xii. 15), yr hyn, yn ol yr efengyl hon, oedd i gymeryd lle yn hwyr yr un diwrnod. Rhaid cydnabod nad oedd Ioan yn edrych ar y swper olaf fel yn fwyta y Pasg, ac y mae'r efengylwyr eraill yn edrych ar y swper olaf fel yn fwyta y Pasg. Gwel Nodiad A.

Adn. 29. **Yna Pilat a aeth allan attynt,** neu *tuallan attynt*, hyny yw, tuallan i'r Pretorium, lle yr ofnai yr Iuddewon ddyfod iddo rhag eu halogi. **Pa achwyn, &c.** Naturiol iawn oedd i Pilat, fel barnwr, ofyn y cwestiwn. Heb yn gyntaf nodi y cyhuddiad yn ei erbyn, nid oedd modd ymchwilio a oedd yn wirionedd ai ynte nad oedd.

Adn. 30. **Oni bai fod hwn yn ddrwgweithredwr, ni thraddodasem ni ef attat ti.** Yn lle nodi y cyhuddiad yn deg ac yn agored, os oedd ganddynt un yn erbyn Iesu, disgwyliai yr Iuddewon i Pilat weithredu, a myned ymlaen i gondemnio yr Iesu yn unig am eu bod yn ei gyflwyno ger ei fron ef. Ni chlywyd erioed am ddim mor anghyson a digywilydd. Er mor rhyfedd a digydwybod oedd Pilat, nid oedd am ildio i gais afresymol yr Iuddewon, heb roddi rhyw fath o brawf ar yr Iesu.

Adn. 31. **Cymmerwch chwi ef, a bernwch ef yn ol eich cyfraith chwi.** Gwelir oddiwrth yr atebiad hwn o eiddo Pilat, ei fod yn dechreu colli ei dymer gyda'r Iuddewon yn yr olwg ar eu haerllugrwydd. Fel pe dywedasai, Os ydych yn disgwyl i mi, fel cynrychiolydd Rhufain, gondemnio y dyn hwn heb glywed y cyhuddiad yn ei erbyn, na chael rhithyn o brawf ohono, yr ydych

Iuddewon a ddywedasant wrtho, Nid cyfreithlawn i ni ladd neb: 32. Fel y cyflawnid gair yr Iesu, yr hwn a ddywedasai efe, gan arwyddocau o ba angau y byddai farw. 33. Yna Pilat a aeth drachefn i'r dadleudy, ac a alwodd yr Iesu, ac a ddywedodd wrtho, Ai ti yw Brenhin yr Iuddewon? 34. Yr Iesu a attebodd iddo, Ai o honot dy hun yr wyt ti yn dywedyd hyn, ai eraill ai dywedasant i ti am danaf fi? 35. Pilat a atteb-

---

wedi methu yn fawr. Os oes gennych chwi gyfraith i gondemnio dyn heb brofi y cyhuddiad yn ei erbyn, nid oes gan y Llywodraeth Rufeinig yr un. Cymerwch ef, a bernwch yn ol eich cyfraith chwi. **Nid cyfreithlawn i ni ladd neb.** Pan y daeth Judea yn dalaeth Rufeinig, cymerwyd oddiar yr awdurdodau Iuddewig yr hawl i roddi dyn i farwolaeth (cyd. xix. 10). Nid oedd eu gwaith yn llabyddio Stephan ond gweithred o derfysg, hollol anghyfreithlon. Archoll ddwfn i falchder cenedlaethol yr Iuddewon oedd gorfod cyfaddef fel hyn eu darostyngiad i Lywodraeth Rhufain.

Adn. 32. **Fel y cyflawnid gair yr Iesu, &c.** Yr oedd yr Iesu wedi rhagfynegi ffurf ei farwolaeth, a chyfrwng ei farwolaeth, a phrofai y naill a'r llall nad oedd gan yr Iuddewon erbyn hyn awdurdod i ladd neb. Rhagfynegodd ffurf ei farwolaeth, sef croeshoeliad, eithr nid dyma ddull yr Iuddewon o roddi dynion i farwolaeth. Rhagfynegodd hefyd mai y Cenhedloedd a fyddent yn offerynau ei farwolaeth. Gwel Mat. xx. 19; xii. 32; xxi. 19.

Adn. 33. **Yna Pilat a aeth drachefn i'r dadleudy.** Sylwer fod Pilat yn myned i mewn ac allan o'r *Pretorium* lawer gwaith er cyfarfod â rhagfarn yr Iuddewon. Yn y *Pretorium* y cymerodd y rhannau canlynol o'r hanes le (xviii. 33—37; xix. 1—3; 8—11), ond *oddiallan iddo* y rhai a ganlyn (xviii. 28—32; 38—40; xix. 4—7; 12—16). **Ac a alwodd yr Iesu.** Yr oedd yr Iesu yn y *Pretorium*, a galwodd Pilat ef ato megis o'r neilldu. **Ai ti yw Brenhin yr Iuddewon?** Gellir casglu yn ddigon teg fod yr Iuddewon yn eu hymddiddan â Philat, pan nad oedd yr Iesu yn bresennol, wedi rhoddi rhyw fath o sail i Pilat ofyn iddo ef y cwestiwn hwn. Y tebygrwydd yw, eu bod yn ceisio gweithio ar ofn Pilat trwy haeru wrtho fod yr Iesu yn honni bod yn frenin gwladol, ac felly yn gydymgeisydd â Cesar. Gwell gofyn y cwestiwn fel hyn: *A wyt ti yn Frenin yr Iuddewon?* Yr oedd golwg mor anhebyg i Frenin ar yr Iesu, fel y gofynnodd Pilat y cwestiwn gyda swn dirmyg yn ei lais. Y Magiaid oedd y rhai cyntaf i roddi y teitl hwn i'r Iesu (Mat. ii. 1). Rhoddwyd ef hefyd iddo ef gan Nathanael (i. 50).

Adn. 34. **Ai ohonot dy hun yr wyt ti yn dywedyd hyn, ai eraill ai dywedasant i ti am danaf fi?** Yr oedd o bwys i'r Iesu ddeall cyn ateb ei gwestiwn, ymha ystyr, ac i ba amcan y gofynnai Pilat hyny iddo ef. Os gofynnai Pilat y cwestiwn ohono ei hun, ac oddiar safle Rhufeiniwr, ei ystyr fyddai, A wyt ti yn Frenin yr Iuddewon mewn ystyr wladol, ac felly yn wrthymgeisydd i Cesar? a buasai ateb yr Iesu iddo yn nacaol. Ond os wedi ei dderbyn

odd, Ai Iuddew ydwyf fi? Dy genedl dy hun a'r archoffeiriaid a'th draddodasant i mi. Beth a wnaethost ti? 36. Yr Iesu a attebodd, Fy mrenhiniaeth i nid yw o'r byd hwn. Pe o'r byd hwn y byddai fy mrenhiniaeth i, fy ngweision i a ymdrechent, fel na'm rhoddid i'r Iuddewon: ond yr awrhon nid yw fy mrenhiniaeth i oddi yma. 37. Yna y dywedodd Pilat wrtho, Wrth hynny ai Brenhin wyt ti? Yr Iesu a attebodd, Yr ydwyt ti yn dywedyd mai Brenhin wyf fi. Er mwyn hyn y'm ganed, ac er mwyn hyn y deuthum i'r

---

gan eraill yr oedd Pilat fel teitl Messiayddol, buasai yr Iesu yn cydnabod ei fod yn yr ystyr hono yn Frenin yr Iuddewon. Ac felly y gwna yn y geiriau dilynol.

Adn. 35. **Ai Iuddew ydwyf fi?** Wrth ofyn y cwestiwn hwn gyda dirmyg a diystyrwch o'r genedl Iuddewig, cydnebydd Pilat mai nid ohono ei hun yr oedd yn cyhuddo yr Iesu. Nid oedd y mater o ddim diddordeb iddo ef yn bersonol. Ni honnai wybod dim am syniadau a gwahaniaethau Iuddewig, ac nid oedd mewn cydymdeimlad â hwynt. Fel pe dywedasai Pilat, cait lonydd o ran dim dewg deimlad sydd gennyt fi yn dy erbyn. **Dy genedl dy hun a'r archoffeiriaid a'th draddodasant i mi.** Hwy sydd yn fy ngorfodi i gymeryd y mater i fyny yn dy erbyn. **Beth a wnaethost ti?** Yr wyf mewn dryswch, fel pe dywedasai Pilat: Ar y naill law y mae dy genedl dy hun yn dy gyhuddo o honni bod yn Frenin yr Iuddewon, ac ar y llaw arall y mae'r olwg ddiniwaid a thlawd sydd arnat yn dy wneyd yn un hynod o annhebyg i un yn honni dim o'r fath beth. Beth, mewn gwirionedd, a wnaethost yn eu herbyn fel ag i gynhyrfu eu llid a'u gelyniaeth?

Adn. 36. **Fy mrenhiniaeth i nid yw o'r byd hwn.** Gwell: *Fy nheyrnas fy hun nid yw o'r byd hwn (*W.E.) Nid yw fy nheyrnas i, o ran ei natur na'i tharddiad, o'r byd hwn; ac felly nid yw mewn unrhyw wrthymgeisiaeth i eiddo Cesar. **Pe o'r byd hwn y byddai fy mrenhiniaeth i, &c.** Dyma brawf anwrthwynebol mai nid daearol o ran ei natur a'i tharddiad oedd teyrnas Crist. Ysprydol oedd natur ei deyrnas ef, a thrwy foddion ysprydol yr oedd i gael ei sefydlu a'i helaethu. Pe rhoddasai yr Eglwys ystyriaeth ddyladwy i hyn, ni fuasai wedi bod mor barod i fyned i undeb â'r wladwriaeth.

Adn. 37. **Wrth hynny ai Brenhin wyt ti.** Gwell: *Yr wyt gan hyny yn Frenin, onid wyt?* Yr oedd fod yr Iesu yn honni fod ganddo deyrnas o gwbl yn aflonyddu meddwl Pilat, ac yn ei wneyd yn amheus. Ofnai fod yr Iesu yn bennaeth ar ryw gymdeithas ddirgelaidd oedd yn llunio brad yn erbyn y Llywodraeth Rufeinig. Gwyddai yr Iesu pa beth oedd yn aflonyddu meddwl Pilat, ac am hyny eglura iddo natur ei deyrnas yn llawnach. **Yr ydwyt ti yn dywedyd mai Brenhin wyf fi.** Dywedai Pilat hyn yn ol y cyfeiithiad gwell sydd uchod, a chydsyniai'r Iesu fod Pilat yn iawn yn ei syniad amdano. **Fel**

byd, fel y tystiolaethwn i'r gwirionedd. Pob un a'r sydd o'r gwirionedd, sydd yn gwrandaw fy lleferydd i. 38. Pilat a ddywedodd wrtho, Beth yw gwirionedd? Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a aeth allan drachefn at yr Iuddewon, ac a ddywedodd wrthynt, Nid wyf fi yn cael dim achos ynddo ef. 39. Eithr y mae gennych chwi ddefod, i mi ollwng i chwi un yn rhydd ar y pasc: a fynnwch chwi gan hynny i mi ollwng yn rhydd i chwi Frenhin yr Iuddewon? 40. Yna y llefasant oll drachefn,

---

y tystiolaethwn i'r gwirionedd. Pob un a'r sydd o'r gwirionedd sydd yn gwrandaw fy lleferydd i. Teyrnas o wirionedd yw teyrnas Crist—sylwedd, ac nid cysgodion,—ac y mae yn atynu ato ei hun bawb sydd yn caru y gwirionedd. Cred rhai esbonwyr fod yr Iesu yn y geiriau hyn yn apelio at gydwybod Pilat, yn apelio oddiwrth y *swyddog* at y *dyn* oedd ynddo ef. Pa fodd bynnag, y mae yn sicrhau mai ysprydol a moesol oedd natur ei deyrnas ef, ac felly nad ei hamcan oedd codi yn erbyn a gwrthwynebu y Llywodraeth a gynrychiolid gan Pilat.

Adn. 38. **Beth yw gwirionedd?** Y mae gwahanol farnau yn bod ym mhlith esbonwyr ar hyd y canrifoedd ym mha yspryd y gofynnodd Pilat y cwestiwn hwn—pa un ai yn onest a difrifol, ai ynte mewn gwawd a chellwair. Anmhosibl yw credu fod Pilat yn ymofynydd cywir a gonest am wirionedd, onide buasai wedi aros i gael atebiad gan yr Iesu. Nid wyf yn meddwl, ychwaith, mai mewn yspryd gwawdlyd y gofynodd y cwestiwn, ond mewn yspryd amheus. Credaf mai y *sceptic* yn bennaf, ond nid yn unig, sydd yn dyfod i'r golwg yn y cwestiwn. Gwirionedd a ddywedaist, pwy sydd yn gwybod pa beth ydyw? fel pe dywedasai Pilat. Paham y lleferi am fyd delfrydol o'r fath? Heblaw hyny, pa beth sydd a fynnwyf fi gyda thriniaethau nad allant dalu yr un deyrnged i'r Llywodraeth Rufeinig, na rhoddi gwrthwynebiad iddi trwy rym arfau. Argyhoeddwyd Pilat nad oedd gan Cesar ddim i'w ofni oddiwrth y breuddwydiwr a'r penboethyn oedd ger ei fron. **Nid wyf fi yn cael dim achos ynddo ef.** Gwell: *Nid wyf fi yn cael dim sail i gyhuddiad ynddo ef.* Dyma'r penderfyniad y daeth Pilat iddo. Gresyn na fuasai wedi bod yn ffyddlon i'w argyhoeddiad, ac wedi glynu wrth ei benderfyniad.

Adn. 39. **Eithr y mae gennych chwi ddefod, &c.** Ni wyddys ddim am y ddefod neu yr arferiad hon, oddigerth yr hyn a grybwyllir yn yr efengylau. Eithr yn awr daw gwendid andwyol cymeriad Pilat i'r golwg. Gan ei fod wedi ei argyhoeddi o ddiniweidrwydd yr Iesu, paham nad ollyngasai ef yn rhydd yn hollol ddiamodol, ac nid ceisio ei oliwng yn rhydd fel pe profasid ef yn euog? Danghosodd ei wendid i'r Iuddewon, a chymerasant hwythau fantais ar hyny i'w wasgu nes ei gael i ddedfrydu y Cyfiawn i farwolaeth.

Adn, 40. **Yna y llefasant oll drachefn.** Awgryma y gair *drachefn* iddynt lefain yn flaenorol am gondemniad yr Iesu. Mor anwadal yw y werin anwybodus; y dydd blaenorol yr oeddynt am goroni yr Iesu yn frenhin, ond heddyw

gan ddywedyd, Nid hwnnw, ond Barabbas. A'*r* Barabbas *hwnnw* oedd leidr.

---

y maent am ei ladd. O dan gyfarwyddyd a dylanwad yr awdurdodau Iuddewig gwaeddasant : **Nid hwnnw, ond Barabbas.** Ystyr yr enw Barabbas yw mab y tad (neu fab i rabbi). **A'r Barabbas hwnnw oedd leidr,** neu *yspeiliwr*. Mor gibddall yw natur dynol lygredig ! Condemnio y diniwaid, a chymeradwyo yr euog, dewis yspeiliwr a therfysgwr yn lle "Sanct Fab Duw." "Ac y mae pob un sydd yn myned a lle yr Iesu yn lleidr" (E. B.)

PENNOD XIX.

YNA gan hynny y cymmerodd Pilat yr Iesu ac a'*i* fflangellodd *ef.* 2. A'r milwyr a blethasant goron o ddrain, ac a'i gosodasant ar ei ben ef, ac a roisant wisg o borphor am dano; 3. Ac a ddywedasant, Henffych well, Brenhin yr Iuddewon; ac a roisant iddo gernodiau. 4. Pilat gan hynny a aeth allan drachefn, ac a ddywedodd wrthynt, Wele, yr wyf fi yn ei ddwyn ef allan i chwi, fel y gwypoch nad wyf fi yn cael ynddo ef un bai. 5. Yna y daeth yr Iesu allan, yn arwain y goron ddrain, a'r wisg

---

1—3. Oddifewn i'r Pretorium.

Adn. 1. **Yna gan hynny y cymerodd Pilat yr Iesu.** "Gan hynny," sef, gan fod yr Iuddewon yn gwaeddi yn benderfynol am iddo ollwng Barabbas iddynt, ac nid yr Iesu, y mae Pilat yn ildio i'w deisyfiad, ac yn ymddwyn tuag at Iesu fel pe profasid ef yn euog. Yn ddiau, nid oes yn hanes y byd esiampl hynotach o annhegwch ac anghyfiawnder nag yn ymddygiad annynol Pilat tuag at yr Iesu glan a diniwaid. **Ac a'i fflangellodd ef.** Rhai wedi eu profi yn euog, ac wedi eu condemnio, yn unig a arferid eu fflangellu. Eithr ni phrofwyd yr Iesu yn euog, ac er hyny fe fflangellwyd ef. O, farnwr annghyfiawn, ac adyn digydwybod, yw Pilat! Yr oedd fflangellu yn ol y ffurf Rufeinig yn eithafol o boenus a chreulon. "Diosgid y corff, a chlymid y carcharor wrth golofn. Clymid hefyd ddarnau o blwm, neu esgyrn pigfain, wrth y fflangell o reffynau. Mor greulon oedd y gosp fel yn fynych y byddai y dioddefydd yn marw." Tybia rhai i Pilat fflangellu yr Iesu yng ngolwg ei gyhuddwyr, er cynyrchu ynddynt dosturi tuag ato. Eithr nid oedd ganddo hawl gyfiawn i wneyd hyny. Nid tosturi yr oedd yr Iesu yn ei "hawlio," ond cyfiawnder.

Adn. 2 a 3. Wrth weled pa fodd yr ymddygai Pilat tuag at yr Iesu cymer y milwyr eu hyfdra i'w wawdio a'i ddirmygu. Gwawdiant ef fel un oedd yn honni bod yn Frenin yr Iuddewon, trwy osod coron o ddrain ar ei ben a gwisg borphor amdano. Tybir y gallasai fod yn hen wisg i Pilat. Y mae hon yn wahanol i'r wisg o ysgarlad â'r hon y gwisgwyd ef gan filwyr Herod. Defnyddia ysgrifenwyr Lladinaidd "borphor" am unrhyw liw disglaer. Deuai y milwyr ato yn barhaus, gan dalu iddo warogaeth wawdlyd, fel Brenin yr Iuddewon, a chan roddi iddo gernodiau, neu ffonodiau. Gwel Luc xviii. 22.

4—7. Oddiallan i'r Pretorium.

Adn. 4 a 5. Cawn Pilat, yn y geiriau hyn, yn apelio at dosturi y dyrfa. Buasai yn dymuno i'r olwg resynus oedd ar yr Iesu, ac arwyddion y driniaeth greulon oedd newydd ei ddioddef mor amlwg arno, effeithio ar eu teimladau nes newid eu

borphor. A *Philat* a ddywedodd wrthynt, Wele y dyn. 6. Yna yr arch-offeiriaid a'r swyddogion, pan welsant ef, a lefasant, gan ddywedyd, Croeshoelia, croeshoelia *ef.* Pilat a ddywedodd wrthynt, Cymmerwch chwi ef, a chroeshoeliwch : canys nid wyf fi yn cael dim bai ynddo. 7. Yr Iuddewon a attebasant iddo, Y mae gennym ni gyfraith, ac wrth ein cyfraith ni efe a ddylai farw, am iddo ei wneuthur ei hun yn Fab Duw. 8. ¶ A phan glybu Pilat yr ymadrodd hwnnw, efe a ofnodd yn fwy;

---

penderfyniad, a boddloni iddo ollwng yn rhydd iddynt yr Iesu, ac nid Barabbas. **Wele y dyn.** Ymadrodd yn cynnwys amlygiad o dosturi a dirmyg o du Pilat. Ac eto, ymadrodd na ddeallodd yr hwn a'i defnyddiodd mo'i lawn a'i briodol ystyr, *Ecce Homo.* Dyma yr unig ddyn sydd yn llanw yn berffaith y delfryd dwyfol o ddyn. Dyma'r unig ddyn sydd yn dal perthynas â holl oesau y ddaear, ac â holl genhedloedd y byd—"Yr ail ddyn, yr Arglwydd o'r nef."

Adn. 6. **Pan welsant ef, a lefasant, &c.** Yn hytrach na bod yr olwg ar yr Iesu ar ol ei fflangellu yn ennyn tosturi yr Iuddewon, y maent yn fwy penderfynol nag o'r blaen o geisio ei ddinistrio, ac am hyny llefant yn groch : "Croeshoelia, croeshoelia ef." **Cymmerwch chwi ef, a chroeshoeliwch.** Amlwg yw oddiwrth y geiriau hyn fod Pilat yn colli ei dymer gyda'r Iuddewon, oherwydd eu bod yn ei rwystro ef i ollwng yr Iesu yn rhydd. Gwyddai Pilat nad oedd gan "yr arch-offeiriaid a'r swyddogion" hawl nac awdurdod i fyned a bywyd Crist oddiarno, ac felly y mae gwawd yn ei atebiad iddynt. **Canys nid wyf fi yn cael dim bai ynddo.** Yn ol y C.S.D., "dim *camwedd* ynddo ef." Sicrha Pilat unwaith yn rhagor ei fod ef yn ei farnu yn ddieuog, ac felly ceisia dafliu yr holl gyfrifoldeb ar yr Iuddewon eu hunain.

Adn. 7. **Y mae gennym ni gyfraith, &c.** Gwel Lef. xxiv. 16. Cym. x. 23. Daw i'r golwg yn y geiriau wir gyhuddiad yr awdurdodau Iuddewig yn erbyn Iesu o Nazareth ; cabledd, trwy honni ei fod yn Fab Duw. Gwyddent o'r goreu nad oedd sail o gwbl i'r cyhuddiad gwleidyddol ei fod yn Frenin yr Iuddewon, y camwedd mawr yn eu golwg oedd ei fod yn ei wneuthur ei hun yn Fab Duw. Pe buasai yr Iesu yn ddim ond dyn yn unig, buasai sail i'r cyhuddiad, ond gan ei fod yn *Ddaw-ddyn, yn un â'r Tad,* nid oedd sail o gwbl i'r cyhuddiad o gabledd a ddygid yn ei erbyn.

8—10. Oddifewn i'r Pretorium.

Adn. 8. **Efe a ofnodd yn fwy.** Diau fod ymddanghosiad urddasol yr Iesu wedi gadael argraff ar feddwl Pilat ei fod yn rhyw un anghyffredin. Nid oedd wedi cyfarfod â'i gyffelyb erioed o'r blaen. Ond pan y clywodd son amdano fel Mab Duw, deffrowyd ei ofergoeledd, ac ofnodd ei fod wedi myned yn rhy bell trwy fflangellu un allasai fod o darddiad Dwyfol.

9. Ac a aeth drachefn i'r dadleudy, ac a ddywedodd wrth yr Iesu, O ba le yr wyt ti? Ond ni roes yr Iesu atteb iddo. 10. Yna Pilat a ddywedodd wrtho, Oni ddywedi di wrthyf fi? oni wyddost ti fod gennyf awdurdod i'th groeshoelio di, a bod gennyf awdurdod i'th ollwng yn rhydd? 11. Yr Iesu a attebodd, Ni byddai i ti ddim awdurdod arnaf fi, oni bai ei fod wedi ei roddi i ti oddi uchod: am hynny yr hwn a'm traddodes i ti, sydd fwy ei bechod. 12. O hynny allan y ceisiodd Pilat ei ollwng ef yn rhydd: ond yr Iuddewon a lefasant gan ddywedyd,

---

Adn. 9. **O ba le yr wyt ti?** Nid gofyn y mae Pilat yma o ba wlad yr oedd yr Iesu, canys gwyddai eisoes mai Galilead ydoedd, Luc xxiii. 6; cyd. viii. 14. Eithr gofyna mewn cyfeiriad at yr honniad ei fod yn Fab Duw. **Ond ni roes yr Iesu atteb iddo.** Nid atebodd yr Iesu ef, am nad oedd y cwestiwn gerbron ddim yn un i Lywodraethwr Rhufeinig i ymdrin âg ef, nac i ymholi yn ei gylch. Cylch swyddogaeth Pilat oedd cwestiynau gwleidyddol yn unig, ac nid rhai crefyddol.

Adn. 10. **Oni ddywedi di wrthyf fi? &c.** Teimla Pilat oddiwrth ddistawrwydd yr Iesu, a thybia ei fod yn sarhad arno ef fel barnwr. Cydnebydd yma fod ganddo awdurdod, naill ai i ollwng yr Iesu yn rhydd, neu ynte i'w groeshoelio. Os felly, mympwy, ac nid cyfiawnder, oedd yn rheoli Pilat. Os oedd yr Iesu yn ddieuog, fel y cydnabyddodd eisoes, ni feddai hawl i'w groeshoelio.

Adn. 11. **Ni byddai i ti ddim awdurdod arnaf fi, oni bai ei fod wedi ei roddi i ti oddi uchod.** Heb oddefiad Rhagluniaeth Duw, i gyraedd rhyw ddiben pwysig, na fuasai dim modd ei sicrhau yr un ffordd arall, ni fuasai y Cyfiawn Iesu wedi myned i ddwylaw yr Iuddewon a Philat. Adgofia yr Iesu Pilat mai oddiwrth Dduw y derbyniodd ei awdurdod, ac y delid ef yn gyfrifol am y defnydd a wnelai ohoni. **Am hynny yr hwn a'm traddodes i ti, sydd fwy ei bechod.** Credir yn gyffredin mai at Caiaphas fel cynrychiolydd y genedl Iuddewig a'r Sanhedrim y cyfeirir, ac nid at Judas. Nid i Pilat y traddododd Judas yr Iesu, ond i'r Iuddewon, a'r Iuddewon i Pilat. Yr oedd Caiaphas yn *fwy* ei bechod na hyd yn nod Pilat, am ei fod yn defnyddio un a ddylasai weinyddu cyfiawnder yn offeryn er cario allan ei fwriad drygionus ac anghyfiawn.

12—16. Oddiallan i'r Pretorium.

Adn. 12. **O hynny allan y ceisiodd Pilat ei ollwng ef yn rhydd, &c.** Gwelir fod yna ymrysonfa rhwng Pilat a'r Iuddewon, yng nghylch yr Iesu, y naill am ei ryddhau, a'r lleill am ei groeshoelio a'i ladd. Yr oedd yr Iesu wedi gadael argraff ddofn ar feddwl Pilat, nid yn unig ei fod yn ddieuog, ac na chaed dim ynddo yn haeddu marwolaeth, ond fod rhyw ddirgelwch rhyfedd yng nglyn âg ef; ac am hyny yr oedd o ddifrif yn ceisio ei ryddhau. Ond yr oedd

Os gollyngi di hwn yn rhydd, nid wyt ti yn garedig i Cesar. Pwy bynnag a'i gwnelo ei hun yn frenhin, y mae yn dywedyd yn erbyn Cesar. 13. Yna Pilat, pan glybu yr ymadrodd hwn, a ddug allan yr Iesu; ac a eisteddodd ar yr orsedd-faingc, yn y lle a elwir y Palmant, ac yn Hebraeg, Gabbatha. 14. A darpar-wyl y pasc oedd hi, ac ynghylch y chweched awr: ac efe a ddywedodd wrth yr Iuddewon, Wele eich Brenhin. 15. Eithr hwy a lefasant, Ymaith âg *ef*, ymaith âg *ef*, croeshoelia

---

ganddo wrthwynebwyr cryfion yn yr arch-offeiriaid, a'r Iuddewon oedd o dan eu dylanwad. Gwir mai gan Pilat yr oedd yr awdurdod, ac o'i blaid yr oedd cyfiawnder; ond gan yr Iuddewon yr oedd gelyniaeth, malais, a dichell y fall, a hyny a orfu, oherwydd yr oedd Pilat yn gymeriad gwan ac amheus. Yr oedd gan yr Iuddewon un ddadl orchfygodd Pilat ofnus ac egwan yn ebrwydd. **Os gollyngi di hwn yn rhydd, nid wyt ti yn garedig i Cesar,** neu *nid wyt ti yn gyfaill i Cesar*. Gwelai Pilat fod perygl i'r Iuddewon achwyn arno wrth y Cesar, a thrwy hyny iddo ef golli ei swydd, os nad colli ei fywyd hefyd. **Pwy bynnag a'i gwnelo ei hun yn frenhin, y mae yn dywedyd yn erbyn Cesar.** Cyfyd yr Iuddewon yma y cyhuddiad cyntaf yn erbyn yr Iesu er ceisio gweithio ar ofn Pilat, sef fod yr Iesu yn honni bod yn Frenin yr Iuddewon. Ac os byddai iddo ryddhau yr Iesu y byddai yn gwrthwynebu Cesar. Dyma yr arf gryfaf oedd gan yr Iuddewon pan yn ymwneud â Llywodraethwr mor wan a diegwyddor a Philat, a thrwy ei ddychryn llwyddasant yn eu hamcan drygionus.

Adn. 13. **Yna Pilat, pan glybu yr ymadrodd hwn, &c.** Cafodd bygythiad yr Iuddewon effaith uniongyrchol ar Pilat, ac y mae yn ildio yn y fan i'w deisyfiad a'u cri. **Eisteddodd ar yr orsedd-faingc, yn y lle a elwir Palmant.** Yr oedd y Palmant o farmor neu gerryg lliwiedig. Yma yr eisteddodd i gyhoeddi ei ddedfryd anghyfiawn a gwaradwyddus yn erbyn y diniwaid, o dan ddylanwad ofn yr Iuddewon. Nid cyfeithiad yw Gabbatha o'r gair Hebraeg na'r gair Aramaeg am balmant, ond tybir fod y gair yn cyfeirio at rywbeth arall oedd yn nodweddiadol o'r un lle.

Adn. 14. **A darpar-wyl y pasc oedd hi.** Gwel: *Ac yr oedd yn ddydd Parotoad y Pasc* (W.E.). Yr oedd y dydd hwn yn cyfateb i'n dydd Gwener ni, yn wythnos y Pasc ac o flaen y Sabboth pwysicaf yn y flwyddyn. **Ac ynghylch y chweched awr.** Anawdd iawn yw penderfynu yn sicr pa amser a olygir yma wrth y chweched awr, pa un ai chwech o'r gloch y bore, ai ynte deuddeg o'r gloch. Credwn mai gan awdwr yr efengyl hon yr ydym debycaf o gael yr amser cywiraf, gan ei fod ef yn dyst o'r cyfan, ac felly mai deuddeg o'r gloch a olygir. Eithr ni ddylid rhoddi gormod o bwys ar hyn, gan nad oedd moddion i sicrhau amser cywir ddim yn bod yn yr oes hono, fel yn y dyddiau hyn.

ef. Pilat a ddywedodd wrthynt, A groeshoeliaf fi eich Brenhin chwi? A'r arch-offeiriaid a attebasant, Nid oes i ni frenhin ond Cesar. 16. Yna gan hynny efe a'i traddodes ef iddynt i'w groeshoelio. A hwy a gymmerasant yr Iesu, ac a'i dygasant ymaith. 17. Ac efe gan ddwyn ei groes, a ddaeth i le a elwid Lle y benglog, ac a elwir yn Hebraeg, Golgotha: 18. Lle y croeshoeliasant ef, a dau arall gyd âg ef, un o bob tu, a'r Iesu yn

---

Adn. 15. **A groeshoeliaf fi eich Brenhin chwi?** Cymer Pilat fantais yma i ddial ei lid ar yr Iuddewon am eu bod wedi ei orchfygu trwy eu sarhau a'u dirmygu. Y fath watwareg ddeifiol sydd yn y cwestiwn uchod, a'r fath foddhad i Pilat oedd ei ofyn. **Nid oes i ni frenhin ond Cesar.** Wrth geisio osgoi min gwatwareg Pilat, gwna yr arch-offeiriaid addefiad, er eu gwaethaf, oedd yn eu hyspeilio fel cenedl o'u holl anrhydedd a'u gogoniant. Cydnabyddant eu bod fel cenedl yn orchfygedig, a'u gobaith yn y Messiah addawedig wedi ei lwyr ddinistrio.

Adn. 16. **Efe a'i traddodes ef iddynt i'w groeshoelio** yn ol dymuniad yr Iuddewon. Nid o'i fodd y gwnaeth Pilat hyn. Tebygol yw na chyhoeddodd ddedfryd yn ffurfiol yn erbyn yr Iesu, ond ceisia ymryddhau oddiwrth y cyfrifoldeb am ei farwolaeth trwy olchi ei ddwylaw; ond yn hollol ofer (Mat. xxvii. 24—26). **A hwy a gymmerasant yr Iesu, ac a'i dygasant ymaith.** Cyfeiriad sydd yma at y milwyr Rhufeinig oeddynt at wasanaeth yr awdurdodau Iuddewig er dechreu yr wyl.

17—42. Y CROESHOELIAD A'R AMGYLCHIADAU CYSYLLTIOL.

17—22. Y Croeshoeliad.

Adn. 17. **Ac efe gan ddwyn ei groes.** Darllennir gan rai yn lle *ei* groes, y groes *iddo ei hun*. "Nid *ei* groes ydoedd, ond yr oedd yn groes *iddo ef*, ar yr hon yr oedd i ddioddef dros eraill" (W.E.). Ni chrybwylla Ioan am Simon o Cyrene yn ei gynorthwyo i'w dwyn (Marc xv. 21). **A ddaeth i le a elwid Lle y benglog.** Gwell: *Efe a aeth allan i'r lle a elwid Lle y benglog.* Nid oes modd penderfynu erbyn hyn ymha le yr oedd Lle y benglog, ond ei fod tuallan i furiau Jerusalem. Gwir y dyfala rhai ei fod ychydig gannoedd o latheni o'r tuallan i Borth Damascus (cyd. adn. 20 gyda Heb. xiii. 12). Gelwid ef yn lle y benglog, am fod y bryn yn debyg i ffurf penglog. **Golgotha,** yn golygu penglog.

Adn. 18. **Lle y croeshoeliasant ef, a dau eraill gydag ef,** sef y ddau a elwir gan Mathew a Marc yn ddau leidr, a chan Luc yn ddrwg-weithredwyr, a thra tebygol eu bod yn gymdeithion i Barabbas. **Un o bob tu, a'r Iesu yn y canol.** Trwy ei roddi yn y canol, ceisid rhoddi arbenigrwydd arno ef fel drwg-weithredwr, ac felly yn ol y broffwydoliaeth, "efe a wnaeth ei fedd

y canol. 19. ¶ A Philat a ysgrifenodd ditl, ac a'i dododd ar y groes. A'r ysgrifen oedd, IESU O NAZARETH, BRENHIN YR IUDDEWON. 20. Y titl hwn gan hynny a ddarllenodd llawer o'r Iuddewon; oblegid agos i'r ddinas oedd y fan lle y croeshoeliwyd yr Iesu: ac yr oedd wedi ei ysgrifenu yn Hebraeg, Groeg, *a* Lladin. 21 Yna arch-offeiriaid yr Iuddewon a ddywedasant wrth Pilat, Nac ysgrifena, Brenhin yr Iuddewon; eithr dywedyd o hono ef, Brenhin yr Iuddewon ydwyf fi. 22. Pilat a attebodd, Yr hyn a ysgrifenais, a ysgrifenais. 23 ¶ Yna y milwyr, wedi iddynt groeshoelio yr Iesu, a

---

gyda'r rhai anwir." Esay liii. 9. Ond yr oedd yn y canol hefyd *rhwng* dau ddosbarth o ddynion, yr edifeiriol a'r anedifeiriol.

Adn. 19. **A Philat a ysgrifenodd ditl, ac a'i dododd ar y groes.** Dywed Marc, "arysgrifen ei gyhuddiad ef" (C.S.D.). Arferid a dodi uwchben y groes y cyhuddiad yn erbyn yr hwn a groeshoelid. Gwnaeth Pilat hyny ei hunan yn yr achos hwn gyda'r amcan o roddi dyrnod arall i falchder yr Iuddewon. **A'r ysgrifen oedd, IESU O NAZARETH, BRENHIN YR IUDDEWON.**

Adn. 20. **Ac yr oedd wedi ei ysgrifenu yn Hebraeg, Groeg, a Lladin.** Ac felly gallasai pawb a aethant heibio ddarllen a deall ystyr y teitl neu yr arysgrifen; Hebraeg, iaith yr eglwys; Lladin, yr iaith swyddogol; a'r Groeg, iaith y byd; yr iaith oedd yn gyfrwng cymundeb yn yr holl fyd gwareiddiedig y pryd hwnw.

Adn. 21. Amlwg yw fod yr Iuddewon yn dra anfoddlon i'r arysgrifen a ddodasai Pilat uwchben croes yr Iesu, canys ystyrient ef yn sarhad arnynt fel cenedl fod Pilat yn croeshoelio eu Brenin. Mynnent hwy i Pilat ddweyd mai honni bod yn Frenin yr oedd yr Iesu, "eithr dywedyd ohono ef, Brenin yr Iuddewon ydwyf fi." Pan yr oedd galw yr Iesu yn Frenin yr Iuddewon yn sail i ddychrynu Pilat, yr oeddynt yn foddlon i'w alw felly er cyraedd eu hamcan drygionus. Ond yn awr, ar ol cyraedd eu hamcan, ceisiant wrthwynebu y sarhad oedd ynglyn â'r teitl.

Adn. 22. **Yr hyn a ysgrifenais, a ysgrifenais.** Yn awr, y mae Pilat am ddangos nad oedd am blygu ymhob peth i ewyllys yr Iuddewon. Telmlai yn falch o gyfle i wrthwynebu eu dymuniad ac i'w sarhau. Yr oeddynt hwy megis wedi ei orfodi i wneud yr hyn oedd yn groes i'w gydwybod wrth draddodi y diniwaid i'w groeshoeiio. Ac yn awr, penderfyna nad oes dim newid i fod ar y cyhuddiad. Dyma y cyhuddiad a ddygasent hwy yn erbyn yr Iesu, a dyma gaiff fod mewn tair iaith ar y groes.

23—27. Y Rhai oedd o amgylch y Groes.

Adn. 23, 24. **Ac a wnaethant bedair rhan, i bob milwr ran.** Dyma oedd yr arferiad gyffredin, fod dillad yr hwn a groeshoelid yn disgyn i ran y

gymmerasant ei ddillad ef, ac a wnaethant bedair rhan, i bob milwr ran; a'*i* bais *ef*: a'i bais ef oedd ddiwnïad, wedi ei gwau o'r cwrr uchaf trwyddi oll. 24. Hwythau a ddywedasant wrth eu gilydd, Na thorrwn hi, ond bwriwn goelbrennau am dani, eiddo pwy fydd hi: fel y cyflawnid yr ysgrythyr sydd yn dywedyd, Rhannasant fy nillad yn eu mysg, ac am fy mhais y bwriasant goelbrennau. A'r milwyr a wnaethant y pethau hyn. 25 ¶ Ac yr oedd yn sefyll wrth groes yr Iesu, ei fam ef, a chwaer ei fam ef, Mair *gwraig* Cleophas, a Mair Magdalen. 26. Yr Iesu gan hynny, pan welodd ei fam, a'r disgybl yr hwn a garai efe yn sefyll ger llaw, a ddywedodd wrth ei fam, *O* wraig, wele dy fab. 27. Gwedi hynny y dywedodd wrth y disgybl, Wele dy fam. Ac o'r awr honno allan y cymmerodd y disgybl hi i'w gartref. 28 ¶ Wedi hynny

---

milwyr oedd yn cario allan y ddedfryd; a rhanwyd ei ddillad felly rhwng y pedwar milwr a gymerasant y rhan flaenaf yn y gwaith. **A'i bais ef,** neu yn well, "*ei is-wisg ef.*" Gwisgid hon yn nesaf at y croen, heb lewys, ac yn cyraedd hyd y penliniau. **A'i bais ef oedd ddiwniad.** Ac oherwydd fod ei is-wisg yn un cyfanwaith, yn hytrach na'i darnio hi, barnodd y milwyr mai gwell oedd bwrw coelbren am yr oll ohoni. Gwelai yr Efengylwr yn yr amgylchiad hwn gyflawniad o eiriau yr Ysgrythyr, Salm xxii. 18. Dichon na chytunai pawb fod yna gyfeiriad uniongyrchol at Grist yn y salm grybwylledig, ond yr oedd yn eithaf priodol i'r Efengylwr gymhwyso y geiriau at yr amgylchiad.

Adn. 25. **Ei fam ef, a chwaer ei fam ef, Mair gwraig Cleophas, a Mair Magdalen.** Credaf, yn sicr, mai *pedair* o ferched, ac nid *tair*, oedd yn sefyll wrth y Groes—Mair y Forwyn, mam yr Iesu; Salome ei chwaer, a mam Iago ac Ioan; Mair, gwraig Cleophas, oedd mam Iago leiaf; a Joses. Yr un un oedd Cleophas, neu Clopas, ag Alpheus, ond nid yr un a Cleopas (Luc xxiv. 18). "A Mair Magdalen." Y mae yn deilwng o sylw fel y mae Ioan yma yn cuddio enw ei fam, yn ogystal a'i enw ei hun.

Adn. 26. 27. Tarawiadol iawn yw y ddwy adnod hyn, a phrawf cryf fod adroddwr yr hanes yn llygad-dyst o'r amgylchiad prudd, ond dyddorol. **A'r disgybl yr hwn a garai efe.** Hwn, yn ddigwestiwn, oedd Ioan yr Efengylwr. **O wraig, wele dy fab.** Gan gyfeirio nid ato ei hun, ond at Ioan a safai gerllaw. Yr oedd y berthynas rhwng yr Iesu a Mair, fel mab, yn darfod, a chyfeiriai ei sylw at ei nai, mab ei chwaer, fel hwn fyddai yn fab iddi hi o hyn allan. **Wele dy fam,** ebai yr Iesu wrth Ioan. Fel pe dywedasai, Bydd yn awr nid yn *nai* iddi hi, ond yn *fab* yn gofalu amdani. Wele dy fam, nid dy fodryb mwyach, **Ac o'r awr honno allan y cymmerodd y disgybl hi i'w gartref.** Ufuddhaodd Ioan fel hyn i orchymyn ei Arglwydd, a chariodd

yr Iesu, yn gwybod fod pob peth wedi ei orphen weithian, fel y cyflawnid yr ysgrythyr, a ddywedodd, Y mae syched arnaf. 29. Yr oedd gan hynny lestr wedi ei osod yn llawn o finegr; a hwy a lanwasant yspwng o finegr, ac a'i rhoddasant ynghylch isop, ac a'i dodasant wrth ei enau ef. 30. Yna pan gymmerodd yr Iesu y finegr, efe a ddywedodd, Gorphenwyd: a chan ogwyddo ei ben, efe a roddes i fyny yr ysbryd. 31. Yr Iuddewon gan hynny, fel nad arhoai y cyrph ar y groes ar y Sabbath, o herwydd ei bod yn ddarpar-wyl, (canys mawr oedd y

---

allan ddymuniad ei Athraw trwy ofalu yn dyner a ffyddlon am y Forwyn Fair hyd ddiwedd ei dyddiau ar y ddaear.

28—30. Geiriau Olaf yr Iesu ar y Groes, yn ol Ioan.

Cawn engraifft yma o waith Ioan yn cyflenwi diffyg yr Efengylau eraill, y rhai a ysgrifenwyd o flaen ei Efengyl ef. Nid yw y geiriau o eiddo yr Iesu ar y Groes, a gofnodir yma, wedi eu cofnodi yn yr un o'r efengylau eraill. Yr oedd Ioan yn bresennol yn gwrando ar holl eiriau rhyfedd yr Iesu, ac nid oes modd cyfrif am ei ddistawrwydd yr un ffordd arall.

Adn. 28. **Yn gwybod fod pob peth wedi ei orphen weithian, &c.** Yr oedd yr Iesu yn ymwybodol, er gwaethaf ei holl ddioddefiadau mawrion, fod ei waith yn tynu i'r terfyn. Ac fel y byddai i'r oll a ragfynegwyd amdano gael ei gyflawni, a ddywedodd, **Y mae syched arnaf.** Nid dyweyd ddarfu yr Iesu, "*Y mae syched arnaf*," er mwyn cyflawni yr Ysgrythyr, ond Ioan sydd yn. gweled yn y geiriau lefarodd yr Iesu gyflawniad o eiriau yr Ysgrythyr (Salm lxix. 21).

Adn. 29. **Llawn o finegr.** Gwin surllyd, diod gyffredin y milwyr Rhufeinig. ac arferid ei roddi i rai a groeshoelid. **Ac a'i rhoddasant ynghylch isop** Gwell: *Ar isop.* "*Put it on the end of a stalk of hissop*" (W.). Planhigyn persawrus oedd yr isop. Rhaid gwahaniaethu yr hyn a roddwyd i'r Iesu yma oddiwrth yr hyn a gynnygiwyd iddo ef, ac a wrthododd, yn ol yr Efengylwyr eraill (Math. xxvii. 34; Marc xv. 23; Luc xxiii. 36). Gweithred garedig o eiddo'r milwyr yn ceisio lleddfu syched angherddol yr Iesu, yng nghanol ei ddioddefiadau arteithiol, sydd yn cael ei chofnodi yma.

Adn. 30. **Efe a ddywedodd, Gorphenwyd.** Yn llythrennol: *Y mae yn orphenedig.* Cri o fuddugoliaeth. At hyn yr oedd yr Iesu yn cyfeirio yn y dechreu (xvii. 4) Cyd. hefyd xvii. 33 a Marc xv. 37. Y mae ei waith fel Iachawdwr dioddefus yn orphenedig. **A chan ogwyddo ei ben, efe a roddes i fyny yr yspryd,** neu *ei* yspryd yn ol C.S.D. Marw yn wirfoddol, ac yn weithredol, ddarfu yr Iesu (x. 18, Eph. v. 2, 25; Marc xv. 37).

31—37. Cyflawniad o Ddwy Broffwydoliaeth.

Adn. 31. **Oherwydd ei bod yn ddarpar-wyl.** Gwelir yma fod yr Iuddewon, er eu holl ddrygioni, yn dra gofalus am gydffurfio â gofynion seremoniol y

dydd Sabbath hwnnw,) a ddeisyfasant ar Pilat gael torri eu hesgeiriau hwynt, a'u tynnu i lawr. 32. Yna y milwyr a ddaethant, ac a dorrasant esgeiriau y cyntaf, a'r llall, yr hwn a groeshoeliasid gyd âg ef. 33. Eithr wedi iddynt ddyfod at yr Iesu, pan welsant ef wedi marw eisoes, ni thorrasant ei esgeiriau ef. 34. Ond un o'r milwyr a wanodd ei ystlys ef â gwaywffon ; ac yn y fan daeth allan waed a dwfr. 35. A'r hwn a'i gwelodd, a dystiolaethodd ; a gwir yw ei dystiolaeth : ac efe a ŵyr

---

gyfraith. Buasai y Rhufeiniaid yn gadael y cyrff ar y groes am rai dyddiau, ond gorchymynai cyfraith Moses eu symud cyn terfyn y dydd (Deut. xxi. 22, 23). Ac oherwydd hyn yr oeddynt mewn brys am gael corff yr Iesu oddiar y groes, cyn i'r Sabboth ddechreu yn hwyrddydd y croeshoeliad. Gan y dechreuai y Sabboth Iuddewig oddeutu chwech o'r gloch nos Wener, yr oedd pob dydd Gwener yn ddarparwyl. **Canys mawr oedd y dydd Sabbath hwnnw.** Am ei fod yn Sabboth y Pasg. Nid yn unig yr oedd yn Sabboth wythnosol, ond yr oedd hefyd yn ddydd cyntaf o'r wyl (Nisan y 15fed), yr hwn, ar ba ddydd bynnag y disgynnai, a ystyrid megys Sabboth.

Adn. 32. **A dorrasant esgeiriau y cyntaf, &c.** Yr enw Rhufeinig am dorri esgeiriau oedd *crurifragium*. Yr oedd yn gospedigaeth boenus a gwaradwyddus, a'i hamcan yma oedd prysuro eu marwolaeth. Naturiol oedd i'r milwyr ddechreu eu gwaith creulon gyda'r ddau oedd ar yr ochr allanol cyn dyfod at yr Iesu oedd yn y canol.

Adn. 33. Nid oedd angen am dorri esgeiriau yr Iesu, am ei fod ef eisoes wedi marw.

Adn. 34. **Ac yn y fan daeth allan waed a dwfr.** Yn ol barn esbonwyr diweddar, teifl y geiriau hynod hyn oleuni ar achos uniongyrchiol marw yr Iesu. Nid ei ddioddefiadau anianyddol lladdodd ef, er mor arteithiol oeddynt, ond marw a wnaeth o dorriad calon. Calon-rwygiad yn cael ei achosi gan ing meddwl. Amlwg yw fod yn rhaid cael rhywbeth neilltuol ac arbenig i gyfrif am fod yr Iesu wedi marw mor fuan, ac i gyfrif hefyd am y dwfr a'r gwaed a ffrydiodd allan o'r archoll a wnaed yn ei ystlys sanctaidd gan waywffon y milwr. Rhydd Ioan yn ei epistol, 1 Ioan v. 6—8, ystyr arwyddluniol i'r dwfr a'r gwaed, fel yn gosod allan effeithiau trefn y brynedigaeth.

Adn. 35. **A'r hwn a'i gwelodd, a dystiolaethodd.** Gwell : *A'r hwn sydd wedi gweled sydd yn tystiolaethu* (W.E.). *This statement is the testimony of an eye-witness, and it is true* (W.). Pwy allasai y llygad-dyst hwn fod ond Ioan ei hun ? Ac felly dyma brawf ychwanegol mai Ioan y disgybl anwyl yw awdwr yr efengyl. **A gwir yw ei dystiolaeth: ac efe a wyr ei fod yn dywedyd gwir.** Nid oes modd cael geiriau cryfach er sicrhau gwirionedd ei dystiolaeth. **Fel y credoch chwi.** Ei amcan yw cael eraill i gredu yr hyn ni welsant, ar sail ei dystiolaeth bwyllog a sicr.

ei fod yn dywedyd gwir, fel y credoch chwi. 36. Canys y pethau hyn a wnaethpwyd, fel y cyflawnid yr ysgrythyr, Ni thorrir asgwrn o hono. 37. A thrachefn, ysgrythyr arall sydd yn dywedyd, Hwy a edrychant ar yr hwn a wanasant. 38. ¶ Ac ar ol hyn, Joseph o Arimathea (yr hwn oedd ddisgybl i'r Iesu, eithr yn guddiedig, rhag ofn yr Iuddewon) a ddeisyfodd ar Pilat, gael tynnu i lawr gorph yr Iesu: a Philat a ganiattaodd iddo. Yna y daeth efe ac a ddug ymaith gorph yr Iesu. 39. A daeth Nicodemus hefyd (yr hwn ar y cyntaf a ddaethai at yr Iesu o hyd nos,) ac a ddug fyrr ac aloes yng nghymmysg,

---

Adn. 36 a 37. Gwel Ioan yn y pethau a gofnoda gyflawniad o eiriau yr Ysgrythyr mewn dau le (Ex. xii. 46). Megis na thorrid yr un asgwrn o oen y Pasg, y cysgod, felly hefyd ni thorrwyd un asgwrn o Oen Duw, y gwirhgysgod mawr ei hun. Gwel hefyd gyflawniad o eiriau Zechariah (xii. 10), pan y deuai Israel edifeiriol i edrych ar yr hwn a wanasant.

38—42. Claddedigaeth yr Iesu, Cariad y disgyblion dirgel.

Adn. 38. **Ac ar ol hyn, Joseph o Arimathea, &c.** Mewn cysylltiad â chladdedigaeth yr Iesu y daw enw Joseph gyntaf i'r golwg. Rhoddir rhai manylion amdano yn yr efengyl hon, na chrybwyllir amdanynt yn yr efengylau eraill. Ioan yn unig sydd yn crybwyll ei fod ef yn ddisgybl cuddiedig, rhag ofn yr Iuddewon. Yr oedd yn amlwg yn wr pwysig a pharchus iawn, yn aelod o'r Sanhedrim, ac yn un a wrthodod gydsynio i roddi Crist i farwolaeth. Yn ol traddodiad yr oedd yn un o'r 70 disgybl. Ac yn ol traddodiad arall, anfonwyd ef gan yr Apostol Philip i Brydain, ac iddo ymsefydlu yn Glastonbury, Gwlad yr Haf. Tybir yn bur gyffredin mai yr un lle oedd Arimathea a *Ramathaim-Sophim*, ym Mynydd Ephraim, a lle genedigol Samuel (1 Sam. i. 1). Eithr os oedd Joseph wedi bod yn ofnus a chuddiedig, magodd ddigon o wroldeb yn awr i fyned yn hyf at Pilat i ofyn am gorff marw yr Iesu. Dengys hyn fod ganddo barch dwfn a gwirioneddol i'r Iesu. Ac y mae Pilat, ar ol cael sicrwydd am farwolaeth yr Iesu, yn caniatau ei ddeisyfiad iddo ef. Credir fod Pilat yn barod i roddi corff yr Iesu i Joseph am ei fod yn argyhoeddedig ei fod yn ddieuog, ac na ddylai ddioddef ddim amharch ychwanegol. **Yna y daeth efe ac a ddug ymaith gorph yr Iesu.** Dygodd ef ymaith fel un oedd wedi cael trysor gwerthfawr, ac yn falch o gyfleustra i ddangos pob parch iddo ef.

Adn. 39. **A daeth Nicodemus hefyd.** Ioan yn unig sydd yn crybwyll am y rhan gymerodd Nicodemus yn ei gladdedigaeth. Yr oedd y naill ddisgybl dirgel ei byn hyn yn gwroli y llall. A phwy ŵyr nad oeddynt mewn cyd-ddeall ar y mater, fod i'r naill fyned at Pilat i ofyn am gorff yr Iesu, ac fod i'r llall ddarparu yr hyn oedd eisiau er perarogli ei gorff marw. **Ac a ddug fyrr ac aloes yng nghymmysg, tua chan pwys.** Math o glud *(gum)* yw y *myrr*

tu a chàn pwys. 40. Yna y cymmerasant gorph yr Iesu, ac a'i rhwymasant mewn llieiniau, gyd âg aroglau, fel y mae arfer yr Iuddewon ar gladdu. 41. Ac yn y fangre lle y croeshoeliasid ef, yr oedd gardd; a bedd newydd yn yr ardd, yn yr hwn ni ddodasid dyn erioed. 42. Ac yno, rhag nesed oedd darpar-*wyl* yr Iuddewon, am fod y bedd hwnnw yn agos, y rhoddasant yr Iesu.

---

yn dyfod o blanhigyn yn tyfu yn Arabia Felix. Yr oedd yn rhan o'r enaint sanctaidd (Ex. xxx. 23), ac yn hynod o bersawrus. Yr oedd yr *aloes* hefyd yn goed persawrus. Wrth brynu càn pwys offrymai Nicodemus rodd werthfawr iawn, digon nid yn unig i orchuddio corff yr Iesu, ond llawr y bèdd lle y dodasid ef.

Adn. 40. **Ac a'i rhwymasant mewn llieiniau, gydag aroglau,** neu *y peraroglau*. Nid oedd yr Iuddewon yn defnyddio arch, ond yn rhwymo y corff marw mewn llieiniau.

Adn. 41. **Yr oedd gardd; a bedd newydd yn yr ardd.** Dywed Mathew mai bedd Joseph ei hun ydoedd, "yr hwn a dorrasai ef yn y graig." Tebygol yw fod gan Joseph gartref yn Jerusalem, yn ogystal ag yn Arimathea, ac mae yn Jerusalem y bwriadai gael ei gladdu. **Yn yr hwn ni ddodasid dyn erioed.** Gweddus iawn oedd i gorff sanctaidd yr Iesu gael ei ddodi mewn bedd hollol newydd, fel na ddaethai i gyffyrddiad o gwbl â llygredigaeth.

Adn. 42. **Ac yno, rhag nesed oedd darpar-wyl yr Iuddewon, &c.** Yr oedd yn rhaid cladd corff yr Iesu yn ebrwydd, am fod yr wyl, sef Sabboth y Pasg (Iuddewig) yn ymyl dechreu yn hwyr y dydd Gwener y croeshoeliwyd ef. Tybir ei bod rhwng pump a chwech o'r gloch pan y claddwyd ef, fel na chafwyd ond prin amser i'w ddodi yn y bedd; ond yr oedd Rhagluniaeth wedi trefnu fod y bedd yn gyfleus ac yn ymyl, ac felly cyflawnwyd y broffwydoliaeth amdano, iddo fod "gyda'r cyfoethog yn ei farwolaeth" (Es. liii. 9).

PENNOD XX.

Y *DYDD* cyntaf o'r wythnos, Mair Magdalen a ddaeth y bore, a hi etto yn dywyll, at y bedd; ac a welodd y maen wedi ei dynnu ymaith oddi ar y bedd. 2. Yna y rhedodd hi, ac a ddaeth at Simon Petr, a'r disgybl arall yr hwn yr oedd yr Iesu yn ei garu, ac a ddywedodd wrthynt, Hwy a ddygasant yr Arglwydd ymaith o'r bedd, ac ni wyddom ni pa le y dodasant ef. 3. Yna Petr a aeth allan, a'r disgybl arall, a *hwy* a ddaethant at y bedd; 4. Ac a redasant ill dau ynghyd: a'r disgybl arall a

---

1—10. MAIR MAGDALEN, PETR AC IOAN WRTH Y BEDD, A'U HARGYHOEDDIAD O ADGYFODIAD YR IESU.

Adn. 1. **Y dydd cyntaf o'r wythnos.** Dechreuai y Sabboth Iuddewig nos Wener, a darfyddai nos Sadwrn, yn ol ein hamser ni, a dranoeth oedd y dydd cyntaf o'r wythnos. **Mair Magdalen.** Un o ddychweledigion hynotaf yr Iesu (cyd. xix. 25; Marc xvi. 9; Luc viii. 2). Diau fod y gwragedd eraill gyda hi, er na sonai i Ioan ond amdani hi yn unig. Ei hamcan oedd cynorthwyo i eneinio corff yr Iesu marw, ac yr oedd hi, a'r gwragedd eraill, wedi prynu peraroglau i'r amcan hwnw (cyd. Mat. xxviii. 1—10; Marc xv. 1—8; Luc xxiv. 1—12). **Y bore, a hi etto yn dywyll,** rhwng tri a chwech o'r gloch. **Ac a welodd y maen wedi ei dynnu ymaith oddiar y bedd,** neu *wedi ei godi ymaith o'r bedd.* Golyga hyn fod yna rhyw gymaint o ddisgyniad i'r ogof. Pan y daeth Mair a'r gwragedd at y bedd, ni ddychmygasant o gwbl ei weled yn wag, a chorff yr Iesu wedi myned oddiyno. Buasai hyny yn hollol groes i amcan eu hymweliad.

Adn. 2. **Yna y rhedodd hi, ac a ddaeth at Simon Petr, a'r disgybl arall, &c.** Rhedodd mewn dychryn a brys ar ol gweled y bedd yn wag, at Petr ac Ioan, fel dau o brif ddisgyblion yr Iesu. **Hwy a ddygasant yr Arglwydd ymaith o'r bedd.** Nid oedd ym meddwl Mair ddim disgwyliad am ei adgyfodiad. Wedi ei ddwyn ymaith yr oedd y corff marw yn ol ei syniad hi, ac eisiau gwybod oedd arni hi i ba le y symudwyd ef. A oedd Mair, druan, mewn agwedd meddwl i *ddychmygu* gweled yr Iesu yn fyw! Dim o'r fath beth, ond yn hollol i'r gwrthwyneb. Rhaid ei bod yn galed iawn ar Anffyddwyr pan yn gorfod dychmygu y fath beth!

Adn. 3. **Yna Petr a aeth allan, a'r disgybl arall, &c.** Mae'n debygol fod Petr ac Ioan yn cychwyn gyda'u gilydd o'r un tŷ tuag at y bedd. Ac y mae'n fwy tebygol mai o dŷ Ioan y cychwynent, nag o dŷ Petr (cyd. xix. 27).

Adn. 4. **Ac a redasant ill dau ynghyd,** neu *oeddynt yn rhedeg.* Yr oeddynt mor awyddus am wybod a oedd adroddiad Mair yn gywir fel y rhed-

redodd o'r blaen yn gynt na Phetr, ac a ddaeth yn gyntaf at y bedd. 5. Ac wedi iddo grymmu, efe a ganfu y llïeiniau wedi eu gosod : er hynny nid aeth efe i mewn : 6. Yna y daeth Simon Petr yn ei ganlyn ef, ac a aeth i mewn i'r bedd, ac a ganfu y llïeiniau wedi eu gosod ; 7. A'r napcyn a fuasai am ei ben ef, wedi ei osod, nid gyd â'r llïeiniau, ond o'r neilldu wedi ei blygu mewn lle arall. 8. Yna yr aeth y disgybl arall hefyd i mewn, yr hwn a ddaethai yn gyntaf at y bedd ; ac a welodd, ac a gredodd. 9. Canys hyd yn hyn ni wyddent yr ysgrythyr, fod yn rhaid iddo

---

asant er cael sicrwydd ar y mater. **A'r disgybl arall a redodd o'r blaen yn gynt na Phetr.** Am ei fod yn ieuengach. Tybir mai Ioan oedd yr ieuengaf, a Phetr yr hynaf o'r deuddeg disgybl.

Adn. 5. **Ac wedi iddo grymmu.** Yr un gair ag a ddefnyddir am yr angylion yn 1 Petr i. 12. Golyga edrych gyda'r diddordeb a'r awyddfryd mwyaf. **Efe a ganfu y llieiniau wedi eu gosod.** Gwell : *Y mae yn canfod y llieiniau yn gorwedd*, sef y llieiniau a fuasai am gorff marw yr Iesu y crybwyllwyd amdanynt eisoes (xix. 40). **Er hynny nid aeth efe i mewn.** Paham tybed ? Nid rhag ofn halogi ei hunan fel y tybia rhai, ond oddiar rhyw deimlad o barch a gwyleidd-dra.

Adn. 6. Yr oedd Petr yn wahanol, o ran cyfansoddiad ei feddwl, i Ioan. Yr oedd yn naturiol yn fwy gwrol a mentrus nag Ioan, ac felly ni phetrusodd fyned ar ei union i mewn i'r bedd.

Adn. 7. **A'r napcyn a fuasai am ei ben ef.** *Craffodd* Petr *yn fanwl* ar bob peth oedd wedi ei adael yn y bedd, er bod yn hollol sicr o sefyllfa pethau. Nid oes modd darllen yr adnod hon heb weled mai adroddiad manwl o eiddo llygad-dyst sydd yma. Nid oedd yma ddim olion brys, ac felly ni ddygwyd y corff marw ymaith gan na chyfeillion na gelynion.

Adn. 8. **Ac a welodd, ac a gredodd.** Ar ol gweled Petr yn myned i mewn i'r bedd, casglodd Ioan ddigon o wroldeb i'w ddilyn ef i mewn. Gwelodd yntau yr un pethau a Petr, y bedd yn wag a'r llieiniau a'r napcyn wedi eu gosod yn drefnus a thaclus. Ond heblaw gweled, fe GREDODD Ioan. Credu pa beth ? Credu fod yr Iesu *wedi adgyfodi*. " Yr ydym yn casglu oddiwrth hyn fod meddwl Ioan, o'r foment hon allan, pan yn nghanol tywyllwch y bedd, wedi cael ei oleuo â ffydd achubol yn adgyfodiad yr Iesu, megys gan belydr newydd Haul y Cyfiawnder wedi codi " (T.Y.S.). Ioan, yn ddiau, oedd y cyntaf i gredu yn adgyfodiad Crist o'r bedd. Aeth i mewn i'r bedd yn anghredadyn, ond daeth oddiyno yn gredadyn. A'r ffeithiau anwadadwy a welodd yno a'i hargyhoeddodd ef.

Adn. 9. **Canys hyd yn hyn ni wyddent yr ysgrythyr, &c.** Cyfrif y mae y geiriau hyn am fod y disgyblion mor hwyrfrydig i gredu yn adgyfodiad eu Hathraw. Ni feddyliodd Ioan am hyny, ac nichredodd, nes yr aeth i mewn i'r bedd, a gweled drosto ei hun, nid yn unig nad oedd corff marw yr Iesu yno,

gyfodi o feirw. 10. Yna y disgyblion a aethant ymaith drachefn at yr eiddynt. 11. ¶ Ond Mair a safodd wrth y bedd oddi allan, yn wylo, ac fel yr oedd hi yn wylo, hi a ymostyngodd i'r bedd; 12. Ac a ganfu ddau angel mewn *gwisgoedd* gwỳnion, yn eistedd, un wrth ben, ac un wrth draed y lle y dodasid corph yr Iesu.

---

ond fod yno arwyddion sicr nad oedd wedi ei ladrata, ond yn hytrach wedi adgyfodi. Pe wedi gwybod yr Ysgrythyr—(Salm xvi. 10); cyd. Luc xxiv. 25, &c.; 44, &c.—buasent wedi credu yn adgyfodiad yr Iesu pan y dywedodd Mair wrthynt, "Hwy a ddygasant yr Arglwydd ymaith o'r bedd."

Adn. 10. **Yna y disgyblion a aethant ymaith drachefn at yr eiddynt,** neu "*i'w cartrefleoedd*" (W. E.). Cyd. Luc xxiv. 12. Aeth y ddau ddisgybl i'w cartrefi, gan fyfyrio ar yr hyn a welsant, heb weled yr Iesu ei hun, dim ond y bedd yn wag.

Sylwa Dr. M. Dods yn briodol iawn fod yna gyfaddasder arbennig yn yr adroddiad syml a gonest hwn i argyhoeddi unrhyw un diragfarn o wirionedd adgyfodiad yr Iesu. Nid oes yma ddim gweled gweledigaethau, na dychmygion o unrhyw fath, dim ond casgliad anwrthwynebol synwyr cyffredin oddiwrth ffeithiau anwadadwy.*

11—18. Ymddangosiad yr Iesu i Mair Magdalen.

Adn. 11. **Ond Mair a safodd wrth y bedd oddi allan, yn wylo, &c.** Ar ol hysbysu Petr ac Ioan, yn adn. 2, fod corff yr Iesu wedi ei symud o'r bedd, dilynodd Mair hwy yn ol at y bedd, ac wedi iddynt hwy fyned ymaith (adn. 10), hi a arosodd wrth y bedd yn wylo oherwydd fod y corff wedi ei symud. **Hi a ymostyngodd i'r bedd.** Yng nghanol ei galar, cymhellir hi gan ddymuniad digon naturiol i edrych a oedd yn y bedd ryw olion o gorff ei Gwaredwr.

Adn. 12. **Ac a ganfu ddau angel mewn gwisgoedd gwynion.** Gwell: *Ac y mae hi yn syllu ar ddau angel mewn gwyn* (W. E.). Ni sonia Mathew a Marc ond am ymddanghosiad *un* angel—(Mathew xxviii. 5, &c.), (Marc xvi. 5, &c.),—eithr crybwylla Luc am ddau angel (xxiv. 4, &c.). Ni ddylid tybio oddiwrth hyn fod yr Efengylwyr yn gwrth-ddywedyd eu gilydd, canys fel y sylwa Godet yn dra phriodol, "Nid yw angelion yn ddisymud, ac yn weledig, fel colofnau o faen." Penderfynir symudiadau bodau ysprydol gan ddeddfau ysprydol, ac am hyny gall angelion fod yn weledig i rai, ac yn anweledig i eraill, ar yr un amser. **Un wrth ben, a'r llall wrth draed, &c.** "Dichon eu bod wedi bod yno tra y bu yr Iesu yno; os felly, yr oedd gan y nefoedd wylwyr oddimewn, a chan Rufain rai oddiallan. Rhoddodd y byd ef yn fyw rhwng dau leidr, rhoddodd y nefoedd ef yn farw rhwng dau angel" (E. B.).

---

*"For my part," ebai Dr. Dods, "I feel constrained to believe a narrative like this, when it tells me the grave was empty."

13. A hwy a ddywedasant wrthi, *O* wraig, paham yr wyt ti yn wylo? Hithau a ddywedodd wrthynt, Am ddwyn o honynt hwy fy Arglwydd i ymaith, ac nas gwn pa le y dodasant ef. 14. Ac wedi dywedyd o honi hyn, hi a droes drach ei chefn, ac a welodd yr Iesu yn sefyll: ac nis gwyddai *hi* mai yr Iesu oedd efe. 15. Yr Iesu a ddywedodd wrthi, *O* wraig, paham yr wyt ti yn wylo? pwy yr wyt ti yn ei geisio? Hithau, yn tybied mai y garddwr oedd efe, a ddywedodd wrtho, Syr, os tydi a'i dygaist ef, dywed i mi pa le y dodaist ef, a myfi a'i cymmeraf ef ymaith. 16. Yr Iesu a ddywedodd wrthi, Mair. Hithau a droes, ac a ddywedodd wrtho,

---

Adn. 13. **Am ddwyn o honynt hwy fy Arglwydd i ymaith, &c.** Gwelir mai yr un syniad oedd yn meddianu meddwl Mair ac yn adn. 2. Nid oedd dim ym mhellach o'i meddwl na'r dybiaeth o adgyfodiad yr Iesu. Credu yn sicr yr oedd Mair fod corff marw yr Iesu wedi ei ladrata, a gofidiai yn ddwys am na allai ddyfod o hyd iddo, fel y gallasai ei eneinio â'r peraroglau a brynasai hi a'r chwiorydd eraill. Ac eto, fe haera yr anffyddiwr Renan mai *dychymygu* gweled yr Iesu yn fyw ddarfu Mair Magdalen, ac mai dyma unig sail y chwedl am ei adgyfodiad! Pa fodd y gallasai Mair ddychymygu am yr hyn oedd yn ymddangos yn anmhosibl iddi hi ar y pryd! Nid adgyfodiad yw lladrata corff marw neb!

Adn. 14. **Ac a welodd yr Iesu yn sefyll: ac nis gwyddai hi mai yr Iesu oedd efe.** Gwell: "*Ac y mae yn syllu ar yr Iesu yn sefyll.*" Digwyddodd droi i edrych o'r tu ol a gwelai rhywun yn sefyll, ac y mae yn syllu, ac yn craffu arno, ond heb ei adnabod o gwbl. Paham tybed yr oedd heb ei adnabod? Gellir nodi amryw resymau am hyny. "Yn (1) Am nad oedd yn disgwyl amdano, (2) oherwydd ei fod yn ddieithr ei ymddanghosiad, (3) oherwydd ei bod mewn myfyrdod ac yn llawn meddylgarwch" (W.E.).

Adn. 15. Cadarnha yr ymddiddan hwn y syniad mor bell oedd Mair o ddychmygu gweled yr Iesu yn fyw. Yr Iesu marw oedd wedi llwyr feddiannu ei meddwl, ac nid oedd ynddo le i ddim oedd yn anghyson a hyny. **Dywed i mi pa le y dodaist ef, a myfi a'i cymmeraf ef ymaith.** Ie, meddwl am y corff marw yr oedd Mair o hyd.

Adn. 16. **Yr Iesu a ddywedodd wrthi, Mair.** Pan glywodd y gair Mair deallodd ar unwaith, mai nid y garddwr, na neb dieithr a'i cyfarchai hi. Adnabu lais ei Harglwydd yn y fan trwy swn y gair Mair, gair cartrefol a llawn o gydymdeimlad, "Adnabu Mair yr Arglwydd, nid drwy ei *llygad*, ond drwy ei *chlust*. Adnabu y Bugail Da pan y galwodd hi wrth ei henw" (x. 3), (W.E.). **Hithau a droes, ac a ddywedodd wrtho, Rabboni; yr hyn yw dywedyd, Athraw.** Gwell: *Hithau wedi troi a ddywed wrtho yn Hebraeg, Rabboni, &c.* Nid troi i gymeryd cipolwg arno fel yn adn. 14, pan y tybiodd mai y garddwr ydoedd, ond troi ato fel ei Hathraw a'i chyfaill goreu. Ymddengys mai yn

Rabboni; yr hyn yw dywedyd, Athraw. 17. Yr Iesu a ddywedodd wrthi, Na chyffwrdd â mi; oblegid ni ddyrchefais i etto at fy Nhad: eithr dos at fy mrodyr, a dywed wrthynt, Yr wyf yn dyrchafu at fy Nhad i a'ch Tad chwithau, a'm Duw i a'ch Duw chwithau. 18. Mair Magdalen a ddaeth ac a fynegodd i'r disgyblion, weled o honi hi yr Arglwydd, a dywedyd o hono y pethau hyn iddi. 19. ¶ Yna, a hi yn hwyr y dydd cyntaf hwnnw o'r

---

yr Aramaeg, iaith gyffredin trigolion Palestina, y llefarai yr Iesu wrth y brodorion, ac yn yr iaith hono yr atebodd Mair ef gan ddywedyd, "Rabboni." Gelwid dysgawdwyr Iuddewig wrth dri gradd o enwogrwydd yn y teitlau a roddid iddynt, sef *Rab, Babbi, Rabboni*. Rabboni oedd y gradd uchaf. Dengys hyn ei pharch uchaf i'r Iesu, ond y mae'n amheus a edrychai arno eto fel y gwir Dduw.

Adn. 17. **Na chyffwrdd a mi; oblegid ni ddyrchefais i etto at fy Nhad.** Cydnabyddir nad yw cyffwrdd y cyfeithiad goreu o'r Groeg *aptô*. Ystyr y gair yw *glynu wrth, dal gafael ar*, yn hytrach na *chyffwrdd*. Gwell gan hyny y cyfeithiadau canlynol: "*Na ddal afael ynof, canys nid wyf fi eto wedi esgyn at y Tad*" (W.E.). "*Do not cling to me*" (W.). "*Nac ymafia ynof*" (C.S.D). Gellir yn hawdd meddwl am Mair, o dan ddylanwad y llawenydd o weled yr Athraw colledig yn fyw, yn bwrw ei hunan wrth ei draed, ac am ddal gafael ynddo rhag ofn ei golli drachefn. Cofier yr hyn a ddywedodd yn niwedd adn. 15, "*A myfi a'i cymeraf ef ymaith.*" Os oedd mor barod i wneud hyny â'r Iesu marw, pa faint mwy y buasai yn angherddolrwydd ei theimlad, am ddal gafael yn yr Iesu byw? Eithr fel pe dywedasai yr Iesu wrthi, mai yr hen berthynas oedd rhyngwyf â thi, a'r hen ffordd o ddal cymundeb â mi, wedi darfod. Nid ydwyt i fy adnabod i mwyach yn ol y cnawd (2 Cor. v. 16), ond trwy fy Yspryd, a thrwy ffydd. Ac nid yw y ffordd hono wedi ei hagor yn gyflawn, canys nid wyf fi eto wedi esgyn at y Tad. Byddaf yn esgyn rai o'r dyddiau nesaf, ac wedi hyny byddaf yn dychwelyd atoch trwy fy Yspryd, a bydd cymundeb newydd ysprydol yn dechreu, na therfyna byth (cyd. xiv. 16—20). **Yr wyf yn dyrchafu at fy Nhad i a'ch Tad chwithau, &c.** Pwysleisia yr Iesu yma y gwahaniaeth sydd rhwng perthynas y Tad a Duw âg ef, a'r berthynas sydd rhwng y Tad a Duw â chredinwyr ymhob oes. Perthynas *natur* neilldnol ac arbennig oedd rhwng y Tad â'r tragwyddol Fab, ond perthynas *rasol* trwy fabwysiad sydd rhwng y Tad a chredinwyr. Er yn cydnabod ei ddisgyblion yn "frodyr," eto adgofia hwy o'r gwahaniaeth uchod.

Adn. 18. **Mair Magdalen a ddaeth ac a fynegodd i'r disgyblion, &c.** Fel hyn cafodd Mair y fraint a'r anrhydedd o fod yn apostol i'r apostolion, gan ddywedyd wrthynt yn ol y C.S.D., &c., "Mi a welais yr Arglwydd." Yn hytrach na dal gafael yn ei Harglwydd, ufuddhaodd i'w orchymyn, a chyflawnodd ei chenadwri (Marc xvi. 10; cyd. Mat. xxviii. 10, a Luc xxiv. 10).

wythnos, a'r drysau yn gauad lle yr oedd y disgyblion wedi ymgasglu ynghyd rhag ofn yr Iuddewon, daeth yr Iesu, ac a safodd yn y canol, ac a ddywedodd wrthynt, Tangnefedd i chwi. 20. Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a ddangosodd iddynt *ei* ddwylaw a'i ystlys. Yna y disgyblion a lawenychasant pan welsant yr Arglwydd. 21. Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt drachefn, Tang-

---

19—25. Yr Iesu yn amlygu ei Hun i'w Ddisgyblion, a Thomas yn absennol.

Adn. 19. **Yna, a hi yn hwyr y dydd cyntaf hwnnw o'r wythnos.** Dyma'r Sabboth Cristionogol cyntaf, a hwyr y dydd yr adgyfododd Crist o'r bedd. Rhaid ei bod wedi myned yn lled hwyr ar ol dychweliad y ddau ddisgybl o Emmaus (Luc xxiv. 36) pan y cydgyfarfyddodd y disgyblion. Ac yr oedd "yn hwyrhau a'r dydd yn d'rfod," pan aeth yr Iesu "i mewn i aros gyda hwynt" (xxiv. 29). **A'r drysau yn gauad lle yr oedd y disgyblion wedi ymgasglu ynghyd rhag ofn yr Iuddewon.** Diau rod y disgyblion wedi deall eisoes fod yr awdurdodau Iuddewig yn llawn gelyniaeth tuag atynt hwythau, yn ogystal a thuag at eu Hathraw. Ac oblegid hyny, cymerent ofal i gyfarfod mewn ystafell â'i drysau yn gauedig. **Daeth yr Iesu, ac a safodd yn y canol, ac a ddywedodd wrthynt, Tangnefedd i chwi.** Nid oedd y drysau cauedig yn rhwystro yr Iesu fyned i mewn. Dyma'r prawf cyntaf fod ei gorff adgyfodedig yn wahanol i'r hyn ydoedd cyn ei farw, ac nad oedd yn awr yn gorff materol darostyngedig i ddeddfau mater, ond yn gorff ysprydol (1 Cor. xv. 43, 44). Yr oedd ei fywyd a'i holl symudiadau o hyn allan yn oruwchnaturiol. Yr oedd cyfarchiad yr Iesu iddynt yn hynod o briodol o dan yr amgylchiadau. "Tangnefedd i chwi." Yng nghanol y cyffro meddyliol, yr ofn a'r dychryn oedd wedi meddiannu y disgyblion, yr oedd swyn ac effeithiolrwydd yng ngeiriau awdurdodol yr Iesu i leddfu a thawelu eu teimladau cythryblus, ac i chwalu ymaith eu hofnau.

Adn. 20. **Efe a ddangosodd iddynt ei ddwylaw a'i ystlys.** "Ei ddwylaw a'i draed," ebai Luc. Naturiol iawn oedd i Ioan grybwyll am yr ystlys drywanedig, canys yr oedd yn llygad-dyst o hyny (xix. 34, 35). Er yn gorff ysprydol yn awr, eto yr *un corff* ydoedd ag a fu farw, canys y mae ôl yr hoelio a'r trywanu arno o hyd. Parha yn gorff gwirioneddol, a'r un corff, er wedi colli ei briodoleddau materol.* "Y dirgelwch hwn sydd fawr" i ni yn ein sefyllfa bresennol. **Yna y disgyblion a lawenychasant, &c.** Wrth edrych ar ei ddwylaw a'i ystlys, argyhoeddwyd hwy eu bod yn mhresenoldeb yr Iesu adgyfodedig a byw, a mawr oedd eu llawenydd o'i weled, a dal cymundeb âg ef drachefn.

Adn. 21. **Megis y danfonodd y Tad fi, yr wyf finnau yn eich danfon chwithau.** Mae'n deilwng o sylw mai nid yr un gair a ddefnyddir

---

* "There is here a strange mingling of identity and difference between the body He now wears and that which had been crucified."—*Dr. M. Dods.*

nefedd i chwi: megis y danfonodd y Tad fi, yr wyf finnau yn eich danfon chwi. 22. Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a anadlodd *arnynt*, ac a ddywedodd wrthynt, Derbyniwch yr Ysbryd Glân. 23. Pwy bynnag y maddeuoch eu pechodau, maddeuir iddynt; *a*'r eiddo pwy bynnag a attalioch, hwy a attaliwyd. 24. ¶ Eithr Thomas, un o'r deuddeg, yr hwn a elwir Didymus, nid

---

am ddanfoniad Crist ag am ddanfoniad yr apostolion. Gr., *Apostellô* yw danfoniad Crist fel cynrychiolydd neu lys-genad, ond Gr., *pempo* a ddefnyddir am anfoniad y disgyblion, yn arwyddo anfon yn unig, nid fel cynrychiolwyr neu lysgenhadon. Ceidw Crist bob awdurdod yn ei law ei hun, ac felly nid oes ganddo yr un "ficer" ar y ddaear, y Pab na neb arall. Nid yw mewn angen am yr un cynrychiolydd, canys y mae yn bresenol ei hunan trwy ei Yspryd, yn ei Eglwys, hyd y diwedd (Math. xxviii. 20, Rhuf. viii. 9, 10).

Adn. 22. **Efe a anadlodd arnynt, ac a ddywedodd wrthynt, Derbyniwch yr Yspryd Glan.** Defnyddir yr un ferf anadlodd yma ag a ddefnyddir yn Gen. ii. 7 am Dduw yn *anadlu* anadl bywyd i ddyn, ac felly yr anadla y Crist adgyfodedig Yspryd y bywyd i'w ddisgyblion. Nid arwyddlun ac addewid sydd yma yn unig, ond y mae yma *roddi* yr Yspryd Glan iddynt mewn gwirionedd. Rhoddir yr Yspryd iddynt yn awr i gyfarfod â'u hangen *personol*, a rhoddwyd ef iddynt yn helaethach drachefn ar ddydd y Pentecost i gyfarfod â'u hangen *swyddogol*, ac i'w cymhwyso i fod yn "dystion iddo ef yn Jerusalem, ac yn holl Judea, a Samaria, ac hyd eithaf y ddaear."

Adn. 23. **Pwy bynnag y maddeuoch eu pechodau, maddeuir iddynt.** Nid oes sail o gwbl yn y geiriau hyn i'r *dychymyg* a goleddir gan y Pabyddion a'r Uchel Eglwyswyr am "Olyniaeth Apostolaidd." Nid wrth y deg apostol oedd yn bresennol yn unig y llefarwyd hwynt, ond wrth y disgyblion, fel *cymdeithas*. Sonia Luc fod yn bresenol ar y pryd nid yn unig yr apostolion, ond hefyd "*a'r sawl oedd gyda hwynt*"; fel mai nid addewid i'r apostolion sydd yma, ond i'r *Eglwys*. Yn mha ystyr, ynte, y gall yr Eglwys roddi maddeuant i ddynion? Amlwg yw mai nid yn yr ystyr fod ganddi awdurdod i weinyddu maddeuant pechodau, canys hawlfraint Duw yn unig yw hyny. "Pwy all faddeu pechodau ond Duw yn unig?" (Marc ii. 7). Rhaid, felly, deall y geiriau yn yr ystyr mai yr Eglwys trwy ei gweinidogaeth sydd i gyhoeddi yr amodau ar y rhai y mae Duw yn maddeu i bechaduriaid. Hi sydd yn egluro trefn y cymod, ac yn sicrhau i bechaduriaid fod cymod i'w gael ond iddynt edifarhau, a chredu yr efengyl a gyhoeddir ganddi. **A'r eiddo pwy bynnag a attalioch, hwy a attaliwyd.** Gwelir fod y geiriau hyn yn dra thebyg i eiriau Crist yn Efengyl Mathew xvi. 19, xviii. 18. A chyfeiriant at awdurdod yr Eglwys i weinyddu disgyblaeth, ac i fwrw allan y rhai sydd yn buchedduu yn annheilwng.

24—30. ANGHREDINIAETH THOMAS YN CAEL EI ORCHFYGU.

Adn. 24. **Eithr Thomas, un o'r deuddeg, &c. Didymus.**

oedd gyd â hwynt pan ddaeth yr Iesu. 25. Y disgyblion eraill gan hynny a ddywedasant wrtho, Ni a welsom yr Arglwydd. Yntau a ddywedodd wrthynt, Oni chân weled yn ei ddwylaw ef ôl yr hoelion, a dodi fy mys yn ol yr hoelion, a dodi fy llaw yn ei ystlys ef, ni chredaf fi. 26. ¶ Ac wedi wyth niwrnod drachefn, yr oedd ei ddisgyblion ef i mewn, a Thomas gyd â hwynt. Yna yr Iesu a ddaeth, a'r drysau yn gauad, ac a safodd yn y canol, ac a ddywedodd, Tangnefedd i chwi. 27. Wedi hynny y dywedodd efe wrth Thomas, Moes yma dy fys, a gwel fy nwylaw; ac estyn dy law, a dod yn fy ystlys: ac na fydd anghredadyn, ond credadyn. 28. A Thomas a attebodd ac a ddywedodd

---

Gair Groeg yn arwyddo Gefell. Tybir mai nid damwain, ond anobaith, a'i cadwodd o'r cyfarfod cyntaf.

Adn. 25. **Oni chaf weled yn ei ddwylaw ef ol yr hoelion, &c.** Gwelir fod anghrediniaeth Thomas wedi dylanwadu arno ef fel ag i'w wneud ef yn hynod benderfynol, os nad efallai yn ystyfnig. Ni dderbyniai un dystiolaeth, pa mor gadarn bynnag, i'r ffaith o adgyfodiad ei Arglwydd. Nid oherwydd ei fod yn Rhesymolwr yn gwadu y goruwchnaturiol a'r gwyrthiol; ond oherwydd ei dueddfryd isel a phruddglwyfus. Edrychai yn naturiol ar yr ochr dywyll a diobaith i bob peth. Ofnai mai nid wedi gweled yr Iesu gwirioneddol yr oedd y disgyblion, ond wedi eu twyllo gan ymddanghosiad rhyw ddrychiolaeth. I feddwl pruddaidd Thomas yr oedd y newydd am adgyfodiad y Meistr yn rhy dda i fod yn wir.

Adn. 26. **Ac wedi wyth niwrnod,** sef y Sabboth canlynol. **A Thomas gyda hwynt.** Er gwaethaf yr agwedd meddwl diobaith yr oedd ynddo, ni pheidiodd a chyfarfod â'i gyd-ddisgyblion, a da iawn iddo ef nad esgeulusodd y cydgynulliad. **Yna yr Iesu a ddaeth, a'r drysau yn gauad, ac a safodd yn y canol, &c.** Yr un modd yn hollol ag y daeth atynt yr wythnos gynt (adn. 19). Credir i'r Iesu ddyfod atynt yn awr er mwyn, yn bennaf, cyfarfod âg angen Thomas. Teimlai dros ei ddisgybl prudd ac anghrediniol, ac aeth, megis allan o'i ffordd, i'w gynorthwyo.

Adn. 27. **Moes yma dy fys, a gwel fy nwylaw, &c.** Llefarodd yr Iesu y geiriau hyn mewn cyfeiriad at ddatganiad Thomas yn adn. 25. Yn hytrach na gadael iddo fyned yn anghredadyn, yr oedd yr Iesu, yn ei dosturi a'i ras, yn barod i wneud pob peth dichonadwy er ei adfer ef. Gwelir yma y Bugail Da yn ceisio y ddafad golledig. **Ac na fydd anghredadyn, ond credadyn.** Yn llythrenol, Ac *na fydded i ti ddyfod* yn anghredadyn, ond credadyn. Gwelai y Gwaredwr Thomas ar y ffordd i fod yn anghredadyn, yr oedd megis ar y llithrigfa, mewn perygl oherwydd agwedd ei feddwl tuag at dystiolaeth ei gyd-ddisgyblion, i suddo i drobwll anghrediniaeth. Yn sicr, nid rhywbeth i gellwair âg ef yw agwedd meddwl amheus.

wrtho, Fy Arglwydd a'm Duw. 29. Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Am i ti fy ngweled, Thomas, y credaist: bendigedig *yw* y rhai ni welsant, ac a gredasant. 30. ¶ A llawer hefyd o arwyddion eraill a wnaeth yr Iesu y'ngŵydd ei ddisgyblion, y rhai nid ydynt ysgrifenedig yn y llyfr hwn. 31. Eithr y pethau hyn a ysgrifenwyd,

---

Adn. 28. **Fy Arglwydd a'm Duw.** Credir yn gyffredin na wnaeth Thomas archwiliad manwl ar archollion ei Arglwydd. Gorchfygwyd ei anghrediniaeth heb iddo wneud hyny o gwbl. Adnabu lais, a sylweddolodd ei fod mewn gwirionedd ym mhresenoldeb ei Arglwydd adgyfodedig. Diflanodd ei anghrediniaeth fel niwl y bore o flaen cyfodiad yr haul. Ac yn lle myned yn anghredadyn, ymddyrchafodd ar unwaith i'r uchder mwyaf y gall ffydd byth ei chyraedd. Daeth yn arwr mewn ffydd, a gwnaeth y gyffes aruchelaf a wnaed hyd yn hyn. Nid yn unig gwelodd *ddyn* wedi adgyfodi, ond gwelodd *Dduw* oedd wedi gorchfygu angeu a'r bedd. Gwelodd un allodd ddweyd: "Byddaf angeu i ti, O angeu, byddaf dranc i ti, y bedd," a daeth i'r casgliad anocheladwy y rhaid ei fod yn *wir Dduw*.

Adn. 29. **Bendigedig yw y rhai ni welsant, ac a gredasant.** Dysgir yn y geiriau hyn fod credu tystiolaeth gredadwy yn fwy ardderchog, na chredu yn nhystiolaeth ein synwyrau corfforol. Y mae ffydd yn treiddio trwy y llen i'r anweledig, ac yn ddedwydd yn y canfyddiad a'r mwynhad o sylweddau ysprydol. Gwaredwr anweledig yw Crist i bawb ar ol dyddiau yr apostolion, eithr nid yw credinwyr yr oesau dyfodol ar eu colled, ond yn hytrach ar eu hennill yn fawr. "Pan y dywed rhywun," ebai Chrysostom, "O na fuaswn fyw yn y dyddiau hyny yn gweled Crist yn cyflawni rhyfeddodau, bydded iddo ystyried mai 'bendigedig yw y rhai ni welsant, ac a gredasant'" (1 Petr i. 8).

30, 31. Amcan Terfynol yr Efengyl.

Adn. 30. **A llawer hefyd o arwyddion eraill a wnaeth yr Iesu, &c.** Cyfeiriad sydd yma at yr oll o dymor ei weinidogaeth, ac nid yn unig at y cyfnod oedd yn dilyn ei adgyfodiad. *Arwyddion* yw y gair a ddefnyddiai Ioan fynychaf am y gwyrthiau. Gwelir felly mai detholiad o'r gwyrthiau sydd wedi eu cofnodi yn yr efengyl hon. Nid yw Ioan yn proffesu ysgrifennu bywgraffiad cyflawn o'r Gwaredwr, dim ond yr hyn a farnai ef yn angenrheidiol er cyraedd yr amcan oedd ganddo mewn golwg.

Adn. 31. **Eithr y pethau hyn,** sef y pethau a ddetholwyd gan yr efengylwr, ac sydd wedi eu cofnodi yma ganddo ef. **Fel y credoch chwi.** Dyma amcan cynhyrchu a chadarnhau ffydd darllenwyr yr efengyl, ac yr oedd y ffydd hono yn cynnwys dau wirionedd arbennig am y Gwaredwr. Yn gyntaf, mai yr Iesu yw y *Crist*. Fod y person hanesyddol a adnabyddid fel Iesu o Nazareth yn *eneiniog* Duw, a'r Messiah y disgwyliai y genedl Iuddewig amdano. Cyflawnwyd ynddo ef yr holl broffwydoliaethau oedd yn yr Hen Destament am ymddanghosiad y

fel y credoch chwi mai yr Iesu yw Crist, Mab Duw; a chan gredu, y caffoch fywyd yn ei enw ef.

Messiah. Ac yn ail, Fod yr Iesu hefyd yn neb llai na *Mab Duw.* Gwelir fod yr efengylwr am gynnwys yn y ffydd Gristionogol ddyndod a Duwdod y Gwaredwr, y mae yn Iesu, ac yn *Fab Duw.* **A chan gredu, y caffoch fywyd yn ei enw ef.** Amcan hollol ymarferol, ond anrhaethol bwysig, sydd i ffydd yr efengyl. Sicrhau a diogelu bywyd ysprydol, moesol a thragwyddol ei barhad ag y mae cyfeiriad mor fynych ato yn y bedwaredd efengyl, ac sydd yn anwahanol gysylltiol a ffydd yng Nghrist. Cyd. iii. 15, 16; v. 24, 40; x. 28; xvii. 2, 3.

PENNOD XXI.

GWEDI y pethau hyn, yr Iesu a ymddangosodd drachefn i'w ddisgyblion wrth fôr Tiberias : ac fel hyn yr ymddangosodd. 2. Yr oedd ynghyd Simon Petr, a Thomas yr hwn a elwir Didymus, a Nathanäel o Cana yn Galilea, a *meibion* Zebedëus, a dau eraill o'i ddisgyblion ef. 3. Dywedodd Simon Petr wrthynt, Yr wyf fi yn myned i bysgotta. Dywedasant wrtho, Yr ydym ninnau

---

Cydsynir yn gyffredin mai Atodiad i'r bedwaredd efengyl yw y bennod hon. Eithr credir mai gwaith yr un awdwr ydyw a'r efengyl ei hun. Y mae yr unrhywdeb mewn iaith ac arddull sydd rhwng yr Atodiad a'r efengyl yn profi eu bod yn waith yr un awdwr. Cadarnheir hyn hefyd gan y ffaith fod yr Atodiad hwn i'w gael ymhob llawysgrif o Efengyl Ioan. Gwelir fod yr olygfa wedi newid o Jerusalem i lan mor Tiberias—o Judea i Galilea.

1—14. Ymddanghosiad yr Iesu ar lan Mor Galilea, a'r ddalfa wyrthiol o Bysgod.

Adn. 1. **Gwedi y pethau hyn.** Ymadrodd lled anmwys a phenagored a ddefnyddir yn fynych yn yr Efengyl hon (v. 1, vi. 1, vii. 1*).* Golyga, ar ol y pethau a gofnodwyd yn y bennod flaenorol. Arosodd y disgyblion yn Jerusalem, y mae'n debyg, hyd derfyn dyddiau Gwyl y Pasg, ac yna symudasant i'w hen gynefin. **Yr Iesu a ymddangosodd drachefn i'w ddisgyblion wrth for Tiberias.** "*Amlygodd yr Iesu ei hun drachefn*" (W.E.). Felly hefyd (B.). Awgryma y ferf Gr. (*ephanerosen*), a gyfieithir ymddanghosodd, neu amlygodd, mai anweledig oedd yr Iesu yn naturiol yr adeg yma, ac mai trwy ewyllysio yr oedd yn gwneyd ei hun yn weledig. Cyfeiria y gair "drachefn" at ei ymddanghosiadau blaenorol sydd wedi eu cofnodi yn yr ugeinfed bennod. **Wrth for Tiberias.** Gwel nodiad ar vii. 1, Cyf. I., tudalen 87.

Adn. 2. **Yr oedd ynghyd Simon Petr, &c.** Gwelir fod saith o ddisgyblion yr Iesu yn bresennol. Tybir gan rai mai Andreas a Phylip oedd y ddau sydd heb eu henwi. Tybir gan eraill mai rhai oedd heb fod o fewn cylch y deuddeg sydd heb eu henwi. Defnyddir y gair disgyblion yn fynych yn yr efengyl hon mewn ystyr eangach na'r deuddeg. Gwel vi. 60—66.

Adn. 3. **Yr wyf fi yn myned i bysgotta.** Digon anhawdd penderfynnu beth oedd agwedd meddwl Petr y pryd hwn, a oedd ef yn tybied fod achos yr Iesu wedi dyfod i'r pen, ac nad oedd dim i'w wneyd bellach ond troi yn ol at yr hen alwedigaeth o bysgotta, ai ynte ei fwriad oedd defnyddio ei amser felly hyd nes yr ymddanghosai yr Iesu iddynt drachefn yn Galilea, yn ol ei addewid (Marc xvi. 7, Math. xxviii. 10). Credaf mai y dybiaeth olaf sydd debycaf o fod yn gywir. **Yr ydym ninnau hefyd yn dyfod gyd a thi.** Mae cynnygiad Petr

hefyd yn dyfod gyd â thi. A hwy a aethant allan, ac a ddringasant i long yn y man: a'r nos honno ni ddaliasant ddim. 4. A phan ddaeth y bore weithian, safodd yr Iesu ar y lán: eithr y disgyblion ni wyddent mai yr Iesu ydoedd. 5. Yna yr Iesu a ddywedodd wrthynt, *O* blant, a oes gennych ddim bwyd? Hwythau a attebasant iddo, Nac oes. 6. Yntau a ddywedodd wrthynt, Bwriwch y rhwyd i'r ty deheu i'r llong, a chwi a gewch. Hwy a fwriasant gan hynny; ac ni allent bellach ei thynnu, gan y lliaws pysgod. 7. Am hynny y disgybl hwnnw yr oedd

---

yn cymeradwyo ei hun i'r chwech oedd gydag ef fel y ffordd oreu iddynt dreulio eu hamser, tra yn disgwyl am ymddanghosiad eu Hathraw. **A'r nos honno ni ddaliasant ddim.** Y nos oedd yr adeg oreu i bysgotta, a dyma sydd yn gwneud eu haflwyddiant hollol yn fwy hynod. Crybwyllir am fethiant cyffelyb yn Luc v. 5. Defnyddir y gair Gr. *piazô*, a gyfieithir "daliasant," ryw saith waith yn yr efengyl hon, ac yn Dat. xix. 10, ond ni ddefnyddir ef o gwbl yn yr efengylau cydolygol.

Adn. 4. **A phan ddaeth y bore weithian.** Gwell: *A phan oedd y wawr weithian yn torri* (W. E.). *When, however, day was now dawning* (W.). **Safodd yr Iesu ar y lan,** neu *y traeth*. Ymddanghosodd iddynt fel y gwnaeth i'r disgyblion, ac i Thomas, yn yr oruwchystafell yn Jerusalem. **Eithr y disgyblion ni wyddent mai yr Iesu ydoedd.** Tebygol ei bod yn dywyll eto i weled dim ond ffurf dyn ar y lan. Ac heblaw hyny, nid oeddynt yn disgwyl gweled yr Iesu yn y fath le, ac ar y fath amser. Rhaid caniatau, hefyd, fod rhywbeth yn ddieithr yn ymddanghosiad yr Iesu i'w ddisgyblion ar ol ei adgyfodiad.

Adn. 5. **O blant,** neu *fechgyn*. Cyfarchiad cyfeillgar, fel yr hwn a ddefnyddir gan feistriaid wrth eu gweithwyr. **A oes gennych ddim bwyd?** Yn fwy cywir, *A oes gennych enllyn?* Rhywbeth yw i fwytta gyda bara, ac o ran ystyr y mae yr un peth a phe gofynasai, A ydych wedi dal pysgod? Rhoddasant ateb nacaol fel y disgwyliai yr Iesu oddiwrth ffurf ei ofyniad [*mêti*].

Adn. 6. **Bwriwch y rhwyd i'r tu dehau i'r llong, a chwi a gewch.** Ymddengys mai ar y tu aswy y bwriasant y rhwyd yn flaenorol. **Hwy a fwriasant gan hynny.** Tybiasant fod y gwr dieithr wedi gweled pysgod ar yr ochr honno i'r cwch. **Ac ni allent bellach ei thynnu, gan y lliaws pysgod.** Ni allent dynnu y rhwyd i'r cwch fel arfer, ac am hyny rhaid oedd iddynt ei llusgo ar hyd y lan (adn. 8—11). Diau fod yna elfen wyrthiol yn yr helfa ryfeddol o bysgod a gawsant, fel yr un a gofnodir yn Luc v. 4—6. Ym mha beth yn arbennig yr oedd y wyrth yn gynwysedig, anhawdd penderfynnu: pa un ai mewn gwybod pa le yr oedd y pysgod, neu gasglu y pysgod yno, neu ynte mewn creu y pysgod. Ac nid yw penderfynnu hyny o nemawr bwys, canys y mae nodwedd wyrthiol yr amgylchiad yn rhy amlwg i'w wadu.

yr Iesu yn ei garu a ddywedodd wrth Petr, Yr Arglwydd yw. Yna Simon Petr, pan glybu mai yr Arglwydd oedd, a wregysodd *ei* amwisg, (canys noeth oedd efe,) ac a'i bwriodd ei hun i'r môr. 8. Eithr y disgyblion eraill a ddaethant mewn llong, (oblegyd nid oeddynt bell oddi wrth dir, ond megis dau càn cufydd), dan lysgo y rhwyd â'r pysgod. 9. A chyn gynted ag y daethant i dir, hwy a welent dan o farwor wedi ci osod, a physgod wedi eu dodi arno, a bara. 10. Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Dygwch o'r pysgod a ddaliasoch yr awrhon. 11. Simon

---

Adn. 7. **Am hynny y disgybl hwnnw yr oedd yr Iesu yn ei garu.** Ac Ioan fab Zebedeus, ac awdwr yr efengyl hon, yn ddiau, oedd efe. Cyd. xiii. 31, &c. **Yr Arglwydd yw.** Wrth Petr y dywedodd hyn, fel un ag oedd mor adnabyddus iddo ef, a chyfeillgar âg ef. Gwelir mor graff yw cariad i adnabod ei wrthrych o dan bob amgylchiad. Os oedd yr Iesu yn caru Ioan yn arbennig, yr oedd yntau yn ebrwydd yn ateb yn ol, ac yr oedd hyny yn rhoddi crafider neillduol yn ei ganfyddiad ysprydol. Os mai Ioan oedd y cyntaf i *ganfod*, Petr oedd y cyntaf i *weithredu*. Mor nodweddiadol yw hyn o'r ddau ddisgybl, Ioan yn fyfyrgar a phwyllog, a Phetr yn sydyn a hawdd ei symbylu. **Yna Simon Petr, &c.** Fel efe ei hun, yn frwd a byrbwyll. **A wregysodd ei amwisg.** Ystyr y gair amwisg (*ependuti's*) yw arwisg (*frock*). "Gwisgid hi ar y crys, neu y wisg isaf. Yr oedd heb lewys, a chyrhaeddai hyd y penliniau." **Canys noeth oedd efe.** Hyny yw, nid oedd ganddo ond ei is-wisg amdano. **Ac a'i bwriodd ei hun i'r mor.** Tebyg ei fod yn gallu nofio, er yn methu rhodio ar y dyfroedd. **Ond megis dau can cufydd.** Yr oedd cufydd tua deunaw neu ugain modfedd, ac felly yr oedd y pellder tua chan llath. Arosodd y gweddill o'r disgyblion yn y cwch, ac i ofalu am y rhwyd a'r pysgod, ac y maent o'r cwch yn llusgo y rhwyd a'r ddalfa bysgod yn araf ac yn ofalus i'r lan. Onid yw y darluniad manwl hwn yn sicr o fod yn eiddo llygad-dyst?

Adn. 9. **Hwy a welent dan o farwor,** tân golosg (*charcoal*) **a physgod wedi eu dodi arno, a bara.** Gwelir fod yr Iesu yn ol ei dosturi a'i garedigrwydd arferol, wedi darparu lluniaeth i'w ddisgyblion newynog oedd wedi bod allan yn llafurio ar hyd y nos. O ba le y daeth y tân, y pysgod, a'r bara i'r fath le ar y fath amser, ni ellir dweyd; ond nid oedd dim felly yn amhosibl i'r hwn a borthodd y pum mil yn yr anialwch, â phum torth, a dau bysgodyn.

Adn. 10. **Dygwch o'r pysgod a ddaliasoch yr awrhon.** Oni awgrymir yn y geiriau hyn fod dynion i fod yn gydweithwyr â Duw yn nhrefn Rhagluniaeth? Pa beth bynnag oedd yr Iesu ei hun wedi ei ddarparu ar gyfer y boreubryd, yr oedd am i'r disgyblion eu hunain gael rhan hefyd mewn darparu ar ei gyfer. Nid yw Rhagluniaeth Ddwyfol yn anghyson â dyledswydd dyn, ond yn hytrach yn ei chynnwys.

Petr a esgynodd, ac *a* dynnod y rhwyd i dir, yn llawn o bysgod mawrion, cant a thri ar ddeg a deugain : ac er bod cymmaint, ni thorrodd y rhwyd. 12. Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Deuwch, ciniawwch. Eithr ni feiddiai neb o'r disgyblion ofyn iddo, Pwy wyt ti? am eu bod yn gwybod mai yr Arglwydd oedd. 13. Yna y daeth yr Iesu, ac a gymmerth fara, ac a'*i* rhoddes iddynt, a'r pysgod yr un modd. 14. Y drydedd waith hon yn awr yr ymddangosodd yr Iesu i'w ddisgyblion, wedi iddo gyfodi o feirw. 15. ¶ Yna gwedi iddynt giniawa, yr Iesu

---

Adn. 11. **Simon Petr a esgynodd, &c.** Gan ei fod ef eisoes ar y traeth ar ol nofio yno, efe a aeth ar fwrdd y llong i helpu i gael y rhwyd a'i chynnwys yn ddiogel i'r lan, ac wele gynnwys y ddalfa. **Bysgod mawrion, cant a thri ar ddeg a deugain.** Pwy fuasai yn meddwl am gofnodi cyfrif mor fanwl ohonynt, ond un oedd yn bresennol ac a'u cyfrifodd hwynt? **Ac er bod cymmaint, ni thorrodd y rhwyd.** Crybwyllir hyn fel peth mor hynod a'r ddalfa bysgod. Sylw naturiol o eiddo pysgotwr, ac un oedd yn llygad-dyst.

Adn. 12. **Deuwch, ciniawwch,** neu *torrwch ar eich ympryd* (C.S.D.), neu *bwytêwch foreufwyd* (W.E.). Mor ofalus yw yr Iesu, a wyddai beth oedd bod yn newynog ei hunan, am wneud brys i ddiwallu angen corfforol ei ddisgyblion. **Eithr ni feiddia neb o'r disgyblion ofyn iddo, Pwy wyt ti?** Cymhellid hwy gan amheuaeth i ofyn, neu yn fwy cywir yn ol ystyr y gair Gr. *ektassô* i *holi yn fanwl* neu *yn ofalus*, pwy ydoedd. Ond yr oedd eu hyder eu bod ym mhresenoldeb gwirioneddol eu Harglwydd yn drech na'u amheuon wedi'r cwbl. Mor onest y cofnodir yr amheuon godai yn eu meddyliau yn yr olwg ar y cyfnewidiad dirgeledig yn ei wedd, ar ol ei adgyfodiad.

Adn. 13 a 14. Awgryma y geiriau, os oedd y disgyblion yn teimlo gradd o ofn neshau at yr Iesu, ei fod Ef wedi neshau atynt hwy, er chwalu ymaith eu holl amheuon, a dangos ei ofal tyner amdanynt, trwy estyn yr ymborth iddynt â'i law ei hun, fel pe buasai y swper olaf yn cymeryd lle drachefn. **Y drydedd waith hon yn awr yr ymddangosodd yr Iesu i'w ddisgyblion.** Gwell : *Hon weithian oedd y drydedd waith yr amlygwyd yr Iesu i'w ddisgyblion* (W.E. a C.S.D.). Y mae'n wir fod yr Iesu wedi amlygu ei hun i wahanol bersonau rhagor na thair gwaith ar ol ei adgyfodiad. Amlygodd ei hun felly gynifer a chwe gwaith; ond amlygu ei hun *i'r disgyblion fel cwmni gyda'u gilydd* y dywedir yma, mai hon oedd y drydedd waith. Yr amlygiad i'r disgyblion pan oedd Thomas yn absennol oedd y *cyntaf* (xx. 19—23), pan oedd Thomas yn bresennol oedd yr *ail* (xx. 24—29), a hwn oedd y *trydydd*.

15—19. Adferiad Petr, a'r rhagfynegiad am ei ferthyrdod.

Adn. 15. **Yna gwedi iddynt giniawa.** Gwell : *Felly gwedi iddynt*

a ddywedodd wrth Simon Petr, Simon *mab* Jona, a wyt ti yn fy ngharu i yn fwy na'r rhai hyn? Dywedodd yntau wrtho, Ydwyf, Arglwydd; ti a wyddost fy mod yn dy garu di. Dywedodd yntau wrtho, Portha fy ŵyn.

---

dorri ar eu hymbryd (C.S.D.), neu *Wedi iddynt gan hyny gymeryd boreufwyd* (W. E.). Credai yr Iesu y byddai Petr mewn gwell agwedd meddwl i wrando arno ef, ar ol ei ddigoni âg ymborth. Nid oes dim yn annaturiol nac yn afresymol yng nghrefydd yr Arglwydd Iesu Grist. **Yr Iesu a ddywedodd wrth Simon Petr, Simon mab Jona, a wyt ti yn fy ngharu i yn fwy na'r rhai hyn?** Credir yn gyffredin fod yr Iesu yn yr ymddiddan hwn gyda Phetr yn ei adfer yn ol i'w swydd fel apostol ar ol ei gwymp alaethus. Ceisia Dr. Bruce ddadleu yn erbyn hyn. Cydnebydd ei fod mewn angen am adferiad o'r fath, ond myn efe iddo gael yr adferiad yn flaenorol i hyn, pan yr ymddanghosodd yr Iesu i Petr ei hun ar ol ei adgyfodiad. Eithr a thybio fod cyd-ddeall cyfrinachol wedi cymeryd lle rhwng yr Athraw a Petr y pryd hwnw ar y mater, eto yn awr yr adferir ef yn ol i'w safle flaenorol yng ngolwg ei gyd-ddisgyblion. Sylwer fod yr Iesu yn galw Petr yma yn Simon, mab Jona, neu yn fwy cywir, mab *Ioan*. Felly, yn ol y llawysgrifau goreu, tybir iddo beidio ei alw yn Petr (*craig*) ar yr achlysur hwn mewn cyfeiriad at ei ansefydlogrwydd. Ni ellir deall yr ymddiddan rhwng yr Athraw a Petr yn iawn, heb gofio fod y gair "caru" mewn un rhan o'r ymddiddan, a'r gair "caru" yn y rhannau eraill ohono, yn gyfeithiad o ddau air Groeg gwahanol. Gellir dangos y gwahaniaeth rhyngddynt trwy gymeryd y gair Cymraeg *caru* am y Gr. *agapao*, a'r gair *hoffi* am y Gr. *phileô*. Arwydda y cyntaf y *cariad uchaf a phuraf*, ac ystyr yr ail yw *caru fel cyfaill, cariad naturiol a dynol*. Gwel Nodiad ar xi., 5fed adn. Canfyddir y gwahaniaeth yn gliriach ond eu cyfleu fel y canlyn:—

1. A wyt ti yn fy ngharu i? . . . Ti a wyddost fy mod yn dy hoffi.
2. A wyt ti yn fy ngharu i? . . . Ti a wyddost fy mod yn dy hoffi.
3. A wyt ti yn fy hoffi i? . . . . Ti a wyddost fy mod yn dy hoffi.

Wrth i'r Iesu ofyn i Simon, "*A wyt ti yn fy ngharu i yn fwy na'r rhai hyn?*" nid cyfeirio y mae, fel y gwag ddychmygodd rhai, a oedd yn ei garu ef yn fwy nag oedd yn caru y cwch a'r pysgod oedd gerllaw. Onid oedd Petr wedi dangos hyny trwy ei ganlyn ar y cyntaf. Diau mai cyfeirio y mae at hunanhyder a bost Petr (xiii. 37, Math. xxvi. 33). **Dywedodd yntau wrtho, Ydwyf, Arglwydd; ti a wyddost fy mod yn dy garu di.** Yn lle defnyddio y gair cryfaf am gariad, wrth ateb ei Arglwydd, defnyddia Petr air gwanach, yn cyfateb i hoffi. Gwelir ei fod wedi dechreu adnabod ei hun, ac o ganlyniad y mae yn llai hunanhyderus, ac yn fwy gwylaidd nag y bu. **Dywedodd yntau wrtho, Portha fy wyn.** Ar ol i Petr dystio yn ostyngedig ei fod ef yn *hoffi* yr Iesu, nid yn ei garu yn fwy na'r disgyblion eraill, fel yr awgrymai ar achlysur blaenorol, y mae ei Arglwydd yn ymddiried gwaith iddo ef ei gyflawni, ac yn ei benodi i gyflawni y gwaith hwnw. "Portha fy wyn," neu yn llythrenol, *fy*

16. Efe a ddywedodd wrtho drachefn yr ail waith, Simon *mab* Jona, a wyt ti yn fy ngharu i? Dywedodd yntau wrtho, Ydwyf, Arglwydd; ti a wyddost fy mod yn dy garu di. Dywedodd yntau wrtho, Bugeilia fy nefaid. 17. Efe a ddywedodd wrtho y drydedd waith, Simon *mab* Jona, a wyt ti yn fy ngharu i? Petr a dristaodd am iddo ddywedyd wrtho y drydedd waith, A wyt ti yn fy ngharu i? Ac efe a ddywedodd wrtho, Arglwydd, ti a wyddost bob peth; ti a wyddost fy mod i yn dy garu di. Yr Iesu

---

wyn bychain. Wrth wyn yma y deallir nid lleygwyr, fel y tybia rhai Pabyddion, ond y dosbarth ieuengaf a thyneraf yn Eglwys Grist, y rhai a alwent am y gofal a'r tynerwch mwyaf. Gallasai yr Iesu eu hymddiried yn hyderus i ofal ac addysg un oedd yn ei garu ef. Trwy ddangos ei ofal cariadlawn am yr ieuainc a'r dibrofiad a thrwy gyfranu iddynt yr addysg elfenol angenrheidiol, fe brofai Petr ei fod ef yn caru ei Arglwydd mewn gwirionedd.

Adn. 16. **Efe a ddywedodd wrtho drachefn yr ail waith, Simon mab Jona, a wyt ti yn fy ngharu i?** Ar ol ychydig o ddistawrwydd, cyfarcha yr Athraw ef wrth yr un enw, a gofyna iddo ef yr un cwestiwn. Naturiol yw meddwl fod yr Iesu yn gofyn iddo ef yr ail a'r drydedd waith yr un cwestiwn, mewn cyfeiriad at waith Simon yn ei wadu dair gwaith. Gwna un gwahaniaeth sydd yn dangos ei dynerwch trwy adael allan y gymhariaeth y tro hwn, "yn fwy na'r rhai hyn." **Ydwyf, Arglwydd, ti a wyddost fy mod yn dy garu di.** Rhydd yn gymhwys yr un ateb a'r tro cyntaf. **Bugeilia fy nefaid.** Mae y gorchymyn, "Bugeilia fy nefaid," yn fwy cyffredinol yn ei natur a'i derfynau na'r un a roddwyd i Simon yn flaenorol. Mae bugeilio yn fwy gair na phorthi. Cynhwysa arolygiaeth a gofal dros y praidd, a gesyd yr Arglwydd yn awr fwy o gyfrifoldeb arno, a dengys fwy o ymddiriedaeth ynddo ef.

Adn. 17. **Efe a ddywedodd wrtho y drydedd waith, Simon mab Jona, a wyt ti yn fy ngharu i?** Rhydd yr Iesu gyfle i Simon wneuthur cyffes o'i gariad tuag ato dair gwaith, oherwydd iddo fod yn euog o'i wadu dair gwaith. **Petr a dristaodd am iddo ddywedyd wrtho y drydedd waith, &c.** Teimlodd i'r byw, am fod yr Iesu wedi gofyn iddo y *drydedd* waith. Ni allasai lai na chael ei adgofio drwy hyn am ei waith yn ei wadu dair gwaith. Ofnai fod ei Arglwydd yn amheu ei gywirdeb a'i sefydlogrwydd. Mae yn deilwng o sylw fod yr Athraw wrth ofyn i Simon y drydedd waith, a ydoedd yn ei garu ef, wedi newid y gair am garu. Yn lle defnyddio, fel o'r blaen, y gair cryfaf, defnyddia air gwanach sydd yn gyfystyr â *hoffi*. Dyma'r gair, fel y gwelsom, ddefnyddiodd Petr y ddau dro wrth ateb yr Iesu. "Os nad all Petr godi i lwyfan uchel Crist, daw Crist i lawr mewn cydymdeimlad tyner, ac a rydd help llaw iddo, fel y gwnaeth gynt ar y mor" (W. E.). **Arglwydd, ti a wyddost bob peth; ti a wyddost fy mod i yn dy garu di.** Apelia Simon yma at hollwybodaeth ei Arglwydd. Cred ei fod fel gwir Dduw yn hollwybodol,

a ddywedodd wrtho, Portha fy nefaid. 18. Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Pan oeddit ieuange, ti a'th wregysaist dy hun, ac a rodiaist lle y mynnaist : eithr pan elech yn hen, ti a estyni dy ddwylaw, ac arall a'th wregysa, ac a'th arwain lle ni fynnit. 19. A hyn a ddywedodd efe, gan arwyddo trwy ba fath angau y gogoneddai efe Dduw. Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a ddywedodd wrtho,

---

yn gwybod beth sydd mewn dyn, am ei fod yn chwiliwr y galon, a phrofwr yr arenau. Fel pe dywedasai Simon, gan dy fod yn gwybod pob peth yn sicr, nis gelli amheu nad wyf yn dy hoffi mewn gwirionedd. **Portha fy nefaid.** Dyma ateb boddhaol i Simon. Ni fuasai yr Iesu byth yn ymddiried y gwaith iddo ef o borthi ei ddefaid oni buasai ei fod wedi ei lwyr foddloni parthed didwylledd ei gariad tuag ato. Arwydda y gair *defaid* yma nid yr *wyn*, adn. 15, ac nid yr *ewigod* yn adn. 16, ond y defaid mawr ac oedranus.

18—22. Dyfodol Petr ac Ioan.

Adn. 18. **Yn wir, yn wir, meddaf i ti.** Defnyddia yr Iesu yr un ffurf-ymadrodd ar ol ei adgyfodiad ag a ddefnyddiodd cyn ei farwolaeth. Rhydd y geiriau bwyslais a sicrwydd i'r hyn oedd yn ei ddweyd wrth Petr. **Pan oeddit ieuange.** Gwell : *Pan oeddit ieuengach.* Yr oedd Petr erbyn hyn yn myned ymlaen mewn dyddiau, a chyfeiria ei Arglwydd at yr amser yr oedd yn gryf, brwd-frydig a mymplwyol, yn caru bod yn rhydd, a chael ei ffordd ei hun. **Ti a'th wregysaist dy hun,** fel yn adn. 7fed, **ac a rodiaist lle y mynnaist,** fel yn adn 3ydd. **Eithr pan elech yn hen, ti a estyni dy ddwylaw, ac arall a'th wregysa, ac a'th arwain lle ni fynnit.** Y mae dyfodol Petr i fod yn wahanol i'w orffenol ef. Amddifadir ef o'i ryddid arferol, a bydd yn rhaid iddo fod yn oddefydd o dan ddwylaw arall. Cyfeiriad ffigwrol, yn ddiau, sydd yma, at ferthyrdod Petr. Ac y mae y darluniad yn un byw a tharawiadol. "Ti a estyni dy ddwylaw," fel y byddai yr hwn a groeshoelid yn estyn ei ddwylaw i gael ei rwymo wrth y pren croes, "Ac arall a'th wregysa" wrth y groes gyda rhaff. "Ac a'th arwain lle ni fynnit." Un yn unig aeth i'r groes yn hollol wirfoddol, cael eu gorfodi y mae pawb eraill a groeshoeliwyd, ac felly Petr.

Adn. 19. **A hyn a ddywedodd efe, gan arwyddo trwy ba fath angau y gogoneddai efe Dduw.** Dyma eglurhad yr efengylwr ar eiriau yr Iesu wrth Petr, yn debyg i'r eglurhad yn xii. 33. Cytuna traddodiad i Petr gael ei groeshoelio. Dyma dystiolaeth Tertulian, a dywed Eusebius, ar awdurdod Origen, iddo gael ei groeshoelio a'i ben tua'r llawr, gan yr ystyriai ei hun yn rhy anheilwng i gael ei groeshoelio yn yr un dull a'i Feistr. Tybir iddo gael ei ferthyru yn Rhufain o dan deyrnasiad Nero, yn mhen rhyw ddeng mlynedd ar hugain ar ol hyn. **Efe a ddywedodd wrtho, Canlyn fi.** Credaf fod y gorchymyn hwn i Petr i'w ddeall yn llythrennol, yn ogystal ag yn ysprydol. Yr oedd i ddilyn ei Feistr ar hyd llwybr hunanaberth a dioddefaint, ac yr oedd hefyd i'w ddilyn ef o'r neilldu ar y pryd. Y mae hyn yn eglur ddigon oddiwrth adn. 20.

Canlyn fi. 20. ¶ A Phetr a drodd, ac a welodd y disgybl yr oedd yr Iesu yn ei garu, yn canlyn, (yr hwn hefyd a bwysasai ar ei ddwyfron ef ar swpper, ac a ddywedasai, Pwy, Arglwydd, yw yr hwn a'th fradycha di?) 21. Pan welodd Petr hwn, efe a ddywedodd wrth yr Iesu, Arglwydd, ond beth *a wna* hwn? 22. Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Os mynnaf iddo aros hyd oni ddelwyf, beth

---

Adn. 20. **A Phetr a drodd, ac a welodd y disgybl yr oedd yr Iesu yn ei garu yn dilyn.** Gwelir fod Petr wedi ufuddhau i orchymyn ei Feistr, gan ei ganlyn o fysg y disgyblion. A chan droi ei ben, ac edrych o'r tu ol, gwelai Ioan yn canlyn ar ol yr Iesu ac yntau. Naturiol oedd i un oedd wedi bod cymaint yng nghyfrinach yr Iesu ag Ioan, feddwl nad oedd dim cyfrinach rhwng Petr a'r Iesu, nad allai ef fod yn gyfrannog ohono. Ac mai Ioan fab Zebedeus a olygir yma, ni all fod unrhyw amheuaeth i feddwl teg a diragfarn. Pa gyfrif arall sydd i'w roddi am na chrybwyllir am ddisgybl mor amlwg ag Ioan trwy gydol yr efengyl, ond ei fod yn myned ynddi o dan yr enw "y disgybl yr oedd yr Iesu yn ei garu" **(Yr hwn hefyd a bwysasai ar ei ddwyfron ef ar swpper, ac a ddywedasai, Pwy, Arglwydd, yw yr hwn a'th fradycha di?)** Dyma ddarluniad helaethach a manylach o'r disgybl hwn (pen. xiii. 25).

Adn. 21. **Pan welodd Petr hwn, efe a ddywedodd wrth yr Iesu, Arglwydd, ond beth a wna hwn?** Yn llythrenol, *A hwn beth? What about him?* (W.). *A beth fydd i hwn?* (W.E.). Anawdd credu mai oddiar genfigen tuag at Ioan y gofynnodd Petr hyn. Yr oeddynt yn ormod o gyfeillion i'r fath deimlad anheilwng gael ei anwesu gan Petr. Gwelir eu bod gyda'u gilydd yn nechreu Llyfr yr Actau, pen. iii., &c. Ac felly ni all mai yr ystyr yw: Beth y mae hwn yn ein dilyn ni? Paham yr ymwthia ei hun arnom? Yn hytrach na hyny, credaf mai ymholi y mae Petr am ddyfodol Ioan. Ar ol i'w Arglwydd ddweyd wrth Petr, beth oedd yn ei aros ef, digon naturiol oedd i Petr holi beth oedd yn aros ei gyfaill Ioan. Beth fyddai ei ran ef yn niwedd ei ddyddiau. Croeshoelio oedd i fod yn rhan Petr, beth ynte fyddai rhan Ioan?

Adn. 22. **Os mynnaf iddo aros hyd oni ddelwyf, beth yw hynny i ti?** Cyfieithiad llythrenol o'r geiriau "*hyd oni ddelwyf*" yw *tra yr wyf yn dyfod. While I am coming* (W.). "*Os mynaf,*" neu os ewyllysiaf. Honna yr Iesu hawl i benderfynu hyd a therfyn einioes ei ddisgybl. Defnyddir y gair aros yn fynych yn yr efengyl hon, a golyga yma, yn ddiau, aros i fyw ar y ddaear. Yn ol y cyfieithiad llythrenol, "tra yr wyf yn dyfod," golygir fod dyfodiad Crist yn un graddol, ac yn cyraedd ei derfyn yn yr ail ddyfodiad. Tyb hollol ddisail yw mai cyfeiriad sydd yn y geiriau at ddyfodiad yr Arglwydd yn ninistr Jerusalem. Amlwg yw, oddiwrth yr adnod ddilynol 23, nad oedd hyny ddim yn meddwl yr efengylwr o gwbl. Yr ail ddyfodiad o eiddo y Gwaredwr yn y dydd diweddaf sydd mewn golwg (cyd. Act. i. 11; 1 Thes. iv. 15—17).

yw hynny i ti? canlyn di tyfi. 23. Am hynny yr aeth y gair yma allan ym mhlith y brodyr, na fyddai y disgybl hwnnw farw: ac ni ddywedasai yr Iesu wrtho na fyddai efe farw: ond, Os mynnaf iddo aros hyd oni ddelwyf, beth *yw hynny* i ti? 24. Hwn yw y disgybl sydd yn tystiolaethu am y pethau hyn, ac a ysgrifenodd y pethau hyn; ac ni a wyddom fod ei dystiolaeth ef yn

---

Adn. 23. **Am hynny,** sef am yr hyn a ddywedodd yr Iesu yn yr adnod flaenorol. **Na fyddai y disgybl hwnnw farw.*** Yr oedd yr ystyr a roddasant i eiriau yr Arglwydd yn ddigon teg a chywir, ond yr oedd eu casgliad yn hollol ddisail, am eu bod wedi colli golwg ar yr *os* oedd yn ei eiriau, "*Os* mynaf iddo aros," &c. Tybiaeth sydd yma, ac nid mynegiad pendant a sicr. **Ac ni ddywedasai yr Iesu wrtho na fyddai efe farw: ond, Os mynnaf iddo aros hyd oni ddelwyf.** Cywira yr efengylwr yma y camgasgliad a dynnodd y brodyr. **Beth yw hynny i ti?** Clywir braidd swn cerydd i Petr yn y geiriau hyn, am ei fod yn tueddu i ymyryd â mater na pherthynai ddim iddo ef. Fel pe dywedasai wrtho, Digon i ti yw dy waith dy hun, a'i wneud yw dy ddyledswydd, gan nad beth a ddigwydd i Ioan. Y mae dyfodol Ioan yn fy llaw i, ac o dan fy ngofal i yn unig.

24, 25.—Y Nodiad Terfynol a Chadarnhaol.

Adn. 24. **Hwn yw y disgybl sydd yn tystiolaethu am y pethau hyn, ac a ysgrifenodd y pethau hyn.** Y disgybl hwn, yn ddigwestiwn, yw y disgybl yr oedd yr Iesu yn ei garu, y crybwyllir amdano yn yr adnodau blaenorol (20—24). Cyfeiria y tystiolaethu a'r ysgrifenu at yr un pethau, sef nid yn unig pen. xxi., ond holl gynwys y Bedwaredd Efengyl. Trwy ysgrifenu y pethau yr oedd y disgybl yn tystiolaethu am danynt. Sylwer fod yr un ymadrodd "y pethau hyn" yn cael ei arfer yn xx. 31, a golyga yno, yn ddiamheuol, holl gynwys yr Efengyl. **Ac ni a wyddom fod ei dystiolaeth ef yn wir.** Gwahaniaetha Esbonwyr yn eu barnau o berthynas i pwy yw y "*ni*" yma. Tybia rhai mai y disgybl ei hun ydyw yn defnyddio y rhagenw lluosog fel y gwna yn 1 Ioan iv. 14, ond y mae yn anaturiol meddwl am awdwr yn ysgrifennu tystysgrif iddo ei hun. Gwell gennyf gredu gyda'r mwyaf o Esbonwyr i'r tystysgrif sydd yn yr adnod hon gael ei hysgrifennu gan ryw rai eraill, ac nid gan Ioan ei hun. Eithr pwy oeddynt nis gellir bod mewn unmodd yn sicr. Tybir gan rai mai Henuriaid Ephesus oeddynt, a thybir gan eraill mai Andreas neu Phylip, neu rai o'r deg disgybl a thriugain. Meddylir gan eraill mai Ariston neu yr Henadur Ioan yw y "ni" yn yr adnod hon. Eithr pwy bynnag oeddynt mae'n amlwg mai'r amcan yw cadarnhau gwirionedd tystiolaeth Ioan yn yr efengyl a ysgrifennodd. Ac yn ol fy marn i, y

---

* Dywed Awstin fod rhai yn credu yn ei amser ef nad oedd Ioan wedi marw, ond ei fod yn cysgu yn ei fedd yn Ephesus,

wir. 25. Ac y mae hefyd lawer o bethau eraill a wnaeth yr Iesu, y rhai ped ysgrifenid hwy bob yn un ac un, nid wyf yn tybied y cynhwysai y byd y llyfrau a ysgrifenid. Amen.

---

mae y dystysgrif geir yma i awduraeth a dilysrwydd y Bedwaredd Efengyl yn gwrthbwyso holl ddychmygion a haeriadau disail Beirniaid Rhesymolaidd. A phan y mae Undodwr galluog a dysgedig fel Dr. James Drummond, ar ol ymchwiliad manwl a thrwyadl i'r cwestiwn, wedi ei foddloni mai Ioan fab Zebedeus yw awdwr y Bedwaredd Efengyl, dylai hynny fod yn derfynol, gan nad pwy sydd yn dyweyd i'r gwrthwyneb.

Adn. 25. **Ac y mae hefyd lawer o bethau eraill a wnaeth yr Iesu.** Anhawdd penderfynnu pwy ysgrifennodd y geiriau hyn. Yn erbyn y gredíniaeth mai Ioan ei hun a'u hysgrifennodd, y mae o leiaf ddwy ystyriaeth bwysig. Un ydyw nad yw yr adnod hon i'w chael yn un o'r llawysgrifau hynaf a phwysicaf, sef y Llawysgrif Sinaitaidd, ac felly y mae yn debygol mai ryw un a'i hychwanegodd, ond yn foreu iawn yn hanes y testyn. Yr ystyriaeth arall yw, fod yna yn arbennig un gair a gyfieithir "yr wyf yn tybied" sydd yn hollol wahanol i arddull Ioan. Credaf felly mai ofer yn awr i'w ceisio dyfalu pwy ysgrifennodd yr adnod hon, eithr pwy bynnag a'i hysgrifennodd yr oedd yn sicr o fod yn rhyw un oedd yn meddwl yn fawr iawn o'r Iesu. **Y rhai ped ysgrifenid hwy bob yn un ac un, nid wyf yn tybied y cynhwysai y byd y llyfrau a ysgrifenid.** Cyttunir yn gyffredin fod y ffugr o ormodiaeth—*hyperbole*—yn cael ei ddefnyddio yma. Ond os yn oddefol ei ddefnyddio o gwbl, yr oedd yn sicr o fod felly yn yr achos o dan sylw. Wrth fwrw golwg dros fywyd y Gwaredwr, a'r gwaith a gyflawnodd yn ystod ei dymor byr ar y ddaear, a'r cofnodiad o hyny sydd yn yr Efengyl hon, teimlai yr ysgrifenwr mor annrhaethol bell ydoedd o gyfleu syniad cyflawn a digonol am yr hyn a wnaeth yr Iesu, yr hwn oedd yn rhodio beunydd oddiamgylch gan wneuthur daioni. Ymrithiau geiriau grasol yr Iesu, a'r anneirif gymwynasau a wnaeth Efe gerbron ei feddwl, nes y cymhelliwyd ef i ddefnyddio yr iaith gryfaf er cyfleu syniad teilwng am hyny.

Priodol iawn y dywed Dr. W. Edwards: "Nid oes gennym ond darnau o tua un rhan o ddeg o hanes Crist; eto y mae y byd heddyw yn llawn o lenyddiaeth seiliedig ar y darnau hyn. *Hadau* oedd geiriau Crist ag ynddynt elfennau tyfiant anfesurol, ac yr oedd yn mhob gweithred o'i eiddo arwyddocad dihysbyddol."

"Y mae pob darllenydd crediniol o'r Beibl ag sydd wedi cyraedd gradd uchel mewn profiad neu wybodaeth yn hoffi yr Efengyl yn ol Ioan; ac y mae pawb sydd yn meddu ar y ddau yn ei hoffi â hoffder dyblyg."—Dr. Lewis Edwards.

NODIADAU.

NODIAD A.

Y Swper Olaf, a Dydd y Croeshoeliad.

Dyma ddau fater digon dyrus, ac anawdd eu penderfynu, gyda sicrwydd hollol. Credaf, pa fodd bynnag, fod yn amhosibl cysoni â'u gilydd adroddiadau yr Efengylwyr Cydolygol Mathew, Marc, a Luc, gydag adroddiad Ioan yn y Bedwaredd Efengyl. Dichon nad yw adroddiadau yr Efengylau Cydolygol mor eglur a chyson ag y dymunem iddynt fod, ond, ar y cyfan, arweiniant ni i gredu fod y Swper Olaf a'r Pasg yr un peth, ac i'r Croeshoeliad gymeryd lle ar ol yr wyl hono. Darllenner Mathew xxvi. 17–25, Marc xiv. 12–21, Luc xxii. 7–18. Ond y mae adroddiad Ioan yn ei Efengyl ef yn dweyd yn eglur ddigon, ac yn hollol gyson, na fwytaodd yr Iesu mo'r Pasg gyda'i ddisgyblion, ac iddo farw ar y Groes tua'r amser yr oeddynt yn arfer aberthu oen y Pasg. Dywed Ioan yn bendant i'r Iesu swpera gyda'i ddisgyblion "*cyn gwyl y pasg*" (Ioan xiii. 1), a phan aeth Judas allan ar ol y swper, tybiodd y disgyblion mai myned allan a wnaeth mewn ufudd-dod i orchymyn yr Iesu, *i brynu yr hyn oedd arnynt ei eisieu erbyn yr wyl* (xiii. 29). Ac ymhellach, dywed Ioan nad aethai yr Iuddewon i mewn i'r dadleudy, "*rhag eu halogi, eithr fel y gallent fwytta y pasg*" (xviii. 28); ac i'r Iesu gael ei groeshoelio ar *ddarpar-wyl y pasg* (xix. 14). Ac hefyd i'r Iesu gael ei gladdu mewn bedd yn agos i'r fan y croeshoeliwyd ef, "*rhag nesed oedd darpar-wyl yr Iuddewon* (xix. 42). Fel hyn y mae pob crybwylliad o eiddo Ioan yn dilyn mewn trefn amseryddol, ac yn hollol gyson â'u gilydd. Yn awr, pa adroddiad sydd debycaf o fod yn gywir, eiddo yr Efengylau Cydolygol, neu ynte eiddo y Bedwaredd Efengyl? Heb betrusder, atebaf mai eiddo y Bedwaredd Efengyl. Mae'n amhosibl meddwl fod Ioan wedi camgymeryd, canys yr oedd yn llygad-dyst o'r amgylchiadau a gofnodir ganddo ef. Ac nid oes dim yn annaturiol mewn credu fod Ioan, gan ei fod yn ysgrifennu ar ol cyfansoddiad yr Efengylau eraill, ac yn

hysbys o'u cynnwys, yn bwriadu cywiro eu camgymeriadau. Credaf felly ar gwestiwn y Swper Olaf, a dyddiad y Croeshoeliad, mai yr Efengylau Cydolygol sydd i roddi i mewn i'r Bedwaredd Efengyl, ac nid y Bedwaredd Efengyl i'r Efengylau Cydolygol.

Credaf felly mai nid y Pasg Iuddewig y cyfranogodd yr Iesu ohono gyda'i ddisgyblion, ond rhyw swper Iuddewig arall. Noda y Parch. G. H. Box, sydd wedi gwneud ymchwiliad manwl i'r cwestiwn hwn, y rhesymau canlynol yn erbyn golygiad yr Efengylau Cydolygol:—(1) Fod eu tystiolaeth yn anghyson. Lleddid oen y Pasg ar y 14eg o Nisan, ond yr oedd "y dydd cyntaf o wyl y bara croyw," yn ol y cyfrif Iuddewig, ar yr 15fed o Nisan. O ganlyniad, y mae'r frawddeg, "A'r dydd cyntaf o wyl y bara croyw, *pan aberthent y pasg*," yn cynnwys gwrth-ddywediad. (2) Ni cheir un cyfeiriad at oen y Pasg yn yr holl adroddiadau am sefydliad y Swper. (3) Ni sonir ond am *un* cwpan, o'r hon yr yfodd pawb, yn yr holl adroddiadau am y Swper, tra yr oedd gan bob un ei gwpan ei hun yn y Pasg Iuddewig i yfed ohoni. Tybia eraill i'r Iesu, wrth sefydlu y Swper Sanctaidd, ragflaenu'r Pasg rheolaidd gan yr Iuddewon o ddiwrnod. Eithr y mae yn anawdd gwybod pa fodd y cafodd yr Iesu a'i ddisgyblion oen i gynnal eu Pasg y noswaith cyn lladd oen y Pasg. Ac ni fyddai y darganfyddiad hwn, pe yn ffaith, yn egluro yr anhawsder, oblegid fe ddywed yr Efengylau Cydolygol i'r Iuddewon, yn ogystal a Christ a'i ddisgyblion, gynnal eu Pasg yr un noson.

Y cwestiwn arall yw, Ar ba ddydd o'r wythnos y bu y Croeshoeliad? Rhaid cychwyn oddiwrth y ffaith mai y trydydd dydd yr adgyfododd yr Iesu o'r bedd, ac fod y trydydd dydd y dydd *cyntaf* o'r wythnos. Yn ol y dull Iuddewig o lefaru, golygai y trydydd dydd, os yn edrych yn ol *echdoe*, ac os yn edrych yn mlaen *drennydd*. Cyfrifent y dydd y cymerodd y digwyddiad le yn un, a'r dydd o'r hwn yr edrychent yn un arall, ac un dydd rhyngddynt yn cyfrif tri. Yn ol y cyfrif hwn y trydydd dydd o edrych yn ol o ddydd yr adgyfodiad, sef y cyntaf o'r wythnos, raid fod dydd *Gwener*. Ac yr oedd hwnw, yn ddilys ddigon, yn disgyn ar y 14eg o Nisan. Yn ol Exodus xii. 6–10, yr oedd oen y Pasg i'w ladd ar 14eg o Nisan yn y prydnawn neu y "cyfnos," ac yn ystod y nos yr oedd i gael ei fwyta.

Er fod awdurdod mor uchel a Dr. Westcott yn credu mai ar ddydd Iau y croeshoeliwyd ein Gwaredwr, eto y mae yna resymau cryfion yn erbyn y fath dybiaeth. Dywed Dr. Chwolson, awdurdod Iuddewig uchel, y cedwid y 15fed o Nisan bob amser gan yr Iuddewon, megis Sabboth, ac felly nas gellir meddwl i'r pethau canlynol, o dan unrhyw amgylchiadau, gymeryd lle ar y cyfryw ddiwrnod. (a) Dal Crist yn yr ardd, (b) y treialon yn y llysoedd Iuddewig a gwladol, (c) y dyn yn dyfod o'r maes, h.y., oddiwrth ei waith (Marc xv. 21), (d) Joseph yn prynnu'r llieiniau, &c. Noda Godet hefyd y cyfeiriadau canlynol yn yr Efengylau cydolygol (Math. xxvii. 62; Marc xiv. 2, xv. 42-46; Luc xxiii. 53-56) fel yn cadarnhau 14eg o Nisan fel dydd y Croeshoeliad. Y mae traddodiad eglwysig hefyd y gellir ei olrhain yn ol i Polycarp, disgybl yr Apostol Ioan, yn bleidiol i'r 14eg o Nisan, ac nid y 15fed.

Gwelir felly, yn ol y golygiad hwn, i Oen Duw gael ei aberthu yr un amser ag y lleddid oen y Pasg, ac felly y cysgod a'r gwrthgysgod yn cyfateb i'w gilydd o ran amser, yn ogystal ag mewn ystyron eraill.

NODIAD B.

Adgyfodiad Crist yng ngoleuni Efengyl Ioan.

1. Codir gwrthwynebiad gan Anffyddwyr i hanes adgyfodiad yr Arglwydd Iesu o'r bedd, am nad oes gennym, meddant hwy, dystiolaeth un oedd yn llygad-dyst o'r amgylchiadau. Eithr os nad oes gennym dystiolaeth o'r nodwedd hono yn yr Efengylau cydolygol, yn sicr y mae gennym dystiolaeth felly yn y Bedwaredd Efengyl. Pa fwyaf yr efrydir yr Efengyl hon, gyda meddwl agored, diragfarn, cryfaf oll yw yr argyhoeddiad ei bod yn waith un oedd yn llygad-dyst o'r amgylchiadau a gofnodir. Ac felly y mae gennym yn Ioan yr Efengylwr dyst o'r dosbarth blaenaf i adgyfodiad ein Gwaredwr. "Yr hyn a glywsom, yr hyn a welsom a'n llygaid, yr hyn a edrychasom arno, ac a deimlodd ein dwylaw am Air y bywyd," yw ei dystiolaeth groew a chadarn ef, 1 Ioan i. 1.

Yn yr 20fed bennod, nid adrodd yr hyn a glywodd gan eraill, neu ffrwyth ymchwiliad manwl i hanesion a thraddodiadau (fel Luc i. 1–3) y mae Ioan, ond adrodd yn syml yr hyn a welodd â'i lygad ei hun. Ac felly dylid edrych ar Ioan fel y tyst blaenaf i adgyfodiad yr Arglwydd Iesu Grist, a phob crybwylliad a chyfeiriad arall yn y Testament Newydd at ei adgyfodiad fel yn cadarnhau ei dystiolaeth ef.

2. Gwelir yn eglur fod adroddiad Ioan o hanes adgyfodiad Crist yn myned yn llwyr o dan sail haeriad rhai Anffyddwyr, fod yna *ddisgwyliad* yn mhlith ei ddilynwyr am ei adgyfodiad, ac mai hyny barodd i Mair Magdalen *ddychmygu* ei weled ef yn fyw. Ni ellir meddwl am ddim yn cael ei wrthbrofi yn llwyrach na'r dybiaeth hon gan yr Efengylwr Ioan. Nid oedd y gwragedd aethant gyntaf at y bedd, na Pedr ac Ioan a'u dilynasant, na Thomas, yn disgwyl o gwbl weled yr Iesu yn fyw. Am y gwragedd, myned at y bedd i eneinio corff marw yr Iesu oedd eu bwriad hwy. Myned yno y mae Pedr ac Ioan i edrych oedd adroddiad Mair yn gywir fod corff marw yr Iesu wedi ei symud o'r bedd. Ac am Thomas, ni chredai y disgybl pruddglwyfus hwnw dystiolaeth bendant ac unol ei gyddisgyblion fod yr Iesu yn fyw. Yn hollol groes i'w disgwyliadau a'u gobeithion, gorchfygwyd hwynt gan brawf cadarn, ac hollol anwrthwynebol, fod yr Iesu a fu farw ac a gladdwyd wedi dyfod

yn fyw drachefn. Mae'n deilwng o sylw mai nid yn hollol yn yr un ffordd, neu trwy yr un moddion, y gorchfygwyd eu hanghrediniaeth. Y bedd gwag gafodd fuddugoliaeth ar Pedr ac Ioan; ymddanghosiad yr Iesu yn yr ardd wnaeth i Mair gredu yn ei adgyfodiad; ac ymddanghosiad Crist yn eu cynulliad wythnosol goncrodd anghrediniaeth cyndyn Thomas. Amlwg yw mai buddugoliaethu ddarfu ffydd yn adgyfodiad Crist yn wyneb anhawsderau, ac nid cael ei derbyn gan feddyliau rhagdueddol ati. Ac y mae'r ystyriaeth bwysig hon yn myned yn bell iawn i brofi gwirionedd ei adgyfodiad.

3. Gwelir oddiwrth y ddwy bennod olaf yn Efengyl Ioan fod yna raddau o ddirgelwch yn nglyn â bywyd adgyfodedig ein Gwaredwr. Ni fu byw ar ol ei adgyfodiad fel yr arferai a byw cyn ei farw. Nid oedd yn troi ym mhlith ei ddisgyblion, yn cymdeithasu gyda hwynt, yn bwyta ac yn yfed ac yn cyd-deithio gyda hwynt, fel cynt. Ymddangos neu amlygu ei hun yn achlysurol, ac mewn ffordd oedd braidd yn rhyfedd a dyeithr iddynt, yr oedd ar ol ei adgyfodiad. Dyfod atynt am ychydig amser trwy ddrysau cauedig, ymddangos yn annisgwyliadwy ar draeth mor Galilea, &c. Ni ddylid meddwl oddiwrth hyn nad oedd gan yr Iesu gorff gwirioneddol ar ol ei adgyfodiad. Nid rhith o gorff, ond un sylweddol oedd ganddo. Credaf hefyd ei fod yr un corff ag a fu yn gorwedd ym medd newydd Joseph o Arimathea, ond ei fod wedi ei draws-ffurfio o fod yn gorff "anianol," neu yn fwy cywir *eneidiol*, i fod yn gorff ysprydol. Nis gwyddom nemawr i ddim am y gwahaniaeth sydd rhwng ansoddau corff eneidiol a chorff ysprydol. Ond gellir credu fod y naill wedi ei gyfaddasu ar gyfer byd materol a gweledig, a'r llall ar gyfer byd ysprydol ac anweledig. Nid yw y corff ysprydol yn ddibynol ar y materol am gynhaliaeth, nac am amddiffyniad, nac yn ddarostyngedig i ddeddfau mater a lle. Cymerodd cyfnewidiad le yng nghorff yr Iesu yn ei adgyfodiad, cyffelyb i'r cyfnewidiad effeithir ar gyrff y credinwyr a fyddant byw ar y ddaear yn y dydd diweddaf, 1 Cor. xv. 50–53. Yn ei adgyfodiad personol o'r bedd foreu y trydydd dydd, fe brofodd yr Iesu uwchlaw pob amheuaeth, wirionedd ei ddatganiad amdano ei hun, "*Myfi yw yr adgyfodiad a'r bywyd*," ac felly yr oedd cysondeb perffaith a phrydferth rhwng ei eiriau a'i weithredoedd ef.

NODIAD C.

Cristiolaeth Efengyl Ioan.

Ceisir codi gwrthwynebiad i'r Bedwaredd Efengyl ym mhlith beirniaid anffyddol, am y tybiant ei bod yn rhoddi amlygrwydd arbennig i'r goruwchnaturiol a'r Dwyfol yn hanes Iesu Grist. Eithr nis gallaf weled fod nemawr i ddim gwahaniaeth yn yr ystyr hon rhyngddi a'r Efengylau Cydolygol. Rhoddir yr un amlygrwydd i'r gwyrthiau ac i adgyfodiad Crist ynddynt hwy, ag a roddir iddynt yn Efengyl Ioan. Ac nid yw yr Efengyl hon yn ychwanegu dim at ryfeddod, dirgelwch, na natur wyrthiol yr adgyfodiad. Nid yw yr awdwr yn ceisio angherddoli dim ar yr elfen wyrthiol yn adgyfodiad yr Iesu. Yr oll a wna yw cofnodi ychwaneg o ymddanghosiadau yr Iesu ar ol ei adgyfodiad. Eithr mewn gwirionedd, bai mawr y Bedwaredd Efengyl, yng ngolwg beirniaid anffyddol Germani, ydyw fod darlun sydd ynddi o Grist yn rhy Ddwyfol a gogoneddus.

Ceisia y beirniaid hyn ddadleu fod y defnydd wneir yn yr Efengyl hon o'r teitlau, "Mab y dyn," "Mab Duw," a "Christ," yn wahanol iawn i'r defnydd wneir ohonynt gan ddisgyblion cyntaf yr Iesu; ac fod ystyr yn cael ei roddi iddynt sydd yn profi mai rhyw un tua dechreu yr ail ganrif, os nad yn ddiweddarach na hyny, sydd yn eu defnyddio. Nid oes derfyn ar ddyfais y beirniaid anffyddol hyn i geisio gwrthbrofi dilysrwydd yr Efengyl hon. Teimlant mai hon yw prif amddiffynfa Cristionogaeth.

Yn awr, yr ydym yn cael fod y teitl "Mab y dyn" yn cael ei ddefnyddio ddengwaith ar hugain gan Mathew, bedair waith ar ddeg gan Marc, a phum waith ar hugain gan Luc. Nis gall fod un amheuaeth gyda golwg ar yr ystyr a gyfleid gan y term i'r gwrandawyr. Pa beth bynag oedd ei ystyr yn yr Hen Destament, ac yn enwedig Llyfr Daniel vii. 14, yr oedd y traddodiad ym mhlith yr Iuddewon wedi dyfod i gysylltu yr ymadrodd "Mab y dyn" gyda'r syniad am y Messia. Gwir nad oedd Messia yr Iuddewon yn ddim ond Gwaredwr. Ni ddychmygasant o gwbl am dano fel Person Dwyfol wedi ymgnawdoli, ac un i'w gwaredu oddiwrth bechod. Gwaredwr

gwladol a thymhorol yn unig oedd yn eu golwg. Ceisia Wellhausen ac eraill o dueddiadau rhesymolaidd, ddadleu mai cyfieithiad yw "Mab y dyn" o air yn yr Aramaeg *Bar enosh* yn arwyddo dyn yn unig. Eithr dadleua Dr. Driver a Mr. Allen, mai gair gwahanol a ddefnyddid yn yr Aramaeg i ddynodi dyn yn unig, ac mai y gair hwnw a ddefnyddiasid yn yr Efengylau, pe mai eu hamcan fuasai dweyd nad oedd yr Iesu yn ddim ond dyn cyffredin.

Credaf y defnyddir yr ymadrodd gan yr Efengylau Cydolygol mewn dwy ystyr, (*a*) am Grist a chymeryd golwg ddynol arno yn unig, (*b*) am Grist wedi ei ogoneddu Ond y mae yn deilwng o sylw fod yr Efengylwr Ioan yn defnyddio yr ymadrodd am Grist mewn cysylltiad a'i ogoneddiad yn unig. Rhoddaf yr enghreifftiau a ganlyn o hyny :—"Ar ol hyn y gwelwch y nef yn agored, ac angylion yn esgyn ac yn disgyn ar Fab y dyn," i. 51, "Ac ni esgynodd neb i'r nef, oddieithr yr hwn a ddisgynodd o'r nef, sef Mab y dyn, yr hwn sydd yn y nef," iii. 13. "Beth gan hynny, os gwelwch Fab y dyn yn dyrchafu lle yr oedd efe o'r blaen?" vi. 62. "Daeth yr awr y gogonedder Mab y dyn," xii. 23. "Yna gwedi iddo fyned allan, yr Iesu a ddywedodd, Yn awr y gogoneddwyd Mab y dyn, a Duw a ogoneddwyd ynddo ef," xiii. 31.

Y mae yn amlwg felly fod Ioan yn defnyddio yr ymadrodd o'r dechreuad gyda'r amcan o gyfleu syniad am natur Ddwyfol y Messia. Ond dylid cofio pan y defnyddir ef yn y Bedwaredd Efengyl, y defnyddir ef yn *ddieithriad* i lefaru, nid wrth y bobl yn gyffredinol, ond yn hytrach yn gyfrinachol, wrth Nathanael, Nicodemus, wrth y cylch Apostolaidd, ac wrth y disgyblion hyny a dramgwyddasant wrth ddysgeidiaeth Crist yn Capernaum. Nid fod yr ysgrifennwr wedi darllen i mewn i'r ymadrodd ystyr newydd, yr hwn a ddadblygodd erbyn amser ysgrifeniad yr Efengyl, ond yn hytrach engreifftiau sydd yma o hunan-amlygiad Crist fel Mab y dyn, ag oedd yn Ddwyfol o'r cychwyn i gylch detholedig ei ddisgyblion. Gwir nad oedd rhai ohonynt yn dirnad ei hunan-amlygiad iddynt hwy yn unig, nes bod yn barod i ofyn gyda Judas (nid yr Iscariot), "Paham yr wyt ar fedr dy eglurhau dy hun i'r byd, ac nid i ni!" Eithr y mae amryw engreifftiau ar gael yn yr Efengylau Cydolygol o'r ymadrodd "Mab y dyn," yn cael ei ddefnyddio yn

hollol gyfochrog a'r Bedwaredd Efengyl. Ni ychwanegodd yr awdwr ddim at ei ystyr.

Y termau eraill sydd yn cyfleu dysgeidiaeth yr Efengyl hon gerbron am berson Crist ydynt,—"Y Mab" a "Mab Duw." Cymhwysir y termau hyn at Grist oddeutu deng waith ar hugain yn Efengyl Ioan. Mewn rhai lleoedd, defnyddir y gair "*uniganedig*" yn eu lle (i. 14, 18; iii. 16, 18). Darllennir gan rai beirniaid dysgedig y gair "uniganedig" yn i. 18, yn "unig-genedledig" neu "Dduw uniganedig." Ond pa ddarlleniad bynnag a dderbynnir, y maent oll yn cyduno i gyfleu y syniad fod rhyw berthynas *neilldnol ac arbennig* rhwng Crist a Duw fel Tad iddo. Os oes gan Dduw feibion eraill, meibion ydynt oll trwy *greadigaeth*, ac nid trwy *genhedliad*. Crist yw yr "Unig-genedledig." Tybia un awdwr nad yw Ioan wrth ddefnyddio y geiriau "Y Mab" a "Mab Duw" yn golygu dim mwy nag a olygai wrth ddefnyddio yr ymadrodd "Mab y dyn"; ac mai yr unig wahaniaeth yw, fod y naill ymadrodd yn pwysleisio yr agwedd ddynol i'w Berson, a'r termau eraill yn pwysleisio yr agwedd Ddwyfol i'w Berson rhyfeddol. Eithr nis gallaf dderbyn y golygiad hwn, ac yn ol addefiad yr awdwr ei hun, y mae y gwahaniaeth yn y pwyslais yn awgrymu yn gryf nad ydynt yn hollol gyfystyr.

Yr wyf yn hollol argyhoeddedig fy hun nad allasai Ioan ddewis geiriau cryfach i ddysgu fod Crist mewn gwirionedd yn neb llai na Mab Duw, na'r geiriau a ddefnyddia pan yn son amdano yn "Fab," "Mab Duw," a'r "Unig-genedledig."

Yn awr, yr unig ffordd y ceisia Rhesymolwyr, fel Wendt ac eraill, wrthwynebu tystiolaeth eglur a phendant yr Efengyl hon i wir a phriodol Dduwdod Crist, ydyw trwy ddadleu fod y geiriau "Y Mab," a "Mab Duw," yn cyfeirio at berthynas *foesegol*, ac nid perthynas *arddansoddol* (*metaphysical*) â Duw. Yn ol y ddysgeidiaeth hon, nid oes dim gwahaniaeth rhwng perthynas Crist â Duw, nag sydd rhwng perthynas pob dyn sydd yn caru Duw, ac yn ceisio cadw ei orchymynion, âg Ef. Y mae y naill fel y llall yn fab iddo mewn ystyr foesegol. Eithr pwy a ddichon gredu, ond rhai sydd eisoes yn Undodwyr, mai dyma ystyr y geiriau canlynol,—"Y mae y Tad yn caru y Mab, ac a roddes bob peth yn ei law ef" (iii. 35). "Nid oherwydd gweled o neb y Tad, ond yr hwn sydd o Dduw, efe

a welodd y Tad" (vi. 46). "Myfi a'r Tad un ydym" (x. 30). "Credwch fi, fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynof finau" (xiv. 11). Yn sicr, dysgir yn y geiriau hyn fod perthynas neillduol ac hanfodol rhwng y Tad a'r Mab. Nid oes neb o'r un natur a hanfod a'r Tad, ond y Mab yn unig.

Ymddengys fod sail i gredu nad oedd y teitl "Mab Duw" mewn arferiad cyffredin ym mhlith yr Iuddewon i ddynodi y Messia. Enw personol oedd Mab Duw, tra mai enw swyddogol oedd y Crist neu y Messia. Yr oedd ei waith fel y Messia yn seiliedig ar ei fod yn Fab Duw. Ac os felly rhaid mai dynodi ei berthynas arbennig a Duw yr oedd y termau, "Y Mab," a "Mab Duw." Hollol ofer ac aflwyddianus yw pob ymgais i wacâu y geiriau hyn o'u hystyr naturiol a phriodol. Trwy hyny, gwneir i ffwrdd a phob gwahaniaeth gwirioneddol rhwng Crist a dynion yn gyffredin. Ceisir esbonio ymaith bob gwahaniaeth hanfodol rhwng Mabolaeth Crist a'n heiddo ninnau, ac nid oes wedi ei adael ond gwahaniaeth gradd yn unig.

Eithr y mae un rhwystr mawr arall ar ffordd llwyddiant y fath esboniad arwynebol. Dysg awdwr y Bedwaredd Efengyl hefyd, fod Crist yn hollol wahanol i bob dyn arall, yn bodoli cyn ei ymddanghosiad ar y ddaear,—ei fod yn bodoli yn nhragwyddoldeb. "Yn y dechreuad yr oedd y Gair" (i. 1). "Ac ni esgynodd neb i'r nef, oddieithr yr hwn a ddisgynodd o'r nef, sef Mab y dyn" (iii. 13). "Beth gan hynny os gwelwch Fab y dyn yn dyrchafu lle yr oedd efe o'r blaen?" (vi. 62). "Yn wir, y meddaf i chwi, Cyn bod Abraham yr wyf fi" (viii. 58). "Mi a ddaethum allan oddiwrth y Tad, ac a ddaethum i'r byd : trachefn, yr wyf yn gadael y byd, ac yn myned at y Tad" (xvi. 28). "Ac yr awrhon, O Dad, gogonedda di fyfi, gyda thi dy hun, a'r gogoniant oedd i mi gyda thi cyn bod y byd" (xvii. 5). Y llwybr rhyfedd gymer Wendt a'i gydresymolwyr i geisio osgoi grym y geiriau eglur a phendant hyn ydyw haeru mai son y mae'r Efengylwr am fodolaeth ddelfrydol Crist yn unig. Yr oedd yn bod cyn ei enedigaeth o Fair y Forwyn, ebai y doethwyr hyn, ym meddwl, ym mwriad, ac yn arfaeth Duw erioed. Cydnebydd Wendt fod geiriau Ioan yn cyfleu i glustiau diweddar (*modern*), y syniad fod yr Iesu yn bodoli yn nhragwyddoldeb. Ond rhyfedd na

fuasai wedi meddwl mai dyma y syniad gyfleodd y geiriau i glustiau yr Iuddewon, pan y llefarwyd hwy gyntaf. Darllener viii. 56–59. Yn sicr, y mae yn fater o syndod i mi pa fodd y mae dynion dysgedig yn gallu bodloni ar esboniad mor hynod o lipa a diniwaid ar eiriau yr Efengylwr. Pe mai dyma fuasai meddwl y geiriau, ni fuasai dim gwahaniaeth o gwbl rhwng rhagfodaeth Crist ag eiddo pob dyn arall. Canys y mae pob dyn a anwyd i'r byd erioed wedi bod ym meddwl, ym mwriad, ac yn rhagwybodaeth Duw, cyn ei enedigaeth. Ac felly y mae geiriau Crist yn hollol ddiystyr a disynwyr. Pa un sydd hawsaf ei gredu, fod Crist wedi llefaru geiriau disynwyr, neu fod Wendt ac eraill yn esbonio ei eiriau yn ddisynwyr? Yn sicr, yr olaf o ddigon.

Fel hyn y mae'r efengyl hon yn dysgu, yn y geiriau egluraf a chryfaf, fod Crist yn wir a phriodol Dduw. "Os nad yw Iesu Grist yn Dduw," ebai Canon Liddon, "pa fodd y daeth yr agosaf ato, yr anwylaf o'i holl gyfeillion daearol, i gredu ac i ddysgu ei fod yn Dduw?"

NODIAD D.

Bywyd, a Bywyd Tragwyddol.

Sylwa Dr. A. B. Bruce yn bur briodol fod y ddysgeidiaeth Gristionogol yn y Testament Newydd yn cymeryd pedair ffurfell (*type*) wahanol, ag y gellir eu disgrifio fel y canlyn: *Teyrnas Dduw*, yn yr Efengylau Cydolygol; *Cyfiawnder Duw*, yn Epistolau Paul; *Dyfodfa Rydd at Dduw*, yn y Llythyr at yr Hebreaid; a *Bywyd Tragwyddol*, yn Efengyl Ioan. Cyfarfyddwn â'r geiriau, "Bywyd," neu "Fywyd Tragwyddol," mewn gwahanol gysylltiadau yn yr efengyl hon ddim llai na phedair ar ddeg ar hugain o weithiau, fel ag y mae yn eglur fod i'r geiriau hyn le arbennig iawn ynddi, ac ni ellir dweyd ein bod yn deall ei ddysgeidiaeth, os nad ydym wedi talu sylw neillduol i'r geiriau cynnwysfawr, "bywyd" a "bywyd tragwyddol."

Er y gall ymddangos ar yr olwg gyntaf fod yr efengylwyr eraill yn defnyddio y geiriau "bywyd tragwyddol" mewn ystyr wahanol i'r Efengylwr Ioan, eto credaf eu bod yn cytuno o ran sylwedd. Cyfeirio y mae Mathew, Marc, a Luc at "fywyd tragwyddol" fel peth i'w feddiannu yn y *dyfodol*, ac nid yn y presennol. Wele engraifft neu ddwy o hyny: "Ac yn y byd a ddaw fywyd tragwyddol" (Marc x. 30); "Ac yn y byd a ddaw fywyd tragwyddol" (Luc xviii. 30). Ond yn Efengyl Ioan rhoddir pwyslais ar y gwirionedd fod bywyd tragwyddol yn eiddo *presennol* y credadyn. "Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, y neb sydd yn gwrandaw fy ngair i, ac yn credu i'r hwn a'm hanfonodd i—nid "a gaiff"*, ond—y *mae ganddo* fywyd tragwyddol, ac ni ddaw i farn; eithr efe a aeth trwodd o farwolaeth i fywyd" (v. 24). Eto, "Yr hwn sydd yn credu ynof fi, sydd ganddo fywyd tragwyddol" (vi. 47). "Yr hwn sydd yn bwytta fy nghnawd i, ac yn yfed fy ngwaed i, sydd ganddo fywyd tragwyddol: ac myfi a'i hadgyfodaf ef yn y dydd diweddaf" (vi. 54).

Gwelir oddiwrth y geiriau hyn, er y dysgir yn eglur ynddynt fod bywyd tragwyddol yn eiddo presennol y credinwyr, eto, fod yna

* Un o'r pethau mwyaf annealladwy i mi yw, pa fodd y cyfieithwyd y geiriau Gr. *echei zôên aiônion* i'r Gymraeg yn "*gaiff* fywyd tragwyddol."

gyfeiriad at y dydd diweddaf (vi. 40) fel adeg ei gwblhad. Ac felly cysyllta Ioan fywyd tragwyddol nid yn unig gyda'r presenol, ond hefyd gyda'r dyfodol, ac o ganlyniad nid yw yn wahanol i'r Efengylwyr eraill. Bywyd ysprydol yn arwain i fywyd tragwyddol, ac yn terfynu ynddo, yw achubiaeth pechadur o'r dechreu i'r diwedd, yn ol Ioan. Ond sonia yr efengylwyr eraill am achubiaeth *bresennol* y credadyn fel profiad o faddeuant pechod, gorffwysdra, cyfiawnhad, ac iachawdwriaeth, a chadwant fywyd tragwyddol hyd y dyfodol.

Os am gymeryd golwg deg a chyflawn ar ddysgeidiaeth y Bedwaredd Efengyl ar fywyd tragwyddol, rhaid edrych arno yn ei berthynas â'r *presennol* ac yn ei berthynas â'r *dyfodol*.

Wrth edrych arno yn ei berthynas â'r presenol, rhaid galw sylw at *ddechreuad* a *natur* y bywyd ysprydol sydd yn eiddo y credadyn. Dysgir yn eglur pan y mae ffydd yng Nghrist mewn ymarferiad o du y dyn, fod Duw yn cyfrannu iddo fywyd o ansawdd ysprydol a dwyfol. Cyfranna iddo ef y bywyd hwn trwy ei aileni, neu ei eni oddi uchod (iii. 3, 5, 6). Megis y mae dyn yn dyfod i feddiant o fywyd naturiol trwy enedigaeth naturiol, felly y mae yn dyfod i feddiant o fywyd ysprydol trwy enedigaeth ysprydol a goruwchnaturiol. Yn i. 13 cyferbynnir yr enedigaeth ysprydol gyda'r naturiol. Nid yw "o waed, nac ewyllys y cnawd, nac ewyllys gwr," ond yn hollol "o Dduw." Yn iii. 3—8, ymddengys mai nid y cenhedlu, ond y geni, sydd yn bennaf mewn golwg; trawsffurfiad, yn hytrach na chynyrchiad (*origination*), y bywyd newydd. Pa un bynnag a ddeallir y Gr. *anôthen* yn yr ystyr o "drachefn" neu "oddiuchod," ni wnaiff ddim gwahaniaeth. Cyfeiria y naill neu'r llall at adnewyddiad ysprydol o weithrediad Duw, trwy ei Yspryd, fel cymhwysder anhebgorol angenrheidiol, er myned i mewn i'r deyrnas Ddwyfol. Ar ol i Nicodemus son am yr enedigaeth naturiol fel yr unig un y gallai ef feddwl amdani, etyb yr Iesu fod dyn yn perthyn i ddau gylch, y naturiol a'r ysprydol; ac fel yr oedd ei enedigaeth anianyddol yn dynodi dechreuad ei fywyd naturiol a thymhorol, felly yr oedd yr enedigaeth ysprydol yn dynodi dechreuad bywyd uwch yn y rhan ysprydol o'i natur ef. Awgryma fod cyfnewidiad mor fawr yn cymeryd lle yn ei dueddiad a'i gymeriad, pan yn

myned i mewn i deyrnas Dduw, ag a gymerodd le yn ei fywyd naturiol pan anwyd ef. Mae'r enedigaeth newydd yn drawsffurfiad ysprydol—yn fynedfa i mewn i fyd newydd o gymhellion, buddiannau, a gobeithion. Ac y mae y cwrsweithrediad hwn, ebai, ymhellach, yn llawn dirgelwch, fel chwythiad y gwynt, yr hwn, er clywed ei swn, nis gallwn ddeall ei symudiad nac olrhain ei gychwyniad, na'i fynediad. Dyma ddysgir am ddechreuad y bywyd newydd ac ysprydol. Edrych ar y cyfnewidiad achubol yn dufewnol, ac nid yn wrthrychol ac allanol, y mae'r efengyl hon. A dyma y rheswm paham y geilw yr Efengylwr ddeiliaid y cyfnewidiad hwn yn *blant*, ac nid yn feibion i Dduw. Arwydda plant, yn fwy na meibion, rai yn cyfranogi o anian a bywyd Duw ei hun. Gellir mabwysiadu estron, a'i wneuthur yn fab, ond rhaid geni y plentyn o'r teulu; rhaid i'w gwaed a'u natur fod ynddo ef.

Dylid sylwi fod i'r bywyd newydd ac ysprydol hwn, er yr holl ddirgelwch a berthyn iddo, brofion sicr ac anwadadwy o'i bresenoldeb. Lle bynnag y mae, effeithia yn uniongyrchol ar fywyd ac ymddygiadau ei feddiannydd. Daw yn sicr i'r amlwg mewn cariad, mewn cyfiawnder, ac mewn ufudd-dod i orchmynion Duw. Ymhelaetha Ioan, yn ei Epistol cyntaf, ar ddylanwad y bywyd newydd mewn cylchoedd ymarferol a moesegol. Dywed fod ei feddiannydd yn caru y brodyr, yn gorchfygu y byd ac yn ymwrthod â phechod yn llwyr ac yn hollol. A defnyddia iaith mor gref nes dweyd nas gall yr hwn a aned o Dduw bechu (1 iii. 9). "Ac nid all efe bechu, am ei eni ef o Dduw." At yr un profion ymarferol y cyfeirir pan y dywedir fod y rhai sydd mewn undeb ffydd â Christ, ac yn aros yn y Wir Winwydden, yn cael eu glanhau, fel y dygent fwy o ffrwyth (xv. 2). Wrth ei "ffrwythau addas" y mae adnabod presenoldeb gwirioneddol y bywyd newydd ac ysprydol. Lle y mae y ffrwyth o sancteiddrwydd yn absennol yn y fuchedd a'r ymarweddiad, yn sicr y mae y bywyd ei hun yn absennol o'r galon.

A chyn gadael yr agwedd hon i'r pwnc, rhaid sylwi ar foddion meithriniad a diogeliad y bywyd ysprydol. Megis mai trwy ddyfod at Grist, a chredu ynddo ef, y cynhyrchwyd y bywyd hwn i ddechreu, felly trwy barhau mewn undeb ffydd a'r Gwaredwr yn unig, y gellir diogelu ei gynnydd, a'i barhad. Y mae i bob bywyd amodau ei

barhad, ac felly hefyd y bywyd ysprydol. Amod pwysicaf parhad y bywyd hwn ydyw, ei fod yn parhau mewn cysylltiad â'i ffynhonell wreiddiol. Ac y mae hono yng Nghrist yn unig. "A minnau ydwyf yn rhoddi iddynt fywyd tragwyddol" (x. 28). Rhoddir pwyslais ar yr un gwirionedd yn Alegori y Wir Winwydden yn xv. 1—6. Ni ellir meddwl am ddim eglurach a chryfach na'r hyn a ddywedir yn y geiriau canlynol, "Yr hwn sydd yn aros ynof fi a minnau ynddo yntau, hwnnw sydd yn dwyn ffrwyth lawer ; oblegid hebof fi [ar wahan oddiwrthyf fi, C.S.D.] ni ellwch chwi wneuthur dim." Gwelir, gan hyny, mai bywyd ydyw yng Nghrist, a thrwy Grist. Nid oes neb yn disgwyl i'r gangen beidio gwywo a marw, os wedi eu hysgar oddiwrth y pren, ac felly pob dyn heb fod mewn undeb ffydd a Mab Duw, unig ffynonell bywyd ysbrydol, nis gall beidio gwywo a marw.

Rhaid edrych eto ar y bywyd hwn yn ei berthynas a'r dyfodol, ac yn y goleu hwn yn bennaf y gelwir ef yn "fywyd tragwyddol." Cred rhai esbonwyr mai dynodi ansawdd y bywyd yn unig, heb unrhyw gyfeiriad at ei barhad diddiwedd, y mae yr ansoddair "tragwyddol." "Bywyd tragwyddol," ebai Proffeswr G. B. Stevens, "yn syml yw y *bywyd*,—y bywyd sydd yn bod mewn gwirionedd, bywyd yn ol y delfryd dwyfol." Tra yn caniatau fod yr ansoddair "tragwyddol" yn awgrymu fod y bywyd o ansawdd uchel, arbennig, ac arddunol, eto nis gallaf lai na chredu ei fod yn cynnwys ei barhad bythol, ac na elwasid ef yn fywyd tragwyddol, pe buasai yn ddarfodedig a therfynol. Ac onid yw y ffaith fod yr Efengylwyr Cydolygol, a Paul hefyd, yn cysylltu bywyd tragwyddol gyda'r "byd a ddaw," a chyda'r "diwedd," yn dangos yn eglur eu bod yn edrych arno fel bywyd parhaus a diddiwedd. "Ac yn y byd a ddaw fywyd tragwyddol" (Marc x. 30 ; Luc xviii. 30). "A'r diwedd yn fywyd tragwyddol" (Rhuf. vi. 22).

Eithr nid yw ei barhad diddiwedd, er mor bwysig, yn dynodi yr oll y mae yn ei gynnwys. Y geiriau, mae'n debyg, sydd yn taflu mwyaf o oleuni ar ei natur a'i ansawdd yw geiriau ein Gwaredwr yn ei Weddi Archoffeiriadol. "A hyn yw y bywyd tragwyddol ; iddynt dy adnabod di yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist" (xvii. 3). Ceir gwahaniaeth barn yn mhlith Esbonwyr

gyda golwg ar amcan llefariad y geiriau hyn. A ellir edrych arnynt fel darnodiad ffurfiol a manwl o fywyd tragwyddol, ai ynte disgrifiad sydd yma o amod ei sylweddoliad? Pa olygiad bynnag a dderbynir, amlwg yw fod y geiriau yn cynnwys cysylltiad agos ac annatodol rhwng bywyd tragwyddol ac adnabyddiaeth o Dduw, ac o Grist. A dyma'r gwirionedd, mi gredaf, y dylid ei bwysleisio: nad ydyw bywyd tragwyddol yn bosibl i neb ond trwy adnabyddiaeth brofiadol ac ymarferol o Dduw, ac o'i anwyl Fab. Nid amod mympwyol ydyw, ond cyfyd o angenrheidrwydd o natur bywyd tragwyddol. Mae adnabod Duw a Christ yn cynnwys cymundeb â hwy trwy ffydd, a bywyd tragwyddol yw y gwynfyd a'r perffeithrwydd cynnyddol sydd yn deilliaw o'r cymundeb hwnw. Yr "adnabod" hwn yw cyfrwng derbyniad a mwynhad bywyd tragwyddol, a chynnwysa ddirnadaeth fyw, ysprydol, o Dduw fel y mae yn datguddio ei hun yng Nghrist. Nid gwybodaeth ddamcaniaethol ydyw, ond gwybodaeth sydd yn cario dylanwad ymarferol ar holl fywyd ei meddiannydd. Y mae gwrthrychau y wybodaeth sydd yn amod ac yn hanfod y bywyd hwn yn penderfynu na fydd diwedd byth ar ei barhad. Adnabod y Duw Anfeidrol, ac Iesu Grist sydd yn un âg Ef—dyma destyn i fyfyrio ynddo, ac i dreiddio i mewn i'w ddyfnderoedd anchwiliadwy. Ni bydd terfyn byth ar adnabod Duw a'i anwyl Fab, ac ni bydd diwedd yn dragywydd ar y mwynhad a'r gwynfyd fydd yn tarddu o'r adnabyddiaeth hono. Anfeidrol a thragwyddol yw gwrthrychau y wybodaeth, ond meidrol a therfynol eu galluoedd yw y myfyrwyr, ac felly bydd ganddynt ddigon o waith o'u blaenau yn oes-oesoedd. "Môr i nofio heb fyn'd drwyddo."

EVAN THOMAS, ARGRAFFYDD, BANGOR.

76360